# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH<br>26 MEDI 2023<br>10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY<br>26 SEPTEMBER 2023<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2023.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 17 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**5** **MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 1, 2023/24** (Tudalennau 29 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

**6** **ADRODDIAD PERFFORMIAD / LLESIANT BLYNYDDOL 2022/23 DRAFFT** (Tudalennau 43 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

**7** **MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2023/24 - CHWARTER 1** (Tudalennau 73 - 92)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **MONITRO CYLLIDEB GYFALAF 2023/24 - CHWARTER 1** (Tudalennau 93 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI 2023/24 - CHWARTER 1** (Tudalennau 109 - 116)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

10 **<u>CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024/25 - 2025/26</u>** (Tudalennau 117 - 140)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151**.**

11 **LLYTHYR BLYNYDDOL GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER 2022/2023** (Tudalennau 141 - 154)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

12 **YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN I'R ADOLYGIAD DARPARIAETH BRYS - GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 155 - 184)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr**.**

13 **CYMERADWYO STRATEGAETH GWELLA CANOL TREFI YNYS MÔN** (Tudalennau 185 - 216)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

14 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 217 - 218)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

15 **PRYNU TIR GORFODOL - TIR CYFLOGAETH YN LLANGEFNI** (Tudalennau 219 - 228)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd) (Cadeirydd) (ar gyfer eitemau 1- 4, 14 a 15)<br>Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd ar gyfer eitemau 5-13, 16 a 17)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Gary Pritchard, Dafydd Roberts, Alun Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr (yn bresennol ar gyfer eitemau 1-4 a 15<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitemau 1-4, a 12- 15)<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Rheolwr Datblygu Economaidd (THJ)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Arwel Owen (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Trefor Ll. Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Derek Owen, Dylan Rees, Ken Taylor |

---

Cyn dechrau busnes y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd y byddai hi'n amrywio'r drefn i gyflwyno eitemau 12, 13, 14 a 15 ar yr agenda gan fod angen iddi hi, y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fynd i gyfarfod ganol y bore gyda Gweinidog Llywodraeth Cymru a alwyd ar ôl cyhoeddi'r agenda.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Carwyn Jones ddatgan diddordeb personol yn eitem 9 ar yr agenda fel un o weithwyr Grŵp Llandrillo Menai (fel un o'r ymgyngoreion ar y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion i'w hadrodd.

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2023 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2023 yn gywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Chwefror 2024 i'w gadarnhau.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ynghylch newidiadau i'r Blaen Raglen Waith a nodwyd y canlynol –

- Eitem 31 (Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 3 2023/24) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 19 Mawrth 2024.
- Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd newydd fel eitem ychwanegol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi 2023 yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr 2021.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Medi 2023 – Ebrill 2024 gyda'r newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod.**

## 5. CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2022/23 A DEFNYDDIO BALANSAU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2022/23 a'r Fantolen ddrafft ar 31 Mawrth 2023 i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth fanylach am falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd a glustnodwyd gan gynnwys y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau yn 2023/24 a'r blynyddoedd dilynol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid. Ynddo amlinellir lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sydd, ym marn broffesiynol Swyddog Adran 151 y Cyngor, yn lefel sy'n ofynnol i dalu am unrhyw risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, i fodloni'r ymrwymiadau cyllido presennol a wneir gan ystyried unrhyw gyfyngiadau penodol ar ddefnyddio cyllid. Gall lefel y risg a wynebir gan y Cyngor newid a bydd lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu hadolygu dros y misoedd nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Robin Williams at yr anawsterau ariannol y mae rhai cynghorau yng Nghymru yn eu hwynebu bellach a phwysleisiodd fod y Cyngor, oherwydd ei fod wedi bod yn ddarbodus yn y ffordd y mae wedi rheoli ei gyllid, mewn sefyllfa well yn ariannol. Er bod y Cyngor fel llawer o rai eraill yn dal i wynebu heriau sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf gyda'r ansicrwydd ynghylch setliad ariannol 2024/25 yn un o'r heriau hynny, bydd y cronfeydd wrth gefn a grëwyd yn rhoi sicrwydd yn erbyn yr heriau a'r risgiau y mae'n debygol o'u hwynebu.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2022/23 wedi'u llofnodi gan Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor ar 30 Mehefin 2023, a bydd y gwaith o archwilio'r cyfrifon yn dechrau ym mis Awst 2023. Y bwriad yw cwblhau'r gwaith dros yr haf a chymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig terfynol erbyn 30 Tachwedd 2023. Mae'r datganiadau yn ddogfennau technegol a chymhleth

ac maent yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft (CIES yn Atodiad 2 yr adroddiad) sy'n dangos cost darparu gwasanaethau yn 2022/23 yn unol â gofynion cyfrifo statudol ac mae'n cynnwys Cronfa’r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r CIES yn cynnwys costau cyfrifo statudol fel dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn, na chodir amdanynt yn erbyn y Dreth Gyngor ac, felly, maent yn cael eu canslo allan cyn penderfynu ar y sefyllfa derfynol mewn perthynas â balansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn clustnodedig, balans cyfrif y CRT a balansau ysgolion. Mae'r CIES yn dangos mai cost net gwasanaethau oedd £179.599m gyda diffyg o £16.237m ar ddarparu gwasanaethau. Pan wneir addasiadau ar gyfer ailbrisio asedau ac ar gyfer ail-fesur rhwymedigaethau pensiwn, y gwarged net terfynol ar gyfer y flwyddyn yw £132.79m. Yna gwneir addasiadau fel y dangosir yn Nhabl 1 yr adroddiad i benderfynu ar y symudiadau i gronfeydd wrth gefn a balansau gan nodi na ddylai'r ffigwr o £3.258m yn y tabl ymddangos mewn cromfachau gan ei fod yn cynrychioli cyfraniad o gronfeydd wrth gefn a balansau y gellir eu defnyddio yn hytrach na defnydd ohonynt. Mae Tabl 2 yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor ar 31 Mawrth, 2023 gan gynnwys y CRT a chronfeydd wrth gefn ysgolion ac mae'n dangos bod Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor yn £13.967m ar y dyddiad hwnnw ond gyda £3.78m o'r cyfanswm hwnnw wedi'i ymrwymo i gydbwyso cyllideb 2023/24. Roedd gan y Cyngor gyfanswm cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio o £54.742m ar 31 Mawrth, 2023.

Mae'r Fantolen ddrafft yn Atodiad 3 yn dangos bod gwerth asedau net y Cyngor wedi cynyddu £132.769m o £272.233m yn 2021/22 i £405.002m ar 31 Mawrth, 2023. Mae'r newid sylweddol yn deillio i raddau helaeth o ailbennu gwerth y Gronfa Bensiwn. Ym mis Mawrth, 2022 pennwyd gwerth y Gronfa Bensiwn fel rhwymedigaeth o £121.199m. Mae hyn wedi newid i ased o £19.815 miliwn, sef y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer i'r Gronfa gael ei phrisio fel ased yn hytrach na rhwymedigaeth. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar falansau Cronfa’r Cyngor gan ei fod yn addasiad cyfrifo statudol. Ar fantolen y Cyngor ni chaiff hyn ei gofnodi fel ased yn unol â’r safonau cyfrifo, nad ydynt yn caniatáu cofnodi asedau pensiwn net ar y fantolen yn achos y rhan fwyaf o gronfeydd pensiwn. Dyma ddull darbodus ac mae’n adlewyrchu’r ffaith na all y Cyngor gau’r gronfa a chrisialu gwerth amcanol yr ased pensiwn. Mae’r rhwymedigaeth pensiwn wedi’i nodi fel £0 ar y fantolen o ganlyniad i’r sefyllfa o ran yr asedau net. Mae'r fantolen hefyd yn dangos bod benthyciadau'r Cyngor wedi gostwng o £127m i £125m.

Diolchodd y Swyddog Adran 151 i staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith ar y cyfrifon drafft ac ategwyd hynny gan yr Aelod Portffolio Cyllid.

Mewn ymateb i gwestiwn am gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, yn benodol a ydynt yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y diben y cawsant eu neilltuo ar eu cyfer yn parhau'n ddilys, cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 at Atodiad 5 yr adroddiad sy'n dangos trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor sy'n dangos bod y cronfeydd wrth gefn hynny wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru a chadarnhaodd fod hon yn broses flynyddol. Pan na fydd angen cronfeydd wrth gefn mwyach at y diben y cawsant eu creu ar eu cyfer, yna fe'u trosglwyddir yn ôl i Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor. Ar gyfer 2022/23, trosglwyddwyd £4.13m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn ôl i Gronfa'r Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams ei bod yn bwysig nodi bod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn a glustnodir i fodloni gofynion y gwyddom amdanynt neu rai a gynlluniwyd yn ogystal ag ar gyfer grantiau nas defnyddiwyd a ddyrennir yn hwyr yn y flwyddyn ariannol a fydd yn cael eu cario ymlaen a'u defnyddio'r flwyddyn ganlynol, a phwysleisiodd fod y rhain yn gronfeydd y mae gan y Cyngor bwrpas a defnydd clir ar eu cyfer.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol fod cronfeydd wrth gefn y Cyngor a sut maen nhw'n cael eu

DRAFT

defnyddio yn aml yn cael eu camddeall. Cyfeiriodd at y pwysau sylweddol ar wariant ym maes Gwasanaethau Oedolion sydd yn sicr am ddwysáu gyda'r cynnydd yn y boblogaeth dros 60 oed a'r her y mae hyn yn ei greu o ran darparu gwasanaethau. Felly, mae cynnal lefel ddigonol o gronfeydd wrth gefn yn fater o gynllunio ariannol synhwyrol gan sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn gydnerth yn ariannol ac yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y dyfodol.

**Penderfynwyd –**

**Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2022/23. Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon llawn drafft ar gyfer 2022/23 yn https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cyllideb-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon.aspx**

- **Nodi'r sefyllfa o ran y balansau cyffredinol, sef £13.967m, a chymeradwyo creu'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd a nodir yn Nhabl 3, a ddaw i gyfanswm o £4.320m.**
- **Cymeradwyo'r balans o £19.638m fel cyfanswm y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer 2022/23 (£23.18m yn 2021/22). Mae hyn £3.544m yn is na 2021/22, ac mae'n cynnwys £4.320m o gronfeydd wrth gefn newydd, fel yr argymhellir uchod, a gostyngiad cyffredinol o £7.471m yn y cronfeydd wrth gefn presennol, er bod hyn yn cynnwys symiau sydd wedi cynyddu a gostwng yn y cronfeydd wrth gefn presennol.**
- **Nodi'r sefyllfa o ran balansau ysgolion, sef £6.716m.**
- **Nodi balans y CRT o £12.107m.**
- **Cymeradwyo'r Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso newydd gyda balans o £0.407m fel y nodir yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn Atodiad 4.**
- **Cymeradwyo trosglwyddo £1.365m o'r cronfeydd wrth gefn gwasanaethau yn ôl i'r gronfa wrth gefn gyffredinol er mwyn cynyddu hyblygrwydd a gwydnwch ariannol y Cyngor.**

## 6. POLISI A STRATEGAETH RHEOLI RISG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid. Mae'r polisi rheoli risg, y strategaeth a'r canllawiau cysylltiedig yn amlinellu egwyddorion a dull Cyngor Sir Ynys Môn o reoli risg a'r nod yw darparu proses gyson sy'n sail i'r gwaith o reoli risg ledled y Cyngor, sy'n adlewyrchu lefel a natur ei wahanol swyddogaethau, a defnyddio sgiliau a gallu i'r eithaf. Mae'r polisi a'r strategaeth yn berthnasol i holl weithwyr ac aelodau'r Cyngor. Dylid annog unrhyw sefydliadau partner i groesawu'r egwyddorion sydd yn y dogfennau. Cafodd y polisi a'r strategaeth rheoli risg eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, 2023.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad yn diweddaru polisi a strategaeth rheoli risg y Cyngor a chadarnhaodd nad oedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi argymell unrhyw newidiadau i'r polisi na'r strategaeth yn sgil adolygu'r dogfennau. Mae rheoli risg yn rhan annatod o swyddogaethau'r Cyngor ac mae'n berthnasol i bob rhan o fusnes y Cyngor. Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Arweinyddiaeth.



DRAFT

**Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo’r Polisi a Strategaeth Rheoli Risg.**

## 7. YMESTYN CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn gofyn am farn y Pwyllgor Gwaith ar gynnig i ymestyn cylch gorchwyl y Gwasanaethau Democrataidd.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer. Yn achos rhai materion, a allai arwain at newidiadau cyfansoddiadol a fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn, mae angen i’r opsiynau, y manteision a’r anfanteision gael eu trafod yn fanwl cyn y gwneir penderfyniad. Gyda’r trefniant presennol, nid yw’n bosib trafod materion mewn llawer o fanylder yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn. Yn yr amgylchiadau hyn, cynigir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gwneud y gwaith ar ran y Cyngor a'i fod hefyd yn llunio ymatebion i ymgynghoriadau sy'n ymwneud â materion cyfansoddiadol. Mae opsiynau eraill yn cynnwys sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen unigol ar gyfer pob darn o waith, neu sefydlu is-bwyllgor sefydlog o’r Cyngor. Fodd bynnag, o ystyried bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ofyniad statudol a'i fod eisoes wedi'i sefydlu, ei fod yn bwyllgor â chydbwysedd gwleidyddol ac y byddai'r cynnig yn cyd-fynd yn dda â'i rôl statudol, ystyrir mai newid ei gylch gorchwyl i gynnwys y cynnig yw'r ateb mwyaf pragmatig ac effeithiol. Ni fydd angen ystyried na thrafod pob newid cyfansoddiadol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd; bydd hynny’n digwydd dim ond pan fydd angen trafodaeth neu benderfyniad ar ddewis lleol neu er mwyn cytuno ar ymateb i unrhyw ymgynghoriad ar faterion sy’n effeithio ar Gyfansoddiad y Cyngor. Y Swyddog Monitro, gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor, fydd yn penderfynu p’un ai a fydd mater penodol yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor. Bydd y penderfyniad ynghylch a fydd y Pwyllgor yn adolygu mater penodol yn cael ei wneud gan y Swyddog Monitro mewn cytundeb â Chadeirydd y Pwyllgor. Bydd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y pŵer i wneud argymhellion i'r Cyngor ar y materion hyn yn unig, ni fydd ganddo unrhyw bŵer cyfreithiol ei hun i wneud y newidiadau hynny.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Carwyn Jones fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ystyried yr adroddiad a'i fod wedi cefnogi'r newidiadau arfaethedig, yn ogystal ag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol a swyddogion perthnasol yr ymgynghorwyd â nhw hefyd.

**Penderfynwyd argymell i’r Cyngor Llawn bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ymestyn i gynnwys y cynnig a nodwyd yn yr adroddiad, a bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio o ganlyniad i’r newid.**

## 8. MABWYSIADU CYNLLUN DEISEBAU DRAFFT

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn gofyn am farn y Pwyllgor Gwaith ar Gynllun Deisebau drafft.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer. Mae adran 42 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i lunio a chyhoeddi Cynllun Deisebau. Mae'r Cynllun hwn yn ychwanegol at drefniadau presennol Rheolau Gweithdrefnau’r Cyngor sy’n galluogi aelodau etholedig i gyflwyno deisebau yng nghyfarfodydd y Cyngor. Nid yw’r Cynllun yn disodli’r trefniadau. Mae'r Cynllun fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn bodloni'r gofynion statudol newydd ond mae hefyd yn cynnwys elfennau sy'n fater o ddewis lleol. Trafodwyd y rheini gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaethau a swyddogion perthnasol eraill a gyda'r Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol. Bydd deisebau dilys yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ond bydd deisebau electronig hefyd yn cael eu rhoi

DRAFT

ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio'r feddalwedd Modern.Gov sy'n cefnogi system y pwyllgor. Ni fydd y Cynllun yn berthnasol pan fydd proses ymgynghori statudol eisoes yn cael ei dilyn e.e. cynllunio, trwyddedu, moderneiddio ysgolion. Mae'r cynllun yn cynnwys y broses ar gyfer cyflwyno deisebau i'r Cyngor a sut yr ymdrinnir â nhw ac yn amlinellu'r amgylchiadau lle na dderbynnir deisebau. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu a'i reoli gan y Gwasanaethau Democrataidd a gyda chytundeb y Cyngor, bydd yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ôl iddo fod yn weithredol am 12 mis.

**Penderfynwyd argymell bod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r Cynllun Deisebau drafft yn Atodiad 1.**

*Ar y pwynt hwn (11.45 y. b.) gohiriwyd y cyfarfod am egwyl fer, gan fod eitemau 12, 13, 14 a 15 wedi cael eu dwyn ymlaen i'w hystyried yn nhrefn busnes y cyfarfod.*

## 9. STRATEGAETH MODERNEIDDIO CYMUNEDAU DYSGU A DATBLYGU'R GYMRAEG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc oedd yn cynnwys Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad ar y strategaeth a gynhaliwyd rhwng 31 Mawrth a 18 Mai 2023.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg a ddywedodd fod sicrhau darpariaeth addysg effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn un o amcanion strategol y Cynllun Corfforaethol. Ffrwd waith allweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcan hwn yw mabwysiadu a chyflwyno strategaeth newydd ar gyfer moderneiddio cymunedau dysgu a datblygu'r Gymraeg.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yr adroddiad a rhoddodd grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, sef cyfanswm o tua 300. Mae'r materion a godwyd gan randdeiliaid a phartïon â diddordeb ac ymatebwyr eraill yn cael eu hamlinellu yn yr Adroddiad Ymgynghori. Ymgynghorwyd â dros 150 o blant a phobl ifanc o 28 ysgol a chynhaliwyd nifer o sesiynau briffio ar gyfer Penaethiaid, llywodraethwyr ysgolion ac aelodau etholedig. Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori, mae Swyddogion wedi ystyried y pwyntiau a godwyd ac wedi gwneud y newidiadau a nodwyd yn yr adroddiad i'r strategaeth ddrafft. Mae'r rhain yn ymwneud â diwygio'r amserlen weithredu o ran darpariaeth Ôl-16, ychwanegu adran newydd ar ddiwedd y strategaeth i gydnabod y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer y data o fewn y strategaeth a diweddaru'r model llywodraethu a'r adran i adlewyrchu newidiadau llywodraethu. Mae'r data a ddefnyddiwyd yn y strategaeth hefyd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r data diweddaraf a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses ymgynghori.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i bawb a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac ymateb iddo.

Rhoddodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol drosolwg o'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor pan gyflwynwyd y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg i'r aelodau yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin, 2023. Roedd y materion yn y crynodeb yn cynnwys cadernid y broses ymgynghori a chymharu ag ymgynghoriadau blaenorol o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid, sut mae allbwn yr ymgynghoriad wedi dylanwadu ar y strategaeth, sut mae'r strategaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor, y ffordd y mae'r strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â'r nod o ddarparu adeiladau addysg ac addysgol o'r safonau uchaf i ddysgwyr Ynys Môn, yr heriau a'r risgiau wrth geisio gwireddu'r strategaeth a'r modd y byddai gweithredu'r strategaeth yn cael ei fonitro. Codwyd pwynt hefyd ynghylch i ba raddau yr oedd digon o



DRAFT

ardaloedd chwarae ar draws yr Ynys yn ffactor. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y Strategaeth a'r gwelliannau a gynigiwyd o ganlyniad i'r adborth o'r ymgynghoriad i'r Pwyllgor Gwaith.

Wrth ystyried yr adroddiad, croesawodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yr adborth gan blant a phobl ifanc gan nodi aeddfedrwydd yr ymatebion hynny. Ni ellid gorbwysleisio pwysigrwydd cael barn plant ysgol yr Ynys ar y strategaeth ddrafft gan fod y strategaeth yn ymwneud â'u dyfodol o ran cynnig darpariaeth addysg a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc yr Ynys i gyflawni eu potensial llawn beth bynnag fo'u cefndir a'u hamgylchiadau. Nodwyd arwyddocâd y strategaeth mewn perthynas â datblygu'r Gymraeg hefyd yn enwedig o ystyried y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymarfer y Gymraeg ar lafar ac o ddydd i ddydd fel un o'r ffyrdd gorau i ddatblygu sgiliau Cymraeg a hyder yn yr iaith. Cydnabuwyd y cyfeiriad yn y strategaeth at ddarpariaeth ôl-16 a chroesawyd hefyd y gydnabyddiaeth fod angen cryfhau hawl a phrofiad dysgwyr ôl-16.

Mewn ymateb i gwestiwn am y camau nesaf, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd grŵp llywio a gweithredu yn cael ei sefydlu; bydd y strategaeth yn darparu'r cyfeiriad strategol a fydd yn sail ar gyfer trafodaethau ar foderneiddio'r stoc ysgolion a'r ddarpariaeth addysgol yn barhaus.

**Penderfynwyd cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg.**

## 10. MODERNEIDDIO YSGOLION MÔN – ADOLYGU DALGYLCHOEDD YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a oedd yn cynnwys adolygiad o ddalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg. Roedd yr adolygiad o ddalgylchoedd Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn rhan o'r cynnig a gytunwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr, 2020 i gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y ddau opsiwn posibl, hynny yw, trosglwyddo rhan yng ngogledd a de dalgylch presennol Ysgol Talwrn i ddalgylchoedd Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Pentraeth yn y drefn honno a chyfuno'r gweddill â dalgylch Ysgol y Graig (opsiwn 1), a'r opsiwn arall fyddai cyfuno'r cyfan o ddalgylch presennol Ysgol Talwrn â dalgylch Ysgol y Graig (opsiwn 2). Yn seiliedig ar ddadansoddiad o fanteision ac anfanteision pob opsiwn fel y nodir yn yr adroddiad, yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn 2 ar sail y rhesymeg bod Ysgol y Graig yn yr un dalgylch uwchradd ag Ysgol Talwrn, bydd disgyblion yn trosglwyddo i'r un ysgol uwchradd efo'u ffrindiau ac o bosibl eu brodyr a'u chwiorydd hŷn. Mae Opsiwn 2 hefyd yn fwy cost effeithlon i'r Cyngor a bydd yn lleihau allyriadau carbon.

**Penderfynwyd cymeradwyo Opsiwn 2 sef cyfuno dalgylch presennol Ysgol Talwrn gyda dalgylch Ysgol y Graig.**

## 11. DARPARU CINIO AM DDIM - YSGOL BODFFORDD – YSGOL BODFFORDD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cynllun i adleoli caban sydd ar hen safle Ysgol Corn Hir i Ysgol Bodffordd i'w ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg. Byddai'r cynllun y ceisir cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar ei gyfer yn galluogi Ysgol Bodffordd i ddarparu prydau ysgol am ddim yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn ysgolion cynradd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, ers cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 a 2, fod y nifer wedi cynyddu, fel y gwelir yn yr adroddiad, a rhagwelir cynnydd tebyg yn y galw wrth i'r cynllun gael ei ymestyn i gynnwys darpariaeth ar gyfer Blynyddoedd 3, 4,  5 a 6. Mae'r Awdurdod nawr yn bwriadu sicrhau bod ysgolion yn barod i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yn Ynys Môn erbyn 2024. Lle bo angen, mae mwy o staff yn cael eu recriwtio ac mae gwaith addasu adeiladau yn cael ei wneud. Mae'r heriau o ran hwyluso darpariaeth hyfyw yn Ysgol Bodffordd yn fwy sylweddol ac maent yn risg i allu'r Cyngor i gyflawni'r cynllun. Nid yw'r trefniadau presennol yn yr ysgol fel y disgrifir yn yr adroddiad yn addas ar gyfer y galw presennol am brydau ysgol ac nid yw ymestyn y trefniadau i ddarparu ar gyfer mwy o blant yn ymarferol yn y tymor hir, yn enwedig gan y rhagwelir erbyn mis Medi 2023, y bydd 74 o blant yn mynychu'r ysgol a bydd pob un yn cael cynnig prydau ysgol am ddim a fydd yn golygu cynnydd posibl o rhwng 15 a 30 o brydau ychwanegol y dydd.

Mae ymweliadau ar y cyd wedi'u cynnal â'r ysgol rhwng swyddogion y Gwasanaeth Dysgu ac Eiddo a Swyddogion Chartwell ac mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda staff y gegin a'r Pennaeth. Penderfynwyd mai’r unig opsiwn hyfyw o ganlyniad i gynllun yr adeilad a’r safle ehangach yw addasu un o’r dosbarthiadau wrth ymyl y gegin i fod yn gantîn, ac adleoli'r ystafell ddosbarth. Gan nad oes lle addas o fewn yr adeilad presennol bydd angen creu lle newydd, a gan fod cynllun a lefelau tir yr ysgol yn golygu y byddai datblygu estyniad yn her cynigir mai gosod caban ar safle'r ysgol sydd ar wahân i'r prif adeilad i'w ddefnyddio fel ystafell ddosbarth yw'r ateb mwyaf priodol. Mae’r ffaith bod caban mewn cyflwr da ar gael ar hen safle Ysgol Corn Hir yn golygu y gellir ei ailddefnyddio a thrwy hynny gynyddu gwerth am arian i'r eithaf. Bydd y gwaith o osod y caban, gan gynnwys sicrhau caniatâd cynllunio yn ogystal â gwneud newidiadau i'r gegin ar safle gweithredol, yn cael ei raglennu dros gyfnod o flwyddyn er mwyn rheoli risgiau a tharfu cyn lleied â phosibl yn unol â'r cynllun amlinellol a'r amserlen a nodir yn yr adroddiad. Rhagwelir y bydd yn costio hyd at £250,000. Caiff y gost ei hariannu drwy'r grant prydau ysgol am ddim.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith y polisi prydau ysgol am ddim i bob disgybl yn sgil y cytundeb Cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru sy'n sicrhau y bydd prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru erbyn 2024 yn ddieithriad. Er gwaethaf yr heriau gweithredol i'w goresgyn mewn rhai achosion, byddai'n dod â budd i'r holl blant hynny.

**Penderfynwyd cymeradwyo’r cynllun i adleoli caban sydd ar hen safle Ysgol Corn Hir i Ysgol Bodffordd, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio, er mwyn sicrhau bod Ysgol Bodffordd yn gallu darparu cinio am ddim yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn ysgolion cynradd.**

## 12. CYNLLUN RHEOLI ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) – DRAFFT TERFYNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys drafft terfynol y Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Eithriadol i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Neville Evans, Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol a amlinellodd gefndir a gofynion statudol awdurdodau lleol sy'n gweinyddu AHNE gan gynnwys paratoi, cyhoeddi ac adolygu cynlluniau rheoli ar gyfer eu

DRAFT

hardaloedd bob pum mlynedd. Mae'r Cynllun Rheoli AHNE drafft wedi bod yn destun proses ymgynghori chwe wythnos ac amlinellir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a'r newidiadau dilynol i'r cynllun terfynol yn yr Adroddiad Ymgynghori yn Atodiad B. Mae'r Cynllun Rheoli AHNE yn ddogfen drawsbynciol ac mae'n cyd-fynd yn llawn â Chynllun newydd y Cyngor a'i chwe amcan strategol, y bydd yn helpu i'w cyflawni. Mae hefyd yn ganolog i'r bobl, y cymunedau a'r busnesau yn yr AHNE sydd, yn ogystal â bod yn ardal o harddwch naturiol eithriadol a rhinweddau arbennig, hefyd yn dirwedd ddeinamig a gweithredol.

Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y bydd y Cynllun Rheoli AHNE drafft terfynol, os caiff ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo ac y bydd hefyd yn cael ei gyflwyno i Gydbwyllgor Cynghori AHNE fel y fforwm sy'n goruchwylio'r AHNE ac yn cyflawni'r cynllun. Mae'r aelodaeth yn adlewyrchu'r sbectrwm eang o fuddiannau sy'n gysylltiedig â'r AHNE a'i reolaeth. Diolchodd i bawb a oedd wedi neilltuo amser i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a chadarnhaodd fod yr holl ymatebion wedi cael ystyriaeth ofalus.

Crynhodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol drafodaethau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Cynllun Rheoli AHNE drafft o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2023. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor yn cynnwys cadernid y broses ymgynghori ac i ba raddau roedd yr ymatebion wedi dylanwadu ar y cynllun terfynol. Gofynnwyd cwestiynau am bwrpas Cynllun Rheoli'r AHNE a sut mae'n cyd-fynd â Chynllun newydd y Cyngor. Trafodwyd y risgiau a'r heriau i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun yn ogystal â'r dulliau ar gyfer monitro'r modd y caiff ei gyflawni. Gofynnwyd am sicrwydd ynghylch rôl y Cynllun yn y broses caniatâd cynllunio a rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith partneriaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r cynllun. Ystyrid bod cyfathrebu yn hanfodol yn hyn o beth. Ar ôl craffu ar y Cynllun drafft a'r wybodaeth bellach a ddarparwyd yn y cyfarfod penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y Cynllun Rheoli AHNE drafft i'r Pwyllgor Gwaith.

Nododd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yr ymateb i'r ymgynghoriad gan ystyried, er y gallai nifer yr ymatebion fod wedi bod yn uwch, fod y rhai a gyflwynwyd yn addysgiadol ac yn adeiladol a'u bod wedi cydnabod pa mor gynhwysfawr ydi'r cynllun. Roedd yr Aelodau'n edrych ymlaen at y cynllun gweithredu a'r camau gweithredu.

**Penderfynwyd argymell y Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol (2023-2028) newydd i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.**

**13. CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN 2023-2028**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys Cynllun Rheoli Cyrchfan 2023-28 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Neville Evans, Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol. Mae'r Cynllun yn amlinellu uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer rheoli cyrchfan dros y pum mlynedd nesaf ac yn ystyried strategaethau lleol a chenedlaethol. Mae'n darparu strategaeth ar gyfer rheoli pob agwedd ar Ynys Môn fel cyrchfan sy'n cyfrannu at ac yn dylanwadu ar brofiad ymwelwyr a bydd yn sicrhau bod rhinweddau arbennig yr Ynys wrth wraidd y ddarpariaeth i dwristiaid ond na fydd yn cael effaith andwyol o ganlyniad. Er bod Twristiaeth yn un o ddiwydiannau pwysicaf Ynys Môn ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol mae angen rheoli ei heffeithiau. Ystyrir bod y Cynllun yn cyflawni'r cydbwysedd hwn wrth groesawu'r ffaith bod Ynys Môn yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid gan hefyd geisio mynd i'r afael â'r effeithiau negyddol posibl sy'n gallu deillio o niferoedd uchel o ymwelwyr â'r Ynys. Bydd cyflwyno'r Cynllun yn cael ei gefnogi gan gynllun

gweithredu a grŵp cyflawni (y Sefydliad Rheoli Cyrchfannau) a chroesewir cyfraniad rhanddeiliaid o gymunedau lleol yn ogystal â'r diwydiant twristiaeth a busnesau at gyflawni’r Cynllun.

Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd er nad yw'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn ddogfen statudol, ei bod yn ddogfen bwysig i'r Cyngor o ystyried gwerth y diwydiant twristiaeth i'r Ynys. Daeth y pandemig â phwysau ychwanegol ar yr Ynys fel adnodd a sylweddolwyd bod yn rhaid ei reoli'n fwy cynaliadwy wrth symud ymlaen, sy'n golygu gwneud y mwyaf o'r manteision a ddaw yn sgil twristiaeth i'r Ynys fel cyrchfan ond gan leihau'r effeithiau. Mae’r un mor bwysig sicrhau cefnogaeth cymunedau ar yr Ynys gan sicrhau eu bod yn deall gwerth y sector twristiaeth yn lleol ac fel y sector economaidd mwyaf ar Ynys Môn.

Rhoddodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio adroddiad o gyfarfod 21 Mehefin, 2023 y Pwyllgor lle ystyriwyd y Cynllun Rheoli Cyrchfan. Codwyd cwestiynau ynghylch cadernid y broses ymgynghori a sut roedd ei allbwn wedi dylanwadu ar y cynllun diwygiedig. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn pam fod Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cael ei baratoi a sut mae'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor a dogfennau strategol eraill megis Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn. Ystyriodd yr Aelodau y risgiau a'r heriau wrth gyflawni'r cynllun yn llawn a sut y byddai'n cael ei weithredu drwy'r Sefydliad Rheoli Cyrchfan arfaethedig. Gofynnodd yr Aelodau hefyd sut oedd y Cyngor yn bwriadu gweithio'n effeithiol ar draws gwasanaethau i reoli’r effeithiau a’r cyfleoedd i’r economi ymwelwyr i'r Ynys gan gyfeirio at Niwbwrch a Thraeth Llanddwyn fel enghreifftiau. Ar ôl ystyried y materion hyn a'r ymatebion iddynt, penderfynodd y Pwyllgor argymell y Cynllun Rheoli Cyrchfan a’i fod yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo. Hefyd gofynnwyd i'r fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini ystyried priodoldeb rhaglennu eitem ar effaith twristiaeth ar gymunedau lleol ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i’r pwyllgor Sgriwtini am ei adborth a thynnwyd sylw at yr egwyddorion a'r blaenoriaethau arweiniol a nodir yn yr adroddiad fel sail a rhesymau dros y Cynllun Rheoli Cyrchfan. Gan gydnabod pwysigrwydd twristiaeth i Ynys Môn roedd Aelodau’r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod bod cynllun fel hwn yn hanfodol er mwyn cynnal cydbwysedd rhwng annog ymwelwyr i werthfawrogi a mwynhau rhinweddau arbennig yr Ynys a sicrhau na cheir unrhyw effaith andwyol o ganlyniad i hynny.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd (2023-2028).**

## 14. GWELLA DIBYNADWYEDD A CHYDNERTHEDD AR DRAWS Y FENAI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys y sylfaen dystiolaeth fanwl a phrif ganfyddiadau adroddiad a gomisiynwyd gan y Cyngor mewn perthynas â gwella dibynadwyedd a chydnerthedd ar draws y Fenai i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Paratowyd y sylfaen dystiolaeth fanwl a'r prif ganfyddiadau gan Quod, ymgynghoriaeth arbenigol ym maes economeg a chynllunio ar ran Cyngor Sir Ynys Môn i gefnogi cyflwyniad y Cyngor i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ynghylch yr angen am groesfan aml-ddull well dros y Fenai.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. Mae Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (CTGC) a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn cydnabod mewn Datganiad Cynnydd ym mis Ionawr 2023 fod Gogledd Cymru yn dibynnu ar gerbydau preifat a bod diffyg dewisiadau trafnidiaeth deniadol neu realistig yn cyfrannu tuag at ddibynnu ar gerbydau preifat ac yn cyfyngu ar gysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Yn achos Ynys Môn mae'r sefyllfa'n waeth gyda thagfeydd a diffyg cydnerthedd o ran croesfannau’r Fenai yn cael effaith ddifrifol o ran y

DRAFT

modd y mae'n cyfyngu ar gysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol â gweddill y wlad. Yn waeth na hynny, mae'n rhwystro gallu'r ynys i ddenu'r busnesau a'r gweithgarwch economaidd y mae eu hangen arni i leihau cylch o golli swyddi, llai o gyflogaeth ar yr ynys, ynghyd â chynyddu dibyniaeth ar swyddi oddi ar yr ynys. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae gwaith atgyweirio i Bont Menai ynghyd â damweiniau ar Bont Britannia wedi achosi tarfu difrifol. Gallai rhwydwaith ffyrdd annibynadwy hefyd effeithio ar sefyllfa Ynys Môn fel y lleoliad gorau posibl ar gyfer buddsoddi yn y diwydiant niwclear yn ogystal â gallu Porthladd Caergybi, a ddynodwyd yn ddiweddar fel Porthladd Rhydd, i gystadlu. Mae perygl gwirioneddol na all y porthladd rhydd wneud y mwyaf o'i effeithiolrwydd oherwydd ansicrwydd a diffyg cydnerthedd y rhwydwaith trafnidiaeth i'r Ynys. Bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru, fel yr argymhellwyd gan y Panel Adolygu Ffyrdd i ganslo'r cynnig arfaethedig ar gyfer trydedd groesfan dros y Fenai, yn dwysáu'r heriau a wynebir gan economi'r ynys ac yn atal camau i roi polisïau allweddol ar waith yn llwyddiannus, sy'n ceisio ailadeiladu ei sylfaen gyflogaeth a lleihau'r angen i'w thrigolion orfod gadael yr ynys i weithio.

Rhyddhaodd CTGC adroddiad interim ym mis Mehefin 2023 ond mae'n croesawu tystiolaeth bellach tan 28 Gorffennaf 2023 cyn cyhoeddi ei argymhellion terfynol. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn cyfrannu at ganlyniad yr adroddiad, ac yn dylanwadu arno. I'r perwyl hwnnw comisiynwyd Quod gan y Cyngor i baratoi sylfaen dystiolaeth fanwl i gefnogi ei gyflwyniad i'r CTGC am yr angen am groesfan aml-ddull gwell dros y Fenai. Mae'r sylfaen dystiolaeth a'r prif ganfyddiadau sy'n deillio ohono wedi'u cynnwys fel Atodiadau A a B i'r adroddiad yn y drefn honno ac maent yn cadarnhau'r pryderon ynghylch diffyg dibynadwyedd y rhwydwaith ffyrdd a'r pontydd a'i effaith ehangach a'r ffaith ei fod yn ymestyn y tu hwnt i arbedion effeithlonrwydd syml o ran amseroedd teithio. Mae canlyniad adroddiad interim CTGC ym mis Mehefin yn tynnu sylw at sawl opsiwn posibl ar gyfer gwella'r sefyllfa fel y rhestrir yn yr adroddiad. Mae'r Cyngor wedi ystyried yr opsiynau hyn o'r blaen ac o'r farn na fyddant yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r diffyg cydnerthedd sy'n bodoli. Y gobaith yw y bydd cyflwyno'r sylfaen dystiolaeth yn galluogi CTGC i ddeall yn well y materion parhaus o ran sut mae diffyg rhwydwaith trafnidiaeth cydnerth ac opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy yn effeithio ar Ynys Môn a'i thrigolion o safbwynt economaidd, iechyd, addysg, hamdden cymdeithasol ac etifeddiaeth o ran buddsoddi.

Cyfeiriodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd at bryderon ynghylch dibynadwyedd croesfannau'r Fenai mewn perthynas ag ystod eang o weithgareddau a diddordebau. Mae'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd bellach yn ymwneud â gwaith sylweddol mewn cysylltiad â datblygu Rhaglen Porthladd Rhydd Ynys Môn ac mae angen nodi'r risg i lwyddiant y Porthladd Rhydd a achosir gan ddiffyg cydnerthedd y ddwy groesfan a materion cysylltiedig - tagfeydd, oedi a tharfu. Cadarnhaodd Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo mai diffyg cydnerthedd yn hytrach na chynyddu capasiti yw'r prif bryder gyda damweiniau a thywydd gwael yn arwain at dagfeydd difrifol ar adegau. Yn ogystal â hyn, nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn cynnig unrhyw gyfleoedd addas ar gyfer beicio neu gerdded.

Cydnabu Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ddifrifoldeb a natur frys y sefyllfa a'r effaith a geir os na fyddant yn mynd i'r afael â materion dibynadwyedd a chydnerthedd. Roeddent yn cydnabod yr heriau mynych sy'n wynebu trigolion Môn ac ymwelwyr wrth geisio cynnal eu busnes o ddydd i ddydd pan fydd damweiniau, gwaith cynnal a chadw neu dywydd gwael yn achosi tarfu ac oedi ar groesfannau'r Fenai a chyfeiriwyd at enghreifftiau o hyn o'u profiadau eu hunain. Mynegwyd pryder arbennig am yr effaith y mae diffyg dibynadwyedd y cysylltiadau ffyrdd dros y Fenai yn ei chael ar gerbydau'r gwasanaethau brys ac ar weithwyr gofal ac iechyd sy'n gorfod gofalu am gleientiaid bregus. Roeddent yn cydnabod hefyd ei bod yn broblem i fasnach a busnesau ar yr Ynys, i ysgolion ac i fuddsoddwyr posibl yn ogystal ag ar gyfer twristiaeth fel sector sy'n cyfrannu'n sylweddol at economi Ynys Môn. Er nad oedd y Pwyllgor Gwaith yn anghytuno ag ymdrech Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon

DRAFT

mewn ymateb i bryderon amgylcheddol a newid hinsawdd ac er eu bod yn deall yr adolygiad dilynol o brosiectau adeiladu ffyrdd, pwysleisiodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith fod y sefyllfa ar Ynys Môn yn eithriadol o ran bod y problemau cysylltu â'r ddwy bont sy'n heneiddio yn cael effeithiau pellgyrhaeddol gan effeithio ar fywydau a bywoliaethau yn ogystal â bod yn risg i ffyniant economaidd yr Ynys yn y dyfodol. Gan hynny, mae angen ateb mwy radical na'r atebion a gynigir. Beth bynnag, mae'r tagfeydd traffig a achosir gan ddigwyddiadau ar y pontydd yn debygol o gyfrannu at niwed amgylcheddol ac at waethygu allyriadau carbon.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y sefyllfa bresennol yn anfoddhaol a bod y Cyngor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei safbwynt polisi a pheidio ag ystyried y cysylltiad dros y Fenai yn yr un modd ag unrhyw ffordd arall yn y wlad. Mae'r Cyngor wedi bod yn ymgysylltu â chyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill ar draws y rhanbarth ar y mater hwn ac mae'n bwysig nodi bod y dystiolaeth a gesglir yn adlewyrchiad o anghenion Ynys Môn fel ynys ac nid y Cyngor. Os yw'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu cymeradwyo'r dystiolaeth, bydd yn cael ei rhannu â'r sefydliadau hynny iddynt roi eu cefnogaeth i'r ymdrech i berswadio Llywodraeth Cymru i newid ei safbwynt.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn gefnogol i'r adroddiad a'i ganfyddiadau, a derbyniwyd yr argymhellion gan ychwanegu'r Dirprwy Brif Weithredwr at yr ail argymhelliad.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r adroddiad a'i gasgliad na ddylai Llywodraeth Cymru ystyried mai prosiect ffordd syml yw Croesfan y Fenai, ynghyd â mabwysiadu safbwynt cadarnhaol o ran polisi sy'n cydnabod yr angen hanfodol i wella dibynadwyedd a chydnerthedd croesfannau'r Fenai.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr neu yn ei absenoldeb y Dirprwy Brif Weithredwr, i gyflwyno sylfaen dystiolaeth y Cyngor i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru cyn y dyddiad cau ar Orffennaf 28ain 2023.**

### 15. PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN – DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys crynodeb ar gynnydd a'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â Rhaglen Porthladd Rhydd Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Llinos Medi, Cadeirydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd a thynnwyd sylw gan y Rheolwr Datblygu Economaidd at y prif bwyntiau i'w hystyried. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r datblygiadau hyd yma ac yn amlinellu'r broses i'w dilyn i gyflwyno Achos Busnes Amlinellol yn y cam nesaf yn Rhaglen Porthladd Rhydd Ynys Môn gan gynnwys yr awdurdod dirprwyedig y mae swyddogion yn gofyn amdano i gyfrannu at y gwaith hwn.

Mae porthladdoedd rhydd yn bartneriaeth rhwng porthladdoedd gweithredol a'u hawdurdodau lleol lletyol. Maent yn cynnwys dynodi safleoedd penodol lle bydd busnesau'n derbyn y buddion hyn o fewn ffin allanol nad yw fwy na 45km o'r porthladd. Yn y cam ymgeisio, mae'r adroddiad yn nodi'r safleoedd penodol a fyddai'n gallu manteisio ar wahanol reolau tollau, trethi a rheoleiddio. Partneriaeth gyhoeddus/preifat rhwng CSYM fel yr awdurdod lletyol a'r corff atebol a Stena Line, gweithredwr Porthladd Caergybi yw Porthladd Rhydd Môn. Mae'n cael ei gefnogi gan randdeiliaid eraill, gan gynnwys perchnogion tir, Prifysgol Bangor a M-Sparc, Grŵp Llandrillo Menai, Uchelgais Gogledd Cymru, yn ogystal â busnesau sector preifat amrywiol, gan gynnwys buddsoddwyr posibl.Mae'r Porthladd Rhydd yn cynnig cyfle i ddenu buddsoddiad sector preifat newydd sylweddol ar Ynys Môn ar ôl colli cyflogwyr mawr yn ddiweddar.

Mae Rhaglen Porthladd Rhydd Ynys Môn bellach yn symud ymlaen i'r cam achos busnes gan gynnwys datblygu a chyflwyno Achos Busnes Amlinellol (ABA) yn ystod y chwech i naw mis nesaf cyn paratoi Achos Busnes Llawn (Abl) sy'n debygol o gymryd hyd at ddeuddeg mis. Nid yw Llywodraethau Cymru a'r DU wedi cyhoeddi'r canllawiau penodol eto ar gyfer Rhaglen Porthladdoedd Rhydd Cymru ond maent wedi nodi y dylai Porthladd Rhydd Ynys Môn fynd rhagddo gan ddefnyddio'r hyn sydd wedi'i gyhoeddi. Pan gyhoeddir canllawiau Cymru, bydd y Cyngor yn ystyried a oes angen newid ei ffordd o weithio. Mae gofynion y broses sydd angen sylw ar unwaith yn cael eu nodi yn yr adroddiad. Er mwyn cefnogi ei gyfraniad i'r broses o ddatblygu'r ABA, mae'r Cyngor wedi penodi Cyfarwyddwr Bid Porthladd Rhydd dros dro drwy Gytundeb Fframwaith y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar gyfer materion economaidd. Mae cyllid ar gyfer y rôl hon ar gael gan Lywodraeth y DU.

Fel yr awdurdod lletyol caiff CSYM ei ystyried yn Gorff Atebol ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn ac yn y rôl honno, bydd yn gyfrifol am amrywiaeth o faterion llywodraethu ac ariannol gan gynnwys rheoli hyd at £26m o gyllid y Llywodraeth os cymeradwyir yr ABA a'r ABLl, yn ogystal â dyletswyddau eraill fel y rhestrir yn yr adroddiad. Bydd angen capasiti ychwanegol i gefnogi'r rôl hon yn bennaf o ran swyddogaethau ariannol a chyfreithiol a Datblygu Economaidd. Bydd ymrwymiad amser hefyd ar gyfer yr uwch swyddogion sydd eu hangen i gymryd rhan yn y strwythurau llywodraethu. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio awdurdod i gymryd rhan yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer cam nesaf y prosiect. Er mwyn datblygu'r cynigion ar gyfer y cam Achos Busnes Amlinellol, mae angen sefydlu trefniadau llywodraethu diwygiedig. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu nodi yn y Cytundeb Cydweithio Cychwynnol a fydd yn cael ei lofnodi gan y ddau bartner – Cyngor Sir Ynys Môn a Stena Line. Ar gyfer Porthladd Rhydd Môn, CSYM a Stena Line yw'r unig awdurdod lleol a gweithredwr porthladd sy'n symleiddio ei strwythur llywodraethu o'i gymharu â'r rhan fwyaf o Borthladdoedd rhydd eraill y DU. Mae awdurdodi'r Prif Weithredwr i lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn benderfyniad allweddol sy'n ofynnol o dan eitem 17 ar yr agenda.

Cydnabu aelodau'r Pwyllgor Gwaith y gwaith sylweddol a wnaed i baratoi a chyflwyno cais llwyddiannus Porthladd Rhydd Môn a llongyfarchwyd y tîm Datblygu Economaidd sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwaith hwnnw. Codwyd nifer o bwyntiau yn y drafodaeth ddilynol ac ymatebodd Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Rheolwr Datblygu Economaidd fel a ganlyn –

- Trwy gadarnhau y diogelir hawliau gweithwyr a safonau amgylcheddol, a bod y cyfraniad at gyflawni Sero Net ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn faterion craidd a fydd yn cael sylw gan yr ABA ond i ba lefel o fanylder? Mae hynny'n dibynnu ar ganllawiau Cymru pan gânt eu cyhoeddi, yn arbennig gan y bydd yn rhaid paratoi Achos Busnes Llawn manwl wedi hynny.
- Trwy egluro nad yw cyfrifoldebau'r Cyngor fel y corff statudol ar gyfer cynllunio yn cael eu heffeithio gan ddynodiad Porthladd Rhydd a bod trafodaethau gyda Stena Line i sicrhau bod y defnydd o safleoedd yn cydymffurfio yn parhau. Mae statws Porthladd Rhydd hefyd yn rhoi cyfle i'r awdurdod cynllunio lleol greu Gorchmynion Datblygu Lleol a fydd yn rhoi sicrwydd i fuddsoddwyr ynghylch y disgwyliadau.
- Trwy egluro bod y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wrthi'n briffio gwasanaethau eraill y Cyngor ynghylch yr hyn y mae dynodiad Porthladd Rhydd yn ei olygu yn ymarferol a'r goblygiadau posibl iddynt ac y bydd y broses hon o rannu gwybodaeth yn parhau.
- Trwy gadarnhau bod trafodaeth gyda'r Gwasanaeth Dysgu a phartneriaid eraill sydd â diddordeb mewn addysg a sgiliau wedi dechrau ac y bydd yr wybodaeth a'r arbenigedd hwn yn bwydo i mewn i'r ABA i sicrhau bod dogfennau'r ABA yn gadarn a bod modd eu cyflawni.

DRAFT

- Trwy adrodd, o ran rheoli disgwyliadau mewn perthynas â'r hyn y gallai'r Porthladd Rhydd ei gynnig o ran cyflogaeth, fod Ynys Môn yn dechrau o lefel isel ar ôl colli 750 o swyddi yn ddiweddar yn sgil cau ffatri'r Two Sisters ac oddeutu 3,000 o swyddi dros y 10 mlynedd diwethaf. Os yw'r Porthladd Rhydd yn arwain at greu swyddi ar raddfa a amcangyfrifir rhwng 3,000 a 13,000, yna bydd llawer o'r rhain yn llenwi'r bwlch ar ôl y rhai a gollwyd ar yr Ynys. Yn ogystal â hyn, y gobaith yw y gallai'r Porthladd Rhydd gyfrannu at alluogi rhai o'r 8,000 i 10,000 o drigolion Ynys Môn sydd ar hyn o bryd yn gweithio oddi ar yr Ynys i ddod o hyd i waith yn lleol ar yr Ynys.
- Trwy gadarnhau bod yr adnoddau i gyflawni'r cam nesaf o baratoi a chwblhau'r ABA yn ddigonol. Mae Llywodraeth y DU yn darparu hyd at £300,000 ar gyfer datblygu ABA ac mae Stena Line yn talu costau rhai elfennau ac mae wedi comisiynu ei hymgynghorwyr ei hun i roi cymorth iddo yn hyn o beth.

Dywedodd y Prif Weithredwr, er bod cyllid refeniw yn cael ei ddarparu ar y cychwyn gan Lywodraeth Cymru a'r DU, bydd yn rhaid i Borthladd Rhydd Ynys Môn fod yn hunangynhaliol yn y tymor hir sy'n golygu y bydd disgwyl i'r diddordebau busnes a'r partneriaid sy'n cael buddion o'r Porthladd Rhydd o ran toriadau treth a buddsoddiad gyfrannu yn gyfnewid am hyn, i sicrhau hyfywedd parhaus y Porthladd Rhydd fel nad yw'r baich ariannol yn disgyn yn gyfan gwbl ar yr Awdurdod Lleol a Stena Line. Mae'r rhain yn faterion a fydd yn cael eu trafod yn ystod y misoedd nesaf wrth i'r trefniadau llywodraethu ddatblygu ac ehangu gan sicrhau bod gan y rhai sy'n cyfrannu at y Porthladd Rhydd fewnbwn ynghyd â'r rhai a fydd yn elwa ohono.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Llinos Medi, Cadeirydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd at bwysigrwydd gwerthfawrogi pa mor gymhleth a llafurus yw'r gwaith ar Raglen Porthladd Rhydd a bod angen deall y bydd y buddion a'r enillion yn cymryd amser cyn y byddant i'w gweld. Mae risgiau a heriau hefyd i'r Cyngor fel y Corff Atebol sy'n gyfrifol am oruchwylio materion gweinyddol ac ariannol y Porthladd Rhydd. Fodd bynnag, mae statws Porthladd Rhydd ar Ynys Môn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer twf economaidd a gweithgarwch yn lleol ac o fewn y rhanbarth ac mae'n ddatblygiad cyffrous i'r Ynys. Gellir datblygu'r Porthladd Rhydd mewn ffordd sy'n unigryw i'r Ynys ac mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau'r buddion cymdeithasol sy'n gallu deillio o ffyniant economaidd. Cynigiodd argymhellion yr adroddiad a chytunwyd ar y rhain yn amodol ar ddileu argymhelliad (b) gan fod hyn yn berthnasol i eitem 17 ar yr agenda a chynnwys y Dirprwy Brif Weithredwr mewn argymhelliad (c).

**Penderfynwyd –**

- **Nodi llwyddiant bid Porthladd Rhydd Ynys Môn wrth gyflawni statws Porthladd Rhydd.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr neu yn ei absenoldeb y Dirprwy Brif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith) i gytuno ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Cydweithio Cychwynnol arfaethedig.**
- **Bod Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei ddynodi fel cynrychiolydd ar Gorff Llywodraethu'r Porthladd Rhydd a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo iddo wneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol ynghylch amcanion Porthladd Rhydd Ynys Môn a bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo iddo enwebu person arall i fynychu yn ei le, a bydd gan y person enwebedig hawl hefyd i wneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol.**
- **Cymeradwyo gwneud unrhyw gytundeb grant rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU i dderbyn arian cyhoeddus gan y Llywodraeth (hyd at £300,00 ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol).**

DRAFT

### 16. GWAHARDD Y CYHOEDD A'R WASG

**O dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd Cyhoeddus a gyflwynwyd.**

### 17. PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN – LLYWODRAETHU A SEFYDLU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Porthladd Rhydd Ynys Môn mewn perthynas â'r trefniadau cyfreithiol a masnachol gyda Stena Line i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad yn Atodiad 1 yn cynnwys Cytundeb Cydweithio Cychwynnol rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Stena Line.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod y cytundeb hwnnw'n gytundeb dros dro i sefydlu'r berthynas ffurfiol rhwng CSYM a Stena Line i'w galluogi i oruchwylio'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Porthladd Rhydd Môn. O dan y Cytundeb, bydd y Cyngor a Stena Line yn datblygu eu dull o lunio a strwythuro'r berthynas ar gyfer cam gweithredol y Porthladd Rhydd. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth gan y Cyngor o'i rôl fel awdurdod lleol a threfniadau llywodraethu. Bydd y rhain yn helpu i bennu natur a chynnwys y trefniadau tymor hir rhwng y Cyngor a Stena Line ar gyfer sefydlu a darparu Porthladd Rhydd Môn. Gofynnir am awdurdod i ymrwymo i'r Cytundeb Cydweithio Cychwynnol rhwng CSYM a Stena Line.

Pwysleisiodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod rhai agweddau o'r trefniadau yn amodol ar gyhoeddi canllawiau Cymru ac y byddant yn cael eu hadolygu pan gânt eu cyhoeddi.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor Gwaith y trefniadau llywodraethu a sut y byddai cynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu Porthladd Rhydd yn cael ei benderfynu, y safleoedd a allai elwa o'r Porthladd Rhydd fel safleoedd treth /neu dollau dynodedig a'r ffactorau dan sylw, a'r cyfyngiadau o ran gwneud penderfyniadau ar hyn o bryd oherwydd y diffyg arweiniad. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Gwaith fod y cytundeb y ceisir awdurdod ar ei gyfer yn gytundeb cychwynnol i allu bwrw ymlaen â materion i gamau ABA ac ABLl ac y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn cael ei ddiweddaru wrth i faterion eraill godi a datblygu.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cam o ymrwymo i'r Cytundeb Cydweithio Cychwynnol rhwng CSYM a Stena Line yn Atodiad 1 yn yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**(Cadeirydd ar gyfer eitemau 1-4, 14 a 15)**
**Y Cynghorydd Robin Williams**
**(Cadeirydd ar gyfer eitemau 5-13, 16 a 17)**

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 26 Medi 2023 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Hydref 2023 – Mai 2024;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Hydref 2023 – Mai 2024 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2023 – Mai 2024

Diweddarwyd 14 Medi 2023

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.  Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb.  Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau.  Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2023 – Mai 2024

Diweddarwyd 14 Medi 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Hydref 2023** | | | | | | |
| 1 | **Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd** | Deilydd Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Hydref 2023 | |
| 2 | **Cynllun Trawsnewid Cerbydau Fflyd** | Deilydd Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Hydref 2023 | |
| 3 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Hydref 2023 | |
| 4 | **Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2022/23** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Hydref 2023 | Cyngor Llawn<br><br>26 Hydref 2023 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2023 – Mai 2024

Diweddarwyd 14 Medi 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus 2023-28** | | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Hydref 2023 | Cyngor Llawn<br><br>26 Hydref 2023 |
| 6 | **Cais awyr dywyll ryngwladol ar gyfer rhan de orllewin Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol [AHNE] Ynys Môn** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Hydref 2023 | |
| | **Tachwedd 2023** | | | | | | |
| 7 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 8 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 21.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2023 – Mai 2024

Diweddarwyd 14 Medi 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 10 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 11 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 08.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 12 | **Sylfaen y Dreth Gyngor 2024/25** | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2023 – Mai 2024

Diweddarwyd 14 Medi 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Strategaeth Tai Gwag 2023-2028** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 21.11.23 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| 14 | **Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi)** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 22.11.2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2023 | |
| | **Rhagfyr 2023** | | | | | | |
| 15 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |
| 16 | **Cynllun Bioamrywiaeth – Adroddiad Blynyddol ar Gynnydd** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>12 Rhagfyr 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2023 – Mai 2024

Diweddarwyd 14 Medi 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ionawr 2024** | | | |
| 17 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 | |
| 18 | **Strategaeth Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2024 (dyddiad i'w gadarnhau) | |
| | | | | **Chwefror 2024** | | | |
| 19 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 20 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2023 – Mai 2024

Diweddarwyd 14 Medi 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 22 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>15.02.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 23 | **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 24 | **Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| 25 | **Asesiad y Farchnad Dai Leol** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>18.01.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |

Tudalen 26

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2023 – Mai 2024

Diweddarwyd 14 Medi 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26 | **Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dydd** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 06.02.2024 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Chwefror 2024 | |
| | | | | **Mawrth 2024** | | | |
| 27 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |
| 28 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12.03.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |
| 29 | **Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2024 – 2054** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Tai<br><br>Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 12.03.24 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Mawrth 2024 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2023 – Mai 2024

Diweddarwyd 14 Medi 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2024** | | | | | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ebrill 2024 | |
| **Mai 2024** | | | | | | | |
| 31 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2024 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 26 Medi 2023 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 1 (2023/24) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn E Jones |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

**1.2** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Nifer y dangosyddion NERS;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Dangosyddion y grant cyfleusterau i'r anabl;
- Mae'r dangosydd rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a'r
- Dangosyddion cynllunio (34 a 36)

**1.3** Serch hynny, gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth y neu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

**1.4** Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

**1.4.1** Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen
**1.4.2** Cyfartaledd y dyddiau calendr i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod)
**1.4.3** Canran y rhent a gollwyd gan fod eiddo'n wag
**1.4.4** Canran yr apeliadau cynllunio a'u gwrthodwyd

**1.5** Gofynnir i'r pwyllgor derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| | penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 19/9. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 1 |

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

- Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2022/23 – Chwarter 4 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2023 ac a dderbyniwyd ganddo.)
- Cynllun y Cyngor 2023-2028

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2023/24)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i'w cyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2 Mae ein Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn adnabod anghenion lleol a blaenoriaethau llesiant, ac mae'n gosod ein nodau a'n hamcanion ar gyfer y bum mlynedd nesaf.

1.3 Mae'r adroddiad monitro cerdyn sgorio'n cael ei ddefnyddio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dyddiol y Cyngor. Mae'n darparu'n deallusrwydd er mwyn galluogi'r Cyngor i ddilyn agwedd ragweithiol tuag at reoli perfformiad ac felly, mae'r adroddiad yn adnabod unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwedd Ch1, a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n monitro perfformiad yn cyd-fynd â thri amcan llesiant presennol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwrachod ein hamgylchedd naturiol.

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar y Cerdyn sgorio pob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor) (Ch3).

2.3 Mae unrhyw dargedau yn yr adroddiad yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cytuno gyda phob gwasanaeth, gan gynnwys gwahanol dargedau chwarterol pan fydd angen.

2.4 Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o un chwarter i'r llall trwy gydol y flwyddyn. Felly, gadawyd y golofn tueddiadau'n wag yn fwriadol ar gyfer Ch1 a bydd y wybodaeth yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad cerdyn sgorio o Ch2 ymlaen.

2.5 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer bob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:

- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.


## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Mae mwyafrif (67%) y dangosyddion yn yr adran hon sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodi'r rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2 Ar ddiwedd Ch1 mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 2.1 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ystod y cyfnod, o gymharu â tharged o 2.1 diwrnod. Mae'r perfformiad hwn yn cymharu'n ffafriol yn erbyn yr un cyfnod ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf.

3.3 Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd yn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon sylweddol gan fod y dangosyddion, ar y cyfan, yn perfformio'n dda yn erbyn y targedau. Er bod hyn yn gadarnhaol, rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach mewn perthynas â dau ddangosydd sydd yn tanberfformio ac sydd yn AMBR yn erbyn eu targedau.

3.3.1 Dangosydd 09 – % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen – sy'n dangos fod 84% o ymatebion yn unol â'r amserlen yn erbyn targed o 90%. Mae hyn yn welliant o ran y perfformiad o'r 67% a welwyd ar ddiwedd Ch1 2022/23. Mae'r newid yn y targed, o 80% i 90% wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen yn golygu fod y perfformiad yn Ambr ar gyfer y chwarter. Bu i'r dangosydd hwn dan-berfformio yn ystod 2022/23 a braf yw nodi fod y gwelliannau a welir gan y Tîm Arweinyddiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad.



3.4 Ar hyn o bryd, ar ddiwedd y chwarter cyntaf, mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld gorwariant o £0.744m yng nghyllideb y cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2024. Fodd bynnag, mae pryder am nifer o feysydd nad ydynt efallai'n amlwg o'r ffigwr hwn ac maent yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen. Mae'r prif feysydd o bryder yn berthnasol i:

3.4.1 Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y cynnig tâl ar gyfer 2023/24 a gall fod yn sylweddol uwch na'r hyn a ganiateir yn y gyllideb. Er bod cronfa wrth gefn glustnodedig mewn lle i wrthbwyso unrhyw setliad, efallai na fydd yn ddigon i gwrdd â'r gost ychwanegol yn llawn.

3.4.2 Mewn perthynas â'r sefyllfa o ran Gofal Cymdeithasol, rhagwelir gorwariant o £2.179m. Serch hynny, mae'r sefyllfa wirioneddol yn cael ei chuddio oherwydd bod grantiau ychwanegol a chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ostwng y gorwariant. Heb y cyllid ychwanegol hwn, byddai'r gorwariant oddeutu £3.5m.

3.4.3 Yn y pendraw, bydd problemau costau byw yn arwain at gynnydd mewn galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant) a gallai arwain at ostwng incwm gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio, ffioedd parcio wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

3.5 Bydd y sefyllfa ariannol yn 2023/24 hefyd yn cael effaith ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2024/25 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau a welir yn 2023/25 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor a bydd hyn yn lleihau'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2024/25. Bydd y tîm rheoli'n adolygu'r sefyllfa ariannol yn agos yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol, ac efallai y bydd angen weithredu mesurau arbed costau yn 2023/24 er mwyn cynnal y lefel bresennol o arian wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol.

3.6 Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 yw £1.657m, a gallai lithro i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2024/25 a bydd yn cael ei gynnwys wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

3.7 Mae gwybodaeth bellach am reolaeth ariannol i'w weld yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 1', 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 1' ac 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 1' fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi.

3.8 Mae canlyniadau'r dangosyddion ar gyfer yr adran hon yn rhoi sicrwydd digonol fod y Cyngor yn rheoli ei bobl, ei gwsmeriaid a chyllid mewn modd sy'n ddisgwyliedig gan Gyngor sy'n cael ei reoli'n dda.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd Chwarter 1 mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif (89%) o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae tri dangosydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ystod Ch1 ac maent yn cael eu dangos ar y cerdyn sgorio mewn Coch neu Ambr.

4.2 Ar ddiwedd Chwarter 1, mae perfformiad ein hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, wedi bod yn dda ac nid oes unrhyw ddangosydd dan yr amcan hwn yn tanberfformio ar hyn o bryd.

4.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd dan yr amcan hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys


4.3.1 Dangosyddion y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff (NERS) (9 a 10) – lle mae'r ddau ddangosydd yn wyrdd yn erbyn eu targedau. Roedd dangosydd 10 yn benodol yn dangos bod 92% o gleientiaid yn teimlo bod eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff.

4.3.2 Dangosydd 11 – Nifer yr eiddo gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd – gydag 18 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o gymharu â tharged o 12. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 18 llai o dai gwag yn ein cymunedau.

4.4 Mae dau o'r tri dangosydd sy'n tanberfformio i'w gweld dan yr ail amcan llesiant, **Amcan 2,** lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

4.4.1 Dangosydd 29 – Nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod) – yn goch gyda pherfformiad o 52 diwrnod yn erbyn targed o 40. Mae hyn yn ostyngiad ar y 32 diwrnod a welwyd ar gyfer yr un cyfnod yn 2022/23 a'r 41 diwrnod yn 2021/22.

Mae perfformiad yn gysylltiedig â'r dangosydd perfformiad allweddol hwn wedi dioddef oherwydd y nifer uchel o eiddo sydd wedi'u dychwelyd yn ystod y chwarter sydd angen gwaith sylweddol er mwyn gallu eu defnyddio eto, ac i fodloni safonau SATC. O'r 45 eiddo a fu'n wag am dros 40 diwrnod, roedd 30 (66%) o'r rheini wedi'u nodi fel angen 'gwaith mawr'. Wrth i'r nifer o eiddo sydd angen gwaith sylweddol cynyddu, yr anoddach ydy hi i weddnewid tai newydd ac eiddo a brynir yn ôl oherwydd y diffyg gweithwyr sydd ar gael i gwblhau'r gwaith. Bydd gwelliant ar gyfer y dangosydd hwn unwaith y bydd eiddo a nodir yn 'gwaith mawr' wedi'i leihau sydd yn ei dro yn cynyddu capasiti.



4.4.2 Dangosydd 23 - Dangosydd 36 – Gwasanaethau Landlordiaid: mae canran y rhent a gollwyd gan fod eiddo'n wag yn goch ar y cerdyn sgorio gydag1.97% wedi'i golli yn erbyn targed o 1.70%


Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r dangosydd a drafodir uchod. Mae wedi cymryd mwy o amser i logi unedau llety ac mae'r rent a gollwyd yn uwch.

4.5 Er bod angen gwella perfformiad o dan yr amcan hwn a mabwysiadu mesurau lliniaru, mae'n bwysig nodi enghreifftiau o berfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter, gan gynnwys:

4.5.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 i 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter. Mae hyn yn galonogol mewn cyfnod lle mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod o dan bwysau oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio a phroblemau wrth recriwtio staff.

4.5.2 Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaeth Tai wedi perfformio'n dda ac mae'r ddau'n Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter.

4.5.3 Mae dangosydd y Grant Cyfleusterau i'r Anabl (dangosydd 28) yn dangos gwelliannau cadarnhaol ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn gyda pherfformiad o 160 diwrnod ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â 193 diwrnod cyfartalog a welwyd ar ddiwedd 2022/23, ac mae'n dangos bod y mesurau lliniaru a gymerwyd o ganlyniad i berfformiad gwael yn ystod 2022/23 yn dechrau cael effaith.




4.6 Mae perfformiad ein dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol wedi bod yn dda hefyd, gyda 86% o'r dangosyddion yn uwch na'r targed.

4.7 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:


4.7.1 Mae tri dangosydd rheoli gwastraff (Dangosydd 31 - 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter cyntaf. Roedd 95% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân ac mae'n galonogol nodi fod sbwriel sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn cael ei glirio o fewn diwrnod. Roedd canran y gwastraff a gafodd ein ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 69.72% ar gyfer y chwarter, ac mae'n argoeli'n dda ar gyfer gweddill y flwyddyn.

4.7.2 Mae perfformiad dau o'r tri dangosydd cynllunio (dangosyddion 35 a 37) yn Wyrdd yn erbyn y targed, ac maent yn uwch na pherfformiad y blynyddoedd blaenorol. Mae'r ceisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniad yn eu cylch o fewn amser (dangosydd 35) yn perfformio'n dda iawn gyda 97% o'r ceisiadau wedi'u pennu ar ddiwedd Ch1. Mae hyn yn cymharu â pherfformiad o 91% ar ddiwedd 22/23 a 79% ar ddiwedd 2021/22 a 2020/21.

4.8 Yr unig ddangosydd sydd yn tanberfformio yn ystod y chwarter hwn yw:

4.8.1 Dangosydd 36 – canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 0% o gymharu â tharged o 65%. Mae hyn yn is na'r un cyfnod yn 2022/23 pan wrthodwyd 38%.

Mae'r dangosydd hwn yn delio â nifer fechan o achosion. O'r ddwy apêl ar gyfer y chwarter hwn, ni chafodd yr un eu gwrthod. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apeliadau ar gyfer ceisiadau tebyg er mwyn gweld a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n galw am ddehongliad gwahanol o'n polisïau.



## 5. CASGLIAD

5.1 Mae'n galonogol nodi bod 83% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n uwch neu o fewn 5% o'i targedau ar gyfer y chwarter.

5.2 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Nifer y dangosyddion NERS;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Dangosyddion y grant cyfleusterau i'r anabl;
- Mae'r dangosydd rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a'r
- Dangosyddion cynllunio (34 a 36)

5.3 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai meysydd sy'n tanberfformio yn erbyn targedau. Amlygir y rhain yn 6.1 isod.

## 6. ARGYMHELLION

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth y neu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

6.1.1 Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen
6.1.2 Cyfartaledd y dyddiau calendr i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod)
6.1.3 Canran y rhent a gollwyd gan fod eiddo'n wag
6.1.4 Canran yr apeliadau cynllunio a'u gwrthodwyd

## 7. RHESTR TERMAU

7.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

7.1.1 DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
7.1.2 Ch1 – Chwarter 1
7.1.3 Ch2 – Chwarter 2
7.1.4 Ch3 – Chwarter 3
7.1.5 Ch4 – Chwarter 4
7.1.6 Statws CAG - Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed

7.1.7 Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol
7.1.8 FTE – Cyfystyr ag Amser Llawn
7.1.9 FOI – Rhyddid Gwybodaeth
7.1.10 CRT – Cyfrif Refeniw Tai
7.1.11 NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
7.1.12 DTL – Anodd eu Gosod
7.1.13 NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
7.1.14 CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
7.1.15 CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2022/23

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch / Q Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | | | | | | 91.69% | - |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | | | | | | 85.22% | - |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | | | | | | 3.20% | 2.60% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3) | | | | | | 100% | - |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch3) | | | | | | 68% | 68% |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch4) | | | | | | - | - |
| 7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Melyn / Yellow | | 114k | 118k | 546k | 539k | 388k |
| 8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | | 53% | 50% | 50% | 72% | 47.5% |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | | 92% | 80% | 80% | 78% | 84% |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | | 18 | 12 | 50 | 80 | 91 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | | | 0 | 0 | 3 | 1 | 1 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | | 16 | 18 | 18 | 16.61 | 13.89 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) | | | | | | | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch4) | | | | | | | - |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | | 95.83% | 90% | 90% | 91.69% | 94.78% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | | 63.64% | 62% | 62% | 64.71% | 64.85% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | | 18.63 | 19 | 19 | 16.74 | 14.33 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | | 95.30% | 93% | 93% | 98.10% | 96.10% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | | 85.82% | 90% | 90% | 86.75% | 87.15% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | | 1.54% | 2.50% | 10% | 6.15% | 9.79% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Melyn / Yellow | | 15.15% | 15% | 15% | 14.35% | 5.74% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | | 248 | 270 | 270 | 306 | 318 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | | 98.95% | 95% | 95% | 98.31% | 99.10% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | | 89.15% | 90% | 90% | 93.83% | 85.99% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | | 88.46% | 80% | 80% | 89.53% | 80.95% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | | 96.60% | 85% | 85% | 98.45% | 92.00% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | | 160 | 170 | 170 | 193 | 172.3 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Coch / Red | | 52 | 40 | 45 | 35.8 | 28.7 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | | 1.97% | 1.70% | 1.80% | 1.83% | 1.66% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | | 95% | 95% | 95% | 96% | 95.50% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | | 69.72% | 66% | 64% | 63.47% | 62.39% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | | 0.12 | 1 | 1 | 1 | 0.25 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | | 53kg | 55kg | 220kg | 207kg | 223kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | | 97% | 90% | 90% | 91% | 79% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | | 0% | 65% | 65% | 47% | 50% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | | 88% | 80% | 80% | 87% | 84% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | 3% | 3% | 2.6% | 3% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | 4% | 4% | 2.6% | 2.8% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | 9% | 9% | 7.6% | 8.2% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | | | 120.17 | 127 | | 515.07 | 486.85 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | | | 433,992 | | | 1,728,920 | 1,524,961 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | | | | | 790,899 | 786,247 |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | | | | | | +6% | + 26% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed Gwyrdd - ar darged neu'n uwch Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2023/24

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | | 13 | 13 | 40 | 55 | 43 |
| 02)  Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 2 | - | 4 | 9 | 6 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 2 | - | 13 | 20 | 8 |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | | 83% | 80% | 82% | 80% | 88% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | | 100% | 80% | 70% | 66% | 75% |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 3 | - | 27 | 41 | 24 |
| 07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | | 55 | - | 321 | 189 | 104 |
| 08) Nifer o ganmoliaethau | | | 80 | - | 495 | 658 | 662 |
| 09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Ambr / Amber | | 84% | 90% | 72% | 79% | 79.4% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | | 7.7k | - | 59.5k | 51k | 33.5k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | | 9k | - | 36k | 66k | 58k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | | 7k | - | 26k | 21k | 18.5k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | | 2.5k | - | 9.5k | 11k | 7k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | | 100k | - | 100k | 92k | 42k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | | | 96k | - | 327k | - | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | | | 2382 | - | 2288 | 2202 | 2180 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | | 2.1 | 2.1 | 9.15 | 8.73 | 6.68 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 0.8 | - | 4.54 | 3.70 | 1.94 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 1.3 | - | 4.61 | 5.03 | 4.74 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | | | - | - | 8% | 10% | 6% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Ambr / Amber | | £170,789,000 | | | £171,459,000 | 0.39% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | | £38,847,000 | | | £37,290,000 | -4.01% |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Ambr / Amber | | -£3,736,851 | -£3,395,825 | -9.13% | | |
| 05) Balansau cyffredinol diwedd y flwyddyn a ragwelir | | | | | | -£9,593,360 | |
| 06) Chost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidebwyd | Gwyrdd / Green | | 2.34% | | | 2.33% | -0.01% |
| 06) Nifer o Wasanaethau rhagwelir yn gorwario mwy na 5% o'i cyllideb | | | | | | 2 | |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 97.80% | | | |
| 08) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Coch / Red | | | 90.70% | | | |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 98.49% | | | |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 97.11% | | | |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **26 Hydref 2023** |
| Pwnc / Testun: | **Adroddiad Perfformiad / Llesiant Blynyddol 2022/23 Drafft** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Carwyn E Jones** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Carys Edwards** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>01248 752111<br>Gethinmorgan@Ynysmon.Gov.Uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1** Yn unol a'r cyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae'r ddogfen hon yn ddogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor.

**2** Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Hadroddiad Perfformiad / Lleisiant sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2022/23.

**3** Mae'n ddiweddariad ar gynnydd y cyngor yn erbyn y Cynllun Trosiannol 2022/23.

**4** Gofynir i'r Pwyllgor felly:

**Cytuno cynnwys yr Adroddiad Perfformiad 2022/23 fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny ac argymell i'r Cygor Sir yn ei gyfarfod Hydref 26ain, 2023 y dylid ei fabwysiadu felly.**

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Amherthnasol

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi cipolwg ar y gwaith a wnaed gan y Cyngor dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn ogystal â pherfformiad DPA yn erbyn y Cynllun Trosiannol 2022/23 a Chynllun y Cyngor.<br><br>Mae'r 3 amcan lleisant, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol gan mai adroddiad o waith a fu ydyw. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amh. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ymgynghorwyd â thrigolion Ynys Môn cyn drafftio Cynllun y Cyngor yn 2017 |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 19/9. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Adroddiad Perfformiad 2022/23 - Drafft |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Cynllun Trosiannol 2022-23<br>Cynllun y Cyngor 2017-22<br>Adroddiad Perfformiad 2021-22 |

DRAFT

# Adroddiad Perfformiad / Lleisiant Blynyddol 2022/23

**Paratowyd gan** – Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi** – Medi 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Cyflwyniad

Croeso i'n Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2022/23 sy'n rhoi trosolwg o'r hyn y mae'r Cyngor, ar y cyd â'n cymunedau gwydn, wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fel Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor, rydym yn falch o gyflwyno'r llwyddiannau nodedig sydd wedi cyfrannu at nifer o welliannau ar ein hynys yn ystod y flwyddyn.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gorfod ymdopi â heriau yn sgil yr argyfwng costau byw a hynny trwy gydweithio a chefnogi'n gilydd. Mae ein cymunedau wedi dangos grym cydweithio, trwy gynnig help i gymdogion a thrigolion pan fo angen.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r holl waith yr ydym ni wedi'i gyflawni er mwyn sicrhau cynnydd, yn cynnwys adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd cadarnhaol i fentrau cynaliadwy a chynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hanfodol ledled yr ynys. Rydym hefyd wedi helpu'r sector ymwelwyr a lletygarwch i wneud y mwyaf o boblogrwydd yr Ynys gan amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd. Mae'n hymrwymiad ar y cyd i sicrhau twf a datblygiad yn amlwg ym mhob prosiect yr ydym ni wedi'i gyflawni.

Wrth edrych tua'r dyfodol mae'r llwybr o'm blaenau'n llawn gobaith a photensial. Bydd Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028, sydd newydd gael ei lansio, wrth wraidd ein holl benderfyniadau yn y dyfodol; bydd yn darparu fframwaith fel y gallwn gynllunio a bwrw 'mlaen â'n blaenoriaethau; a monitro perfformiad a chynnydd. Crëwyd y Cynllun â chyfaniad trigolion, busnesau, rhanddeiliaid, a phartneriaid. Yr hyn sydd wrth ei wraidd ydi'n hawch i barhau i weithio gyda hwy er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau gorau posib ar gael, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol.

I gloi, hoffem ddiolch i'n staff ymroddedig am eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Ac i'r gymuned, gan mai'ch cadernid a'ch caredigrwydd chi sy'n ein gwthio ni i gyrraedd y nod gyda'n gilydd. Mae'r adroddiad hwn yn dyst i'r hyn y gallwn ni ei gyflawni law yn llaw.



**Llinos Medi**

**Arweinydd y Cyngor**



**Dylan Williams**


**Prif Weithredwr**

DRAFT


## Uchafbwyntiau Allweddol

Mae rhai o’r uchafbwyntiau allweddol ar gyfer perfformiad eleni i’w gweld isod. I gael gwybodaeth am sut rydym yn monitro perfformiad gweler [ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx](ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx)


**Cynnydd yn erbyn y Cynllun Trosiannol**




**Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2022/23**




**Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2022/23 Perfformiad Blwyddyn ar Flwyddyn**



## Datblygiad yn erbyn ffrydiau gwaith y Cynllun Trosiannol

Mae diweddariadau yn erbyn pob blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithgareddau'r Cynllun Trosiannol yn cael eu trafod yn yr adran nesaf o'r adroddiad.

Mae adroddiadau cynnydd yn erbyn y camau allweddol a gymerwyd ar y cynllun gwaith presennol i'w gweld isod:

### A. Adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd positif

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| 1. Adeiladu 6 uned fusnes newydd ym **Mharc Busnes Bryn Cefni (Tregarnedd), Llangefni** a pharatoi 6 plot ychwanegol i'w gwerthu ar y farchnad agored.<br><br>Adeiladu 7 uned fusnes newydd ym **Mhenrhos yng Nghaergybi** (ar y cyd â Llywodraeth Cymru) | Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adeiladu 6 uned fusnes newydd ym Mharc Busnes Bryn Cefni yn Llangefni.<br><br>Adeiladu 7 uned fusnes ychwanegol ym Mhenrhos, Caergybi, ond ychydig o oedi cyn eu cwblhau oherwydd newidiadau mewn ymrwymiadau diogelwch statudol. | |
| 2. Cryfhau rôl **Caergybi a'r Porthladd** fel 'Porth' Rhyngwladol Allweddol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni pob math o brosiectau, yn cynnwys<br><br>a. Atgyweirio'r Morglawdd<br>b. Datblygu'r Porthladd yn cynnwys adennill tir<br>c. Hwb Hydrogen Caergybi<br>d. Gwelliannau i'r orsaf | Rydym wedi cryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel 'Porth' Rhyngwladol allweddol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni pob math o brosiectau drwy gydol y flwyddyn. Fe wnaethom ddylanwadu ar y broses i sicrhau cyllid o £20m ym mis Mawrth 2023 gan Lywodraeth y DU i atgyweirio Morglawdd Caergybi.<br><br>Mae cais Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi bod yn llwyddiannus. Datblygwyd y cais drwy bartneriaeth ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Stena Line. Mae gwaith ar y gweill i baratoi Achos Busnes Amlinellol.<br><br>Mae'r statws Porthladd Rhydd yn gyfle i sicrhau newid gwirioneddol er mwyn trawsnewid cymunedau ledled Ynys Môn a'r rhanbarth ehangach.<br><br>Mae'r cynlluniau ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi wedi cael eu cymeradwyo. Dyma fydd yr hwb cyntaf o'i fath yng Nghymru a bydd y prosiect yn cael ei | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| | sefydlu ym Mharc Cybi, Caergybi gan y fenter gymdeithasol Menter Môn, ochr yn ochr â'r Cyngor.<br><br>Mae'r Cyngor wedi derbyn £2.9 miliwn o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, drwy Croeso Cymru, i gyflawni cynlluniau ar gyfer ymwelwyr yn cynnwys:<br><br>• gwella arwyddion a chynllunio llwybrau<br>• gwella'r Gaer Rufeinig sy'n atyniad treftadaeth allweddol<br>• adnewyddu'r toiledau cyhoeddus yn Sgwâr Swift<br>• gwella'r cyfleusterau i ymwelwyr ym Marc Gwledig Morglawdd Caergybi<br>• darparu cyllid cyfatebol i gynlluniau gwella Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi.<br><br>Gweler pwynt 8 am fwy | |
| 3. Cyflawni'r prosiectau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu **Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn**, yn cynnwys:<br>a. Cronfa Grant Busnesau Bach a Grwpiau Cymunedol Gogledd Ynys Môn<br>b. Strategaeth Arwyddion **Porth Amlwch**<br>c. Cyflwyno cynnig cysyniad ar gyfer tir parc y Gymdeithas (a adwaenid yn y gorffennol fel tir Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ym **Mhorth Amlwch**) | Mae Cynllun Gweithredu Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn wedi darparu gwerth £50,000 o grantiau bach i 12 o sefydliadau yng Ngogledd Ynys Môn.<br><br>Mae'r Strategaeth Arwyddion i wella arwyddion ym Mhorth Amlwch wedi'i gwblhau a byddant yn cael eu gosod yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24.<br><br>Mae £50,000 o gyllid wedi cael ei sicrhau drwy Barth Menter Ynys Môn i ddatblygu cynlluniau ar gyfer unedau busnes yn Stryd Mona, Amlwch. Bydd ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno yn 2023/24.<br><br>Mae cynnig parcdir, mewn cydweithrediad agos â'r Gymdeithas, wedi'i baratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2023 | |

DRAFT

| **Camau Gweithredu Allweddol** | ***Yr hyn a wnaethom yn 2022/23*** | ***CAG*** |
|---|---|---|
| d. Parhau i ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu unedau busnes newydd<br>e. Hwb newydd MonCF Gogledd Ynys Môn yng nghanol tref **Amlwch** | Defnyddiwyd y grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru a grant economaidd-gymdeithasol yr NDA i agor hwb MônCF ar gyfer Gogledd yr Ynys yng nghanol tref Amlwch ym mis Mehefin 2022. | |
| 4. Cefnogi **Bargen Twf Gogledd Cymru** (prosbectws adfer) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu i adfer ein economi yn y tymor byr | Mae'r Cyngor wedi cefnogi Bargen Twf Gogledd Cymru (prosbectws adfer yn dilyn covid) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu i adfer ein heconomi.<br><br>Mae rhai o'r prosiectau sydd ar y gweill yn cynnwys:<br>• Porth Caergybi<br>• Cydnerth (Morlais), Caergybi<br>• Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni), a Chanolfan Ynni Carbon Isel Prifysgol Bangor ac M-SParc<br>• Hwb Economi Wledig Glynllifon, Gwynedd<br>• Parc Bryn Cegin, Gwynedd<br>• Adweithyddion Bach neu Ddatblygedig Trawsfynydd, Gwynedd | |
| 5. Sefydlu **Awdurdod Iechyd Porthladd** i gyflawni cyfrifoldebau a gwiriadau rheoli ffiniau | Cafodd cynlluniau'r Cyngor i sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd eu gohirio tan 2023/24 wedi i Lywodraeth y DU gadarnhau ei bod yn gohirio ei chynlluniau i gyflwyno gwiriadau rheoli ffiniau newydd. Mae'r Cyngor yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod trefniadau lleol yn gadarn a fforddiadwy.<br><br>Nydd trafodaethau pellach gyda Swyddfa'r Cabinet i'w cynnal ynghylch y Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) gyda chyhoeddiad terfynol wedi'i glustnodi tua diwedd Haf 2023. | |
| 6. Parhau i gyflawni adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwneud **Canol Trefi'n** llefydd mwy bywiog a hyfyw | Mae wifi cyhoeddus ac offer mesur nifer ymwelwyr wedi cael eu gosod yn Llangefni, Porthaethwy, Porth Amlwch, Rhosneigr a Thraeth Bychan. | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| a. Archwilio canol trefi yn Ynys Môn i ddod o hyd i welliannau posib<br>b. Mynd i'r afael ag adeiladu gwag a phroblemus<br>c. Datblygu a chyflawni prosiectau tirweddu a phlannu coed | Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael ag adeiladau gwag a phroblemus drwy sicrhau £250k o gyllid drwy'r Cynllun Grant Prosesu a Marchnata yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd cyllido eraill gan Cadw. Mae'r Grant Prosesu a Marchnata wedi cefnogi cyfleusterau yng Nghanolfan Glanhwfa a Hwb Mencap, Llangefni.<br><br>Mae'r Cyngor wedi datblygu a chyflawni prosiectau tirweddu a phlannu coed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gwaith ar 20 o gynlluniau a gafodd eu cyllido drwy Bartneriaeth Tirwedd Ynys Cybi. Cafodd £25,000 hefyd ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru i ddarparu rhandiroedd newydd yn Llanfairpwll a diweddaru'r rhandiroedd yng Nghaergybi. | |
| 7. Parhau i symud y **Rhaglen Ynys Ynni** yn ei blaen<br>a. Ymgysylltu a dylanwadu ar y posibilrwydd o ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa<br>b. Gweithio gyda datblygwyr prosiectau mawr i sicrhau bod cynigion yn cyflawni buddion lleol, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol<br>c. Adolygu a diweddaru pwrpas ac amcanion rhaglenni fel eu bod wedi eu halinio'n well â'r gofynion ac ymrwymiadau ym mholisi hinsawdd ac ynni Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi parhau i ymgysylltu â datblygwyr i roi cyngor a dylanwadu ar gynigion datblygu ynni drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn er mwyn sicrhau ffurf gynaliadwy o ddatblygiad gyda'r effeithiau'n cael eu dileu a'r buddion yn cael eu huchafu.<br><br>Parhawyd i ymgysylltu'n effeithiol â'r holl ddatblygwyr a rhanddeiliaid i gynghori a dylanwadu ar fathau cynaliadwy o ddatblygiad gan gynnwys cymryd rhan lawn yn y broses caniatâd statudol lle mai'r Cyngor yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Awdurdod Lleol i'r prosiect. Mae ymgysylltu wedi cynnwys y prosiectau canlynol:<br><br>• Safle niwclear newydd yn Wylfa<br>• Morlais<br>• Fferm Solar Traffwll<br>• Hwb Hydrogen Caergybi<br>• Fferm Solar Porth Wen<br>• Awel y Môr<br>• Fferm Solar Môn<br>• System Storio Ynni Batri Carrog<br>• Fferm Wynt Mona<br>• Datgomisiynu Gorsaf Bwer Magnox Wylfa | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| | • Fferm Solar Alaw Môn<br><br>O ran datblygiad niwclear newydd posibl ar safle dyranedig Wylfa, mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU, Great British Nuclear (GBN) a Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi parhau i weithio gyda datblygwyr i sicrhau bod eu cynigion yn darparu buddion lleol yn unol â Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol y Cyngor.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad o'r Rhaglen Ynys Ynni tua diwedd 2021. Cadarnhaodd yr adolygiad na fu'r rhaglen erioed yn bwysicach na pherthnasol i alluogi prosiectau a chyfleoedd i gael eu huchafu, adlinio blaenoriaethau, parchu unigrywiaeth amgylchedd yr ynys ac i hybu twf economaidd ar draws yr Ynys.<br><br>Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi ac yn parhau i gefnogi gyda'r cais statws Porthladd Rhydd llwyddiannus. | |
| 8. Datblygu a mynd ar drywydd cymorth drwy **Gronfa Ffyniant Bro ac Adfer Cymunedau Llywodraeth y DU** | Cafodd cais am swm sylweddol o gyllid i helpu i atal dirywiad pellach ac adfer canol tref Caergybi ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU.<br><br>Bydd y cais 'Caergybi: Trawsnewid trwy ddiwylliant a threftadaeth' yn helpu i gynyddu balchder lle i drigolion. Bydd yn helpu i drawsnewid y dref drwy sicrhau buddsoddiad gwerth £22.5m, yn cynnwys £17m drwy'r Gronfa Ffyniant Bro, a darparu buddion gwerth dros £54m i'r gymuned leol.<br><br>Mae'r cais yn cynnwys pecyn o brosiectau cyffrous i -<br>• gynyddu cyflogaeth;<br>• gwella'r hyn sydd ar gael yng nghanol y dref a phrofiad ymwelwyr;<br>• cynyddu ymwelwyr a gwariant;<br>• darparu gofod llawr modern i gwrdd ag anghenion busnesau;<br>• cynyddu mynediad at y celfyddydau, diwylliant a hamdden. | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| 9. Gweithio gyda **busnesau lleol** i'w grymuso a'u galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy gontractau'r Cyngor drwy broses gaffael ddiwygiedig | Mae'r Cyngor wedi ac yn parhau i weithio gyda busnesau lleol, er mwyn eu galluogi i gymryd mantais o'r cyfleoedd sydd ar gael gan y Cyngor drwy gontractau. Mae'r gwaith yn cael ei gyflawni trwy hysbysiadau ar GwerthwchiGymru a digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr er mwyn hybu'r posibiliadau a chyfleodd ar Ynys Môn. | |
| 10. Parhau i ddarparu **grantiau Llywodraeth Cymru** i fusnesau | Nid chafodd unrhyw grantiau newydd i fusnesau eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.<br><br>Disgwylir grantiau newydd yn 2023/24 yn cynnwys grantiau i fusnesau bach drwy'r gronfa UK-SPF a grantiau 'cymunedau mentrus' newydd o dan y cynllun Arfor 2 sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. | |

Tudalen 54

## B. Galluogi'r sector ymwelwyr a lletygarwch i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys ac amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| **1.** Paratoi Cynllun **Rheoli Cyrchfan** ac **AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol)** newydd | Datblygwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan ac AHNE drafft yn ystod y flwyddyn. Ymgynghorwyd ar y cynlluniau hyn yn gyhoeddus yn ystod chwarter cyntaf 2023/24. Bydd y drafftiau terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ystod 2023/24. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 2. Buddsoddi i wella ansawdd **Parc Gwledig Morglawdd Caergybi, Nant y Pandy** a'r seilwaith morol er budd a mwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr | Mae canolfan ymwelwyr newydd wedi agor ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi fel rhan o gynllun Cymru gyfan i greu a gwella cyfleusterau i ymwelwyr. Mae'r ganolfan newydd yn rhan o raglen fuddsoddi ehangach i gynyddu apêl Caergybi a gwella'r profiad i ymwelwyr, yn sgil y nifer uchaf erioed o ymweliadau gan longau pleser yn 2023 ac ychwaneg wedi eu trefnu ar gyfer 2024.<br><br>Yn ddiweddar plannodd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni 500 o goed derw yng ngwarchodfa natur Nant y Pandy. Nod Tîm Cefn Gwlad ac AHNE y Cyngor oedd tynnu sylw'r disgyblion at bwysigrwydd plannu coed er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, yn ogystal â'u helpu i ddatblygu sgiliau rheoli tir ymarferol. Maent hefyd yn gobeithio y bydd y disgyblion yn teimlo bod y warchodfa natur yn perthyn iddynt hwy ar ôl plannu coed yno ac y byddant yn eu gwarchod ac yn gwneud yn siŵr bod y lle'n cael ei barchu yn y dyfodol. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r llwybrau pren yn ogystal gydag ychwaneg o gynlluniau gwella ar y gweill ar gyfer 2023/24. | |
| 3. Croesawu **40+ o longau pleser** i Ynys Môn / Gogledd Cymru yn ystod y tymor yn 2022 | Croesawyd 42 o longau pleser yn ystod yn 2022 gydag ymwelwyr o bob rhan o'r byd yn ymweld â'r ynys ac ardal gogledd orllewin Cymru. | |
| 4. Cyflwyno mân welliannau i'r seilwaith ymwelwyr mewn lleoliadau poblogaidd i **wella profiad trigolion ac ymwelwyr**, yn ogystal â dylanwadu'n bositif ar ymddygiad ymwelwyr | Mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect hwn wedi'i ohirio tan 2023/24, gan bod rhaid adolygu ac asesu anghenion presennol y gwasanaeth, er mwyn gallu ddefnyddio'r cyllid yn llawn. | |
| 5. Sefydlu rhaglen waith **Beicio Hamdden a Theithio Llesol** ar gyfer Ynys Môn | Mae gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau cerdded a seiclo ar gyfer eu hardal leol, sef Mapiau Rhwydweithiau Teithiau Llesol. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r mapiau hyn wedi cael eu dylunio i ddangos:<br>1. Llwybrau presennol – llwybrau cerdded a seiclo sy'n bodoli eisoes<br>2. Llwybrau'r dyfodol – llwybrau newydd y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu creu yn y dyfodol<br><br>Cafodd ein Map ni ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022 ac mae'n nodi dyheadau'r Cyngor ar gyfer gwella ei lwybrau teithio llesol yn yr wyth anheddiad canlynol ar yr ynys:<br>• Llangefni<br>• Llanfairpwll<br>• Y Fali<br>• Benllech<br>• Porthaethwy<br>• Amlwch<br>• Caergybi<br>• Gaerwen | |
| 6. Newid y ffordd yr ydym ni'n gweithio gyda thrigolion a chymunedau trwy godi ymwybyddiaeth a buddsoddi mewn **Cynllunio Lle** er mwyn i gymunedau fod yn fwy gwydn | Mae'r rhaglen Cynllunio Lle yn dal i gael ei darparu gan y Cyngor mewn partneriaeth â Medrwn Môn .<br><br>Mae'r rhaglen yn gweithio gyda chymunedau lleol i greu map cynhwysfawr o asedau a hyd yma mae 7 cynghrair gymunedol yn gweithio gyda chyrff statudol i nodi anghenion cymunedau a blaenoriaethu lle y dylid targedu gwariant.<br><br>Mae'r cynghreiriau'n dod â grwpiau cymunedol, unigolion, gwirfoddolwyr, cynghorau tref a chymuned, busnesau lleol ac unrhyw un sydd â diddordeb ynghyd er mwyn i'r cymunedau y maent yn byw neu weithio ynddynt fod yn fwy annibynnol a gwydn. | |

DRAFT

## C. Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol critigol megis Gofal ac Addysg ledled yr Ynys

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | CAG |
|---|---|---|
| 1. Sicrhau ein bod yn lleihau'r angen am **lety argyfwng a dros dro** trwy ddod o hyd i **gartrefi parhaol** i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bawb rywle i'w alw'n gartref.<br><br>Yn ystod 2022/23, cafodd tua 130 o bobl eu symud o unedau brys a dros dro i lety preifat neu gymdeithasol. | |
| 2. Paratoi a mabwysiadu **Cynllun Newid Hinsawdd** i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol a chymunedau | Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020 gan ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.<br><br>O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi cytuno ar 'Gynllun Tuag at Sero Net 2022 i 2025' sy'n amlinellu ei ymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd a sut mae'n bwriadu newid i fod yn sefydliad sero net.<br><br>Mae'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol wedi goruchwylio'r gwaith o weithredu'r cynllun yn ystod y flwyddyn. | |
| 3. Adeiladu 83 o **gartrefi ynni effeithiol newydd** â graddfa perfformiad ynni A yn unol â'n Strategaeth Carbon Isel i gwrdd â'r galw'n lleol a sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau cael cyfle i fyw mewn cartref fforddiadwy ar draws pob math o ddeiliadaeth i gwrdd â'u hanghenion tai | Mae'r Cyngor wedi adeiladu 38 o gartrefi effeithlon o ran ynni yn ddiweddar. Mae safleoedd hen ysgolion ym Maes yr Ysgol, Caergybi, Ysgol Llaingoch, Caergybi ac Ysgol Llanfachraeth wedi cael eu troi'n gartrefi newydd a modern.<br><br>Mae'r eiddo hyn wedi cael eu dyrannu i denantiaid gan ddefnyddio'r polisi tai cyffredinol a chofrestr tai fforddiadwy Tai Teg, sy'n rhoi blaenoriaeth i drigolion lleol.<br><br>Mae 10 eiddo newydd hefyd yn cael eu hadeiladu yn Lôn Lwyd, Pentraeth ynghyd â 6 eiddo newydd ar safle hen glwb cymdeithasol Biwmares.<br><br>Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu tai newydd yn y lleoliadau canlynol–<br><br>• Hen safle Ysgol Niwbwrch yn Niwbwrch (14 o gartrefi) | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | CAG |
|---|---|---|
| | • Hen safle Ysgol Thomas Ellis yng Nghaergybi (15 o gartrefi)<br>• Kings Road, Caergybi (7 p gartrefi)<br>• Hen safle Plas Penlan, Llangefni (12 o gartrefi)<br>• Gwêl y Llan yn Llandegfan (25 o gartrefi). | |
| 4. Datblygu **Cartrefi Clyd** Ynys Môn ymhellach yn **Rhosybol, Caergybi a Llangristiolus** gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth **gofal seibiant a Gofal Dydd i blant gydag anableddau** | Mae'r fenter Cartrefi Clyd yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi amser a sylw i blant yn unigol. Mae hyn yn helpu i feithrin perthynas werthfawr gyda hwy a sicrhau eu bod yn cael profiadau bywyd cadarnhaol fel y gallant ddatblygu i fod yn oedolion emosiynol iach.<br><br>Mae'r profiadau bywyd cadarnhaol hyn hefyd yn helpu i wneud yn siŵr bod plant yn dod yn rhan o'u cymuned leol ac yn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio gwasanaethau yn yr un modd ag unrhyw blentyn arall.<br><br>Fe enillodd y fenter Cartrefi Clyd Wobr Plant Mewn Gofal yng Ngwobrau Plant a Phobl Ifanc Nawr yn 2022 am ddarparu cartrefi diogel, gofalgar a meithringar i blant mewn gofal.<br><br>Mae'r Wobr Plant Mewn Gofal yn cydnabod cyfraniad awdurdodau lleol neu ddarparwyr gofal er mwyn gwella'r canlyniadau i blant neu bobl ifanc sydd yn derbyn gofal mewn lleoliadau preswyl, gofal maeth neu leoliadau gofal eraill. | |
| 5. Bwrw ymlaen â'r cyfleuster **Gofal Ychwanegol** yn Ne'r ynys | Mae safle ar dir sydd ym meddiant y Cyngor ger Tyddyn Mostyn, Porthaethwy wedi'i nodi fel lleoliad addas ar gyfer datblygu darpariaeth gofal ychwanegol yn Ne'r Ynys.<br><br>Bydd y Cynllun yn helpu i fynd i'r afael â'r angen am gyfleusterau gofal ychwanegol yn yr ardal trwy ddarparu tua 40 o fflatiau ynghyd â'r posibilrwydd o 15 o ystafelloedd gofal preswyl arbenigol, yn ogystal â lle ar gyfer Tîm Adnoddau Cymunedol yn cynnwys staff iechyd a gofal cymdeithasol i wasanaethu de'r ynys.<br><br>Yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor wedi archwilio'r safle ac mae wrthi'n paratoi'r dogfennau cynllunio ar hyn o bryd.<br><br>Bydd cais cynllunio'n cael ei gyflwyno yn 2023/24. | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| 6. Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Gofal Dydd ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | Mae gwaith ar y gweill i ffurfioli'r ddarpariaeth gymunedol trwy gytundebau cyson ac i gryfhau cyfleoedd cymunedol ledled yr Ynys.<br><br>Rydym wedi datblygu a gweithredu rhywfaint o gyfleoedd dydd yn fewnol yn ein cymunedau ac mae cleientiaid wedi bod yn mynychu'r cyfleoedd newydd hyn. Mae gwaith pellach ar y gweill yn 2023/24. | |
| 7. Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Llety Cymorth ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | Mae adolygiad o'r ddarpariaeth byw â chymorth ar y gweill; fodd bynnag, mae'r prosiect yn ei ddyddiau cynnar. Mae gwaith pellach ar y gweill yn . 2023/24. | |
| 8. Bwrw ymlaen â'r cyfleusterau **ysgol gynradd newydd yn Llangefni** | Agorwyd safle newydd Ysgol Corn Hir ym mis Ebrill 2023.<br><br>Mae'r prosiect gwerth £10m a gafodd ei adeiladu gan Wynne Construction yn cynnwys y cyfleusterau ac adnoddau diweddaraf mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd chwarae a dysgu tu allan modern gyda chyfleusterau da.<br><br>Cynhaliwyd seremoni torri'r dywarchen ym mis Ionawr 2023 i nodi dechrau'r gwaith ar yr estyniad Carbon Sero Net yn Ysgol y Graig, Llangefni.<br><br>Bydd yr uned Cyfnod Sylfaen newydd yn costio oddeutu £10.5 miliwn.<br><br>Bydd y prosiectau hyn yn cynyddu capasiti yn ardal Llangefni i gwrdd â'r galw cynyddol am addysg gynradd yn yr ardal. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu hariannu'n rhannol gan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. | |

Gwyrdd = Cwblhawyd, Melyn = Yn unol â'r cynllun, Oren = Ar ei hôl hi, ond mae camau lliniaru a nodwyd yn golygu bod modd dal i fyny, Coch = Wedi methu yn erbyn yr amserlen. Angen arweiniad gan y Bwrdd Rhaglen neu'r Tîm Arweinyddiaeth ynghylch y ffordd ymlaen

DRAFT

## Canlyniadau Rheoli Perfformiad


Mae monitro perfformiad y DPA yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan llesiant strategol y Cyngor fel y mae allbynnau'r gwaith cysylltiedig uchod:

- Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Mae dadansoddiad o berfformiad ar gyfer pob Amcan Llesiant i'w weld isod –

## Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir

Mae'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â'n hamcan llesiant, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, yn perfformio'n dda ac mae pob dangosydd naill ai'n wyrdd neu'n felyn yn erbyn eu targedau.




DRAFT

**Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:**




Roedd 100% o ddisgyblion wedi cael eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (dangosydd 4). Mae hyn yn galonogol ac mae'n bodloni disgwyliadau Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg.




Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd

Mae 80 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 50 (dangosydd 11). Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 80 yn llai o dai gwag yn ein cymunedau



Mae 72% o gleientiaid a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen NERS wedi cwblhau'r cwrs, ac roedd 78% yn credu fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd


Cafwyd 514k ymweliad â Chanolfannau Hamdden yn ystod y flwyddyn, sy'n gynnydd o 151k yn 2021/22, a dyma'r swm uchaf ers 2018/19. Mae hyn yn dangos fod darparu cyfleusterau a gweithgareddau gwell i drigolion yn ffafriol mewn diwydiant sy'n dod yn fwyfwy cystadleuol.



DRAFT

# Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Mae'r perfformiad yn erbyn y dangosyddion Amcan Llesiant 2 yn perfformio'n dda unwaith eto. Mae 11 dangosydd yn Wyrdd (73%) ac mae 2 dangosydd (13%) yn Felyn yn erbyn targedau ar gyfer y flwyddyn







**Enghreifftiau o rai o'r perfformiadau da a welwyd yn ystod y flwyddyn:**


Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau.

| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| 91.69% | 64.71% | 16.74 | 98.1% |

Mae pob dangosydd o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (dangosyddion 20 – 25), ac eithrio un, yn uwch, neu o fewn 5% o'r targedau ar gyfer y flwyddyn. Roedd nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn berfformiad da o 93.83% o gymharu â blynyddoedd blaenorol

| DPA | Perfformiad | CMG |
|---|---|---|
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | 86.75% | Melyn |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | 6.15% | Gwyrdd |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | 14.35% | Gwyrdd |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | 98.31% | Gwyrdd |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 93.83% | Gwyrdd |




Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaethau Tai wedi perfformio'n dda hefyd gyda'r ddau yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Mae'r cyllid a dargedwyd ar gyfer digartrefedd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol, gyda 98.45% o gartrefi gyda phlant yn cael eu harbed eleni, o gymharu â'r perfformiad blaenorol

Fodd bynnag, rydym yn nodi bod dau o'r dangosyddion wedi tanberfformio yn ystod y flwyddyn yn erbyn amcan llesiant 2, gyda'r ddau yn Goch yn erbyn eu targedau.


DRAFT




Mae’r amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn – yn Goch, gyda pherfformiad o 303 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod.

Mae’r perfformiad yn ddirywiad o’r 287 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch3, er ei fod yn well na’r 318 diwrnod a adroddwyd ar ddiwedd 2021/22.

Mae’r dangosydd hwn yn cyfrifo’r plant hynny sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr diogelu plant o fewn y deuddeg mis diwethaf ar sail treigl. Mae dangosydd amgen i fesur yr amser cyfartalog mae’r holl blant yn treulio ar y gofrestr diogelu plant (CPR) yn dangos perfformiad iach o 166 diwrnod. Bydd y gwaith o fonitro’r dangosydd hwn yn gwella perfformiad yn erbyn dangosydd 23 yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod y plant ar y CPR ar y gofrestr tra bo penderfyniad yn cael ei wneud yn unig.



Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl – sydd yn Goch gyda pherfformiad o 193 diwrnod yn erbyn targed o 170 diwrnod. Mae'r perfformiad hwn yn ostyngiad o'i gymharu â'r 182 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch3, ac yn ostyngiad ar berfformiad blynyddoedd blaenorol.




Mae’r rhesymau dros y dirywiad mewn perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn yn cynnwys:


- Anawsterau cael mynediad i rai eiddo oherwydd pryderon cleientiaid yn dilyn y pandemig coronafeirws.
- Anawsterau dod o hyd i gontractwyr i wneud y gwaith. Ar hyn o bryd dim ond 6 chontractwr o’r Ynys sy’n gosod yr addasiadau.

Mae’n debygol y bydd angen cynyddu’r diwrnodau targed yn 2023/24 o ganlyniad i’r anawsterau hyn. Bydd y Polisi GCA yn cael ei adolygu yn ystod Ch1 2023/24, fydd yn cynnwys llunio cytundeb lefel gwasanaeth a chytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer darparu addasiadau i’r GCA.


DRAFT

## Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol


Mae perfformiad dangosyddion i fonitro ein llesiant Amcan 3 wedi bod yn dda hefyd, gyda 90% o'r dangosyddion yn uwch na'r targed, neu o fewn 5% iddynt ar gyfer y flwyddyn.




**Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:**



Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd o fewn amser yn Wyrdd yn erbyn targed o 91%. Dyma'r perfformiad gorau yn ystod y bedair mlynedd ddiwethaf (79% yn 2021/22, 79% yn 2020/21 a 90% yn 2019/20).






canran yr achosion gorfodaeth cynllunio a archwiliwyd o fewn 84 diwrnod

Mae canran yr achosion gorfodaeth cynllunio a archwiliwyd o fewn 84 diwrnod hefyd wedi gwella (85%) o ran perfformiad, o gymharu â blynyddoedd blaenorol (84% yn 2021/22, 74% yn 2020/21 a 74% yn 2019/20). Mae hyn yn galonogol ac yn dangos fod y gwelliannau a weithredwyd gan staff y gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn gwneud gwahaniaeth i berfformiad.

| DPA | Perfformiad | CMG |
|---|---|---|
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | 96% | Gwyrdd |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | 63.47% | Melyn |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | 1 | Gwyrdd |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | 207kg | Gwyrdd |


Mae nifer o ddangosyddion rheoli gwastraff (Dangosydd 31, 33 a 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y flwyddyn. Roedd 96% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn lân rhag unrhyw wastraff, a dyma'r perfformiad gorau yn ystod y bedair mlynedd ddiwethaf (95.5% yn 2021/22, 92% yn 2020/21 a 93.79% yn 2019/20).





Mae'r tri dangosydd priffyrdd, sy'n gysylltiedig ag arolygon cyflwr ffyrdd A, B a C yr Ynys (dangosyddion 38 – 40), yn Wyrdd yn erbyn targedau ac wedi gwella o gymharu â 2021/22. Gellir gweld y gwelliant mwyaf yng nghyflwr ffyrdd A lle mai dim ond 2.6% oedd mewn cyflwr gwael yn 2022/23 o gymharu â 3% yn 2020/21 a 4.6% yn 2019/20. Roedd y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd, a oedd yn gyfuniad o gyllid cyfalaf a grantiau Llywodraeth Cymru, yn fanteisiol iawn i'r gwelliannau hyn.

| DPA | Perfformiad | CMG |
|---|---|---|
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | 2.6% | Gwyrdd |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | 2.6% | Gwyrdd |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | 7.6% | Gwyrdd |




Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn ystod y flwyddyn yw y canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 47% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn ddirywiad ar y perfformiad a welwyd yn 2021/22 (50%).

Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â nifer fechan o apeliadau cynllunio, a gall y nifer amrywio'n fawr o un chwarter i'r llall. Gwrthodwyd tri o'r pump apêl yn ystod y Ch4 gan olygu fod naw allan o'r deunaw o apeliadau wedi'u gwrthod yn ystod y flwyddyn.


Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau fod penderfyniadau cynllunio yn 'gadarn' ac yn ddilys, fodd bynnag nid oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar benderfyniad apêl. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl ar geisiadau tebyg i nodi a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n golygu bod angen dehongli ein polisïau'n wahanol.

DRAFT

## Dangosyddion Iechyd Corfforaethol

Wrth ddadansoddi'r dangosyddion iechyd corfforaethol (Pobl / Ariannol / Gofal Cwsmer) am y flwyddyn, braf yw cael nodi bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion (80%), y mae eu targedau wedi'u monitro, yn yr adran hon wedi perfformio'n dda yn erbyn targedau (Gwyrdd neu Felyn CAG). Mae rhai o'r uchafbwyntiau wedi'u nodi isod.


- Mae'r Cyngor wedi cyrraedd melyn yn erbyn ei ddangosydd perfformiad allweddol presenoldeb staff, gyda 9.15 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl), yn erbyn targed o 8.75 diwrnod wedi'u colli am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl). Mae hyn yn galonogol ac yn dangos ymrwymiad staff.




- Nid oedd y dangosyddion a gafodd eu monitro ar gyfer yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn tynnu sylw at unrhyw bryder sylweddol, gyda'r dangosydd yn perfformio'n dda yn erbyn targedau ar y cyfan.

- Roedd **cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol)** yn Goch, gyda pherfformiad o 70% yn erbyn targed o 80%. Trafodwyd 19 o'r 27 o gwynion a dderbyniwyd gyda'r achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith, ac roedd 6 o'r 8 ymateb ysgrifenedig hwyr wedi'u cytuno gyda'r achwynydd cyn iddynt gael eu nodi fel ymatebion hwyr, fel y nodir yn y protocol cwynion. Fodd bynnag, mae perfformiad o 70% yn gynnydd bychan ar y 66%, fel y gwelwyd ar ddiwedd 2021/22.

DRAFT




- Mae'r **% yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen** yn dangos fod 72% o'r ymatebion o fewn yr amserlen, yn erbyn targed o 80%. Yr her o 2023/24 ymlaen yw bod y targed yn codi i o leiaf 90%, ac argymhellir fod angen gwneud gwaith pellach i adnabod y mathau o geisiadau sy'n hwyr, pam bod cynnydd yn y ceisiadau, yn enwedig yn ystod Ch4, a lle ellir gwella ymatebion fel bo'r Cyngor mewn sefyllfa well i gyrraedd y targed.

- Mae'r **adran rheolaeth ariannol** yn rhagweld tanwariant o £1.212m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Croesewir y canlyniad hwn, ac mae'n gwella sefyllfa ariannol y Cyngor. 3.6 Mae tanwariant net wedi cyfrannu at gynnydd ym Malansau Cyffredinol y Cyngor, ac mae swm sylfaenol gwerth £10.2m ar gael, sydd £1.4m yn uwch na'r lleiafswm gwerth a argymhellwyd wrth symud ymlaen (5% o gyllideb refeniw net 2023/24).Mae'r sefyllfa ariannol alldro yn dangos galw parhaus am wasanaethau yn enwedig ym meysydd Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd. O ystyried yr argyfwng costau byw presennol, rhagwelir y bydd y pwysau hyn yn parhau yn 2023/24.

- Rhagwelir tanwariant o £13.477m ar y **Rhaglen Gyfalaf** yn 2022/23 a gallai'r swm lithro i Raglen Gyfalaf 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24.

- Mae'r cyfrifon refeniw a chyfalaf yn cael eu hystyried gan y Panel Sgriwtini Cyllid, a bydd unrhyw danwariant yn destun craffu trylwyr cyn cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar sail chwarterol.

**Mae'r perfformiad cyffredinol o fewn yr adran hon yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli pobl, cyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau ac i safon briodol. Mae hefyd yn darparu sail a thystiolaeth o ethos rheoli perfformiad da sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod y dangosyddion o'r safbwynt hwnnw, yn portreadu perfformiad boddhaol hefyd.**

DRAFT

Tudalen 69

## Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw

Pan gytunodd y Cyngor ar ei Gynllun Trosiannol yn ôl ym mis Rhagfyr 2021, roeddem ynghanol pandemig byd-eang. Roedd y Cynllun Trosiannol yn pennu'r paramedrau gweithredu ar gyfer swyddogion er mwyn iddynt allu cyflawni nifer o amcanion strategol allweddol wrth i'r ynys gael ei gwynt ati yn syth wedi'r pandemig.

Prin y gwyddem y byddai costau byw yn cynyddu'n sylweddol i bawb ac y byddai chwyddiant yn cynyddu i 11% ym mis Hydref 2022. Mae nifer o resymau am y cynnydd, fodd bynnag mae hanfodion pob dydd fel biliau bwyd a thanwydd aelwydydd wedi cynyddu'n gyflymach na'u hincwm cyfartalog. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu bod nifer o deuluoedd ac unigolion yn cael trafferth ymdopi â'r pwysau ariannol ychwanegol ac wedi arwain at gynnydd yn y galw ar wasanaethau'r Cyngor.

Darparodd Llywodraeth Cymru arian grant i ganiatáu'r Cyngor ddarparu cymorth i breswylwyr lleol a oedd yn wynebu anawsterau oherwydd yr argyfwng costau byw. Roedd modd defnyddio'r gronfa i ddarparu cymorth grant uniongyrchol i breswylwyr lleol, i ariannu'r gost o brynu offer a fyddai'n gostwng y costau yr oedd preswylwyr yn eu hwynebu yn ystod cyfnod y gaeaf, neu i ddarparu cyllid i sefydliadau lleol a oedd hefyd yn darparu cefnogaeth i breswylwyr lleol. Darparodd Llywodraeth Cymru swm o £585,163 ac roedd modd ychwanegu unrhyw danwariant o'r cynllun Costau Byw cenedlaethol at yr arian grant a dderbyniwyd hefyd. Roedd hyn yn golygu fod cyfanswm o £735,000 o gyllid ar gael.

Dyma rywfaint o'r cymorth a ddarparwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn:

- Derbyniodd **22,500** o breswylwyr daliad o £150
- Derbyniodd Gyn Aelodau o'r Lluoedd Arfog gyllid ychwanegol drwy'r SAAFA
- Cefnogwyd **290 o Aelwydydd** a oedd yn symud o lety dros dro
- Darparwyd cyllid ychwanegol i **327 o drigolion ac aelwydydd** a oedd, ar sail asesiad gan CAB Ynys Môn a Chanolfan J.E.O'Toole, yn wynebu caledi ariannol
- Cafodd **369 o becynnau effeithlonrwydd ynni** eu dosbarthu drwy'r rhaglen Croeso Cynnes i ostwng defnydd ynni
- Daeth **3,500 o bobl** i'r 420 o Sesiynau Croeso Cynnes a gynhaliwyd ledled ein cymunedau
- Derbyniodd Banc Fwyd Ynys Môn gyllid ychwanegol i ymorol am gostau staffio yn sgil yn y cynnydd yn y galw
- Derbyniodd y Samariaid gyllid ychwanegol i helpu pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl
- Derbyniodd **400 o aelwydydd** dalebau bwyd Nadolig i'w gwario mewn siopau lleol
- Darparwyd cymorth ariannol i Kidney Care Wales a'r Gymdeithas MS Society ar gyfer trigolion â chyflyrau meddygol difrifol a oedd yn wynebu cynnydd mewn costau gwresogi / trydan
- Darparwyd cyllid i Ddigartrefedd Ynys Môn, Cynefin, Wallich Clifford a Medrwn Môn sy'n darparu gwasanaeth hanfodol i drigolion fel rhan o'r grant Cymorth Tai
- Derbyniodd 2 gwmni olew lleol gyllid i gynorthwyo trigolion a oedd methu fforddio olew i wresogi eu cartref
- Darparwyd cyllid i Fenter Môn fel bod bwyd maethlon wedi'i wneud yn lleol ar gael mewn rhewgelloedd cymunedol lleol - cafodd oddeutu 4150 o brydau bwyd eu dosbarthu i 10 rhewgell gymunedol leol yn ystod 2022/23
- Darparwyd cymorth i rieni maeth i helpu gyda chostau tanwydd neu fwyd
- Derbyniodd y prosiect Bwyd Da Môn gyllid i ddarparu cymhorthdal i oddeutu **110 o drigolion**

DRAFT

## Perfformiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da ac wedi dangos ymrwymiad mewn sawl maes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r llwyddiannau nodedig yn cynnwys:

- adeiladu unedau busnes ym Mharc Bryn Cefni a'u rhoi ar osod;
- ymdrechion i gryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel 'Porth' rhyngwladol;
- sicrhau cyllid ar gyfer trawsnewid canol tref Caergybi drwy'r Gronfa Ffyniant Bro;
- canolfan ymwelwyr modern ym Mharc Gwledig y Morglawdd;
- mentrau plannu coed yng Ngwarchodfa Natur Nant y Pandy er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a meithrin ymdeimlad o stiwardiaeth amgylcheddol ymysg yr ifanc;
- gwella llwybrau cerdded a seiclo drwy'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol;
- y gwaith ar y cyd rhwng y Rhaglen Llunio Lleoedd a Medrwn Môn i arddangos sut y gall cymunedau greu ardaloedd annibynnol a gwydn;
- gwobr i'r fenter Cartrefi Clyd yng Ngwobrau Plant a Phobl Ifanc Nawr 2022;
- symud tua 130 o bobl o lety argyfwng a dros dro i gartrefi preifat neu gymdeithasol yn ystod y flwyddyn;
- adeiladu 38 o gartrefi effeithlon o ran ynni newydd gyda sgôr perfformiad A;
- agor safle newydd Ysgol Corn Hir a datblygu estyniad carbon sero net yn Ysgol y Graig.

Mae canlyniadau'r cerdyn sgorio hefyd yn dangos perfformiad da gyda 71% o'r dangosyddion yn wyrdd yn erbyn eu targed a 20% o fewn 5% i'w targed ar gyfer y flwyddyn. Er gwaetha'r perfformiad iach hwn rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwaith pellach, yn enwedig mewn perthynas â'r dangosyddion sydd yn Ambr neu Goch ar gyfer y flwyddyn yn ogystal â'r dangosyddion sy'n dangos gostyngiad mewn perfformiad o un flwyddyn i'r llall (47%). Gwneir pob ymdrech yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i wella'r dangosyddion sy'n tanberfformio yn ogystal â gwella a chynnal ein perfformiad da.  Byddwn yn parhau i fonitro'r ymdrechion hyn pob chwarter drwy'r Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei oruchwylion gan y Tîm Arweinyddiaeth a'i graffu gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol drwy gydol y flwyddyn.

Wrth edrych at y dyfodol, bydd Cynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2023-2028 yn ceisio adeiladu ar y gwaith da a gwblhawyd o ran gweithredu Cynllun blaenorol y Cyngor a'r Cynllun Trawsnewid. Datblygwyd y Cynllun gan ddefnyddio barn pobl leol, partneriaid, blaenoriaethau gwleidyddol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r gwaith wedi nodi'r chwe blaenoriaeth strategol allweddol a ganlyn y bydd y Cyngor yn ceisio'u datblygu dros y 5 mlynedd nesaf -

DRAFT

**Yr Iaith Gymraeg**
Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**
Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

**Addysg**
Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

**Tai**
Sicrhau fod gan bawb yr haw li alw rhywle'n gartref

**Economi**
Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys

**Newid Hinsawdd**
Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn manylu ar y gwaith fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2023/24 i gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028. Caiff hyn ei wneud a'i wireddu trwy gydweithio a chydnabyddir y bydd gweithgareddau o ddydd i ddydd y Cyngor yn cael eu cyflawni hefyd.

Bydd holl staff rheng flaen a staff cefnogi'r cyngor yn rhan annatod o'r gwaith o wireddu'r ddogfen hon yn llwyddiannus a byddem yn defnyddio gwerthoedd y cyngor i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, y cynlluniau strategol a'r gwasanaethau.

**Parch / Respect**
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf in gwahaniaethau

**Gonestrwydd / Honesty**
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

**Cydweithio / Collaborate**
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn

**Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys / Champion the Council and the Island**
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

DRAFT

This page is intentionally left blank

| Isle of Anglesey County Council | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 MEDI 2023** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2023/24** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES OWEN – RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFRIFYDDIAETH**<br>01248 752663<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.LLYW.CYMRU |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau

**1.** Ar 9 Mawrth 2023, gosododd y Cyngor gyllideb net am 2023/24 gyda gwariant gwasanaeth net o £174.569m, i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, trethi annomestig a grantiau cyffredinol, yn ogystal â £3.780m o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £3.109m ar gyfer eitemau cyffredinol ac argyfyngau eraill. Cynyddwyd y gyllideb o £0.943m, i £2.893m ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda chynnydd o 5.00% yn y Dreth Gyngor - cynnydd y cytunwyd arno.

**2.** Fel gyda'r flwyddyn flaenorol, nid yw cyllideb 2023/24 yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau wneud arbedion.

Yn yr adroddiad hwn, nodir perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, 30 Mehefin 2023. Mae'r sefyllfa ragamcanol ar gyfer y flwyddyn gyfan hefyd wedi'i chrynhoi. Dylid nodi ei bod yn anodd rhagweld sefyllfa derfynol ddiwedd blwyddyn ar ddiwedd chwarter 1, ac y gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i ni symud ymlaen drwy weddill y flwyddyn ariannol. Am 2023/24, mae rhagweld sefyllfa derfynol ddiwedd blwyddyn hyd yn oed yn anoddach oherwydd chwyddiant cynyddol, y ffaith nad oes cytundeb eto ar ddyfarniadau cyflog staff am 2023/24 a'r effaith y bydd yr argyfwng costau byw yn ei chael ar y galw am wasanaethau'r Cyngor. Nid yw'r sefyllfa amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn ystyried y dyfarniadau cyflog arfaethedig ar gyfer athrawon (o fis Medi 2023) a staff eraill (wedi'u hôl-ddyddio i Ebrill 2023). Unwaith y bydd y costau hyn yn hysbys, cânt eu cynnwys yn rhagamcanion y dyfodol. Yn y gyllideb, ceir swm wrth gefn o £2m i gyllido dyfarniad cyflog yr NJC, uwchlaw'r swm sydd wedi'i gynnwys yng nghyllidebau'r gwasanaeth. At hyn, mae cronfa wrth gefn clustnodedig o £3.177m wedi'i chreu i ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â phwysau'r chwyddiant hwn, ond, efallai na fydd yn ddigon i gyllido'r holl gostau ychwanegol y bydd gofyn i'r Cyngor eu talu dros y misoedd nesaf.

**3.** At hyn, nid yw'r ffigyrau hyn yn ystyried pwysau'r gaeaf. Yn hanesyddol, mae pwysau'r gaeaf i'w gweld yn y gwasanaethau Priffyrdd ac Oedolion a gall fod yn anodd mesur maint llawn y costau ychwanegol y gellid eu hysgwyddo mor fuan a hyn yn y flwyddyn ariannol. Byddir yn nodi maint llawn y rhagolygon a'r costau yn adroddiadau chwarter 3 a chwarter 4 yn y drefn honno.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir yn 2023/24, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £0.744m. Mae hyn yn 0.43% o gyllideb net y Cyngor am 2023/24.

**5.** Argymhellir:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir am 2023/24;
**(ii)** Nodi crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn am 2023/24, y manylir arnynt yn Atodiad C;
**(iii)** Nodi monitro costau asiantaethau ac ymgynghoriadau am 2023/24 yn Atodiadau CH a D.

| B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| Amherthnasol |

| C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| Dirprwyir y mater hwn i'r Pwyllgor Gwaith |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydyw |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Ydyw |

| **Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):** | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | At ddibenion monitro'n unig mae'r adroddiad ac fe'i defnyddir ynghyd ag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Wrth osod y gyllideb flynyddol, asesir yr effaith ar anghenion tymor hir yr Ynys. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy. | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut. | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2023/24 a byddwn yn ymgynghori â nhw ar gyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| | **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth Oedd eu Sylwadau** |
| --- | --- | --- |
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (mandadol) | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 4 Medi 2023 ac mae'r sylwadau a wnaed wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Caffael** | Amherthnasol |
| 8 | **Sgriwtini** | Adolygwyd y sefyllfa ariannol ddiwedd chwarter 1 gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 7 Medi 2023. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |

## F - Atodiadau:

- Atodiad A – Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro am 2023/24
- Atodiad B - Tabl o Alldro Dros Dro 2023/24
- Atodiad C - Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau Wrth Gefn am 2023/24
- Atodiad CH – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2023/24
- Atodiad D - Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2023/24

## Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Cyllideb Refeniw 2023/24 (fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2023 ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2023).

**ATODIAD A**

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1

### 1. Balans Cyffredinol

Roedd Cronfa'r Cyngor yn dal gwerth £19.637m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyfanswm o £6.716m o gronfeydd wrth gefn ysgolion ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft am 2022/23 at falans cyffredinol o £13.967m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd hyn yn welliant ar y balans agoriadol am y flwyddyn flaenorol, 2021/22, lle'r oedd y balans cyffredinol yn £12.278m. Cyfrannodd y tanwariant drafft o £1.212m at hyn a'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, megis dychwelyd arian wrth gefn clustnodedig. Fodd bynnag, gall hyn newid gydag unrhyw addasiadau ôl-archwiliad.

Mae sefyllfa'r balansau cyffredinol ar ddiwedd y chwarter fel a ganlyn:-

| Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol Drafft | (13.967) | Cronfa wrth gefn gyffredinol ddrafft wedi'i harchwilio, ar 31 Mawrth 2023 |
| Gosod Cyllideb 2023/24 cytunwyd ym mis Mawrth 2023 | 3.780 | |
| **Balans Cyffredinol Ddiwygiedig Cronfa'r Cyngor** | **(10.187)** | **Fel y soniwyd uchod, gall hyn newid yn dilyn unrhyw addasiadau ôl-archwiliad.** |

Yr alldro a ragwelir ar hyn o bryd am 2023/24 yw gorwariant amcangyfrifedig o £0.744m. Os yw'r rhagolwg hwn yn gywir, byddai Balans Cyffredinol y Cyngor yn gostwng i £9.593m erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n cymharu â'r lefel isaf o £8.73m, sy'n cyfateb i 5% o gyllideb refeniw net 2023/24.

Gosodwyd cyllideb 2023/24 cyn setliad yn y dyfarniad cyflog am 2023/24 i staff nad ydynt yn addysgu. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes cytundeb wedi bod ar y dyfarniad am 2023/24 i staff nad ydynt yn addysgu. Wrth osod y gyllideb, cafodd swm wrth gefn o £2m ei gynnwys yn y gyllideb i dalu am y gost ychwanegol bosibl rhwng y swm a ganiateir yn y gyllideb ddrafft a chynnig cyflog y Cyflogwr. Yn ogystal, crëwyd cronfa wrth gefn o £3.177m, i ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â chostau unrhyw setliad cyflog uwch na'r hyn a osodwyd yn y gyllideb. Gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn hon hefyd i gwrdd ag unrhyw gynnydd mewn pwysau costau oherwydd chwyddiant uchel.

Os nad oes digon yn y gronfa wrth gefn, mae'n debygol o olygu y bydd y Cyngor yn cynyddu'r gorwariant a ragwelir yn ei gyllideb refeniw net yn 2023/24 a bydd yn rhaid ariannu unrhyw orwariant o falansau cyffredinol y Cyngor. Yn seiliedig ar y rhagolwg presennol bydd y gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn ddigon i ariannu'r gorwariant a ragwelir ac ni fydd y gost yn disgyn ar falansau cyffredinol y Cyngor.

### 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r sefyllfa alldro a ragwelir ar gyfer pob un wedi'u nodi yn Atodiad B. Rhagwelir y bydd gorwariant o £0.902m ar wasanaethau hyd at 31 Mawrth 2024. Amcangyfrifir tanwariant o £0.082m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir y bydd £0.273m yn llai o incwm ar ddebyd y Dreth Gyngor safonol, gyda £0.349m yn fwy o incwm ar bremiwm y Dreth Gyngor. Y rhagolwg o ran cyfanswm y refeniw presennol am 2022/23 yw tanwariant o £0.744m, sy'n cyfateb i 0.43% o gyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiannau sylweddol (tua £100k neu uwch):-

**Tabl 1**

| **Gwasanaeth** | **(Tan) / Gorwariant £'000** | **%** |
|---|---|---|
| Addysg Ganolog | (135) | (2.50) |
| Oedolion | 1,531 | 4.37 |
| Gwasanaeth Plant | 648 | 5.01 |
| Gwastraff | (490) | (4.75) |
| Priffyrdd | (345) | (4.36) |
| Eiddo | (100) | (6.46) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (155) | (5.79) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (511) | (15.51) |
| Costau na ellir eu rheoli ac na gyllidebwyd ar eu cyfer - yswiriant, costau pensiwn cyfalaf a dyledion drwg | 400 | 0 |
| Arall (cyfanswm yr amrywiannau yn llai na £100k) | (23) | (0.02) |
| **Cyfanswm yr amrywiad rhwng y gor / (tan)wariant (ac eithrio cyllid)** | **(820)** | **(0.35)** |

## 3. Eglurhad o'r Gwahaniaethau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllideb Datganoledig Ysgolion

Unwaith y bydd y Cyngor yn gosod y gyllideb ar gyfer ysgolion, caiff cyfrifoldeb am y gyllideb ei ddatganoli i'r ysgolion a chedwir tan neu orwariant blynyddol yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion unigol. Mae balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion bellach yn £6.716m, o gymharu â £7.827m ar 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, cafodd ysgolion grantiau yn y blynyddoedd ariannol blaenorol i ymdrin ag effaith y pandemig. Dros y flwyddyn ariannol hon, mae ysgolion yn dychwelyd i drefn arferol a rhagwelir y bydd balansau ysgolion yn disgyn yn sylweddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. Mae ysgolion wedi amcangyfrif y bydd £2.82m o falansau'n cael eu defnyddio i fantoli'r gyllideb refeniw yn 2023/24.

**Addysg Ganolog**

**3.1.2** Roedd tanwariant o £23k (1.86%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 1. Y rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yw tanwariant o £135k (2.50%). Mae llawer o'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan alw.

**3.1.3** Mae'r Gwasanaeth yn gor a thanwario ar sawl achlysur. Rhestrir y rhai mwyaf sylweddol isod:-

- Cludiant Ysgol (Tacsis a Bysiau) – rhagwelir tanwariant o £76k. Mae hyn yn cynnwys tanwariant o £149k ar gontractau tacsis a gorwariant o £73k ar gytundebau bysiau ysgol. Y prif ffactor sy'n cyfrannu at y tanwariant ar y tacsis ysgol yw bod y cytundebau wedi mynd trwy ymarfer tendro yn y flwyddyn ariannol flaenorol, gyda rhai cytundebau yn dod yn ôl gyda phris gostyngol. Bryd arall, roedd rhai llwybrau yn cael eu terfynu. Yn ogystal, aeth rhai contractau bysiau ysgol allan i ail dendr yn 2022/23, gyda llwybrau ychwanegol yn cael eu hychwanegu. Arweiniodd hyn at gost gyffredinol uwch na chyda'r contractau blaenorol.

- Bu llai o alw ar y gyllideb lleoliadau allsirol yn 2022/23 ac mae hyn wedi parhau i mewn i 2023/24, a rhagwelir tanwariant o £71k. Wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi ac i flwyddyn academaidd newydd ddechrau efallai y bydd nifer y plant sydd angen lleoliadau allsirol yn dechrau codi - rhywbeth fydd yn cael effaith ar y tanwariant a ragwelir, ond cedwir cronfa wrth gefn wedi'i clustnodedig o £500k i gwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt o ganlyniad i gynnydd yn y galw.

- Rhagwelir y bydd y targed incwm ar gyfer y Clwb Gofal Plant £65k yn llai. Unwaith eto, mae’r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw ac nid yw’r niferoedd sy’n mynd i’r clybiau wedi dychwelyd i lefelau cyn-pandemig.

- Rhagwelir tanwariant o £85k ar weddill y gyllideb Addysg Ganolog. Mae hyn, yn rhannol (£48k), oherwydd dwy swydd wag, gydag un ohonynt wedi'i llenwi ers hynny. Rhagwelir, hefyd, y bydd y cyllid cyfatebol sydd ei angen ar gyfer y Grant Gwella Addysg (EIG) yn llai na'r hyn a gyllidebwyd, gan greu tanwariant o £37k.

**3.1.4 Diwylliant**

**3.1.4.1** Roedd y gwasanaeth hwn wedi tanwario £11k (2.92%) yn ystod y cyfnod, a'r hyn a ragwelir ar gyfer alldro yw gorwariant o £46k (3.39%). Oriel Môn yw'r prif faes sy'n peri pryder gyda gorwariant rhagamcanol o £130k. Mae'r gostyngiad yng nghyfraniad Y Gymdeithas i £32.5k y flwyddyn, gwerthiant yn y siop heb gyrraedd y targed a gwaith cynnal a chadw ychwanegol wedi'i gynllunio ar gyfer yr adeilad, oll wedi cyfrannu at y rhagolwg hwn. Mae'r gwasanaeth Llyfrgelloedd yn rhagweld tanwariant o £59k ar alldro. Y rheswm pennaf am hyn yw swyddi gweigion a pheidio â defnyddio'r holl gyllidebau staffio achlysurol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yr alldro ar y gwasanaeth Archifau yn £25k ond bydd hyn yn newid, gan ddibynnu ar bryd y ceir yr ailstrwythuro arfaethedig.

**3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion**

**3.2.1** Roedd gorwariant o £728k (10.42%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £1.531m (4.37%) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**3.2.2** Dangosir yr elfennau o fewn yr amrywiant alldro yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**

**Dadansoddiad o'r Rhagolwg Sefyllfa Diwedd Blwyddyn 2023/24 yn y Gwasanaethau Oedolion.**

| Gwasanaeth | Dadansoddiad o’r Gwariant / Incwm | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Preswyl | Nyrsio | Gofal Cartref | Gofal Dydd | Llety â Chefnogaeth | Staffio | Arall | Grantiau a Ddefnyddiwyd | CYFANSWM |
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| Yr Henoed | 454 | (120) | 113 | 0 | 0 | 52 | (32) | 0 | **467** |
| Anableddau Corfforol | 577 | 0 | 254 | 0 | 0 | 0 | 17 | (332) | **516** |
| Anableddau Dysgu | 249 | 0 | 36 | 120 | 904 | 0 | (89) | (476) | **744** |
| Iechyd Meddwl | 389 | 0 | 44 | 0 | 93 | (52) | 7 | (332) | **149** |
| Uned Ddarparu – Staffio | 352 | 0 | (666) | (158) | (43) | 0 | (14) | 0 | **(529)** |
| Uned Ddarparu - Incwm | 216 | 0 | 0 | 82 | 0 | 0 | 0 | 0 | **298** |
| Rheoli a Chefnogi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (114) | 0 | 0 | **(114)** |
| **CYFANSWM** | **2,237** | **(120)** | **(219)** | **44** | **954** | **(114)** | **(111)** | **(1,140)** | **1,531** |

**3.2.3** Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant i'w briodoli i'r galw cynyddol am nifer uchel y llwyth achosion cost isel (Henoed) a nifer isel y llwyth achosion cost uchel (anableddau dysgu, anableddau corfforol ac iechyd meddwl). Gall nifer yr achosion amrywio'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ac mae'r niferoedd yn anodd eu rhagweld a'u rheoli.

**3.2.4** Cynorthwyir y sefyllfa a ragwelir trwy ddefnyddio'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig. Heb y cyllid ychwanegol hwn, byddai'r gorwariant a ragwelir rhwng £2.5m a £3.0m. Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol o'r straen y mae'r sefyllfa ariannol yn ei roi ar y Cyngor, ac mae’n gweithio i leihau pecynnau gofal i'r isafswm statudol. Mae, hefyd, yn gweithio i wella prosesau casglu incwm er mwyn cael cymaint o incwm â phosibl. Mae rhagor o waith wedi'i gynllunio, hefyd, i resymoli a moderneiddio gwaith darparu gwasanaethau gofal dydd a llety â chefnogaeth.

**3.3 Gwasanaethau Plant**

**3.3.1** Mae’r gwasanaeth wedi gorwario £453k (11.87%) am y cyfnod ond, fodd bynnag, rhagwelir y bydd wedi gorwario £648k (5.01%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.3.2** Bu gorwariant o £247k ar y gyllideb Plant sy’n Derbyn Gofal hyd at gyfnod 3, fodd bynnag, rhagwelir ar hyn o bryd,y bydd gorwariant o £680k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r £680k yn cynnwys £482k o leoliadau Allsirol. Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth 14 sy’n cyfateb i amser llawn o Leoliadau Allsirol cost uchel, nifer isel, gyda chost wythnosol gyfartalog, net o incwm trydydd parti gan Iechyd ac Addysg, o £4.61k yr wythnos (£240k y flwyddyn). Mae hyn yn cymharu â 13.75 sy’n cyfateb i lawn amser yn 2022/23, gyda chost wythnosol gyfartalog o £5.45k (£284k y flwyddyn). Rhagwelir y bydd lleoliadau Gofal Maeth yn gorwario £130k a Gwarcheidiaeth Arbennig £68k.

**3.3.3** Mae disgwyl i’r gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd orwario £124k. Daw hyn yn sgil y cynllun ‘Pan Fydda i’n Barod’.

**3.3.4** Rhagwelir tanwariant o £87k ar Gymorth Integredig i Deuluoedd, rhagwelir hefyd danwariant o £60k gan y gwasanaethau Ieuenctid, ac mae'r tîm Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol hefyd yn disgwyl tanwariant o £160k ar alldro. Swyddi gwag yw’r prif reswm am hyn.

**3.3.5** Rhagwelir gorwariant o £76k ar y gyllideb Plant ag Anableddau. Mae hyn yn bennaf yn ymwneud â chleientiaid Taliad Uniongyrchol.

**3.3.6** Rhagwelir gorwariant o £59k ar y gwasanaeth Plant a Theuluoedd Eraill. Ffïoedd cyfreithiol yw’r prif bwysau yn fanno.

**3.4 Tai (Cronfa’r Cyngor)**

**3.4.1** Rhagwelir y bydd gorwariant o £82k (5.16%) ar y gwasanaeth hwn ar alldro. Rhagwelir y bydd Gweinyddiaeth Tai yn gorwario £123k oherwydd methiant i gael yr holl incwm o ad-daliadau, sy'n cael ei wrthbwyso gan danwariant ar nifer o gyllidebau eraill. Rhagwelir y bydd digartrefedd yn gorwario £80k, ar ôl caniatáu am gyllid grant ychwanegol o £395k gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, caiff y gorwariant hwn ei gyllido o'r gyllideb gyfredol a chronfa wrth gefn glustnodedig benodol o £325k. Caiff y gyllideb ei harwain gan alw ac anodd, ar hyn o bryd, yw rhoi rhagolwg cywir, ond credir y bydd y gronfa wrth gefn clustnodedig yn ddigon i gwrdd ag unrhyw gynnydd yn y galw rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol.

**3.4.2** Mae digartrefedd ac atal digartrefedd yn faes sy'n peri pryder nid yn unig i Ynys Môn, ond i holl Gynghorau Cymru, gyda galw na welwyd mo’i debyg o’r blaen ar y gwasanaethau. Yn 2022/23, cynyddodd nifer y cyfeiriadau digartrefedd 205 (30%) ac mae lefel y cyfeiriadau yn chwarter cyntaf 2023/24 yn debyg i chwarter cyntaf 2022/23. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda Chymdeithasau Tai a landlordiaid preifat i gynyddu nifer yr unedau sydd ar gael fel llety. Byddai hyn yn lleihau'r ddibyniaeth ar lety gwely a brecwast ac yn lleihau cost llety dyddiol rhwng 60% a 75%. Mae 30 o unedau ychwanegol wedi'u nodi ac ar gael fel llety yn lle sefydliadau gwely a brecwast, ac mae'n bosibl y bydd defnyddio'r unedau ychwanegol hyn yn lleihau costau £400k, o gymharu â defnyddio llety gwely a brecwast.

### 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

#### 3.5.1 Economaidd a'r Gymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, bu tanwariant o £118k (1.57%) yn y gwasanaeth am y cyfnod. Rhagwelir y bydd y Gwasanaeth wedi gorwario £12k (5.19%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.5.1.2** Mae disgwyl i elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth fod wedi gorwario £27k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd nad yw'r targed incwm o £72k ar gyfer staffio i brosiectau fel Wylfa Newydd a'r Grid Cenedlaethol bellach yn gyrraeddadwy. Rhagwelir y bydd nifer o swyddi gweigion yn arwain at danwariant o £92k. Y pwysau eraill yn yr adain yw cyfleusterau'r ganolfan, dylunio graffeg a chyllidebau tanysgrifio sydd, gyda'i gilydd, yn debygol o orwario hyd at £32k.

**3.5.1.3** Rhagwelir y bydd tanwariant o £67k yn yr adain Cyrchfan erbyn diwedd y flwyddyn. Y disgwyl eto yw y bydd niferoedd ymwelwyr yn is na 2021 a 2022, a bydd hyn yn lleihau incwm, ond nid i lefel sy'n creu unrhyw bryderon ariannol sylweddol. Sgil-effaith nifer lai o dwristiaid yw'r angen am staff tymhorol yn gynnar yn y tymor ac, ar hyn o bryd, mae'r rhain yn tanwario. Bydd darlun llawn o'r cyllidebau yn gliriach yn adroddiad yr ail chwarter, pan ddaw'r prif dymor twristiaeth i ben.

**3.5.1.4** Mae'r adain Hamdden, ar hyn o bryd, yn rhagweld gorwariant o £52k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae aelodau'r Ganolfan Hamdden sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol wedi dychwelyd i lefelau cyn-bandemig ac wedi gwella o gymharu â'r adeg hon y llynedd, ond mae'n annhebygol o gyrraedd targed y gyllideb. Mae yna fân bethau eraill yn yr adran sy'n gor a thanwario ac, felly, yn digolledu pethau.

.

#### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Mae'r gwasanaeth hwn wedi tanwario £168k (25.32%) am y cyfnod, a rhagwelir y bydd tanwariant o £155k (5.79%) ar alldro.

**3.5.2.2** Mae gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn rhagweld tanwariant o £75k ar alldro, mewn tri maes yn bennaf, Iechyd Anifeiliaid £13k, Iechyd yr Amgylchedd £52k a Safonau Masnach £17k. Canlyniadau amrywiannau o fewn cyllidebau staffio yw'r rhain.

**3.5.2.3** Y disgwyl yw y bydd tanwariant o £80k yn y Gwasanaeth Cynllunio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae incwm ffïoedd Cynllunio ar ei hôl hi a rhagwelir y bydd £40k yn llai yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae incwm y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn uwch na'i dargedau incwm ac, o ystyried hyn a swydd wag o fewn y Gwasanaeth, mae'n esgor at ragolwg o danwariant o £23k. Mae'r Uned Polisi Cynllunio, ar hyn o bryd, yn rhagweld tanwariant o £53k. Daw hyn yn sgil cyfuniad o dair swydd wag lle maent yn ceisio recriwtio a £17k ar gostau rhedeg cyffredinol. Mae'r Tîm Gweithredu a Chadwraeth yn rhagweld tanwariant o £33k, oherwydd bod swydd yn cael ei secondio i adain arall.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd y gwasanaeth hwn wedi tanwario £16k (0.95%) am y cyfnod. Y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £345k (4.36%). Rhagwelir y bydd tanwariant yn y rhan fwyaf o'r adeiniau Priffyrdd ar ddiwedd y flwyddyn. Y mwyaf nodedig yw Gwaith Stryd £240k, fydd yn sgil incwm gormodol. Mae disgwyl y bydd Trafnidiaeth Gyhoeddus wedi tanwario £50k oherwydd amryw o achosion bychan o danwario. Mae Cludiant Cymunedol Môn hefyd yn rhagweld tanwariant o tua £45k oherwydd bod yno lai o staff, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar sut i gyflwyno'r gwasanaeth yn fwy effeithlon. Fodd bynnag, mae disgwyl i'r gyllideb gwaith orwario £90k erbyn diwedd y flwyddyn. Rhan o'r rheswm am hyn yw canlyniad uniongyrchol yr economi, lle mae prisiau'n cynyddu a chyflenwyr yn trosglwyddo'r prisiau hynny i'r Awdurdod. Nid yw'r rhagolwg hwn yn cynnwys costau cynnal a chadw'r gaeaf gan ei bod yn rhy gynnar yn y flwyddyn i ragweld yr alldro ar y costau hyn. Gallai unrhyw gostau gaeaf sylweddol waethygu'r alldro amcangyfrifedig y chwarter hwn, er bod cronfa wrth gefn clustnodedig i liniaru'r risg os bydd y costau'n codi'n sylweddol yn ystod y gaeaf.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Bu tanwariant o £97k (6.20%) yn y Gwasanaeth Gwastraff am y cyfnod, a rhagwelir y bydd gan y gwasanaeth alldro o danwariant o £490k (4.75%).

**3.6.2.2** Mae'r rhagolygon am ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys gor a thanwario sy'n digolledu mewn gwahanol adeiniau o'r Gwasanaeth. Mae'r codiadau chwyddiannol i'r contract Casglu Gwastraff yn seiliedig ar fynegeion chwyddiant y diwydiant. Pan osodwyd y gyllideb, roedd y mynegeion hyn yn rhai dros dro. Roedd y mynegeion terfynol yn is na'r rhai dros dro ac mae hyn wedi arwain at adolygu cyfraddau contract am i lawr, gan arwain at gynhyrchu tanwariant a ragwelir o £440k. Parhau'n gryf mae incwm o'r gwasanaeth gwastraff gardd gwyrdd, prynu biniau du newydd ac incwm o gasglu gwastraff swmpus, ac mae disgwyl iddo fod yn fwy na'r gyllideb unwaith eto.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Sefyllfa'r gwasanaeth am y cyfnod yw tanwariant o £23k (2.45%), a rhagwelir y byddir wedi tanwario £100k (6.46%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.6.3.2** Mae'r sefyllfa ar gyfer nifer o benawdau cyllideb yn amrywio, gyda rhai yn dangos gorwariant ac eraill danwariant. Fodd bynnag, mae'r prif danwariant yn ymwneud ag ailstrwythuro adrannol yn y Tîm Gwasanaethau Eiddo, a arweiniodd at swyddi gwag yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ariannol, gan greu tanwariant o £60k. Mae swyddi gwag yn y Gwasanaeth Glanhau hefyd wedi arwain at ragolwg o danwariant o £69k.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Gorwariodd y Gwasanaeth Trawsnewid £289k ar ei gyllideb ar ddiwedd y cyfnod, fodd bynnag, fe ddylai'r sefyllfa dros weddill y flwyddyn ariannol wella a rhagwelir y bydd y Gwasanaeth yn tanwario £53k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**3.7.1.1** Roedd y swyddogaeth Adnoddau Dynol (AD) wedi gorwario £49k (11.29%) am y cyfnod, a rhagwelir y byddai wedi gorwario £21k (1.31%) erbyn diwedd y flwyddyn. Pan osodir cyllidebau staffio, mae disgwyl y bydd staff yn gadael a swyddi yn wag yn ystod y broses recriwtio. O'r herwydd, nid yw'r gyllideb staffio yn cyllido 100% o'r holl gostau. Mewn gwasanaethau llai, lle mae trosiant staff yn isel, gall hyn arwain at orwario ar gyllidebau staffio, a dyma'r disgwyl ar gyfer y swyddogaeth AD, er gall hyn newid dros weddill y flwyddyn os bydd staff yn gadael eu swyddi presennol. Bydd y gorwariant o £31k a ragwelir yn cael ei wrthbwyso gan danwariant a ragwelir o £10k ar hyfforddiant canolog.

**3.7.1.2** Roedd gorwariant o £260k (12.97%) yn yr adain TGCh am y cyfnod, fodd bynnag, y rhagolwg ar gyfer alldro yw tanwariant o £30k (0.71%). Mae'r holl gyllidebau meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, ac eithrio ysgolion, wedi'u canoli ac maent bellach yn cael eu rheoli yn yr adain TGCh. Y duedd yw talu costau meddalwedd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, a bydd unrhyw gynnydd mewn costau uwchlaw'r gyllideb yn golygu y bydd y gorwariant o £277k yn disgyn yn bennaf yn y chwarter cyntaf. Mae swyddi'n parhau'n wag yn y Gwasanaeth, a bydd yr arbedion o'r swyddi gweigion hyn yn parhau drwy'r ail chwarter a thu hwnt. Roedd yr arbedion hyn yn gwrthbwyso'r costau meddalwedd uwch.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £20k (17.13%) yn yr Adain Trawsnewid Corfforaethol am y cyfnod, ac mae disgwyl tanwariant o £44k (5.75%) ar ddiwedd y flwyddyn. Daw hyn yn sgil tanwario ar gostau cyflog. Nid oes disgwyl defnyddio’r holl gyllideb ar gyfer Panel Perfformiad Cymru yn ystod y flwyddyn, felly, y rhagolwg ar hyn o bryd yw tanwariant o £35k.

**3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddir)**

**3.8.1** Mae £229k (22.23%) wedi’i orwario ar gyllideb y swyddogaeth Adnoddau am y cyfnod, gyda'r rhagolygon y byddir yn tanwario £32k (0.85%) ar alldro.

**3.8.2** Mae mwyafrif y costau yn y Gwasanaeth yn ymwneud â staff ac mae rhai swyddi gweigion (Archwilio Mewnol, y Dreth Gyngor a Budd-daliadau) yn cael eu llenwi dros dro gan staff asiantaeth, er mwyn sicrhau gwasanaeth parhaus ac ymdrin ag ôl-groniadau sydd wedi codi o'r llwyth gwaith cynyddol (grantiau costau byw, taliadau prydau ysgol am ddim). Rhagwelir tanwariant o £94k yn y cyllidebau staffio ond byddir yn gwario £163k ar staff asiantaeth, er bod £86k o'r costau hyn yn cael eu cyllido gan grantiau allanol. Y disgwyl yw y bydd yr Adain Gaffael yn tanwario £42k oherwydd ffyrdd o brynu, h.y. cyllidebau pwrcasu canolog ac ad-daliadau cardiau caffael. Rheswm arall am y tanwariant yw y bydd llai o alw am wariant penodol a ddaw dan y cyllidebau caffael canolog yn sgil y cynnydd mewn gweithio gartref (papur, llungopiwyr, deunydd ysgrifennu, dodrefn).

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd y swyddogaeth wedi gorwario £22k (4.39%) am y cyfnod, gyda'r rhagolwg y byddir yn tanwario £11k (0.55%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.9.2** Mae disgwyl y bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol wedi gorwario £24k erbyn diwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd staff asiantaethau cyfreithiol a gyflogir i lenwi swyddi gwag / gweithio yn ystod absenoldebau a dim cyllideb ar gyfer swydd undeb llafur. Rhagwelir y bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn tanwario £35k, yn bennaf oherwydd swyddi gweigion o fewn yr adain.

**3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd y swyddogaeth wedi mantoli'r gyllideb am y cyfnod, a'r sefyllfa ddiwedd blwyddyn a ragwelir yw tanwariant o £511k (15.51%).

**3.10.2** Mae Cefnogaeth a Threuliau Aelodau yn rhagweld tanwariant o £14k.

**3.10.3** At ei gilydd, mae'r cyllidebau corfforaethol yn dangos tanwariant o £511k. Caiff cyllideb eilaidd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr CPLlL ei dal dan y gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd yn y lle cyntaf, a'i rhyddhau i gyllidebau'r Gwasanaeth wrth i gyfraniadau gael eu talu. Y rhagolwg presennol yw y bydd costau cyfraniad y cyflogwr eilaidd £636k yn is na’r gyllideb, ond bydd hyn yn gostwng unwaith y bydd y dyfarniad cyflog wedi’i setlo a staff yn derbyn eu tâl uwch wedi ei ôl-ddyddio i Ebrill 2023.

**3.10.4** Rhagwelir gorwariant o £32k ar Gwnsela Staff, yn seiliedig ar ffigyrau cyfredol. Cyllideb sy'n cael ei harwain gan alw yw hon, felly, bydd y ffigwr yn amrywio ar sail angen. Mae disgwyl, hefyd, y bydd gorwariant ar ffïoedd Archwilio a ffioedd Crwneriaid, hefyd, o £43k a £55k yn y drefn honno.

**3.11 Rheolaeth Gorfforaethol**

**3.11.1** Roedd y swyddogaeth wedi gorwario £11k (5.29%) yn ystod y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £15k (1.95%) ar alldro. Digwydd hyn eto oherwydd nad yw costau staff wedi eu cyllidebu 100% ac, o gofio nifer fechan y staff a gyllidir o'r gyllideb hon, mae'n fwy tebygol na fydd unrhyw swyddi gweigion yn codi yn ystod y flwyddyn ac y deuai gorwariant yn sgil hynny.

## 4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddir)

**4.1** Mae disgwyl i Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a Roddir, weld tanwariant o £82k erbyn diwedd y flwyddyn.

**4.2** Roedd y gyllideb am 2023/24 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog yn gyllidebau wrth gefn; cyfanswm y rhain oedd £4,265k. Bydd mwyafrif y cyllidebau hyn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae Atodiad C yn rhoi crynodeb o'r gyllideb wrth gefn. Dengys hyn bod £214k eisoes wedi'i drosglwyddo i gyllidebau a gymeradwywyd.

**4.3** Mae i'r gyllideb cyllido cyfalaf dair elfen: y swm a neilltuwyd ar gyfer ad-daliadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf - MRP), llog taladwy ar fenthyciadau heb eu talu a llog a dderbyniwyd ar falansau arian parod a ddelir yng nghyfrifon banc y Cyngor a buddsoddiadau eraill. Oherwydd oedi mewn prosiectau cyfalaf, yn enwedig yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, roedd llai o ofyn i fenthyca sydd, yn ei dro, wedi arwain at lai o MRP a chostau llog. Mae'r Cyngor wedi elwa o'r cynnydd mewn cyfraddau llog, gyda buddsoddiadau'n cynhyrchu symiau sylweddol o incwm llog, a rhagwelir y bydd cyfanswm y llog a dderbynnir yn fwy na'r gyllideb o £1m. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y gyllideb Cyllido Cyfalaf yn tanwario £70k.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Pennir cyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r ddyled gasgladwy a amcangyfrifir ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a osodwyd ym mis Tachwedd 2022. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddiadau i drethi busnes ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth y flwyddyn gyfredol na'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Wrth symud ymlaen, gyda'r dirwasgiad sydd ar ddod a chostau byw yn cynyddu, bydd angen monitro'r gyllideb hon yn ofalus. Rhagwelir y bydd incwm craidd presennol y Dreth Gyngor £273k yn is na'r gyllideb, ond gall hyn newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn.

**5.2** Mae premiwm y Dreth Gyngor wedi'i gynllunio i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, o'r herwydd, mae risg y gall nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm leihau'n sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hon, mae sylfaen y dreth ar gyfer eiddo premiwm wedi'i gosod ar 80% ac, os na fydd nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Unwaith eto, mae trosglwyddo eiddo o'r gofrestr ddomestig i'r gofrestr Trethi Busnes wedi lleihau'r premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi ond, er gwaethaf trosglwyddo eiddo, at ei gilydd, arhosodd nifer yr eiddo ail gartrefi yn weddol gyson ac, o ganlyniad, mae'r gyllideb premiwm y Dreth Gyngor yn rhagweld gwarged o £349k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 6. Arbedion Cyllideb 2023/24

**6.1.1** Nid oedd angen unrhyw Arbedion Cyllideb gan y gwasanaethau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

## 7. Costau Asiantaethau ac Ymgyngoriaethau

**7.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £412k ar staff Asiantaeth. Roedd y rhain, yn bennaf, wedi'u cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio gan eu bod yn ymwneud â swyddi gweigion, tra bod £279k yn ymwneud â staff cyflenwi ar gyfer swyddi gwag. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £62k ar asiantiaid safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad CH.

**7.2** Gwariwyd cyfanswm o £147k ar Ymgynghoriaethau yn ystod y cyfnod Ebrill i Fehefin 2023, gyda £88k yn cael ei ariannu trwy grant neu ffynonellau allanol. Mae crynodeb llawn o’r gwariant fesul gwasanaeth, a manylion ychwanegol o’r gwariant, i’w gweld yn Atodiad D.

## 8. Casgliad

**8.1** Y rhagamcan cychwynnol ar ddiwedd y chwarter cyntaf yw y bydd gorwariant o £0.744m yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024. Fodd bynnag, ceir nifer o feysydd pryder, nad ydynt efallai’n amlwg o’r ffigwr pennawd hwn, fydd yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol.

**8.2** Mae’r prif feysydd pryder yn ymwneud â:-

**i.** Y ffaith nad yw'r cynnig cyflog am 2023/24 wedi ei setlo eto ac y gallai fod yn sylweddol uwch na'r hyn a ganiateir yn y gyllideb. Er bod cyllideb wrth gefn a chronfa wrth gefn clustodedig yn eu lle fydd yn gwrthbwyso rhan fawr o'r gost ychwanegol, efallai na fydd yn ddigon i gwrdd â'r gost ychwanegol gyffredinol. Mae'n rhaid caniatáu am y gost uwch hefyd yn y gyllideb sylfaenol am 2024/25, yn ogystal ag am y dyfarniad cyflog am 2024/25.

**ii.** Mae’r sefyllfa o ran Gofal Cymdeithasol yn peri pryder arbennig, a rhagwelir gorwariant o £2.179m ar y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Fodd bynnag, mae'r gwir sefyllfa wedi'i chuddio gan y ffaith bod grantiau a chronfeydd wrth gefn ychwanegol yn cael eu defnyddio i leihau'r gorwariant. Heb y cyllid ychwanegol hwn, byddai'r gorwariant sylfaenol oddeutu £3.5m. Mae’r rhagolwg yn seiliedig ar lefel bresennol y galw, ond mae’r galw yn amrywio yn ystod y flwyddyn a gall newid yn sylweddol e.e. gall un lleoliad ar gyfer cleient dibyniaeth fawr ag anghenion gofal arbenigol fod rhwng £250k a £500k. Dim ond gwaethygu'r sefyllfa fyddai unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau.

**iii.** Yn y pen draw, bydd yr argyfwng costau byw yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau’r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyled, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant), a gall arwain at ostyngiad mewn incwm mewn gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio, ffïoedd parcio, wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gall y newidiadau posibl hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Wrth i ni symud drwy weddill y flwyddyn ariannol, bydd effeithiau'r uchod yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol wrth i bethau ddod yn gliriach.

**8.3** Bydd y sefyllfa ariannol yn 2023/24 hefyd yn dylanwadu ar strategaeth ariannol y Cyngor am 2024/25 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu’r angen i ailgysoni cyllidebau i adlewyrchu’r cynnydd mewn costau a welwyd yn 2023/24 ac i adlewyrchu’r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor.O’r herwydd, byddir yn lleihau’r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i helpu i fantoli’r gyllideb refeniw yn 2024/25. Bydd rheolwyr yn adolygu'r sefyllfa ariannol yn ofalus yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol, ac efallai y bydd angen gweithredu mesurau arbed costau yn 2023/24 er mwyn cynnal lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol.

**Rhagamcan Alldro Refeniw am y Flwyddyn Ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2024 – Chwarter 1**
**Projected Revenue Outturn for the Financial Year ending 31 March 2024 - Quarter 1**

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth /Swyddogaeth<br>Service / Function | 2023/24<br>Cyllideb Blynyddol<br>Annual Budget | 2023/24<br>Ch1 Cyllideb hyd yma<br>Q1 Budget Year to Date | 2023/24<br>Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau<br>Q1 Actual & Committed spend | 2023/24<br>Ch1 Amrywiad<br>Q1 Variance | 2023/24<br>Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau<br>Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1<br>Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024<br>Estimated Expenditure to 31 March 2024 | Ch1 : Q1<br>Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor / (tan) wariant<br>Estimated Outturn 31 March 2024 over / (under) | 2023/24<br>Gor / (tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan<br>Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget | 2023/24<br>Gor / (Tan) Wariant Drafft<br>*Draft Over / (under)spend* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes**<br>***Lifelong Learning*** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion<br>*Delegated Schools Budget* | 56,559 | 7,657 | 7,657 | 0 | 0.00% | 56,559 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog<br>*Central Education* | 5,411 | 1,229 | 1,206 | (23) | (1.86%) | 5,276 | (135) | (2.50%) | (244) |
| Diwylliant<br>*Culture* | 1,357 | 362 | 351 | (11) | (2.92%) | 1,403 | 46 | 3.39% | 38 |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion**<br>***Adult Services*** | 35,041 | 6,988 | 7,716 | 728 | 10.42% | 36,422 | 1,381 | 3.94% | 0 |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant**<br>***Children's Services*** | 12,927 | 3,819 | 4,272 | 453 | 11.87% | 13,575 | 648 | 5.01% | 965 |
| | | | | | | | | | |
| **Tai**<br>***Housing*** | 1,590 | 503 | 1,856 | 1,353 | 269.14% | 1,672 | 82 | 5.16% | 1 |
| | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**<br>***Highways, Waste & Property*** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd<br>*Highways* | 7,905 | 1,681 | 1,665 | (16) | (0.95%) | 7,560 | (345) | (4.75%) | (1,046) |
| Eiddo<br>*Property* | 1,548 | (942) | (965) | (23) | 2.45% | 1,448 | (100) | (6.46%) | (557) |
| Gwastraff<br>*Waste* | 10,317 | 1,565 | 1,468 | (97) | (6.20%) | 9,827 | (490) | (4.75%) | (1,046) |

| **Gwasanaeth / Swyddogaeth** ***Service / Function*** | **2023/24 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2023/24 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date** | **2023/24 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend** | **2023/24 Ch1 Amrywiad Q1 Variance** | **2023/24 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2023 Estimated Expenditure to 31 March 2022** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor / (tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over / (under)** | **2022/23 Gor / (tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget** | **2023/24 Gor / (Tan) Wariant Drafft** ***Draft Over / (underspend)*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** ***Regulation & Economic Development*** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd *Economic Development* | 3,154 | 914 | 795 | (119) | (12.99%) | 3,166 | 12 | 0.38% | 50 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd *Planning and Public Protection* | 2,677 | 663 | 495 | (168) | (25.32%) | 2,522 | (155) | (5.79%) | (181) |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** ***Transformation*** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol *Human Resources* | 1,601 | 438 | 487 | 49 | (11.29%) | 1,622 | 21 | 1.31% | (73) |
| TGCh *ICT* | 4,216 | 2,008 | 2,268 | 260 | 12.97% | 4,186 | (30) | (0.71%) | (117) |
| Trawsnewid Corfforaethol *Corporate Transformation* | 1,190 | 272 | 252 | (20) | (7.22%) | 1,146 | (44) | (3.70%) | (151) |
| | | | | | | | | | |
| **Adnoddau** ***Resources*** | 3,744 | 1,031 | 1,260 | (229) | 22.23% | 3,712 | (32) | (0.85%) | (140) |
| | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor** ***Council Business*** | 2,014 | 492 | 514 | (22) | 4.39% | 2,003 | (11) | (0.55%) | (98) |
| | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** ***Corporate & Democratic costs*** | 3,294 | 1,079 | 829 | (250) | (23.18%) | 2,783 | (511) | (15.51%) | 1,119 |
| | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol** ***Corporate Management*** | 770 | 199 | 210 | 11 | (5.29%) | 785 | 15 | 1.95% | 7 |
| Costau heb gyllideb, na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau *Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income* | | | | | | 400 | 400 | 0.00% | 490 |

| **Gwasanaeth / Swyddogaeth** ***Service / Function*** | **2023/24 Cyllideb Flynyddol Annual Budget** | **2023/24 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date** | **2023/24 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend** | **2023/24 Ch1 Amrywiad Q1 Variance** | **2023/24 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024 Estimated Expenditure to 31 March 2024** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor / (tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over / (under)** | **2023/24 Gor / (tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget** | **2023/24 Gor / (Tan) Wariant Drafft** ***Draft Over / (underspend)*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau Total Service Budgets** | 155,315 | 29,957 | 32,337 | 2,379 | 7.94% | 156,217 | 902 | 0.48% | (322) |
| Ardollau *Levies* | 4,495 | 4,419 | 4,419 | 0 | 0.00% | 4,495 | 0 | 0.00% | 2 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol *Discretionary Rate Relief* | 105 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 105 | 0 | 0.00% | 24 |
| Cyllido Cyfalaf *Capital Financing* | 4,329 | 740 | 1,216 | 476 | 0.00% | 4,259 | (70) | (1.61%) | (466) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill *General & Other Contingencies* | 4,265 | 4,265 | 4,019 | (246) | (5.77%) | 4,252 | (12) | (0.29%) | (775) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol Y Cyngor Council's General Reserves | (3,780) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol *Support Services contribution HRA* | (800) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (800) | 0 | 0.00% | 59 |
| Budd-daliadau a Roddwyd *Benefits Granted* | 6,861 | 363 | 762 | 398 | 109.67% | 6,661 | 0 | 0.00% | -76 |
| Na ellir ei reoli *Uncontrollable* | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** ***Total Corporate Finance*** | 15,475 | 9,787 | 10,415 | 628 | 6.42% | 15,393 | (82) | (0.53%) | (1,232) |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm 2023/24** ***Total 2023/24*** | **170,789** | **39,744** | **42,752** | **3,008** | **7.57%** | **171,609** | **820** | **0.39%** | **(1,554)** |
| | | | | | | | | | |
| ***Cyllido Funding*** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig *NDR* | (22,823) | (7,022) | (7,022) | 0 | 0.01% | (22,823) | 0 | 0.00% | 0 |

| Gwasanaeth /Swyddogaeth<br>*Service / Function* | 2023/24 Cyllideb Flynyddol Annual Budget | 2023/24 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2023/24 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2023/24 Ch1 Amrywiad Q1 Variance | 2023/24 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2024 Estimated Expenditure to 31 March 2024 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2024 gor / (tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2024 over / (under) | 2023/24 Gor / (tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget | 2022/23 Gor / (Tan) Wariant Drafft *Draft Over / (underspend)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| Y Dreth Gyngor<br>*Council Tax* | (44,231) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (43,959) | 273 | (0.62%) | 434 |
| Premiwm y Dreth Gyngor<br>*Council Tax Premium* | (2,893) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (3,242) | (349) | 12.06% | (92) |
| Grant Cynnal Refeniw<br>*Revenue Support Grant* | (100,842) | (31,028) | (31,028) | 0 | 0.00% | (100,842) | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2023/24**<br>***Total Funding 2023/24*** | **(170,789)** | **(38,050)** | **(38,051)** | **(1)** | **0.00%** | **(170,866)** | **(76)** | **0.04%** | **342** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro, yn cynnwys effaith y cyllido**<br>***Total outturn, including impact of funding*** | **0** | **(1,694)** | **(4,701)** | **3,007** | **177.53%** | **744** | **744** | **-0.44%** | **(1,212)** |

**ATODIAD C**

**Crynodeb o Sefyllfa alldro y Cyllidebau Wrth Gefn 2023/24**

| | Cyllideb<br>£ | Trosglwyddiadau i Gwasanaethau<br>£ | Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma<br>£ | Wedi Ymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllideb Rhagweledig<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 400,737 | -111,552 | 289,185 | 92,000 | 197,185 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 100,000 | - | 100,000 | 63,324 | 36,676 | - |
| Chwyddiant cyflog | 2,000,000 | - | 2,000,000 | 2,000,000 | - | - |
| Cynllun Cymorth i Brynu Tai | 1,501,907 | - | 1,501,907 | 1,501,907 | - | - |
| Twf Rhanbarthol – Bwrdd Uchelgais Economaidd | 86,250 | - | 86,250 | 74,070 | 12,180 | 12,180 |
| Cynllun Hyfforddeion | 340,000 | -102,790 | 237,210 | 237,210 | - | - |
| Newid Hinsawdd | 50,000 | - | 50,000 | 50,000 | - | - |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **4,478,894** | **-214,342** | **4,264,552** | **24,018,511** | **246,041** | **12,180** |

## Costau Asiantaeth rhwng Ebrill a Mehefin 2023

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 5,257 | Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd | Dros Dro | Absenoldeb mamolaeth deiliad swydd. Daeth yr asiantaeth i ben ar 12 Mai, 2023 |
| | -630 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Gorfodi tai |
| | **4,627** | | | |
| Ysgolion | 14,007 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn maes arbenigol |
| | **14,007** | | | |
| Gwastraff | 49,485 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol eu hangen dros dymor byr |
| | 12,042 | Cyllideb Graidd Benodol / Cyfraniad Allanol | | Tasgau penodol ar y safle |
| | **61,527** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 89,962 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **89,962** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 168,457 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 15,636 | Grant | | I lenwi swyddi gwag |
| | **184,093** | | | |
| Adnoddau | 14,875 | Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd | Dros Dro | Gwaith cymhorthdal |
| | 11,040 | Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd | Dros Dro | Cyfrol waith |
| | 31,379 | Cronfa wrth gefn clustnodedig | Dros Dro | Cyfrol waith |
| | **57,294** | | | |
| **Cyfanswm** | **411,511** | | | |

**ATODIAD D**

**Crynodeb o Wariant Ymgynghori Ch1 2023/24**

| | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Ch 1**<br><br>**£** | **Cyfanswm 2023/24**<br><br>**£** |
| Addysg Canolog | 4,525 | **4,525** |
| Diwylliant | - | **-** |
| Economaidd ac Adfywio | 101,463 | **101,463** |
| Eiddo | - | **-** |
| Priffydd | 4,727 | **4,727** |
| Ysgolion | - | **-** |
| Gwastraff | 6,236 | **6,236** |
| CRT | 660 | **660** |
| Tai | - | **-** |
| Corfforaethol a Democrataidd | - | **-** |
| Gwasanaethau Oedolion | - | **-** |
| Gwasanaethau Plant | - | **-** |
| Corfforaethol | - | **-** |
| Trawsnewid | 5,365 | **5,365** |
| Busnes y Cyngor | 14,995 | **14,995** |
| Adnoddau | 9,970 | **9,970** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **147,280** | **147,280** |
| Cyllidwyd gan: | | |
| Cyllideb Craidd | 44,046 | **44,046** |
| Grant | 5,227 | **5,227** |
| Cyfraniad Allanol | 82,524 | **82,524** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 15,484 | **15,484** |
| **Cyfanswm** | **147,280** | **147,280** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 MEDI 2023** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB – CHWARTER CYNTAF 2023/24 - CYFALAF** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** E-bost: | **JEMMA ROBINSON** **JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a’r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2023/24 yn ystod chwarter 1.
- Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol sy'n dod i gyfanswm o £5.442m i'r rhaglen gyfalaf a diwygiadau i gyllid yn unol ag Atodiad C, a fydd yn arwain at gyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £58.141m ar gyfer 2023/24.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?

- Mae’r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro’r gyllideb yn swyddogaeth a neilltuwyd i’r Pwyllgor Gwaith.

## CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

## D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

## DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae’r TA wedi adolygu’r adroddiad ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae’r Swyddog Monitro yn aelod o’r TA a rhoddwyd ystyriaeth i’r sylwadau. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| E – Effaith ar genedlaethau'r dyfodol (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd sy'n ofynnol i ganiatáu'r Cyngor i gwrdd â'r amcanion hir dymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e., gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau ICF, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllid ar gyfer prosiectau wedi'i gytuno a'i gynllunio gyda sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru yn arbennig. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 2023/24 wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda dinasyddion Ynys Môn. |
| 5 | **Nodwch unrhyw effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn effeithio ar yr agenda cydraddoldeb, e.e., mynediad i ysgolion i'r anabl, y grant cyfleusterau i'r anabl. Nid oes unrhyw effaith ar agenda'r iaith Gymraeg. |

## F - Atodiadau:

Atodiad A – Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2023/24
Atodiad B – Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn
Atodiad C – Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb

## FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad i gael unrhyw wybodaeth bellach):

- Cyllideb Gyfalaf 2023/24, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023; ac
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2022/23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Mehefin 2023.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd o ran gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £24.405m ar gyfer 2023/24, a rhaglen gyfalaf o £13.557m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £13.477m gael ei ddwyn ymlaen o 2022/23, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £33.532m, a £17.907m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, yn ogystal ag addasu cyllid, a daw hyn i gyfanswm o £5.442m. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo swm ychwanegol o £1.26m ar gyfer cynllun o dan y CRT hefyd. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 i £58.141m. Dangosir hyn yn y tabl isod:

| Cyllidir gan: | Cyllideb wreiddiol 2023/24 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn £'000 | Llithriad a gymeradwywyd yn yr alldro Ch4 2022/23 £'000 | Cynnydd yn y CRT a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith – Mehefin 2023 £'000 | Cynlluniau ychwanegol / addasiadau ers gosod y gyllideb £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant | 22,367 | 2,909 | | 5,048 | **30,324** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,077 | 3,294 | | 854 | **7,225** |
| Benthyca Di gefnogaeth | 2,797 | 38 | | 0 | **2,835** |
| Cyfraniad Refeniw | 9,221 | 3,936 | 1,260 | (1,102) | **13,315** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 500 | 443 | | (500) | **443** |
| Cronfeydd wrth Gefn | | 2,780 | | 1,142 | **3,922** |
| Benthyciad | | 77 | | | **77** |
| **CYFANSWM** | **37,962** | **13,477** | **1,260** | **5,442** | **58,141** |

Gweler Atodiad C am fanylion newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers cwblhau'r broses gosod cyllideb.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2023/24

**2.1** Mae'r tabl isod yn nodi gwariant cyfalaf hyd at 30 Mehefin 2023, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2023 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer rhaglen gyfalaf 2023/24:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi'i Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd % | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai – Cronfa Gyffredinol | 1,877 | 150 | 113 | 0 | 113 | 75 | 6 |
| Tai – CRT | 19,988 | 2,504 | 2,479 | 0 | 2,479 | 99 | 12 |
| Dysgu Gydol Oes | 11,241 | 1,212 | 1,101 | 60 | 1,161 | 96 | 10 |
| Economaidd ac Adfywio | 14,237 | 2,358 | 1,914 | 397 | 2,311 | 98 | 16 |
| Priffyrdd | 8,532 | 647 | 415 | 253 | 668 | 103 | 8 |
| Rheoli Gwastraff | 182 | 5 | 0 | 5 | 5 | 100 | 3 |
| Eiddo | 1,475 | 174 | 153 | 0 | 153 | 88 | 10 |
| Trawsnewid | 432 | 57 | 16 | 46 | 62 | 109 | 14 |
| Gwasanaethau Oedolion | 177 | 70 | 64 | 0 | 64 | 91 | 36 |
| **Cyfanswm** | **58,141** | **7,177** | **6,255** | **761** | **7,016** | **98** | **12** |
| **Cyllidir gan:** | | | | | | | |
| Grant Cyfalaf | 30,324 | | | | | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 443 | | | | | | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 7,225 | | | | | | |
| Benthyca Di gefnogaeth | 2,835 | | | | | | |
| Cyfraniad Refeniw | 13,315 | | | | | | |
| Cronfeydd wrth Gefn | 3,922 | | | | | | |
| Benthyciad | 77 | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid** | **58,141** | | | | | | |

**2.2** Hyd at ddiwedd chwarter un, gwariwyd 97% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol, ond dim ond 12% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn, ac mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 1 wedi ei gwario, ond nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto ac mae eu cyllidebau wedi eu proffilio i'w gwario yn ystod y chwarter nesaf, neu tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis Isadeiledd Ymwelwyr, Porth Arfordirol Môn a chaeau chwarae Ysgol Uwchradd Bodedern. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffil yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2023/24 ac mae diweddariad arnynt wedi'i gynnwys yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r CRT wedi gwario 99% o'r gyllideb a broffiliwyd a 12% o'r gyllideb flynyddol. Pan osodwyd cyllideb 2023/24 a'r cyllid cysylltiedig, roedd grantiau cyllido ar gael nad oeddent yn hysbys pan baratowyd y gyllideb. Mae manylion cyllido'r gyllideb wedi cael eu haddasu yn awr, fel y gwelir yn Atodiad C. Mae'r gyllideb ar gyfer prynu eiddo a datblygu eiddo newydd wedi cael ei hadolygu hefyd ac, ar ôl derbyn gwybodaeth bellach, gofynnir am gynnydd o £0.821m yn y gyllideb hon gan dod â chyfanswm y gyllideb i £10.288m. Ni ofynnir am gyllid ychwanegol gan fod y newidiadau i'r gyllideb yn sgil derbyn grantiau ychwanegol yn cwrdd â'r cynnydd. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir na fydd y gyllideb CRT cyfan wedi ei gwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Am ragor o wybodaeth ar wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, gweler adroddiad monitro chwarter 1 y gyllideb CRT a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 26 Medi 2023.

## 3. CYLLID

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt, a rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod:-

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy –** Mae adeilad newydd Ysgol Corn Hir wedi'i gwblhau. Mae'r contractwr ar y safle dros yr haf yn rhoi sylw i fân ddiffygion a gwneud gwaith ychwanegol ar yr Uned Gofal Plant. Uned Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig – mae'r holl waith is-strwythurol wedi'i gwblhau yn ogystal â gosod y slab llawr concrit. Mae'r gwaith o godi'r panelau wal pren ar gyfer rhan gyntaf adeilad yr ysgol wedi cychwyn. Bydd rhywfaint o waith cysylltiedig ar safle presennol yr ysgol yn cael ei wneud dros yr haf.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun (THI)) -** Cwblhawyd gwaith adnewyddu toiledau cyhoeddus Sgwâr Swifft a gwaith ar y llwyfan gwylio ym mis Ebrill, a throsglwyddwyd cyfrifoldeb amdanynt i Gyngor Tref Caergybi. Mae prosiectau eraill wedi datblygu i wahanol raddau, a bydd y set gyntaf o dendrau'n cael eu rhyddhau o chwarter 2 ymlaen. Mae cyswllt yn parhau â pherchnogion eiddo, chydranddeiliaid a gwasanaethau perthnasol er mwyn datblygu'r gwaith a sicrhau fod prosiectau allweddol yn mynd rhagddynt a bod y cyllid yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi** – Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) i wireddu nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Cybi. Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei sicrhau trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro. Sicrhawyd symiau pellach drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a'r Gronfa Adfywio Cymunedol. Mae gwaith a gyflawnwyd ar brosiectau, sy'n cael eu cyllido ar y cyd drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), yn cynnwys: -

  - Gwarchod ein Treftadaeth – Mae'r gwaith ar Ffynnon y Wrach, Tŵr Ellin a'r Wylfan uwchben Ynys Lawd wedi'i gwblhau. Mae gwaith ar Ynys Peibio wedi cychwyn a bron â'i gwblhau. Canolbwyntir wedyn ar yr amddiffynfa rhyfel yn Nhrearddur. Bydd gwaith ar amddiffynfa rhyfel Cofeb Skinner a'r Fagnelfa ym Mhenrhos yn dilyn wedyn. Dylai'r gwaith hwn fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2023.

- **Porth Twristiaeth** – Canolfan Ymwelwyr Parc Gwledig y Morglawdd: Mae'r gwaith wedi'i gwblhau ac agorwyd y Ganolfan Ymwelwyr ym mis Mehefin 2023. Llwyddwyd i sicrhau estyniad i'r grant ERDF i sicrhau fod uchafswm y grant yn cael ei hawlio. Cafodd y cyllid ei ymestyn hyd at 30 Mai 2023 ac mae'r hawliad terfynol wedi cael ei gyflwyno.

- **Ffyniant Bro** – Cymeradwywyd y bid 'Caergybi – trawsnewidiad wedi'i yrru gan ddiwylliant a threftadaeth' ym mis Ionawr 2023, a bydd yn darparu cyllid cyfalaf gwerth £17.47m hyd at fis Mawrth 2025. Mae'r rhaglen yn cynnwys nifer o wahanol brosiectau a fydd yn buddsoddi yng Nghanolfan Ucheldre, Eglwys Cybi Sant a'r cyffiniau, Canolfan yr Empire ac adeiladau gwag allweddol yng nghanol y dref. Bydd hefyd yn gwella ardaloedd cyhoeddus ac yn darparu gwell cyfleusterau i ymwelwyr. Er mai'r Awdurdod yw'r Corff Arweiniol ar gyfer y cyllid, mae'r rhaglen yn dibynnu ar Cymunedau'n Gyntaf Môn, Canolfan Ucheldre, Cyngor Tref Caergybi ac Esgobaeth Bangor fel partneriaid cyflawni. Sefydlwyd cytundebau cyllido gyda'r holl bartneriaid cyflawni ac mae'r gwaith cyflawni'n mynd rhagddo yn awr. Mae'n rhaid gwario'r holl gyllid erbyn mis Mawrth 2025, a bydd hynny'n heriol. Yn ystod chwarter 1, mae prosiectau wedi bod yn paratoi cynlluniau terfynol a sicrhau caniatâd cynllunio gyda'r bwriad o wahodd tendrau am y rhan fwyaf o'r contractau adeiladu yn ystod chwarter 2 a 3. Mae Cymunedau'n Gyntaf Môn wedi prynu hen adeilad yr HSBC. Mae gwariant chwarter 1, sef cyfanswm o £0.933m, wedi cael ei hawlio gan Lywodraeth y DU a hawliwyd cyfanswm o £2.587m hyd yma. Derbyniwyd y taliad grant cyntaf o £2.915m ym mis Mai, ac roedd taliad pellach yn ddyledus ym mis Gorffennaf.

- **Strydoedd Saffach** – Nod y cyllid, a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref trwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yw gostwng troseddau cymdogaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghaergybi. Mae'r gwasanaeth Priffyrdd wedi derbyn cyllid i wella goleuadau stryd, darparu camerâu cylch cyfyng ychwanegol ar gyfer Cyngor Tref Caergybi a gwella'r Bont Geltaidd. Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r gwaith yn 2022/23, a bydd gwaith ychwanegol i osod goleuadau stryd a chysylltiadau ar gyfer y camerâu cylch cyfyng yn cael ei wneud yn ystod chwarter 1. Bydd y cyllid ar gael tan fis Medi 2023.

- **Prosiect Cam 2 Penrhos** – Nod y cynllun hwn yw adeiladu saith uned fusnes newydd ar Stad Ddiwydiannol Penrhos. Cwblhawyd gwaith ar yr unedau a'r unig waith sy'n weddill yw gosod yr is-orsaf a chomisiynu'r unedau. Mae oedi allanol yn gysylltiedig â'r is-orsaf newydd wedi effeithio ar gomisiynu'r unedau hyn. Rhagwelir y bydd y gwaith yn gysylltiedig â'r is-orsaf wedi'i gwblhau yn ystod chwarter 2 2023/24.

- **Prosiect Cam 3 Penrhos** – Sicrhawyd gwerth £3.1m o gyllid o'r ERDF a dyfarnwyd swm ychwanegol o £0.399m. Mae gwaith wedi parhau ar y safle ac mae'r heriau a grëwyd gan amodau tir andwyol wedi'u datrys yn awr. Cwblhawyd y strwythur dur, y gwaith cladio a'r to, a disgwylir i'r gwaith brics mewnol gychwyn yn fuan. Oherwydd y cyfyngiadau cyllido, mae'n rhaid cwblhau'r prosiect erbyn diwedd chwarter 2 2023/24.

- **Prosiect Porth Llangefni -** Mae Safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd) yn ardal o Langefni lle bydd saith o blotiau'n cael eu datblygu yn y pen draw.

    - **Unedau Porth (ERDF) –** Mae'r holl unedau wedi cael eu gosod, ac mae tenantiaid wedi symud i mewn i bump ohonynt. Mae'r uned olaf wedi cael ei gosod ond mae'n destun cytundeb cyfreithiol, sydd eto i'w gwblhau.

    - **Cyd-fenter Porth –** Nod y Cyd-fenter Porth yw cwblhau gwaith galluogi ar y plotiau sy'n weddill ar Barc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Cwblhawyd gwaith archeolegol ac ecolegol ac mae materion pellach wedi codi. Tri phlot fydd ar gael i'w gwerthu, yn hytrach na 6, oherwydd cyfyngiadau archeolegol. Mae'r holl waith galluogi wedi'i gwblhau erbyn hyn. Bydd gwaith marchnata'r plotiau sydd ar gael i'w gwerthu yn cychwyn ar y cyd â'r gwasanaethau eiddo.

- **Cynlluniau Draenio Caergybi ac Amlwch** – Mae'r astudiaethau hyn yn mynd rhagddynt. Yng Nghaergybi, mae gwaith yn mynd rhagddo i fireinio'r rhestr helaeth o opsiynau. Yn Amlwch, datblygwyd rhestr hir o opsiynau. Bydd y ddwy astudiaeth yn parhau drwy gydol 2023/24.

- **Gwaith Grant ar Raddfa Fach** – Cymeradwywyd 7 cynllun adeiladu ar gyfer 2023/24. Mae gwaith adeiladu ar y cynlluniau hyn wedi'i gynllunio i gychwyn yn ystod chwarter 2 a 3.

- **Llanfairpwll, Porthaethwy (Achos Busnes Llawn)** - Mae Achos Busnes Llawn Porthaethwy yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, mae oedi ar waith ar achos busnes Llanfairpwll oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau.

- **Strwythur Mill Lane** – Mae'r system sensor ddiwygiedig wedi'i rhoi ar waith a bydd yn cael ei monitro yn ystod y gaeaf.

- **Teithio Llesol -** Sicrhawyd grant gwerth £2.253m gan Lywodraeth Cymru (LlC) i gynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a llesiant, gwella ansawdd aer, lleihau allyriadau carbon, cysylltu cymunedau a gwella teithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus.

    - Mae £0.500m ar gyfer gwaith craidd ar nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau ac mae'n cynnwys gwaith datblygu ymlaen llaw, gwaith ar raddfa fach a gweithgareddau monitro ac arfarnu.

        - **Gwaith datblygu ymlaen llaw**
            - Benllech (dau lwybr ger yr A5025 a gwella'r Sgwâr (A5025)) – mae gwaith datblygu egwyddorion dylunio a pharatoadau cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus wedi parhau yn ystod chwarter 1.
            - Porthaethwy – Ffordd Pentraeth a'r A5025 i safle Parcio a Rhannu Llanfairpwll – chwarter 1 – ar ôl cyflwyno'r lluniadau Trefniant Cyffredinol i'r Cyngor, cynhaliwyd gweithdy gyda Chynghorwyr lleol i drafod rhinweddau'r cynllun ac, yn gyffredinol, nid oedd y sylwadau a dderbyniwyd o blaid lleihau lled y gerbytffordd ar Ffordd Pentraeth, oherwydd ei phwysigrwydd strategol o ran cysylltu'r Ynys â'r tir mawr, a'r gwytnwch a ddarperir ganddi pan fydd yr A55 dros y Fenai ar gau. Disgwylir ymateb gan LlC ynglŷn â'r egwyddor o gulhau llwybr gwyro strategol cyn penderfynu ar y camau nesaf o ran parhau â'r cynllun.
            - Gaerwen (a Llanddaniel) – chwarter 1 – paratowyd briff drafft.
            - Y Fali – chwarter 1 – paratowyd briff drafft.
            - Ysgol Uwchradd Amlwch a'r Ganolfan Hamdden i Borth Amlwch (yn cynnwys cysylltiad ar gyfer cyflogaeth) – mae gweithgareddau yn ystod chwarter 1 yn cynnwys adolygiad o waith dylunio WelTAG 3C a derbyniwyd lluniadau diwygiedig ar ôl derbyn sylwadau pellach gan y Cyngor.

        - **Gwaith Mân (Pecyn Craidd)**
            - Mae gweithgareddau yn ystod chwarter 1 yn cynnwys cytuno ar sgôp rhaglen methiannau difrifol ar gyfer 2023/24 a chyhoeddi adroddiadau ar gyfer y cam dylunio.

        - **Datblygu Map Rhwydwaith Teithio Llesol a Gweithgareddau Monitro ac Arfarnu**
            - Mae gweithgareddau yn ystod Chwarter 1 yn cynnwys cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo ac ymgynghori.

    - £0.250m mewn perthynas â Phrif Gynllun Teithio Llesol Malltraeth – Niwbwrch (A4080) – yn ystod chwarter 1, cynhaliwyd trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr elfen gwaith mân, a'r cam nesaf fydd llunio dyluniadau ffurfiol. O ran yr asesiad ehangach o'r coridor cyflawn o Bont Marcwis i Niwbwrch, cynhaliwyd trafodaethau mewnol a disgwylir gwybodaeth bellach gan Drafnidiaeth Cymru ynglŷn â'r gofynion.
    - £0.158m mewn perthynas â Phrif Gynllun Teithio Llesol Llanfairpwll – yn ystod chwarter 1, derbyniwyd y dyluniadau ar gyfer yr elfen mân waith ar yr A5 i'w hystyried. O ran y llwybr o Lôn Graig i Lôn Refail, mae angen asesiad ar ochr arall y gerbytffordd oherwydd gwrthwynebiad gan dirfeddiannwr i'r dyluniad gwreiddiol. Rydym felly'n cynnal trafodaethau gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gael mynediad i'r tir.
    - £1.345m mewn perthynas â Phrif Gynllun Teithio Llesol Caergybi - Trearddur (Metro Gogledd Cymru) - mae gwaith wedi mynd rhagddo yn chwarter 1 i gwblhau'r dyluniadau.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2022/23) –** Dyfarnwyd £0.114m ym mis Rhagfyr 2022 ar gyfer gwaith galluogi a gweithgareddau datblygu prosiect i ddarparu mannau gwefru cerbydau trydan ar yr Ynys, yn unol â Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan LlC. Roedd LlC wedi cytuno ar estyniad amser tan ddiwedd Mehefin 2023 (yn seiliedig ar yr holl archebion a oedd wedi cael eu codi erbyn diwedd Mawrth 2023). Cwblhawyd yr holl weithgareddau'n gysylltiedig â'r cyllid o 2022/23. Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid grant o gronfa ULEV LlC ar gyfer 2023/24 er mwyn cwblhau'r gwaith (yn unol â'r isod).

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) (2023/24)** – Dyfarnwyd £0.377m i gynorthwyo i gwblhau gweithgareddau a ddyfarnwyd yn 2022/23 a chyfleusterau gwefru ym Menllech, Canolfan Hamdden Amlwch a phentref y Fali. Yn ystod chwarter 1, mae dogfennau caffael a thendr wedi cael eu hasesu, mae'r gwaith o gwblhau gweithgareddau 2022/23 wedi parhau, gan gynnwys dylunio / cynllunio gweithgareddau yn gysylltiedig â Hwb Cerbydau Trydan ym Mhlas Arthur, a chynnal trafodaethau gyda SPEN ynglŷn â gosod offer gwefru cerbydau trydan ym Menllech, Amlwch a'r Fali.

- **Y Gronfa Trafnidiaeth Leol – gwella isadeiledd** – Dyfarnwyd £0.750m yn 2021/22 i hwyluso Gwelliannau Isadeiledd ar Ynys Môn i gefnogi gwaith darparu rhwydwaith bysiau (Metro Gogledd Cymru) ar ran Trafnidiaeth i Cymru. Sicrhawyd estyniad amser a derbyniwyd caniatâd gan LlC i hawlio'r grant yn llawn. Mae'r holl isadeiledd ar gyfer caledwedd wedi'i osod a chwblhawyd yr holl waith adeiladu. Mae cytundeb wedi'i wneud â LlC i drosglwyddo'r swm bychan o gyllid sy'n weddill i 2023/24 (gan fod yr isadeiledd yn ymwneud â lleoliadau 2022/23) a threfnwyd ymweliad derbyn safle ym mis Awst 2023 er mwyn bod mewn sefyllfa i wneud y taliad cyfalaf terfynol. Trosglwyddwyd y cyllid sy'n weddill fel rhan o'r prosiect hwn at ddibenion refeniw ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu parhaus.

- **Y Gronfa Trafnidiaeth Leol** – Dyfarnwyd £0.630m yn 2022/23 mewn perthynas â gwella isadeiledd bysiau, sy'n ymwneud ag ailddatblygu safleoedd bysiau mewn safleoedd cyfnewid bysiau allweddol (h.y. cysgodfannau bysiau newydd / cyflwyno gwelliannau ar dir cyhoeddus ac ati). Derbyniwyd llythyr cynnig diwygiedig am £0.493m i wireddu'r gweithgareddau uchod ar 4 safle (yn hytrach na 6). Cytunwyd ar estyniad amser tan ddiwedd Mehefin 2023 (yn seiliedig ar archebion a oedd wedi eu codi erbyn diwedd Mawrth 2023). Cwblhawyd gweithgareddau'r prosiect.

- **Grant Gwres Carbon Isel (Swyddfeydd y Cyngor)** – Yn dilyn oedi oherwydd i gontractwr fynd i'r wal, canfu arolygon tir y byddai'n rhaid codi'r ystafell beiriannau newydd i lefel sylweddol uwch nag a ragwelwyd yn wreiddiol er mwyn lliniaru'r perygl o lifogydd. Byddai'r adeilad wedi edrych yn hyll ac roedd yn creu her beirianyddol sylweddol, felly, penderfynwyd mai'r unig opsiwn ymarferol oedd adleoli'r ystafell beiriannau o'r lleoliad arfaethedig tu ôl i'r adeilad i'r maes parcio uchaf. Oherwydd y newidiadau hyn, mae angen caniatâd cynllunio unwaith eto ac, ar hyn o bryd, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau hynny. Serch hynny, mae gwaith wedi parhau ar y safle, gan osod pwmp gwres ffynhonnell aer ar do'r adeilad, ac mae'n darparu dŵr poeth ar gyfer swyddfeydd y Cyngor erbyn hyn. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau yn ystod chwarter 3, ar ôl derbyn caniatâd cynllunio.

- **Llifoleuadau Plas Arthur** – Sicrhawyd cyllid grant gwerth £0.051m gan Sefydliad Pêl-droed Cymru (CFF) tuag at uwchraddio llifoleuadau Plas Arthur trwy osod llifoleuadau LED. Amcangyfrifir erbyn hyn y bydd cyfanswm cost y prosiect yn £0.081m, a bydd gweddill y gyllideb yn cael ei hariannu o'r gyllideb gyfalaf gwelliannau hamdden. Canfu archwiliad fod angen ailadeiladu dwy golofn ac mae hyn wedi arwain at oedi yn y prosiect, gan fod rhaid disgwyl am ganiatâd cynllunio, a bydd y cais cynllunio'n cael ei ystyried ym mis Medi. Ar ôl derbyn caniatâd cynllunio, bydd gwaith yn cychwyn yn ystod wythnos gyntaf mis Hydref ac yn cymryd hyd at 4 wythnos i'w gwblhau. Mae bwrdd CFF wedi ystyried yr oedi i'r amserlen ac wedi rhoi caniatâd i'r prosiect barhau.

- **Ysgol Uwchradd Bodedern - Cae 3G** - Sicrhawyd cyllid grant gwerth £0.300m gan Chwaraeon Cymru i roi wyneb newydd ar hen gae pêl-droed synthetig a'i wneud yn gae 3G gyda ffensys yn Ysgol Uwchradd Bodedern, yn ogystal â rhoi wyneb newydd ar gae sydd ag wyneb o dywod. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm cost y prosiect yn £0.330m, a bydd y Cyngor yn darparu £0.030m o cyllid cyfatebol. Bwriedir i'r gwaith gychwyn ganol fis Medi, a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Hydref 2023.

- **Porth Arfordirol Môn -** Llwyddodd y Cyngor i sicrhau cyllid Y Pethau Pwysig, a neilltuwyd £0.313m i gefnogi cynllun gwella toiledau ar yr Ynys. Mae'r gyllideb hon yn cwrdd â 80% o gost lawn gwella toiledau trwy gyfrwng cyllid grant (£0.250m) gyda £0.063m o gyllideb gyfalaf y Cyngor Sir ar gyfer gwella toiledau. Bwriad y cynllun yw cefnogi'r gwaith o adnewyddu toiledau ym Miwmares, Rhosneigr, Traeth Bychan a Moelfre, gan gynnwys darparu cawodydd a chyfleusterau cadw beiciau, yn ogystal â phaneli solar PV lle bo hynny'n berthnasol. Sicrhawyd y cynnig o gyllid ar ddiwedd chwarter 1, a bydd y tendr ar gyfer y gwaith yn cael ei ryddhau yn ystod chwarter 2. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant, felly, wedi'i broffilio ar gyfer chwarter 3 a 4.

- **Grant Ysgolion Bro (2022/23)** – Dyfarnwyd grant o £0.476m gan LlC yn 2022/23 i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor tu allan i oriau traddodiadol, i alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23 ac, oherwydd amseriad y cyllid, roedd disgwyl i'r cynllun danwario yn 2022/23. Cytunwyd i ddefnyddio cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn ystod 2022/23, yn hytrach na defnyddio cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid mae'r Awdurdod wedi'i arbed trwy ddefnyddio'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio i gyllido prosiectau Ysgolion Bro yn 2023/24. Mae'r Adran Eiddo wedi cyhoeddi tendrau ar gyfer y gwaith sydd angen ei gyflawni o dan y grant hwn, a rhannwyd y tendrau yn ôl y math o waith a'r cyfarpar oedd ei angen. Derbyniwyd yr holl fidiau tendr ar gyfer y gwaith amrywiol ac mae'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i gwblhau'n barod. Rhagwelir y bydd y gwaith sy'n weddill yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Haf 2023, ac, felly, disgwylir i'r cyllid gael ei wario'n llawn.

- **Grant Ysgolion Bro (2023/24)** – Dyfarnwyd £0.200m yn 2023/24 i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor tu allan i oriau traddodiadol, i alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau. Mae'r swm a ddyfarnwyd yn gysylltiedig â thair ysgol benodol. Ni chafwyd unrhyw wariant ar y cynllun hwn yn ystod chwarter 1, ac mae trafodaethau mewnol yn cael eu cynnal ynglŷn â'r cynlluniau i gychwyn y gwaith.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2022/23)** – Dyfarnwyd cyllid grant gwerth £0.476m gan LlC yn 2022/23 i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Nod y grant yw gwneud y mwyaf o amgylcheddau dysgu o dan 16 oed ar gyfer disgyblion sydd ag ADY a gwella hygyrchedd er mwyn hyrwyddo arferion cynhwysol, cefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Bydd hyn yn cynorthwyo i roi Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018 a'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23 ac, oherwydd amseriad y cyllid, roedd disgwyl i'r cynllun danwario. Cytunwyd i ddefnyddio cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn ystod 2022/23, yn hytrach na defnyddio cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid y mae'r Awdurdod wedi'i arbed trwy ddefnyddio'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido prosiectau ADY yn 2023/24. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith o dan y cynllun hwn wedi'i gwblhau, a bwriedir gwneud rhagor o waith yn ystod gwyliau'r Haf 2023. Dyrannwyd costau yn erbyn y gwaith, ac mae'r Syrfëwr Adeiladu yn disgwyl am ddyfynbrisiau. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod y tymor ysgol rhwng Medi a Thachwedd 2023, a disgwylir y bydd yr holl gyllid yn cael ei wario.

- Dyfarnwyd cyllid gofal cymdeithasol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o nifer o ffrydiau cyllido gwahanol, fel a ganlyn:-

  - **Y Gronfa Gofal Integredig** (ICF)– Hawliwyd £0.694m drwy'r ICF mewn blynyddoedd blaenorol a thrwy gyllid a ddadleolwyd, er mwyn caniatáu i brosiectau lithro i'w cwblhau yn 2023/24. Mae'r arian sy'n cael ei reoli fel rhan o'r rhaglen yn cynnwys y 4 prosiect isod:-

    - Cartrefi Clyd arbenigol
    - Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys
    - Buddsoddiad Cyfeillgar i'r Anabl
    - Anableddau Dysgu: Galluogi Mynediad

  Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cyllid sy'n weddill yn cael ei wario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol a chaiff ei ddefnyddio fel cyfraniad tuag at y cynlluniau gwario uchod sydd wedi eu cynnwys yng nghyllideb y CRT.

- **Y Gronfa Gymunedol Integreiddio ac Ail-gydbwyso (IRCF) -** Dyfarnwyd £0.244m o gyllid cyfalaf drwy'r IRCF i gyllido:-

    - HWB Llesiant Amlwch (£0.128m) – Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi hygyrchedd ar gyfer unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau. Bydd rhywfaint o'r cyllid hefyd yn cael ei fuddsoddi mewn ardal lesiant a gweithfan achlysurol i staff yr awdurdod lleol a'r trydydd sector er mwyn cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau gydag unigolion, teuluoedd a gofalwyr. Gwariwyd £104k yn 2022/23 a gwariwyd y gweddill (£25k) yn ystod 2023/24 i gwblhau'r prosiect. Roedd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2023.

    - Cartrefi Gofal Dementia Gyfeillgar (£0.115m) - Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i greu trydedd uned ddiogel yng nghartref gofal Garreglwyd i gefnogi cynnydd mewn cymorth dementia arbenigol yn lleol. Cychwynnwyd y prosiect ym mis Mehefin 2023 a'r gobaith yw y bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd yr haf.

- **Y Gronfa Tai â Gofal (CTG)** – Dyfarnwyd cyllid cyfalaf gwerth £1.1m o'r CTG ar gyfer 2022/23 a 2023/24 i gefnogi'r prosiect Cartrefi Clyd a chyllido'r gwaith o adnewyddu dau gartref a buddsoddi, o bosib, mewn uned seibiant dros nos ar un safle. Hawliwyd £0.445m yn 2022/23, a bydd y swm o £0.655m sy'n weddill ar gael yn 2023/24. Mae un eiddo wedi cael ei adnewyddu'n llawn ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr ail eiddo, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith erbyn diwedd Awst 2023. Bydd y trydydd eiddo'n golygu adeiladu uned bwrpasol ac mae'r broses cyn cyflwyno cais cynllunio'n mynd rhagddi yn awr. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd swm o £0.300m yn cael ei hawlio yn 2023/24, gyda chais i'r swm sy'n weddill gael ei ddwyn ymlaen er mwyn cwblhau'r gweithgareddau uchod yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r derbyniadau cyfalaf y cyllidwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2023/24 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30 Mehefin 2023 £'000 | Rhagolwg ar 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 584 | 129 | 548 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 480 | 0 | 480 |
| **Cyfanswm** | **1,064** | **129** | **1,028** |

**3.2.2** Y derbyniadau cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2024 yw £1.028m, ac roedd £0.129m wedi'i dderbyn hyd at 30 Mehefin 2023 (13%).

**3.2.3** Er bod y derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn £1.028m, mae £2.932m o dderbyniadau cyfalaf ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf, gan fod £1.904m o dderbyniadau cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2022/23 yn y gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf. Ni fydd y cyfan o'r swm hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid yn cael ei neilltuo i gyllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chronfa wrth gefn glustnodedig Hamdden i gyllido gwelliannau hamdden, a chyllid a neilltuwyd ar gyfer cynlluniau sydd wedi llithro o'r flwyddyn ddiwethaf.

## 4. GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2023/24

**4.1** Isod ceir tabl sy'n dangos y Gwariant a ragwelir ar 31 Mawrth 2024 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragwelir £'000 | (Tan) / Gor Wariant a Ragwelir £'000 | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| Tai – Cronfa Gyffredinol | 1,877 | 1,386 | (491) | (26) |
| Tai – CRT | 19,988 | 19,888 | (100) | (1) |
| Dysgu Gydol Oes | 11,241 | 11,118 | (123) | (1) |
| Economaidd ac Adfywio | 14,237 | 14,237 | 0 | 0 |
| Priffyrdd | 8,532 | 8,050 | (482) | (6) |
| Rheoli Gwastraff | 182 | 19 | (163) | (90) |
| Eiddo | 1,475 | 1,177 | (298) | (20) |
| Trawsnewid | 432 | 432 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion | 177 | 177 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **58,141** | **56,484** | **(1,657)** | **(3)** |
| **Cyllidir gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragwelir £'000** | **Amrywiant £'000** | **Amrywiant %** |
| Grant Cyfalaf | 30,324 | 29,841 | (483) | (2) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 443 | 244 | (199) | (45) |
| Benthyca â Chefnogaeth | 7,225 | 6,612 | (613) | (8) |
| Benthyca Di gefnogaeth | 2,835 | 2,835 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Refeniw | 13,315 | 13,215 | (100) | (1) |
| Cronfeydd wrth Gefn | 3,922 | 3,660 | (262) | (7) |
| Benthyciad | 77 | 77 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **58,141** | **56,484** | **(1,657)** | **(3)** |

**4.2** Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023/24 yw £1.657m, gyda'r posibilrwydd y bydd yn llithro i raglen gyfalaf 2024/25. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2024/25 a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

Rhagwelir tanwariant o £0.100m yn y CRT Tai, ac mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro'r gyllideb CRT ar gyfer chwarter 1, a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 26 Medi 2023.

Mae'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol yn cael ei grynhoi isod:-

**Dysgu Gydol Oes**
Rhagwelir tanwariant ar addasu adeiladau addysg ar gyfer yr anabl. Mae'r ffaith fod y Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gael yn golygu fod llawer o'r gwaith y byddid wedi ei gyllido o'r gyllideb hon yn arferol yn cael ei gyllido gan gyllid grant. Gofynnwyd am gael trosglwyddo'r gyllideb hon i 2024/25, gan fod arolygon yn cael eu cynnal ar adeiladau ysgol ac maent yn debygol o ddatgelu gwaith angenrheidiol sydd angen ei wneud ac nid oes sicrwydd y bydd grantiau ADY ar gael yn y dyfodol.

Rhagwelir tanwariant hefyd mewn perthynas â'r Cynllun Diogelwch Ysgolion. Oherwydd sgôp y gwaith ar gyfer y gyllideb sy'n weddill a'r broses gynllunio y mae'n rhaid ei dilyn, rhagwelir na fydd modd gwneud y gwaith tan Haf 2024 ac, felly, gofynnir am gael dwyn ymlaen unrhyw danwariant yn y gyllideb hon i 2024/25 er mwyn gwneud y gwaith angenrheidiol.

**Priffyrdd**
Mae'r tanwariant a ragwelir yn y cynlluniau Priffyrdd yn gysylltiedig â chynlluniau llifogydd amrywiol, yn bennaf am eu bod yn pontio dwy flwyddyn ariannol a bydd rhai ohonynt yn cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Bydd y cyllid yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf hefyd, fel y disgrifir uchod, ac ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.

**Eiddo**
Ni fydd cyllideb y cynllun Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus yn cael ei gwario'n llawn, ac amcangyfrifir na fydd unrhyw wariant o'r gyllideb hon yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, heblaw am ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer Cynllun Porth Arfordirol Môn, fel y nodwyd uchod. Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella toiledau cyhoeddus, a bydd hynny'n rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod. Rhagwelir hefyd y gallai cyllid grant pellach fod ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer gwaith cyfalaf ar doiledau cyhoeddus, a byddai modd defnyddio rhan o'r gyllideb hon eto fel cyllid cyfatebol os cyfyd y cyfle.

**Rheoli Gwastraff**
Ni fydd y gyllideb ar gyfer Offer Ailgylchu'n cael ei gwario'n llawn a rhagwelir tanwariant. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn blaenoriaethu ei wariant cyfalaf, yn unol â'i strategaeth a'r cynllun ariannol 5 mlynedd, a bydd y pwyllgor hwn yn cael ei ddiweddaru am ddatblygiadau pellach yn yr adroddiad chwarter 2.

**4.3** Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2024 yw £152.097m, sef y gofyn sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd mae benthyca allanol yn £123.608m, gan olygu, yn ei hanfod, bod angen i'r Awdurdod fenthyg £28.489m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf bresennol. Os caiff y cyllid hwn ei fenthyca'n allanol, ni fydd yr Awdurdod yn mynd tu hwnt i'r terfynau benthyca a gymeradwywyd, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2023/24 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan LlC) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a ddaw i law. Disgwylir y bydd rhaglen gyfalaf 2024/25 ddilyn yr un egwyddor, gyda'r grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido adnewyddu cerbydau bob blwyddyn, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a byddant yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor 2022 – 2027, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Dengys y canlyniadau ar ddiwedd chwarter 1, a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir, fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Er bod disgwyl i rai cynlluniau danwario ar hyn o bryd, rhaid nodi fod y cyllidebau wedi cael eu hymrwymo a bod gofyn amdanynt, a gofynnir yn yr adroddiad alldro ar gyfer 2023/24 am lithriad i'r cynlluniau hyn i'w cwblhau'r flwyddyn ariannol nesaf. Cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2024. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn £1.028m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2023/24 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

**Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a’r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi ei Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | VAmrywiant i’r Proffil (£) | Cyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario (%) | Cyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan) / Gor Wariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol Tai** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl | 1,215,948 | 150,000 | 113,284 | 0 | 113,284 | (36,716) | 76 | 9 | 1,215,948 | 0 | 0 |
| Grant Galluogi | 139,786 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 139,786 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl I Sipsiwn a Theithwyr | 490,841 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (490,841) | (100) |
| Tai Fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,877,225** | **150,000** | **113,284** | **0** | **113,284** | **(36,716)** | **76** | **6** | **1,386,384** | **(490,841)** | **(26)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 1,250,000 | 10,000 | 9,975 | 0 | 9,975 | (25) | 100 | 1 | 1,250,000 | 0 | 0 |
| Contract Cynnal a Chadw wedi ei Gynllunio | 4,450,000 | 399,000 | 398,872 | 0 | 398,872 | (128) | 100 | 9 | 4,450,000 | 0 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 600,000 | 25,000 | 0 | 0 | 0 | (25,000) | 0 | 0 | 500,000 | (100,000) | (17) |
| Gwaith Amgylcheddol | 700,000 | 5,000 | 5,150 | 0 | 5,150 | 150 | 103 | 1 | 700,000 | 0 | 0 |
| Prynnu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd | 10,288,000 | 1,630,000 | 1,629,799 | 0 | 1,629,799 | (201) | 100 | 16 | 10,288,000 | 0 | 0 |
| Addasiadau'r Sector Cyhoeddus | 400,000 | 97,000 | 96,418 | 0 | 96,418 | (582) | 99 | 24 | 400,000 | 0 | 0 |
| Risg Tan | 400,000 | 1,000 | 1,400 | 0 | 1,400 | 400 | 140 | 0 | 400,000 | 0 | 0 |
| SATC | 1,900,000 | 337,000 | 337,252 | 0 | 337,252 | 252 | 100 | 18 | 1,900,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **19,988,000** | **2,504,000** | **2,478,866** | **0** | **2,478,866** | **(25,134)** | **99** | **12** | **19,888,000** | **(100,000)** | **(1)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladu Addysg | 144,512 | 20,000 | 21,410 | 0 | 21,410 | 1,410 | 107 | 15 | 85,640 | (58,872) | (41) |
| Adnewyddu Adeilad Addysg | 2,186,208 | 20,000 | 21,981 | 0 | 21,981 | 1,981 | 110 | 1 | 2,186,208 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgol | 107,648 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 44,000 | (63,648) | (59) |
| Grant Prydau Ysgol am Ddim | 600,205 | 110,000 | 102,914 | 0 | 102,914 | (7,086) | 94 | 17 | 600,205 | 0 | 0 |
| Canopïau allanol | 22,420 | 22,420 | 10,543 | 8,800 | 19,343 | (3,077) | 86 | 86 | 22,420 | 0 | 0 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 435,677 | 50,000 | 30,455 | 0 | 30,455 | (19,545) | 61 | 7 | 435,677 | 0 | 0 |
| Ysgolion Bro | 450,993 | 25,000 | 22,415 | 0 | 22,415 | (2,586) | 90 | 5 | 450,993 | 0 | 0 |
| Ysgolion Bro 2023/24 | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Ysgol Uwchradd Bodedern - Lleiniau | 330,000 | 15,000 | 13,620 | 0 | 13,620 | (1,380) | 91 | 4 | 330,000 | 0 | 0 |
| Grant Cynyddu capasiti ar gyfer Grant Gofal Plant (cynllun grant) | 380,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 380,000 | 0 | 0 |
| Cynyddu capasiti ar gyfer Gofal Plant (Darpariaethau Gofal Plant) | 49,481 | 49,481 | 39,337 | 0 | 39,337 | (10,144) | 79 | 79 | 49,481 | 0 | 0 |
| Cwblhau Rhaglen Band A | 370,000 | 200,000 | 160,498 | 47,942 | 208,440 | 8,440 | 104 | 56 | 370,000 | 0 | 0 |
| Cychwyn Rhaglen Band B | 5,964,000 | 700,000 | 677,467 | 3,502 | 680,969 | (19,031) | 97 | 11 | 5,964,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **11,241,144** | **1,211,901** | **1,100,640** | **60,244** | **1,160,884** | **(51,018)** | **96** | **10** | **11,118,624** | **(122,520)** | **(1)** |

ATODIAD B

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi ei Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Variance to profile (£) | Cyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei wario (%) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Rhagwelir (Tan) / Gor (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Gwelliannau Hamdden | 30,394 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,394 | 0 | 0 |
| Ystafell Ffitrwydd Amlwch | 1,468 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 1,468 | 0 | 0 |
| Canolfan Hamdden Amlwch - Lloriau | 75,635 | 75,635 | 0 | 75,635 | 75,635 | 0 | 100 | 100 | 75,635 | 0 | 0 |
| Goleuadau Llifogydd 3G Plas Arthur | 81,069 | 80,000 | 3,165 | 77,904 | 81,069 | 1,069 | 101 | 100 | 81,069 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 50,000 | 12,500 | 3,605 | 0 | 3,605 | (8,895) | 29 | 7 | 50,000 | 0 | 0 |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 50,000 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (Cyfnod II THI) | 762,000 | 150,000 | 32,875 | 101,015 | 133,889 | (16,111) | 89 | 18 | 762,000 | 0 | 0 |
| Parc y Morglawdd | 110,000 | 60,000 | 58,960 | 0 | 58,960 | (1,040) | 98 | 54 | 110,000 | 0 | 0 |
| Penrhos Cyfnod 3 | 2,820,804 | 1,200,000 | 1,082,916 | 111,167 | 1,194,083 | (5,917) | 100 | 42 | 2,820,804 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 145,888 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 145,888 | 0 | 0 |
| Llithrfa Porth Wrach – Camerâu Gorfodi | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Gymunedol Newry | 52,289 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 52,289 | 0 | 0 |
| Safle Porth JV | 21,514 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 21,514 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Morwrol | 177,514 | 30,000 | 0 | 28,573 | 28,573 | (1,427) | 95 | 16 | 177,514 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 198,930 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 198,930 | 0 | 0 |
| Melin Llynnon | 70,397 | 50,000 | 43,896 | 3,925 | 47,821 | (2,179) | 96 | 68 | 70,397 | 0 | 0 |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 10,064 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 10,064 | 0 | 0 |
| Porth yr Arfordir Môn | 313,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 313,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffyniant Bro | 9,236,000 | 700,000 | 688,279 | 0 | 688,279 | (11,721) | 98 | 7 | 9,236,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **14,236,966** | **2,358,136** | **1,913,694** | **398,218** | **2,311,912** | **(46,223)** | **98** | **16** | **14,236,966** | **0** | **0** |
| **Priffyrdd** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos mewn Meysydd Parcio | 4,533 | 4,533 | 0 | 5,469 | 5,469 | 936 | 121 | 121 | 5,469 | 936 | 21 |
| Cerbydau | 800,408 | 200,102 | 44,894 | 215,834 | 260,728 | 60,626 | 130 | 33 | 800,408 | 0 | 0 |
| Cerbydau Graeanu | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 250,000 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 2,500,000 | 250,000 | 233,737 | 0 | 233,737 | (16,263) | 93 | 9 | 2,500,000 | 0 | 0 |
| Cynllun Llifogydd Llanfair | 391,646 | 3,000 | 2,058 | 0 | 2,058 | (942) | 69 | 1 | 10,000 | (381,646) | (97) |
| Cynllun Llifogydd FBC Menai | 150,771 | 30,000 | 15,775 | 12,000 | 27,775 | (2,225) | 93 | 18 | 50,000 | (100,771) | (67) |
| Adeiladu Y Fali | 13,248 | 20,000 | 207 | 13,476 | 13,684 | (6,316) | 68 | 103 | 13,248 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Cymorth Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 346,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 346,800 | 0 | 0 |
| Mill Lane - NFM | 30,888 | 3,000 | 3,228 | 0 | 3,228 | 228 | 108 | 10 | 30,888 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 5,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 5,068 | 0 | 0 |
| Gwaith grantiau ar raddfa fach | 728,834 | 20,000 | 16,637 | 0 | 16,637 | (3,363) | 83 | 2 | 728,834 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 2,253,103 | 20,000 | 14,622 | 0 | 14,622 | (5,378) | 73 | 1 | 2,253,103 | 0 | 0 |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwella Isadeiledd Bysiau 2021/22 | 28,014 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 28,014 | 0 | 0 |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwella Isadeiledd Bysiau 2022/23 | 387,852 | 50,000 | 41,996 | 6,761 | 48,758 | (1,242) | 98 | 13 | 387,852 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | 57,334 | 40,000 | 37,473 | 0 | 37,473 | (2,527) | 94 | 65 | 57,334 | 0 | 0 |
| Strydoedd saffach | 18,000 | 5,000 | 4,456 | 0 | 4,456 | (544) | 89 | 25 | 18,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan 2023/24 | 376,550 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 376,550 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan | 189,152 | 1,000 | 947 | 0 | 947 | (53) | 95 | 1 | 189,152 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **8,532,201** | **646,635** | **416,030** | **253,540** | **669,570** | **22,935** | **104** | 8 | **8,050,720** | **(481,481)** | **(6)** |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi ei Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Variance to profile (£) | Cyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei wario (%) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | Rhagwelir (Tan) / Gor (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Gwaith IVC | 13,595 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 13,595 | 0 | 0 |
| Offer Ail-gylchu | 168,681 | 5,000 | 0 | 4,900 | 4,900 | (100) | 98 | 3 | 5,000 | (163,681) | (97) |
| **CYFANSWM** | **182,276** | **5,000** | **0** | **4,900** | **4,900** | **(100)** | **98** | **3** | **18,595** | **(163,681)** | **(90)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Presennol | 1,075,546 | 150,000 | 152,768 | 0 | 152,768 | 2,768 | 102 | 14 | 1,075,546 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed Eiddo | 77,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 77,068 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - Swyddfeydd y Cyngor | 23,900 | 23,900 | 0 | 0 | 0 | (23,900) | 0 | 0 | 23,900 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Cyfleusterau Cyhoedduss | 298,839 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (298,839) | (100) |
| **CYFANSWM** | **1,475,353** | **173,900** | **152,768** | **0** | **152,768** | **(21,133)** | **88** | **10** | **1,176,514** | **(298,839)** | **(20)** |
| Trawsnewid | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 149,456 | 37,364 | 15,669 | 17,140 | 32,809 | (4,555) | 88 | 22 | 149,456 | 0 | 0 |
| TGCh – Adnewyddu Cyfrifiaduron | 99,456 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 99,456 | 0 | 0 |
| TGCh – Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 43,088 | 20,000 | 0 | 28,718 | 28,718 | 8,718 | 144 | 67 | 43,088 | 0 | 0 |
| Hwb TGCh | 138,514 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 138,514 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **430,514** | **57,364** | **15,669** | **45,858** | **61,527** | **4,163** | **107** | **14** | **430,514** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso (IRCF) | 140,066 | 60,000 | 54,946 | 0 | 54,946 | (5,054) | 92 | 39 | 140,066 | 0 | 0 |
| Hwb Cymunedol Bryn Hwfa | 13,155 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 13,155 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 24,104 | 10,000 | 8,886 | 0 | 8,886 | (1,114) | 89 | 37 | 24,104 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **177,325** | **70,000** | **63,833** | **0** | **63,833** | **(6,167)** | **91** | **36** | **177,325** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **58,141,004** | **7,176,937** | **6,254,786** | **762,760** | **7,017,546** | **(159,391)** | **98** | **12** | **56,483,642** | **(1,657,363)** | **(3)** |

**Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb.**

| Cynllun | Cyllideb £ | FUNDING Grant £ | Cyfraniad Refeniw £ | Derbynebau Cyfalaf Wrth Gefn £ | Arian Wrth Gefn Cyfalaf £ | Benthyca Gyda Chefnogaeth £ | Arian Wrth Gefn Arall £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ailwynebu Priffyrdd* | 0 | (1,701,000) | | | | 591,000 | 1,110,000 |
| Ysgolion Bro | 200,000 | 200,000 | | | | | |
| Galluogi | 139,786 | 139,786 | | | | | |
| Teithio Llesol | 2,253,103 | 2,253,103 | | | | | |
| Mill Lane NFM | (241,640) | (241,640) | | | | | |
| ULEV | 376,550 | 376,550 | | | | | |
| Y Pethau Pwysig | 250,400 | 250,400 | | | | | |
| Grantiau Bach Gofal Plant | 380,000 | 380,000 | | | | | |
| Llifoleuadau Plas Arthur | 51,305 | 51,305 | | | | | |
| Lleiniau Bodedern | 330,000 | 300,000 | | | | | 30,000 |
| Parc y Morglawdd | 110,000 | 110,000 | | | | | |
| Strydoedd Saffach | 18,000 | 18,000 | | | | | |
| Cam 3 | 22,187 | 22,187 | | | | | |
| Cam 3 | 398,617 | 398,617 | | | | | |
| Llangefni JV | 21,514 | 21,514 | | | | | |
| Grantiau ar Raddfa Fach | 606,446 | 606,446 | | | | | |
| Grantiau ar Raddfa Fach | 47,388 | | | | | | 47,388 |
| CRT*** | 821,000 | 1,229,000 | (875,945) | | | 467,945 | |
| ICF | (693,966) | | (226,021) | | | (467,945) | |
| Corn Hir | 370,000 | 107,328 | | | | 262,672 | |
| Cerbydau** | 0 | 58,000 | | (58,000) | | | |
| Cerbydau Graeanu** | 0 | 150,000 | | (150,000) | | | |
| Cyllideb TG** | 0 | 292,000 | | (292,000) | | | |
| Strwythur Mill Lane | 30,888 | 26,255 | | | 4,633 | | |
| Ailgylchu Gwastraff | (50,000) | | | | (50,000) | | |
| **CYFANSWM** | **5,441,578** | 5,047,851 | (1,101,966) | (500,000) | (45,367) | 853,672 | 1,187,388 |

*Roedd £1.701m o gyllid o grant cyfalaf cyffredinol ychwanegol wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2023/24. Ar ôl adolygu cyfyngiadau amodau'r grant, roedd rhaid ei ddefnyddio yn 2022/23 ac felly defnyddiwyd y grant i gyllido gwariant cyfalaf yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid y mae'r Awdurdod wedi ei arbed o'r grant hwn yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwariant cyfalaf yn 2023/24.

** Ail-ddyrannu cyllid – bydd cynlluniau y bwriadwyd yn wreiddiol eu cyllido o dderbyniadau cyfalaf yn y rhaglen 2023/24 yn cael eu cyllido yn awr o'r grant cyfalaf cyffredinol.

*** Roedd yr amcangyfrif o gyllid grant yn y gyllideb CRT ar gyfer 2023/24 yn rhy isel, ond mae'r cynnydd angenrheidiol wedi'i gynnwys yn y gyllideb yn awr, ac mae'r cyllid wedi cael ei addasu.

This page is intentionally left blank

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **26 MEDI 2023** |
| Pwnc: | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 1 2023/24** |
| Aelod Portffolio: | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **CARWYN EDWARDS**<br>**01248 752699**<br>**CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 1 2023/24.

**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2023/24.

**2. Cefndir**

**(i)** Mae'r adroddiad hwn yn dangos cyllideb refeniw sydd â gwarged a gynlluniwyd o £8,044k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2023/24 yw £19,988k. Mae grantiau, a chyllid arall gwerth £6,898k, yn gostwng y gyllideb net i £13,090k.

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £5,046k, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo ei arian wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio arian wrth gefn y Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae sefyllfa refeniw y CRT (gwarged / diffyg) ar ddiwedd chwarter 1 yn dangos gorwariant o £8k o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.2** Mae gwariant cyfalaf £25k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelwyd £100k yn is na'r gyllideb, fel yr esbonnir isod. Mae Atodiad B yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.3** Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) yn £4,278k, £768k yn is na'r gyllideb.

5. **Incwm**

**5.1** Ar ddiwedd chwarter 1, roedd yr incwm a dderbyniwyd £43k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.

**5.2** Roedd incwm rhenti £25k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 1. Rydym yn rhagweld y bydd yr incwm £23k yn uwch na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, wrth i eiddo newydd ddod ar gael i'w gosod.

**5.3** Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% o'r incwm rhent, ffigwr tebyg i'r llynedd. Oherwydd yr ansicrwydd am gyfradd chwyddiant a'i effaith ar yr argyfwng costau byw yn y tymor hir, nid oes newid yn y rhagolwg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd yn cael ei fonitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn a bydd yn cael ei adolygu os yw lefel y dyledion yn awgrymu bod risg fod lefel y dyledion nad ydynt yn cael eu casglu yn cynyddu, a bod y dyledion hynny'n cael eu dileu yn y pendraw.

6. **Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**6.1** Ar ddiwedd chwarter 1, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £129k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd.

**6.2** Mae gwariant refeniw arall yn dangos tanwariant o £45k yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd, ond disgwylir tanwariant o £43k ar ddiwedd y flwyddyn.

**6.3** Mae'r pennawd Cyfranogiad Tenantiaid yn dangos tanwariant o £23k ar ddiwedd chwarter 1. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl gweld mwy o weithgarwch yn ystod misoedd yr haf, felly'r rhagolwg ar ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £19k, oherwydd swyddi gweigion.

**6.4** Mae'r pennawd gweinyddu rhenti'n dangos tanwariant o £21k ar ddiwedd chwarter 1. Rydym yn rhagweld tanwariant o £44k ar ddiwedd y flwyddyn, gan y disgwylir i swydd wag gael ei llenwi.

7. **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**7.1** Mae gorwariant o £170k ar yr Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) ar ddiwedd chwarter 1, yn bennaf oherwydd ymrwymiadau a godwyd cyn i waith gael ei gwblhau. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i adolygu gofynion yn y gyllideb a gosodwyd cyllideb fwy realistig ar gyfer 2023/24.

**7.2** Mae gwariant ar staff nad ydynt yn staff yr UCChT £50k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 1 a rhagwelir tanwariant o £19k yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd y flwyddyn.

8. **Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sydd yn ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir tanwariant o £131k ar Gostau Cyllido Cyfalaf a bydd llog a dderbynnir £124k yn uwch na'r gyllideb.

9. **Gwariant Cyfalaf**

**9.1** Cyfanswm y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2023/24 yw £19,988k. Mae cyllid grant o £6,205k yn cynnwys:-

| Ffynhonnell | £ |
|---|---|
| Cronfa Tai â Gofal | 300,000 |
| Grant Trawsnewid Trefi | 250,000 |
| Grant Tai Cymdeithasol | 1,452,000 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,690,000 |
| Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2023/24 | 873,000 |
| Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2022/23 – dygwyd ymlaen | 371,000 |
| Grant Diogelwch Tân | 269,000 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **6,205,000** |

**9.2** Ar ôl caniatáu swm o £693k ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl, rhydd hyn gyllideb gyfalaf net o £13,089k. Mae Atodiadau B a C yn cynnwys mwy o fanylion.

**9.3** Gwariant SATC – Mae'r gyllideb o £1,900k yn cael ei rhannu rhwng gwaith a gynlluniwyd i adnewyddu ceginau mewn oddeutu 80 eiddo a gwaith cyfalaf sy'n cael ei arwain gan y galw pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo. Dyfarnwyd contract gwerth £484k ar gyfer gwaith a gynlluniwyd yn ystod chwarter 4 2022/23, ac mae'r Gwasanaeth Tai'n amcangyfrif y bydd y rhan fwyaf o'r gwariant yn digwydd yn ystod chwarter 2 a 3 2023/24. Mae swm o £1,400k wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith cyfalaf a wneir gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai, yn bennaf pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo. Mae gwaith sy'n cael ei wneud pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo yn mynd rhagddo a gwariwyd cyfanswm o £337k yn ystod chwarter 1.

**9.4** Gwariant Risg Tân – Bydd y gyllideb gwerth £400k yn cael ei gwario ar gwblhau gwaith ôl-osod systemau llethu tân ym Maes y Coed, Porthaethwy, a Glan Cefni, Llangefni, yn ogystal â gwelliannau yn gysylltiedig ag adrannau rhag tân yn y pedwar bloc o fflatiau uchder canolig sy'n rhan o'r stoc tai. Yn ogystal, mae gwaith cyfalaf yn cynnwys uwchraddio systemau larymau tân a gosod drysau tân newydd. Rhagwelir y caiff y gyllideb ei defnyddio'n llawn yn ystod 2023/24.

**9.5** Gwariant ar Addasiadau Sector Cyhoeddus – Roedd y galw am addasiadau canolig a mawr yn parhau'n uchel yn ystod chwarter 1, ac mae gwariant hyd at ddiwedd chwarter 1 yn awgrymu y bydd y gyllideb o £400k yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2023/24. Mae gwariant ar Addasiadau yn cael ei arwain gan y galw ac, yn nodweddiadol, mae'n cynnwys gosod lifftiau grisiau, cawodydd sydd â mynediad gwastad ac addasu trefniadau mynediad presennol.

**9.6** Gwariant Perfformiad Ynni – Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori â'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth (DNO) cyn gosod paneli Solar Ffotofoltaidd i gynhyrchu trydan adnewyddadwy. Oherwydd oedi, mae'r gyllideb Perfformiad Ynni wedi gostwng o £1,000k i £600k. Yn anffodus, mae'n parhau i fod yn anodd derbyn cymeradwyaeth gan y DNO i wneud gwaith Solar Ffotofoltaidd mawr oherwydd y gofyniad i atgyfnerthu'r rhwydwaith cyn gosod y system Solar Ffotofoltaidd. Mae'r DNO wedi cychwyn y broses o drefnu i uwchraddio'r rhwydwaith mewn lleoliadau penodol ond, yn anffodus, nid yw'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith uwchraddio'n hysbys ar hyn o bryd. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd £500k yn cael ei wario yn 2023/24, a disgwylir tanwariant o £100k ar y prosiect hwn yn 2023/24.

**9.7** Gwariant ar Waith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd – Yn dilyn dyfarnu contract ar gyfer gwaith Cam 2 ym Mae Cemaes yn ystod chwarter 1, mae'r gyllideb gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd wedi'i hymrwymo'n llawn. Dyfarnwyd contract Cam 2, gwerth £3,495k, yn chwarter 1, ac mae gwaith wedi cychwyn ar y safle ers diwedd Mehefin. Disgwylir i'r contract hwn, ynghyd â'r gwariant a ymrwymwyd a ddygwyd ymlaen o 2022/23, ddefnyddio'r gyllideb lawn o £4,450k.

**9.8** Gwariant ar Waith Amgylcheddol - Bydd y gyllideb o £700k yn canolbwyntio ar barhau i ddymchwel garejys yn Llangefni a gwelliannau arfaethedig i'r system gwaredu â charthffosiaeth yng Ngharreglefn, er mwyn cydymffurfio â gofynion a bennwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Ar ddiwedd chwarter 1, roeddem wedi ymrwymo i wario £352k ar un cynllun mawr i ddymchwel 30 o garejys ym Mro Tudur. Dyfarnwyd y contract hwn, gwerth £313k, ym mis Mehefin. Ar hyn o bryd, mae contractwr tymor y Gwasanaethau Priffyrdd yn gweithio ar ddyluniadau manwl ar gyfer trefniadau carthffosiaeth amgen, ac mae'r Gwasanaethau Tai'n disgwyl y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd chwarter 2. Rydym yn rhagweld y bydd y gyllideb o £700k yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2023/24.

**9.9** Gwariant ar y Contract Gwresogi Canolog – Yn ystod 2023/24, nod y Gwasanaethau Tai yw adnewyddu oddeutu 500 o foeleri. Dyfarnwyd contract ar gyfer y rhaglen adnewyddu boeleri eleni yn ystod chwarter 1, ac rydym yn disgwyl gwariant sylweddol o dan y contract hwn yn ystod chwarter 2 a 3, felly, rydym yn rhagweld y bydd y gyllideb o £1.25m yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**9.10** Mae'r tanwariant o £100k a ragwelir ar wariant cyfalaf yn golygu gostyngiad o'r un swm yn y swm sydd i'w gyllido o'r cyfrif refeniw CRT. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido prosiectau sydd wedi eu gohirio tan y flwyddyn nesaf.

**10. Balans y CRT**

**10.1** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £12,107k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £5,046k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn defnyddio £4,278k yn unig. Bydd hyn yn rhoi balans o £7,829k yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

**Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu. |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad ar 5 Medi 2023, ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| **2** | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth. |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| **5** | Eiddo | Amherthnasol |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| **7** | Caffael | Amherthnasol |
| **8** | Sgriwtini | Mae canlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT yn cael eu cyflwyno i'r Panel Sgriwtini Cyllid. |
| **9** | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F – Atodiadau:**

- Atodiad A – Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd Chwarter 1 2023/24
- Atodiad B – Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 1 2023/24
- Atodiad C – Cynlluniau Cyfalaf a rhagolygon adeiladu tai newydd hyd at ddiwedd Chwarter 1 2023/24

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2023/53 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2023).

**ATODIAD A**

# CYFRIF REFENIW TAI 2023/24

| | Cyllideb Flynyddol 2023/24 | Cyllideb wedi ei Broffilio i Mis 3 | Gwirioneddol i Mis 3 | Amrywiant i Mis 3 | Rhagolwg Diwedd y flwyddyn | Amrywiant Diwedd y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFRIF REFENIW Incwm** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Anheddau | (20,693,000) | (5,274,686) | (5,249,437) | 25,249 | (20,715,525) | (22,525) |
| Modurdai | (247,000) | (61,751) | (63,195) | (1,444) | (247,919) | (919) |
| Taliadau Gwasanaeth | (213,070) | (53,268) | (50,955) | 2,313 | (199,898) | 13,172 |
| Arall | (262,100) | (36,550) | (19,223) | 17,327 | (257,482) | 4,618 |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 316,000 | 0 | 0 | 0 | 316,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(21,099,170)** | **(5,426,255)** | **(5,382,810)** | **43,446** | **(21,104,824)** | **(5,654)** |
| **Gwariant and yw'n ymmwneud a Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 241,070 | 60,287 | 37,067 | (23,220) | 222,270 | (18,800) |
| Gweinyddu Rhent | 580,410 | 145,112 | 124,228 | (20,884) | 536,040 | (44,370) |
| Rheoli Ystadau | 644,500 | 161,148 | 121,209 | (39,939) | 607,701 | (36,799) |
| Refeniw Arall Gwariant | 1,726,560 | 348,334 | 303,521 | (44,813) | 1,683,474 | (43,086) |
| **Cyfanswm Gwariant and yw'n ymwneud a Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | 3,192,540 | 714,881 | 586,024 | (128,857) | 3,049,485 | (143,055) |
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) | 5,470,600 | 1,410,008 | 1,580,449 | 170,442 | 5,222,447 | (248,153) |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladu (dim UCChT) | 1,211,860 | 302,975 | 253,460 | (49,515) | 1,192,936 | (18,924) |
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw arall | 752,320 | 188,172 | 160,692 | (27,480) | 755,256 | 2,936 |
| **Cyfanswm Atgyweirio a Chynnal a chadw** | **7,434,780** | **1,901,155** | **1,994,602** | **93,447** | **7,170,639** | **(264,141)** |
| **Addasiadau DIwedd y Flwyddyn** | | | | | | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 1,742,430 | 0 | 0 | 0 | 1,611,600 | (130,830) |
| Llog a Dderbynniwyd | (200,000) | 0 | 0 | 0 | (324,000) | (124,000) |
| Recharge o'r Gwasanaethau Tai | 100,090 | 0 | 0 | 0 | 100,090 | 0 |
| Recharge o'r Gwasanaethau Canolog | 785,550 | 0 | 0 | 0 | 785,550 | 0 |
| Cyfanswm Addasiadau Diwedd y Flwyddyn | 2,428,070 | 0 | 0 | 0 | 2,173,240 | (254,830) |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **13,055,390** | **2,616,036** | **2,580,626** | **(35,409)** | **12,393,364** | **(662,026)** |
| **CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG REFENIW** | **(8,043,780)** | **(2,810,220)** | **(2,802,183)** | **8,036** | **(8,711,460)** | **(667,680)** |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant 2023/24 | 19,988,000 | 2,504,000 | 2,479,000 | (25,000) | 19,888,000 | (100,000) |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr / Grant Tai Cymdeithasol (SHG) | (6,205,000) | 0 | 0 | 0 | (6,205,000) | 0 |
| Grantiau / Benthyciadau arall | (693,460) | 0 | 0 | 0 | (693,460) | 0 |
| CYFANSWM (GWARGED) / DIFFYG CYFALAF | 13,089,540 | 2,504,000 | 2,479,000 | (25,000) | 12,989,540 | (100,000) |
| (CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN CRT | 5,045,760 | (306,220) | (323,183) | (16,964) | 4,278,080 | (767,680) |
| Balans Agoriadol y CRT | (12,107,000) | | | | (12,107,000) | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng nghronfa wrth gefn y CRT** | **5,045,760** | | | | **4,278,080** | |
| **Balans Cau y CRT** | **(7,061,240)** | **0** | **0** | **0** | **(7,828,920)** | **0** |

**ATODIAD B**

**CYLLIDEB CYFALAF REFENIW TAI 2023/24**

| Gwariant Cyfalaf | Cyllideb Flynyddol £ | Cyllideb a Broffilwyd i Mis 3 £ | Gwirioneddol i Mis 3 £ | Amrywiant i Mis 3 £ | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn £ | Amrywiant Diwedd Blwyddyn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CRT TAI | | | | | | |
| Contract Gwresogi Canolog | 1,250,000 | 10,000 | 10,000 | 0 | 1,250,000 | 0 |
| Contract Cynnal a Chadw a gynllinwyd | 4,450,000 | 399,000 | 399,000 | 0 | 4,450,000 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 600,000 | 25,000 | 0 | (25,000) | 500,000 | (100,000) |
| Gwaith Amgylcheddol | 700,000 | 5,000 | 5,000 | 0 | 700,000 | 0 |
| Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygiadau Eiddo Newydd | 10,288,000 | 1,630,000 | 1,630,000 | 0 | 10,288,000 | 0 |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 400,000 | 97,000 | 97,000 | 0 | 400,000 | 0 |
| Risg Tân | 400,000 | 1,000 | 1,000 | 0 | 400,000 | 0 |
| SATC | 1,900,000 | 337,000 | 337,000 | 0 | 1,900,000 | 0 |
| **CYFANSWM GWARIANT CYFALAF** | **19,988,000** | **2,504,000** | **2,479,000** | **(25,000)** | **19,888,000** | **(100,000)** |

**CYLLIDEB DATBLYGIADAU NEWYDD 2023/24**

| Cynllun | Nifer yr Unedau Ychwanegol | Cyllideb 2023/24 £ | Cyfanswm Gwariant a Ragwelir £ | Amrywiad a Ragwelir ym mis 3 £ |
|---|---|---|---|---|
| Pentraeth (Clwyd Alyn) | 10 | 2,250,000 | 2,250,000 | 0 |
| Gofal Ychwanegol Porthaethwy | 55 | 250,000 | 250,000 | 0 |
| Plas Alltran, Caergybi | 4 | 1,200,000 | 1,200,000 | 0 |
| Ysgol Llaingoch, Caergybi | 26 | 4,000 | 4,000 | 0 |
| Cae Braenar, Caergybi | 23 | 500,000 | 500,000 | 0 |
| Parc y Coed, Llangefni Cyfnod 1 | 10 | 990,000 | 990,000 | 0 |
| Clwb Cymdeithasol Biwmares | 6 | 408,000 | 408,000 | 0 |
| Adnewyddu 10 Uned | 0 | 750,000 | 750,000 | 0 |
| Prynu 10 Uned yn ol | 10 | 1,100,000 | 1,100,000 | 0 |
| Hen Safle Ysgol Niwbwrch | 14 | 500,000 | 500,000 | 0 |
| Hen Safle Ysgol Thomas Ellis | 43 | 50,000 | 50,000 | 0 |
| Parc y Coed, Llangefni Cyfnod 2 | 10 | 1,400,000 | 1,400,000 | 0 |
| Adnewyddu Haulfryn a Chyfnod 2 | 1 | 365,000 | 365,000 | 0 |
| Pen y Coed, Rhostrehwfa | 1 | 482,000 | 482,000 | 0 |
| Cynlluniau yn y Cyfnod Cynllunio | | 39,000 | 39,000 | 0 |
| **Cyfanswm 2023/24** | **213** | **10,288,000** | **10,288,000** | **0** |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **26 Medi 2023** |
| Pwnc: | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 – 2025/26** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Robin W. Williams – Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Cyllid** |
| Rheolwr Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Marc Jones – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Marc Jones**<br>**01248 752601**<br>**rmjfi@ynysmon.llyw.Cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

## A –Argymhelliad/ion a rheswm/rhesymau

**Argymhellion**

Mae gofyn i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw, ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y ddwy flynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o osod y gyllideb flynyddol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllidol a nodir yn yr adroddiad fel rhan o'r broses ar gyfer gosod cyllideb refeniw 2023/24.

Mae'r adroddiad manwl ynghlwm fel Atodiad 1.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, sydd yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael. Felly, nid ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi datganiad cyn pennu cyllideb, a hynny cyn 30 Medi bob blwyddyn.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn??

Ydi, mae'n unol â pharagraff 4.3.2.2.1 o Gyfansoddiad y Cyngor.

## D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ni fydd y penderfyniad, er y bydd yn cael effaith ar gyllideb 2024/25, yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol nac yn cynhyrchu unrhyw incwm ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. O'r herwydd, ni fydd y penderfyniad hwn yn cael effaith ar y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2023/24.

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r CATC yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor dros y 2 flynedd ariannol nesaf. Mae hyn yn cael effaith ar lefel y gwasanaethau y gall y Cyngor eu darparu i ddiwallu anghenion yr Ynys a'i thrigolion. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut. | Mae nodi a chytuno ar sefyllfa ariannol ar gyfer y tymor canolig yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ar gyfer cost gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd cynllunio ariannol da yn golygu bod modd osgoi costau dianghenraid yn y dyfodol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae'r Cyngor, ynghyd â'r 21 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi gosod allan sefyllfa ariannol ar draws Cymru i Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'r rhagdybiaethau manwl a ddefnyddir yn y cynllun. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae'r cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol yn destun proses ymgynghori gyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried canlyniad yr Ymgynghoriad cyn cyflwyno ei gynigion cyllideb terfynol i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth bob blwyddyn. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Nid yw'r CATC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant yn ffurfio rhan o'r gyllideb flynyddol a byddai cynigion unigol yn cael eu hasesu mewn perthynas â'u heffaith ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yr adeg hynny. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei chael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol. | Nid yw'r CATC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant yn ffurfio rhan o'r gyllideb flynyddol a byddai effaith cynigion unigol ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol yn cael ei hasesu bryd hynny. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar ac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith |

| E – Gyda phwy yr ymgynghorwyd? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Ystyriodd y Tîm Arweinyddiaeth yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2022. Ymgorfforwyd sylwadau'r Prif Weithredwr a'r TA yn y drafft terfynol. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau |
|---|
| Atodiad 1 - Adroddiad Manwl ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>Atodiad 2 – Rhagdybiaethau'r CATC<br>Atodiad 3 - Amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net ar gyfer 2024/25 – 2025/26 |
| **Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi lefel yr adnoddau y mae'r Cyngor yn debygol o fod eu hangen am y ddwy flynedd ariannol nesaf ac yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r angen am adnoddau gyda'r cyllid sydd ar gael.

**1.2.** Paratowyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ystod cyfnod parhaus o ansicrwydd economaidd. Er gwaethaf y ffaith bod dwy flynedd ers y cyfnodau clo Covid ac er bod y DU wedi gadael yr UE ers Ionawr 2020, mae'r effaith ar economi'r DU yn dal i fod yn sylweddol. Mae problemau gyda chadwyni cyflenwi yn cael effaith ar chwyddiant. Mae materion byd-eang eraill gan gynnwys y rhyfel parhaus yn y Wcráin, hefyd yn cyfrannu at gostau ynni cynyddol ac anawsterau'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi sydd hefyd yn cael effaith ar chwyddiant.

**1.3.** Mae effaith cyllideb fach flaenorol y Prif Weinidog a'r Canghellor blaenorol ym mis Medi 2022 bellach yn lleihau, ond mae newid polisi economaidd y Prif Weinidog newydd yn cymryd amser i gael effaith sylweddol, gyda chwyddiant yn dal i fod yn uchel, cyfraddau llog yn cynyddu a thwf yn isel iawn, gyda'r posibilrwydd o ddirwasgiad yn y dyfodol agos. Mae'r holl ffactorau hyn yn parhau i ddylanwadu ar y cyllid cyhoeddus a faint o gyllid fydd ar gael i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n edrych yn debyg y bydd y ddwy flynedd ariannol nesaf yn heriol dros ben a bydd gosod cyllideb gytbwys yn gofyn am ddewisiadau anodd ynghylch lefel y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor.

**1.4.** Mae'r sefyllfa'n cael ei chymhlethu ymhellach gan yr etholiad cyffredinol, y bydd yn rhaid ei gynnal cyn mis Ionawr 2025. Gall hyn arwain at newid yng nghynlluniau gwariant Llywodraeth y DU cyn yr etholiad, ac efallai y bydd gan unrhyw Lywodraeth newydd strategaeth economaidd wahanol yn dilyn yr etholiad. Unwaith eto, bydd hyn yn dylanwadu ar lefel y gwariant cyhoeddus a'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Leol yng Nghymru.

**1.5.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ystyried yr holl newidiadau y gwyddys amdanynt y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gyllideb sylfaen ar gyfer 2024/25, ac mae'n gwneud rhagdybiaethau mewn perthynas â'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (costau cyflogau, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid Llywodraeth Cymru, pwysau demograffig a phwysau ar y gyllideb).

## 2. SEFYLLFA ARIANNOL BRESENNOL Y CYNGOR

**2.1.** Ym mis Mawrth 2023, gosododd y Cyngor y gyllideb ganlynol:-

**Tabl 1**
**Cyllideb Refeniw 2023/24**

| | £'m |
|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2022/23** | **158.367** |
| Chwyddiant Cyflog a Chostau eraill sy'n Gysylltiedig â Staff | 7.378 |
| Chwyddiant nad yw'n Gyflog | 12.569 |
| Pwysau Cyllidebol a Buddsoddiadau Gwasanaeth | 0.766 |
| Costau Cyllido Cyfalaf | (3.190) |
| Incwm Ychwanegol – uwchlaw cynnydd yn lefel chwyddiant | (0.569) |
| Arbedion Cyllidebol | (0.753) |
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2023/24** | **174.568** |
| | |
| **Cyllidwyd gan:** | |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | 123.663 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm) | 47.125 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 3.780 |
| **Cyfanswm Cyllid 2023/24** | **174.568** |

**2.2.** Gwelwyd cynnydd o £16.201m yn y gyllideb refeniw net derfynol ar gyfer 2023/24, sy'n cyfateb i gynnydd o 10.23%. Cynyddodd y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) 7.9% (ar ôl addasu ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth a'r grantiau a drosglwyddwyd i'r setliad). Cynyddodd debyd y Dreth Gyngor 7.6%. Cynyddodd y tâl Band D 5.0%, gyda gweddill y cynnydd mewn debyd y Dreth Gyngor o ganlyniad i'r newid yn sylfaen y dreth a chynnydd yn y premiwm ail gartrefi o 50% i 75%.

**2.3.** Roedd blwyddyn ariannol 2022/23 yn dal i fod yn flwyddyn drosiannol i'r Cyngor, gyda'r holl wasanaethau'n dod yn ôl i drefn ar ôl y cyfnodau clo Covid yn 2020 a 2021. Profodd y gwasanaethau alw cynyddol am wasanaethau, tra bod y sefyllfa ariannol wedi cael hwb gan gyllid untro ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru, mwy o incwm, yn enwedig gan wasanaethau Gwastraff a Phriffyrdd a lefel uchel o swyddi gwag staff.

**2.4.** Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23, nododd y Cyngor danwariant net o £1.212m (2.37%), gyda'r holl Wasanaethau, ar wahân i Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant a Tai, yn nodi tanwariant yn erbyn eu cyllideb. Arweiniodd hyn at gynnydd ym malansau cyffredinol y Cyngor i £13.966m. Fodd bynnag, neilltuwyd £3.780m o'r cronfeydd wrth gefn hyn fel cyllid ar gyfer cyllideb 2023/24. O ganlyniad, mae lefel y cronfeydd wrth gefn wrth symud ymlaen yn £10.186m, sy'n cyfateb i 5.83% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2023/24. Mae hyn yn cymharu â'r ffigwr targed o £8.7m (5.0%) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith.

**2.5.** Roedd cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor i gyllido prosiectau penodol untro, i gyllido costau disgwyliedig yn y dyfodol (e.e. colledion heb eu hyswirio) a chyllid grant nas defnyddiwyd, yn £19.637m ar 31 Mawrth 2023, gostyngiad o £3.544m yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd adolygiad o gronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn gyda £4.13m o gronfeydd wrth gefn yn cael eu dad-glustnodi a'u trosglwyddo'n ôl i falansau cyffredinol y Cyngor.

**2.6.** Bu ychydig o ostyngiad hefyd ym malansau ysgolion yn ystod 2022/23, gan ostwng o £7.827m i £6.716m. Wrth i bwysau chwyddiant gynyddu yn ystod 2022/23, defnyddiodd mwy o ysgolion eu cronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2022/23, a bydd y duedd hon yn parhau i 2023/24, gydag ysgolion yn amcangyfrif y bydd £2.82m o falansau ysgolion yn cael eu defnyddio yn 2023/24 i gydbwyso'r gyllideb refeniw.

**2.7.** Cafodd y Cyngor gynnydd sylweddol yn lefel y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) gan Lywodraeth Cymru, i fyny £9.067m (7.9%) ers y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd y cynnydd ariannol yn cynnwys y pwysau chwyddiant a wynebir gan y Cyngor ac, felly, nid oedd yn gynnydd ariannol mewn termau real. Bu cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ac nid oedd y cynnydd hwn, ynghyd â'r cynnydd yn yr AEF, yn ddigonol i gyllido'r cynnydd oedd ei angen yng nghyllideb refeniw net y Cyngor. O ganlyniad, cafodd £3.78m o gronfeydd wrth gefn eu defnyddio i gydbwyso'r gyllideb. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn bosibl yn y tymor byr ac yn rhoi amser i'r Cyngor sicrhau bod gwariant hirdymor yn cyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael, ond ni all y defnydd o gronfeydd wrth gefn barhau yn y tymor hir ac mae defnyddio'r cronfeydd hynny'n gwanhau gwydnwch ariannol y Cyngor.

**2.8.** Mae CIPFA yn argymell defnyddio 4 dangosydd gwydnwch ariannol i asesu sefyllfa ariannol y Cyngor, sef:-

- Bwlch Cyllido fel canran o'r Gwariant Refeniw Net, cyn unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor;
- Gor / Tanwariant mewn perthynas â gwariant refeniw net;
- Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fel canran o'r gyllideb refeniw net;
- Costau Cyllido Cyfalaf fel canran o wariant refeniw net.

**2.9.** Mae'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â phob dangosydd fel a ganlyn:-

### 2.9.1 Bwlch cyllido fel Canran o Wariant Refeniw Net

| Blwyddyn | Cyllideb Ddisymud £'m | AEF £'m | Dreth Gyngor y flwyddyn flaenorol (nodyn 1) £'m | Cyfanswm y Cyllid cyn Cynnydd Treth Gyngor £'m | Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido £'m | % y Bwlch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 132.337 | 94.924 | 33.644 | 128.568 | 3.769 | 2.85% |
| 2019/20 | 134.702 | 95.159 | 35.087 | 130.246 | 7.156 | 5.21% |
| 2020/21 | 142.203 | 101.005 | 39.370 | 140.375 | 1.828 | 1.29% |
| 2021/22 | 147.076 | 104.825 | 41.161 | 145.986 | 1.090 | 0.74% |
| 2022/23 | 155.501 | 114.549 | 42.957 | 157.506 | (2.005) | (1.29%) |
| 2023/24 | 173.830 | 123.555 | 44.879 | 168.434 | 5.396 | 3.10% |
| Nodyn 1 – Mae ffigyrau'r Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol yn cael eu haddasu i ystyried newidiadau i sylfaen y dreth | | | | | | |

Mae'r tabl yn dangos bod y cyfnod o lymder wedi parhau yn 2018/19 a 2019/20, a bod y bwlch cyllido yn golygu bod angen gwneud arbedion a chynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor. Yna bu gwelliant y sefyllfa yn 2020/21 a 2021/22, a llwyddwyd i lenwi'r bwlch cyllido drwy godi'r dreth gyngor ar sail chwyddiant neu'n is na chwyddiant. Yn 2022/23, roedd y sefyllfa'n sylweddol well, ac roedd yn golygu bod modd gwneud buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau, ond gwaethygodd y sefyllfa eto yn 2023/24, gyda'r bwlch cyllido'n cael ei lenwi'n bennaf drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb.

Trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn sut mae'r sefyllfa ar gyfer 2024/25 a 2025/26 yn cymharu â'r data hanesyddol hwn.

### 2.9.2 Gor / Tanwariant mewn perthynas â gwariant refeniw net

| Blwyddyn | Cyllideb Refeniw Net £'m | Gwariant Refeniw Net Gwirioneddol £'m | Gor / (Tan) Wariant £'m | % y Gor / (Tan) Wariant |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 Gwirioneddol | 130.900 | 131.533 | 0.633 | 0.48% |
| 2019/20 Gwirioneddol | 135.210 | 134.902 | (0.308) | (0.23%) |
| 2020/21 Gwirioneddol | 142.146 | 137.942 | (4.204) | (2.96%) |
| 2021/22 Gwirioneddol | 147.120 | 142.323 | (4.797) | (3.26%) |
| 2022/23 Gwirioneddol (Disgwyl Archwiliad) | 158.367 | 157.420 | (1.212) | (0.76%) |
| 2023/24 (Rhagolygon yn Chwarter 1) | 174.569 | 175.313 | 0.744 | 0.43% |

Mae'r tabl yn tynnu sylw at y ffaith bod y sefyllfa derfynol yn agos at y gyllideb yn 2018/19 a 2019/20, gyda gorwariant bach yn 2018/19 a thanwariant bach yn 2019/20. Yna cafodd Covid effaith sylweddol ar y galw am wasanaethau a lefel y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a arweiniodd at ddwy flynedd o danwariant sylweddol. Dechreuodd y sefyllfa ddod yn ôl i drefn yn 2022/23 ond, unwaith eto, cafwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac fe wellodd y sefyllfa ac arweiniodd hyn at danwariant. Mae'r rhagolygon cychwynnol ar gyfer 2023/24 yn dangos sefyllfa sy'n gwaethygu, gyda'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllideb y Cyngor. Rhagwelir gorwariant o 0.43% ar hyn o bryd, ond bydd y rhagolygon yn parhau i newid yn ystod gweddill 2023/24.

### 2.9.3 Cronfeydd wrth gefn y gellir eu Defnyddio fel Canran o'r Gyllideb Refeniw Net (NRE)

| Blwyddyn | Cyllideb Refeniw Net £'m | Balansau Cyffredinol £'m | Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi £'m | Balansau Ysgolion £'m | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y gellir eu Defnyddio £'m | % Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar sail NRE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 130.900 | 5.912 | 9.914 | 0.631 | 16.457 | 12.57% |
| 2019/20 | 135.210 | 7.060 | 10.090 | 0.197 | 17.437 | 12.83% |
| 2020/21 | 142.146 | 11.437 | 14.846 | 3.974 | 30.257 | 21.29% |
| 2021/22 | 147.120 | 12.050 | 25.562 | 7.827 | 45.439 | 30.89% |
| 2022/23 | 158.367 | 13.967 | 21.952 | 6.716 | 42.635 | 26.92% |
| 2023/24 (Rhagolwg) | 174.569 | 9.443 | 21.952 | 3.900 | 35.295 | 20.22% |

Mae'r tabl yn dangos bod sefyllfa ariannol y Cyngor wedi cryfhau'n sylweddol ers 2018/19 o ganlyniad i'r tanwariant yn 2020/21, 2021/22 a 2022/23. Er ei fod hefyd yn nodi bod y sefyllfa'n dechrau gwanhau gan ddefnyddio £3.78m o falansau cyffredinol a £2.8m o falansau ysgolion i gydbwyso cyllideb 2023/24, gan leihau'r ganran a ragwelwyd i'r lefelau cyn Covid.

### 2.9.4 Costau Cyllido Cyfalaf fel Canran o Wariant Refeniw Net

| Blwyddyn | Cyllideb Refeniw Net £'m | Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) £'m | Llog yn daladwy £'m | Llog a dderbynniwyd £'m | Cyfanswm Costau Cyllido Cyfalaf £'m | % o Gostau Cyllido Cyfalaf ar sail NRE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 130.900 | 2.463 | 4.041 | (0.062) | 6.442 | 4.92% |
| 2019/20 | 135.210 | 2.655 | 4.261 | (0.127) | 6.789 | 5.02% |
| 2020/21 | 142.146 | 2.696 | 4.159 | (0.045) | 6.810 | 4.79% |
| 2021/22 | 147.120 | 2.752 | 3.988 | (0.016) | 6.724 | 4.57% |
| 2022/23 | 158.367 | 1.325 | 4.233 | (0.800) | 4.758 | 3.00% |
| 2023/24 (cyllideb) | 174.569 | 1.369 | 3.997 | (1.036) | 4.330 | 2.48% |

Mae'r gostyngiad yn y ganran oherwydd dau ffactor. Yn gyntaf, nid ydym wedi gwneud unrhyw fenthyciadau ychwanegol ers mis Chwefror 2020 ac rydym wedi defnyddio ein balansau arian parod ein hunain i gyllido gwariant cyfalaf a gyllidir drwy fenthyciadau â chefnogaeth neu di-gefnogaeth. Yn ail, hanerodd y newid ym mholisi'r MRP yn 2022/23 y tâl MRP blynyddol yn y blynyddoedd cynnar, er y bydd y tâl yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r dangosydd hwn yn ddangosydd da o iechyd ariannol gan ei fod yn dangos faint o gyllideb refeniw net flynyddol y Cyngor sy'n cael ei defnyddio i gyllido benthyciadau. Po isaf yw'r ffigwr, y mwyaf o gyllid sydd ar gael i gyllido gwasanaethau'r Cyngor.

## 3. RHAGOLYGON ECONOMAIDD A CHYLLIDEB Y DU

**3.1.** Er bod cyllid canolog y Cyngor yn dod gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU sy’n darparu holl gyllid Llywodraeth Cymru ac mae’r hyn sy’n digwydd yn economi’r DU a’r gyllideb yn cael effaith uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru a chyllid awdurdodau lleol. Mae asesiad o sefyllfa’r DU yn elfen bwysig o’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

3.2. Mae'r pandemig byd-eang, y rhyfel yn yr Wcráin ac effaith Brexit wedi bod yn sioc sylweddol i economi'r DU ac, o ganlyniad, mae Llywodraeth y DU wedi darparu lefelau digynsail o gefnogaeth i unigolion a busnesau ar ffurf grantiau Covid, grantiau cymorth ynni a grantiau cymorth costau byw. Roedd dyled gros Llywodraeth y DU (fel yr adroddwyd gan yr ONS) yn £2.57 triliwn, sef 100.5% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) y wlad. Mae hyn yn cymharu â £2.4 triliwn (fel ym mis Gorffennaf 2022), sef 102.1% o GDP.

3.3. Yn ystod 2022/23, benthycodd y Llywodraeth £132 biliwn, o'i gymharu â £122bn yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ac maent eisoes wedi benthyca £54.4bn arall yn chwarter cyntaf 2023/24. Er bod lefel y benthyca ym mis Gorffennaf 2023 yn is na'r disgwyl, ni ddisgwylir y bydd gostyngiad sylweddol mewn benthyca yn 2024/25 a 2025/26, er bod disgwyl i fenthyciadau ostwng yn 2026/27 a 2027/28. Os yw'r economi'n tyfu a benthyca yn gostwng, dylai hyn ganiatáu i Lywodraeth y DU gyrraedd ei tharged o leihau dyled fel cyfran o GDP.

3.4. Mae nifer o ddigwyddiadau wedi achosi pwysau chwyddiant yn economi'r DU. Achoswyd y cynnydd yn bennaf gan y cynnydd sydyn mewn prisiau ynni, ar ôl i'r rhyfel ddechrau yn yr Wcráin, ond mae prinder ym marchnad lafur y DU yn dilyn Brexit, problemau cadwyn gyflenwi byd-eang ar ôl Covid a chostau mewnforio cynyddol hefyd wedi cyfrannu at y pwysau chwyddiant. Cyrhaeddodd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022, ond mae bellach wedi dechrau gostwng, gan gyrraedd 6.8% erbyn Gorffennaf 2023. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddod â'r chwyddiant i lawr i 5% erbyn diwedd 2023, a rhagwelir y bydd yn gostwng i oddeutu'r targed o 2% erbyn diwedd 2024/25. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon mwy pesimistaidd yn awgrymu efallai na fydd y gostyngiad yn y gyfradd chwyddiant mor gyflym yn ystod 2024 ac y gallai aros ar oddeutu 5% ar gyfer 2024/25 ac i mewn i 2025/26.

3.5. Cafodd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr ei thorri i 0.1% ym mis Mawrth 2020, ac mae wedi aros ar y lefel isel iawn yma tan ddechrau 2022. Wrth i chwyddiant ddechrau codi, mae Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr wedi gwneud cynnydd graddol bach yn y gyfradd sylfaenol o 0.25% neu 0.5% ym mhob adolygiad, a'r gyfradd gyfredol yw 5.25%. Mae Banc Lloegr wedi ymrwymo i reoli chwyddiant, a chyfraddau llog yw'r prif ysgogiad i gyflawni'r nod hwn. Wrth i gyfraddau llog godi, mae gan ddefnyddwyr lai o incwm gwario i'w wario ac mae hyn, yn ei dro, yn lleihau'r galw economaidd sydd, yn ei dro, yn lleihau chwyddiant. P'un ai y bydd cyfraddau llog yn parhau i godi neu ostwng, mae hynny'n dibynnu ar ba mor gyflym y mae chwyddiant yn gostwng ond, yn ôl y rhagolygon, bydd y cyfraddau'n parhau tua 5% hyd y gellir rhagweld.

3.6. Mae cyfraddau llog cynyddol, yn gyffredinol yn lleihau'r galw economaidd a buddsoddiadau, sy'n lleihau twf. Mae dirwasgiad yn cael ei ddiffinio fel 2 chwarter olynol o dwf negyddol. Yn 2022, tyfodd yr economi 0.6% a 0.3% yn nau chwarter cyntaf 2023 ac mae lefel y twf a ragwelir dros y ddwy flynedd nesaf hefyd yn isel iawn. Nid yw twf isel yn creu cynnydd sylweddol mewn refeniw trethi, ac mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

3.7. Mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu lefel y trethi uniongyrchol ac anuniongyrchol i'w lefel uchaf ers yr Ail Ryfel Byd, gyda refeniw treth bellach yn cyfateb i 40% o GDP. Mae rhewi trothwyon treth incwm a'r cynnydd yn y dreth gorfforaeth wedi cyfrannu at y cynnydd. Mae'r baich o ran treth uchel yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r Llywodraeth i gynyddu gwariant cyhoeddus trwy gynyddu trethi uniongyrchol neu anuniongyrchol. Mae rhai o fewn y blaid Geidwadol yn pwyso am ostyngiad mewn treth, er mwyn ysgogi twf. Byddai'r twf yn yr economi wedyn yn creu mwy o refeniw treth wrth i fusnesau gynhyrchu mwy o elw a byddai gan y boblogaeth fwy o incwm gwario.

3.8. Mae Llywodraeth y DU dan bwysau cynyddol i gynyddu'r gwariant ar feysydd blaenoriaeth uchel, fel y GIG, a hefyd i gynyddu gwariant ar amddiffyn, o ystyried y risgiau cynyddol yn dilyn rhyfel yr Wcráin. Gyda lefel benthyca ar ei huchaf erioed a'r baich treth hefyd yn uchel, mae dewisiadau'r Llywodraeth o ran gwariant cyhoeddus yn gyfyngedig.

**3.9.** Mae costau benthyca uchel yn golygu bod mwy o gyllid y Llywodraeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y ddyled bresennol, ond mae angen i gyfraddau llog aros yn uchel er mwyn lleihau chwyddiant. Er mai nod cyffredinol y Llywodraeth yw lleihau chwyddiant, dim ond drwy gynnal cyfraddau llog uchel y gellir gwneud hynny ynghyd, â chymryd y risg y bydd yr economi yn wynebu dirwasgiad. Mae chwyddiant uchel yn cynyddu costau'r Llywodraeth, e.e. dyfarniadau cyflog uwch yn y sector cyhoeddus, ond gall cael chwyddiant o dan reolaeth arwain at ddirwasgiad a diweithdra cynyddol.

**3.10.** Mae'r potensial ar gyfer cynnydd sylweddol mewn termau real yn y cyllidebau sector cyhoeddus yn y tymor canolig yn isel iawn, oni bai bod ffactorau allanol yn newid yn sylweddol a fyddai'n cynnwys diwedd ar ryfel yr Wcráin a datrys rhai o'r problemau sy'n parhau ar ôl Brexit.

## 4. CYLLID GAN LYWODRAETH CYMRU

**4.1.** Mae cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Ar ôl ystyried grantiau a drosglwyddwyd i mewn ac allan o'r setliad a chyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd, bu gostyngiad yn setliad llywodraeth leol bob blwyddyn, mewn termau arian parod, rhwng 2013/14 a 2019/20. Dechreuodd godi yn 2020/21, ond dim ond yn 2022/23 yr oedd yn uwch na lefel 2013/14, pan gynyddodd y setliad o 9.4%. Roedd y cynnydd o 7.9% yn 2023/24 yn parhau i leihau'r bwlch rhwng lefel wirioneddol y setliad a lle byddai wedi bod pe byddai'r cynnydd o ran chwyddiant wedi'i ddefnyddio bob blwyddyn. Felly, mewn termau real, mae'r cyllid yn dal i fod dros 10% yn llai na lefel 2013/14.

**4.2.** Gan fod Llywodraeth Cymru wedi cael lefelau dangosol o gyllid yn dilyn yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, roedd yn gallu cyhoeddi setliadau cyllid dangosol llywodraeth leol Cymru gyfan ar gyfer 2024/25 o 3%, heb unrhyw ffigwr dangosol ar gyfer 2025/26. Mae'r cyllid yn seiliedig ar adolygiad gwariant Llywodraeth y DU yn 2021, nad oedd yn cynnwys y cynnydd sylweddol mewn chwyddiant a welwyd yn 2022 a 2023. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif, yn nhermau real, bod gwerth cyllideb 2023/24 bellach £900m yn is na phan osodwyd y gyllideb. O ganlyniad i ddatganiad cyllideb Tachwedd 2022, derbyniodd Llywodraeth Cymru £140m yn ychwanegol ar ffurf cyllid canlyniadol, a Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid ychwanegol hwn.

**4.3.** Efallai y bydd rhywfaint o refeniw cynyddol yn cael ei gynhyrchu trwy drethi datganoledig, a allai fod yn fwy na'r addasiad yn y grant bloc i Gymru.

**4.4.** Bu nifer o setliadau cyflog yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda chyflogau athrawon yn codi 6.5% o fis Medi 2022, ynghyd â thaliad untro o 1.5%, ac yna codiad o 5% o fis Medi 2023. O ganlyniad i ddyfarniadau cyflog y GIG, bu cynnydd o 15.7% (gyda 11.2% wedi'u cyfuno) ar gyfer y ddwy flynedd 2022/23 a 2023/24. Mae'r ddau ddyfarniad cyflog hyn wedi cynyddu bil cyflog y sector cyhoeddus yng Nghymru'n sylweddol ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU, oni bai bod Llywodraeth y DU yn darparu cyllid ychwanegol yn Lloegr.

**4.5.** Felly, mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru ond yn derbyn cynnydd mewn cyllid a fydd ar lefel chwyddiant 2024/25, neu tua hynny, ac, o ganlyniad, bydd yn rhaid i'r costau chwyddiant ychwanegol a wynebir yn 2022/23 a 2023/24 gael eu cynnwys yng nghyllideb 2024/25 heb unrhyw gyllid ychwanegol.

**4.6.** Mae tua 50% o gyllideb Llywodraeth Cymru yn cyllido'r GIG yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru dan bwysau i fynd i'r afael â'r rhestrau aros cynyddol a'r galw cynyddol am wasanaethau. Mae Llywodraeth Leol yn cyfrif am tua 25% o gyllideb Llywodraeth Cymru. O ystyried bod y ddau faes dan bwysau o ran galw a chostau, bydd yn anodd iawn gosod cyllidebau sy'n cyllido'n llawn y pwysau o ran chwyddiant a galw yn y GIG a Llywodraeth Leol.

**4.7.** Mae dadansoddiad gan Dadansoddiad Cyllid Cymru ym mis Ebrill 2023 wedi modelu senario lle gallai cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru ostwng 1.6% rhwng 2024/25 a 2027/28, er bod ansicrwydd mawr ac fe'i dylanwadir gan berfformiad economi'r DU, strategaeth economaidd Llywodraeth y DU a chanlyniad yr etholiad cyffredinol nesaf.

## 5. PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

**5.1.** Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Leol yn wynebu nifer o ffactorau sy'n rhoi pwysau ar y gyllideb, yn enwedig ym maes Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd. Adroddodd y BBC fod y pwysau cyllidebol sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru oddeutu £390m dros y 2 flynedd nesaf (dim ond 15 o'r 22 a ymatebodd). Mae CLlLC yn amcangyfrif, os na fydd Cynghorau yn gallu sicrhau gostyngiad cynaliadwy o fewn gwasanaethau i dalu am lefel y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i gydbwyso cyllideb 2023/24, gallai hyn, ynghyd â'r pwysau chwyddiant a'r galw ychwanegol, olygu pwysau o £750m ar y gyllideb yn 2024/25. Yn seiliedig ar y lefelau dangosol o gynnydd yn setliad llywodraeth leol Cymru a chynnydd blynyddol o 4% yn y Dreth Gyngor, mae hyn yn dal i adael diffyg o £500m yn 2024/25.

**5.2.** Mae'r meysydd canlynol yn cael eu hystyried fel y prif bwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor dros dymor y cynllun hwn:-

**i. Codiadau cyflog – Cyflogau Staff nad ydynt yn Athrawon**

Mae'r dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon yn cael ei bennu ar draws Cymru a Lloegr ar sail cytundeb rhwng y Cyflogwyr a'r Undebau. Ar gyfer 2023/24, y cynnig presennol yw cynnydd yn y gyfradd unffurf o £1,925 i bob gweithiwr hyd at bwynt 43, gyda chynnydd o 3.8% ar gyfer yr holl bwyntiau cyflog sy'n uwch na'r lefel hon. Wrth bennu cyllideb 2023/24, caniatawyd 3.5% i ddechrau fel y dyfarniad cyflog ond, cyn cwblhau'r gyllideb, rhyddhawyd £2m ychwanegol o gronfeydd wrth gefn, gan fynd â'r cynnydd net mewn cyflog i 7%. Nid yw'r cynnig cyflog ar gyfer 2023/24 wedi'i dderbyn eto gan yr Undebau ac, os yw'r dyfarniad cyflog terfynol y cytunir arno yn fwy na'r swm a ganiateir yn y gyllideb, yna bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar ddyfarniad cyflog 2024/25, gyda phob 1% yn ychwanegu £600k yn ychwanegol at y gyllideb cyflogau.

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ar y tâl a gynigir ar gyfer 2024/25 ond, wrth i chwyddiant barhau i ostwng, rhagwelir y bydd y cyflog a hawlir gan yr Undebau a'r cynnig a wneir gan y cyflogwyr yn gostwng. Fodd bynnag, mae cymhlethdod ychwanegol, yn hynny o beth, rhagwelir y bydd y cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol (ar hyn o bryd £10.42 yr awr) yn codi i rhwng £10.82 a £11.35 yr awr ym mis Ebrill 2024 (3.8% i 8.9%). Mae cynnig ar gyfer 2023/24 yn cymryd pwynt isaf y raddfa gyflog i £10.60 (fel ym mis Ebrill 2023). Felly, byddai'n rhaid i'r dyfarniad cyflog amrywio rhwng 2% a 7% ond i gynnal y pwynt isaf uwchben lefel yr isafswm cyflog cenedlaethol. Defnyddiwyd yr ystod hon at ddibenion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig

**ii. Codiadau Cyflog – Cyflogau Athrawon**

Llywodraeth Cymru sy'n pennu cyflog athrawon, gyda'r dyfarniad cyflog yn effeithiol o fis Medi bob blwyddyn. Ar gyfer y cyfnod rhwng Medi 2022 ac Awst 2023, setlwyd y dyfarniad cyflog i Athrawon gydag athrawon yn derbyn codiad o 5% gyda thaliad untro ychwanegol sy'n cyfateb i 1.5%. Mae'r costau ychwanegol hyn wedi cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid grant. Cytunwyd ar gynnydd o 5% ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24.

At ddibenion y cynllun, modelwyd ystod yn y dyfarniad cyflog o rhwng 1% a 3% ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 a 2025/26.

Ar ôl ystyried y dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt ac amcangyfrifon o'r dyfarniadau cyflog yn y dyfodol a'r angen i gywiro'r swm y caniateir ar ei gyfer yng nghyllideb 2023/24, amcangyfrifir y bydd cyllideb cyflogau athrawon yn codi rhwng 3.5% a 7.2%, a'r amcangyfrif mwyaf tebygol yw 5.6%.

**iii. Cyfraniadau Pensiwn Llywodraeth Leol ac Athrawon**

Ail-brisiwyd cynllun pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn 2022, gyda chyfraddau cyfrannu newydd i gyflogwyr yn cael eu pennu am dair blynedd ac, felly, ni ddisgwylir unrhyw newid mewn cyfraddau cyfrannu am oes y cynllun hwn.

Roedd disgwyl i'r Cynllun Pensiwn Athrawon gael ei ail-brisio gyda'r cyfraddau newydd yn berthnasol o fis Ebrill 2023. Mae angen i Lywodraethwr y DU ddatrys nifer o faterion mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Athrawon, ac mae hyn wedi gohirio'r broses o brisio o'r newydd a gweithredu cyfraddau cyfrannu newydd i gyflogwyr. Mae cryn ddyfalu y bydd angen cynyddu cyfraddau cyfrannu yn sylweddol, gyda rhai'n rhagweld cynnydd yn y gyfradd gyfrannu i 30% neu uwch, o'r gwerth presennol o 23.6%. Mae pob cynnydd o 1% yn y gyfradd gyfrannu'n cynyddu'r costau tua £230k.

**Iv. Contractau Mawr Gwasanaeth**

Mae nifer o Wasanaethau'r Cyngor ar gontract allanol, gan gynnwys casglu a gwaredu gwastraff, cynnal a chadw priffyrdd, prydau ysgol, cludiant ysgol a chytundebau bysiau gwasanaeth cyhoeddus. Mae mwyafrif y contractau yn gytundebau hirdymor fydd yn dod i ben ar ôl diwedd y cyfnod dan sylw yn y cynllun hwn. Mae pris pob contract yn cael ei godi'n flynyddol gan ddefnyddio set o fynegeion chwyddiant a bennir ymlaen llaw sy'n cael eu diffinio ym mhob contract. Mae'r gyllideb ar gyfer y contractau hyn oddeutu £25m, ac mae'r cynnydd fel arfer yn dibynnu ar fynegeion chwyddiant yn yr hydref cynt. Gall hyn arwain at lefel uchel o chwyddiant unwaith eto yn 2024/25 gydag amcangyfrif o tua £1.5m a chynnydd llai o tua £0.5m yn 2025/26.

**v. Costau Ynni**

Y gyllideb bresennol ar gyfer ynni (trydan a nwy) yn 2022/23 oedd £4.37m (£2.34m ar gyfer trydan a £2.03m ar gyfer nwy), gyda'r costau uchaf yn gysylltiedig ag ysgolion uwchradd, canolfannau hamdden a phrif swyddfeydd y Cyngor. Mae llawer o waith wedi ei wneud i leihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys gosod paneli solar a bwyler newydd yn Swyddfeydd y Cyngor. Bydd y newidiadau hyn yn lleihau costau, ond disgwylir cynnydd yn y contractau ynni corfforaethol pan gânt eu hadnewyddu yn ddiweddarach eleni. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor ynghlwm wrth gytundeb fframwaith tan fis Medi 2024 ar gyfer trydan a nwy, gyda phrisiau'n cael eu diweddaru bob mis Hydref. Mae prisiau ynni yn fwy sefydlog a dylai cynnydd mewn prisiau fod yn llawer is na 2023, ond bydd llawer yn dibynnu ar y galw yn ystod misoedd y gaeaf a chanlyniad y rhyfel parhaus yn yr Wcráin. Bydd angen cywiro cyllideb 2022/23 a chaniatáu ar gyfer y cynnydd mewn prisiau yn 2023/24, gan gynnwys unrhyw gynnydd pellach mewn prisiau ym mis Hydref 2023. Felly, mae potensial i gostau ynni gynyddu dros £2m yn 2023/24, gyda chynnydd tebyg yn 2024/25. Bydd llawer yn dibynnu ar ganlyniad y rhyfel yn yr Wcráin a ph'un ai y bydd prisiau ynni'n dechrau gostwng, os a phryd y daw'r rhyfel i ben.

**vi. Ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl, Nyrsio, Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl a Nyrsio'r Henoed**

Ers nifer o flynyddoedd, penderfynwyd ar y cynnydd blynyddol mewn ffioedd nyrsio, pobl hŷn bregus eu meddwl a chartrefi gofal preswyl gan ddefnyddio pecyn adnoddau safonol y mae pob un o'r 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru yn ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynyddu eu ffioedd. Yn 2022, dechreuodd awdurdodau symud i ffwrdd o'r pecyn adnoddau safonol ond maent yn dal wedi ymrwymo i geisio cynnal y trefniant rhanbarthol.

Mae cynrychiolwyr Fforwm Gofal Cymru yn parhau i ddadlau nad yw'r ffioedd sy'n cael eu talu gan y Cynghorau yn cyllido'n llawn y costau y mae cartrefi gofal yn eu hwynebu a bod y ffioedd a delir gan gynghorau Gogledd Cymru yn gyffredinol yn is na'r rhai a dalwyd gan gynghorau yn y De.

Mae cartrefi bellach yn ddieithriad yn defnyddio taliadau atodol sydd, os ydynt yn anfforddiadwy i'r cleient neu i'w deulu, yna'n cael eu talu gan y Cyngor. Mae hyn yn creu pwysau ychwanegol o ran costau yn ogystal â chynyddu nifer y cleientiaid sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith y rhagwelir y bydd cyllidebau ffioedd nyrsio a gofal preswyl a nyrsio'r Henoed yn gorwario £30k yn 2023/24.

Bydd caniatáu ar gyfer chwyddiant yn 2024/25 yn ychwanegu dros £400k at y costau blynyddol.

**vii. Contract Gofal Cartref**

Cafodd y contractau gofal cartref eu hail-dendro yn ystod 2023, ond mae darparwyr yn ei chael hi'n anodd cadw digon o ofalwyr. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i gyllido cynnydd yn y cyfraddau fesul awr sy'n cael eu talu i ofalwyr.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal tîm gofal mewnol sy'n ychwanegol at y darparwyr allanol ond mae'r Cyngor hefyd yn cael problemau recriwtio a chadw staff.

Er nad yw gofal cartref yn risg ariannol glir ar hyn o bryd, mae'n risg sy'n dod i'r amlwg a allai fod angen cyllid ychwanegol yn y dyfodol er mwyn caniatáu i'r Cyngor allu ateb y galw cynyddol am wasanaethau.

**viii. Gwasanaethau Plant**

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddod â chost ei Wasanaethau Plant o fewn ei gyllideb. Fodd bynnag, yn 2022/23 gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu lleoli a chynnydd yn y ffioedd a godir gan ddarparwyr ar gyfer lleoliadau preswyl allsirol, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir yn 2023/24. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd Gwasanaethau Plant yn gorwario ei gyllideb gan £0.7m. Mae angen cywiro'r sefyllfa hon wrth bennu cyllideb 2024/25, oni bai y gall y Gwasanaeth leihau cost lleoliad ar gyfartaledd neu fod nifer y plant mewn gofal yn dechrau gostwng.

**ix. Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

Fel gyda Gwasanaethau Plant, mae perygl sylweddol y bydd y galw am wasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion (pobl hŷn, iechyd meddwl, anabledd dysgu ac ati) yn cynyddu. Mae hyn yn ychwanegol at bwysau chwyddiant ar gyflogau a chostau darparwyr sector preifat. Rhagwelir y bydd y gyllideb yn gorwario £1.5m yn 2023/24, ond mae hyn ar ôl neilltuo grantiau a defnyddio cronfeydd wrth gefn. Mae'n debyg bod y gwir ffigwr yn nes at rhwng £2.5m a £3m, hyd yn oed ar ôl cynnydd o 16.7% yn y gyllideb yn 2023/24.

**x. Digartrefedd**

Ers y pandemig, mae nifer yr achosion y mae'r Gwasanaeth yn delio â nhw wedi cynyddu ac, yn setliad 2022/23, roedd Llywodraeth Cymru'n cynnwys cyllid ychwanegol i dalu am gost y galw ychwanegol. O ganlyniad, fe wnaeth y Cyngor gynnwys £350k yn ychwanegol yn y gyllideb, gan gynyddu'r gyllideb i tua £700k. Hefyd, rhoddodd Llywodraeth Cymru £180k yn ychwanegol o gyllid grant. Fodd bynnag, ers gosod y gyllideb, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu gyda'r galw yn parhau i gynyddu. Mae cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau'r gorwariant a ragwelir i lawr i £85k, ond nid yw lefel y cyllid grant y tu hwnt i 2023/24 wedi'i gadarnhau eto. Dydi'r sefyllfa hon ddim yn unigryw i Ynys Môn, mae pob cyngor ar draws Cymru yn delio â'r un pwysau. Mae'n debygol y bydd argyfwng costau byw yn ychwanegu at y broblem wrth i denantiaid ei chael hi'n anos talu rhent yn ogystal â chostau cynyddol ynni a bwyd. Mae'r Gwasanaeth yn edrych ar yr holl opsiynau i gynyddu'r cyflenwad o lety cymdeithasol a phreifat sy'n cael ei rentu ac i leihau nifer yr achosion.

xi. **Cludiant Cyhoeddus**

Ers y pandemig, mae nifer y teithwyr sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus wedi gostwng ac nid yw wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol drwy'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES). Daw'r cynllun hwn i ben yn 2023/24 a, heb y cyllid ychwanegol hwn, mae risg sylweddol na fydd y llwybrau masnachol yn hyfyw mwyach a bydd angen cymhorthdal ychwanegol ar y llwybrau sy'n derbyn cymhorthdal. Amcangyfrifir mai'r uchafswm cyllid ychwanegol y byddai ei angen i wneud iawn am y golled yng nghyllid y BES fyddai £300k, ond mae llawer yn dibynnu os bydd niferoedd teithwyr yn codi a ph'un ai y gall y cwmnïau bysiau ddelio â cholli incwm heb orfod cynyddu eu prisiau.

xii. **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Ers i'r cyllid ar gyfer y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor drosglwyddo i'r setliad llywodraeth leol, nid yw'r swm sydd yn yr Asesiad Gwariant Safonol gan Lywodraeth Cymru wedi newid i raddau helaeth. Wrth i lefelau'r Dreth Gyngor gynyddu, mae'r gost yn disgyn ar drethdalwyr Ynys Môn. Mae'r rhagolygon economaidd yn awgrymu cynnydd graddol mewn diweithdra, a fydd yn arwain at lwyth gwaith cynyddol. Nid yw'n glir a yw'r argyfwng costau byw yn arwain at lai o alw gan ddefnyddwyr, sy'n effeithio ar y diwydiannau manwerthu a gwasanaeth. Gall hyn arwain at fwy o ddiweithdra yn y sectorau yma. Mae pob cynnydd o 1% yn y llwyth achosion yn cynyddu'r gost o tua £70k, yn ogystal â'r cynnydd o ganlyniad i gynyddu'r Dreth Gyngor.

xiii. **Costau Cyllido Cyfalaf**

Yn ogystal â thaliadau llog ar fenthyciadau sy'n bodoli'n barod a rhai newydd, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol (a elwir yn Ddarpariaeth Refeniw Isaf neu MRP). Penderfynir ar y MRP yn unol â'r Polisi MRP, a gymeradwywyd gan y Cyngor. Fel arfer, mae gwariant cyfalaf yn gofyn am rywfaint o fenthyca ychwanegol ac, wrth i lefel y benthyca gynyddu, mae'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan y polisi MRP a thaliadau llog cysylltiedig hefyd yn cynyddu. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y CATC er mwyn rhoi ystyriaeth i lefel y benthyca â chefnogaeth a ganiateir yn y setliad cyllido, ynghyd â'r gwariant y mae'r Cyngor wedi'i gynllunio ar Ysgol y Graig.

Fodd bynnag, dylid nodi bod cost y gwaith adeiladu wedi cynyddu ers i'r cyfnodau clo gael eu llacio, gyda phrinder deunyddiau a llafur yn codi'r prisiau. Er ei bod yn ymddangos bod y cynnydd wedi arafu, does dim arwydd y bydd prisiau'n dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn Covid. Mae hyn yn cynyddu costau prosiectau cyfalaf a gallai hynny arwain at fenthyca ychwanegol, a fydd yn ei dro yn arwain at gynnydd yn y costau cyllido cyfalaf. O ystyried yr ansicrwydd presennol, ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer y risg bosibl hon yn y cynllun presennol.


Roedd balansau arian parod uchel a'r cynnydd sydyn mewn cyfraddau llog yn golygu bod y cyllidebau oedd yn derbyn llog wedi cynyddu oddeutu £1m yn 2023/24. Fodd bynnag, bydd balansau arian parod yn 2024/25 yn sylweddol is wrth i gronfeydd arian wrth gefn ddechrau gostwng a rhagwelir, er bod disgwyl i gyfraddau llog aros ar y lefelau presennol ar gyfer y rhan fwyaf o 2024/25, y bydd y llog a dderbynnir yn gostwng o leiaf 40% yn 2024/25, a 10% arall yn 2025/26.

xiv. **Ardoll y Gwasanaeth Tân**

Yn wahanol i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gosod ardoll bob blwyddyn, sy'n cael ei rhannu rhwng 6 awdurdod Gogledd Cymru ar sail poblogaeth, gydag Ynys Môn yn cyfrannu tua 10%. Mae'r ardoll wedyn yn cael ei gyllido o gyllideb refeniw net y Cyngor ac mae swm mewn perthynas â'r gwasanaeth tân wedi'i gynnwys yn Asesiad Gwariant Safonol Llywodraeth Cymru.

Fel y Cynghorau, mae'r Gwasanaeth Tân wedi wynebu cynnydd sylweddol mewn costau oherwydd dyfarniadau cyflog, chwyddiant prisiau cyffredinol a chyfraniadau pensiwn uwch. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Tân yn ymgynghori ar opsiynau a fyddai'n newid sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar draws Gogledd Cymru, gyda chost yr opsiynau yn amrywio o gynnydd o rhwng 8% a 13.5%. Byddai'r opsiwn canolog yn cynyddu costau o 11% a, phe bai'r holl gynnydd hwn yn cael ei gyllido o'r ardoll byddai'n cynyddu cyfraniad y Cyngor gan £490k yn 2024/25.

xv. **Chwyddiant Cyffredinol mewn Prisiau**
Mae cyllidebau blynyddol nad ydynt yn gyllidebau cyflogau yn cael eu codi bob blwyddyn er mwyn caniatáu ar gyfer chwyddiant cyffredinol neu chwyddiant penodol. Os nad yw contractau'n nodi pa fynegai prisiau penodol y dylid ei defnyddio, neu os nad yw pennawd gwariant penodol yn profi cyfradd chwyddiant sylweddol uwch neu is, yna defnyddir y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) fel ffactor chwyddiant. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r CPI wedi parhau'n isel ac nid yw wedi bod yn ffactor sylweddol wrth benderfynu ar y gyllideb. Er hynny, mae CPI wedi codi'n sylweddol yn 2022 ac mae wedi parhau'n uchel am y rhan cyntaf o 2023. Mae'r graff isod yn dangos rhagolygon presennol Banc Lloegr:-




Bydd tua £37m o gyllideb y Cyngor yn cael ei effeithio gan gynnydd cyffredinol yn lefel chwyddiant. Bydd angen cywiro'r dan-ddarpariaeth yng nghyllideb 2023/24 a hefyd caniatáu ar gyfer chwyddiant yn 2024/25. Yn seiliedig ar y senario mwyaf tebygol a ddangosir uchod, bydd angen cynnydd o 5% yn y cyllidebau hyn i dalu am y pwysau chwyddiant. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o tua £2.0m yng ngofyniad y gyllideb.

## 6. INCWM

**6.1.** Ar hyn o bryd, mae cyllideb incwm y Cyngor (heb gynnwys AEF, y Dreth Gyngor a chyllid grant penodol) yn dod i gyfanswm o £49m. Mae hyn yn cynnwys grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus (£22.8m), ffioedd a thaliadau a bennir gan statud neu a reoleiddir gan y Llywodraeth (£6.8m), ffioedd a thaliadau a bennir gan y Cyngor (£5.7m), cytundebau rhentu hirdymor (£1.5m) ac ad-daliadau o fewn y Cyngor i wasanaethau eraill y Cyngor (£12.2m).

**6.2.** Polisi'r Cyngor yw cynyddu'r ffioedd a thaliadau dewisol 3% bob blwyddyn er, mewn rhai gwasanaethau, mae cynnydd uwch na chwyddiant mewn ffioedd a thaliadau yn golygu bod ffioedd y Cyngor wedi dod yn llawer nes at y ffioedd a godir gan y sector preifat e.e. gwasanaethau hamdden. At ddibenion y cynllun hwn, y rhagdybiaeth yw y bydd ffioedd a thaliadau dewisol yn parhau i godi 3% y flwyddyn yn ystod cyfnod y cynllun.

**6.3.** Pan fydd chwyddiant yn isel, mae'r ffioedd statudol neu reoledig yn tueddu i gynyddu yn ôl cyfradd chwyddiant, fodd bynnag, o ystyried bod chwyddiant yn sylweddol uwch, efallai na weithredir y cynnydd arferol hwn yn y ffioedd hyn a gall hyn arwain at gynnydd is.

**6.4.** Yn ychwanegol i incwm o'r ffioedd a thaliadau, derbynnir swm sylweddol o incwm grant. Gall y grantiau a dderbynnir fod ar gyfer cyllido prosiectau neu wasanaethau penodol, tra bod eraill yn fwy cyffredinol eu natur ac yn cefnogi gwasanaethau craidd. O ystyried sefyllfa ansicr cyllid y sector cyhoeddus, mae risg y bydd grantiau'n cael eu targedu a'u lleihau er mwyn lleihau gwariant cyhoeddus, yn hytrach na gostyngiad yn y setliad ariannol cyffredinol y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Yn achos grantiau sy'n cyllido prosiectau penodol, yna mae'n bosibl dirwyn y prosiect i ben os daw'r grant i ben, ond mae hyn yn anos pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu drwy gyfuniad o gyllideb graidd a grantiau.

## 7. CYLLIDEB RAGAMCANEDIG AR GYFER 2024/25 – 2025/26

**7.1.** Trwy ystyried yr holl faterion y manylwyd arnynt ym mharagraffau 5 a 6, a gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau a nodir yn Atodiad 2, mae'n bosibl amcangyfrif y gyllideb refeniw ar gyfer y 2 flynedd nesaf. Fe'i dangosir yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Cyllideb Gwariant Refeniw Net Ragamcanedig 2024/25 i 2025/26**

| | 2024/25 £'m | 2025/26 £'m |
|---|---|---|
| **Cyllideb derfynol y flwyddyn flaenorol** | **174.569** | **187.714** |
| Dyfarniad Cyflog Staff nad ydynt yn Athrawon | 2.207 | 1.283 |
| Dyfarniad Cyflog Athrawon | 2.211 | 0.983 |
| Contractau Mawr Gwasanaeth | 1.007 | 0.438 |
| Chwyddiant Ynni | 0.437 | 0.361 |
| Chwyddiant arall nad yw'n gysylltiedig â Chyflogau | 1.548 | 0.800 |
| Incwm | (1.461) | (1.193) |
| Chwyddiant Darparwyr Gofal Cymdeithasol | 1.442 | 0.710 |
| Galw am Wasanaethau Plant | 0.680 | 0.122 |
| Galw am Wasanaethau Oedolion | 2.101 | 0.481 |
| Cludiant Ysgol | 0.204 | 0.103 |
| Cludiant Cyhoeddus | 0.190 | 0.021 |
| Digartrefedd | 0.504 | 0.108 |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 0.473 | 0.499 |
| Ardoll y Gwasanaeth Tân | 0.496 | 0.150 |
| Cyllido Cyfalaf | 0.863 | 0.310 |
| Pwysau Cyllidebol Arall | 0.169 | 0.192 |
| **Amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net** | **187.641** | **193.082** |
| | | |
| **Cynnydd Blynyddol** | **13.072** | **5.368** |
| **Canran y Cynnydd Blynyddol** | **7.48%** | **2.86%** |

**7.2.** Mae'r amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net yn cynrychioli cynnydd o 10.6% dros y cyfnod o 2 flynedd.

**7.3.** Mae rhagor o fanylion am y Gyllideb Refeniw Net a amcangyfrifir a'r rhagdybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm yn Atodiad 2 a 3.

**7.4.** Mae'r ffigyrau a ddangosir uchod yn seiliedig ar y senario mwyaf tebygol ar gyfer yr holl ragdybiaethau. Mae senarios gorau a gwaethaf posibl hefyd wedi'u modelu, sy'n dangos cynnydd yn y gyllideb refeniw net o £3.86m (2.2%) yng nghyllideb refeniw net yn 2024/25 a £1.16m (0.7%) yn 2025/26 o dan y senario orau bosibl, a chynnydd o £23.2m (13.3%) yn 2024/25 a £14.27m (7.2%) yn 2025/26 o dan y senario gwaethaf posibl. Mae'r 3 senario yn rhoi ystod eang o amcangyfrifon ar gyfer y gyllideb refeniw net angenrheidiol am y ddwy flynedd nesaf, ac mae'n dangos y lefel sylweddol o ansicrwydd sy'n bodoli ynghylch chwyddiant a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn gwneud y dasg o gynllunio ariannol yn anodd iawn.

## 8. CYLLID ALLANOL CYFUN A'R DRETH GYNGOR

**8.1.** Cyllidir y gyllideb ddisymud a amcangyfrifir o lefel y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru (Grant Cymorth Refeniw a Chyllid Cyfun Trethi Annomestig) ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.

**8.2.** Fel y nodwyd ym mharagraff 4 uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cynnydd dangosol o 3% yng nghyllideb gyffredinol llywodraeth leol ar gyfer 2024/25, fodd bynnag, roedd y ffigyrau'n seiliedig ar y sefyllfa cyn y cynnydd sydyn mewn chwyddiant. Nid oes ffigyrau dangosol wedi'u rhoi hyd yma ar gyfer 2025/26, ond mae disgwyl y bydd cynnydd isel yn 2025/26.

**8.3.** Yn 2023/24, derbyniodd Ynys Môn £123.665m mewn Cyllid Allanol Cyfun gan Lywodraeth Cymru, gyda gweddill y cyllid yn dod o'r Dreth Gyngor, £47.124m, a chronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor ei hun, £3.78m.

**8.4.** Mae Tabl 3 isod yn dangos yr incwm ychwanegol y byddai newidiadau amrywiol mewn AEF a chynnydd yn y Dreth Gyngor yn eu cael ar gyllid y Cyngor (gan gymryd nad oes newid yn sylfaen y Dreth Gyngor) ac y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn sgil cynnydd ym mhremiwm y Dreth Gyngor yn cael ei ddefnyddio i gynyddu cyllidebau ar brosiectau i helpu i gyflenwi tai fforddiadwy ar yr Ynys h.y. heb unrhyw effaith ar y gyllideb.

**Tabl 3**

**Effaith ar Newidiadau yn yr AEF a'r Dreth Gyngor ar Gyllid y Cyngor (net Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor) 2024/25**

| | | Newid yn yr AEF – swm ariannol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | +0% | +1% | +2% | +3% | +4% | +5% | +6% | +7% |
| | | £'m | | | | | | | |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor (heb gynnwys cynnydd yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor) | 3% | 1.21 | 2.45 | 3.68 | 4.92 | 6.16 | 7.39 | 8.63 | 9.87 |
| | 4% | 1.61 | 2.85 | 4.09 | 5.32 | 6.56 | 7.80 | 9.03 | 10.27 |
| | 5% | 2.02 | 3.26 | 4.49 | 5.73 | 6.97 | 8.20 | 9.44 | 10.47 |
| | 6% | 2.42 | 3.66 | 4.90 | 6.13 | 7.37 | 8.61 | 9.84 | 10.68 |
| | 7% | 2.83 | 4.06 | 5.30 | 6.54 | 7.77 | 9.01 | 10.25 | 11.08 |
| | 8% | 3.23 | 4.47 | 5.70 | 6.94 | 8.18 | 9.41 | 10.65 | 11.89 |
| | 9% | 3.63 | 4.87 | 6.11 | 7.34 | 8.58 | 9.82 | 11.05 | 12.29 |
| | 10% | 4.04 | 5.27 | 6.51 | 7.75 | 8.98 | 10.22 | 11.46 | 12.69 |
| | 11% | 4.44 | 5.48 | 6.91 | 8.15 | 9.39 | 10.62 | 11.86 | 13.10 |
| | 12% | 4.84 | 6.08 | 7.32 | 8.55 | 9.79 | 11.03 | 12.26 | 13.50 |
| | 13% | 5.25 | 6.28 | 7.72 | 8.96 | 10.20 | 11.43 | 12.67 | 13.90 |
| | 14% | 5.65 | 6.89 | 8.13 | 9.36 | 10.60 | 11.84 | 13.07 | 14.11 |
| | 15% | 6.06 | 7.29 | 8.53 | 9.77 | 11.00 | 12.24 | 13.48 | 14.71 |
| | 16% | 6.46 | 7.70 | 8.93 | 10.17 | 11.41 | 12.64 | 13.88 | 15.12 |
| | 17% | 6.86 | 8.10 | 9.34 | 10.57 | 11.81 | 13.05 | 14.28 | 15.52 |
| | 18% | 7.27 | 8.50 | 9.74 | 10.98 | 12.21 | 13.45 | 14.69 | 15.92 |
| | 19% | 7.67 | 8.91 | 10.14 | 11.38 | 12.62 | 13.85 | 15.09 | 16.33 |
| | 20% | 8.07 | 9.31 | 10.55 | 11.78 | 13.02 | 14.26 | 15.49 | 16.53 |

## 9. BALANSAU CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN.

**9.1.** Er mwyn cyllido'r gofyniad cyllidebol ychwanegol a amcangyfrifir o £13.07m, ynghyd a gwneud yn iawn am y £3.78m o gronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i gydbwyso'r gyllideb yn 2023/24 gyda chyllid parhaol, byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r AEF godi 7% ac i'r Dreth Gyngor gynyddu dros 20% i gynhyrchu digon o gyllid. Os bydd yr AEF ond yn codi 3%, byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Dreth Gyngor godi tua 30% er mwyn cynhyrchu digon o gyllid parhaol i fodloni gofyniad cyllideb net o £187.64m.

**9.2.** Mae balansau cyffredinol y Cyngor yn cynnwys digon o gyllid i dalu am unrhyw wariant annisgwyl a allai godi yn ystod y flwyddyn, na ellir ei gyllido o'r gyllideb refeniw neu gyfalaf presennol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn clustnodedig, i dalu am gost risgiau posibl, cost prosiectau sydd wedi'u cynllunio yn y dyfodol a chynnal cyllid grant nas defnyddiwyd neu unrhyw gyllid cyfyngedig arall sydd gan y Cyngor.

**9.3.** Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor £13.97m o falansau cyffredinol a £19.64m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig. Y strategaeth y cytunwyd arni gan y Cyngor ar gyfer balansau cyffredinol yw cadw isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y flwyddyn. Felly, yn 2023/24, dylai'r isafswm yn y balans cyffredinol fod yn £8.73m. Wrth bennu cyllideb 2023/24, defnyddiwyd £3.78m o'r balansau cyffredinol i gydbwyso'r gyllideb, sy'n lleihau lefel y balansau cyffredinol i £10.19m, sydd £1.46m yn uwch na'r balans gofynnol isaf. Fodd bynnag, dylid nodi y byddai unrhyw orwariant ar gyllideb refeniw 2023/24 yn cael ei gyllido o falansau cyffredinol. Yn ôl y rhagolygon ar ddiwedd chwarter 1 2023/24, amcangyfrifir y bydd y gyllideb refeniw yn gorwario £0.744m, a fyddai'n lleihau lefel y balansau cyffredinol i lawr i £9.45m, sydd ond £0.72m yn uwch na'r trothwy isaf.

**9.4.** Cynhaliwyd adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodedig yn 2022/23, a throsglwyddwyd £4.13m o gronfeydd wrth gefn a glustnodedig yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor. Wedi'u cynnwys yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodedig mae £6.37m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer risgiau penodol fel chwyddiant, colledion heb eu hyswirio a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau penodol. Gallai'r cronfeydd wrth gefn hyn gael eu rhyddhau yn ôl i'r balansau cyffredinol ond byddai hyn yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor, oherwydd pe bai'r risgiau yn dod yn realiti, byddai'r gost ariannol yn gorfod cael ei gyllido o'r balansau cyffredinol.

## 10. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**10.1.** Os yw'r modelu ariannol yn gywir, yna bydd angen £13.14m ychwanegol ar gyfer y pwysau chwyddiant ar gyfer darparu'r gwasanaeth presennol ac ar gyfer gofynion y pwysau ar y gyllideb yn 2024/25, er y dylid nodi bod y ffigwr hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau, a bydd angen gwneud addasiadau wrth i'r broses gyllideb fynd yn ei blaen.

**10.2.** Gellir ei weld o Dabl 3 gyda chynnydd o 3% yn yr AEF a chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, dim ond £6.11m ychwanegol y bydd y cyllid ychwanegol yn ei gynhyrchu (ar ôl addasu ar gyfer y cynnyddyn y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gan adael bwlch o £6.96m. Fodd bynnag, rhaid ystyried y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn 2023/24 hefyd ac, os na ddefnyddir cronfeydd wrth gefn yn 2024/25, yna mae'r diffyg cyllid yn cynyddu £3.78m i £10.74m.

**10.3.** Mae'r Pwyllgor Gwaith eisoes wedi datgan ei fwriad i godi'r premiwm o 75% i 100% ar gyfer ail gartrefi a bydd hyn yn cynhyrchu £0.85m ychwanegol. Pe byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor y mae niferoedd cynyddol o berchnogion ail gartrefi yn effeithio arnynt (atal digartrefedd, cyngor ariannol a rheoli dyledion, twristiaeth), byddai hyn yn lleihau'r bwlch cyllido a amcangyfrifir i £9.93m.

**10.4.** Fel y dangosir ym mharagraff 9, mae gan y Cyngor rywfaint o allu i ddefnyddio balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn i helpu i leihau'r bwlch cyllido, ond wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn mae risgiau gan nad ydynt yn ffynhonnell incwm gylchol ac nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn dileu'r angen i bontio'r bwlch cyllido yn y tymor hir. Yn ogystal â hyn, mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn lleihau cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor ac yn gwanhau ei sefyllfa ariannol. Rhaid bod yn ofalus i sicrhau nad yw lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu defnyddio yn gadael y Cyngor mewn sefyllfa lle nad oes ganddo ddigon o gyllid i dalu am unrhyw wariant annisgwyl, neu i fynd i'r afael â risgiau posibl os ydynt yn arwain at sefyllfa sy'n gofyn am weithredu a chyllid.

**10.5.** Mae'n ofyniad cyfreithiol ar y Cyngor i osod cyllideb gytbwys bob blwyddyn, lle mae'r gyllideb yn amcangyfrif teg a rhesymol o'r costau a wynebir i ddarparu'r gwasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gyllideb yn ymwneud â hi, ac y gellir cyllido'r gost amcangyfrifiedig o gyllid Llywodraeth Cymru, y Dreth Gyngor a chronfeydd wrth gefn a balansau. Os yw lefel y cyllid yn annigonol, mae hynny ond yn gadael yr opsiwn o leihau'r gyllideb gwariant net i'r lefel o gyllid sydd ar gael.

**10.6.** Unwaith eto gan gymryd bod y bwlch cyllido yn £10.0m, mae hynny'n cyfateb i arbedion refeniw o 5.7% o gyllideb gwariant net 2023/24. Fodd bynnag, mae'r gyllideb refeniw net yn cynnwys nifer o gyllidebau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ac mae'n rhaid eu cyllido, mae'r rhain yn cynnwys:-

- Ardoll yr Awdurdod Tân – £4.5m yn 2023/24
- Costau Cyllido Cyfalaf – £5.36m yn 2023/24
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – £6.97m yn 2023/24
- Costau Pensiwn Hanesyddol – £0.94m yn 2023/24
- Lwfansau Aelodau – £1.03m yn 2023/24
- Ffioedd Archwilio ac Arolygu - £0.38m yn 2023/24
- Costau'r Crwneriaid - £0.23m yn 2023/24
- Gwasanaethau ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol Eraill - £2.73m yn 2023/24

**10.7.** Felly, mae'n rhaid i unrhyw arbedion ddod o'r cyllidebau sy'n weddill (£152.4m yn 2023/24) ac mae hyn yn cyfateb i arbedion o 6.6% o'r cyllidebau lle mae'n bosibl gwneud arbedion arnynt.

**10.8.** Mae gwaith wedi dechrau i nodi unrhyw arbedion effeithlonrwydd y gellir eu defnyddio ond, o ystyried y toriadau blaenorol oherwydd llymder a'r galw cynyddol am wasanaethau, nid yw'r Gwasanaethau wedi nodi unrhyw arbedion effeithlonrwydd sylweddol y gellir eu cynhyrchu. Dim ond trwy leihau gwasanaethau y gellir gwneud unrhyw gynilion y gellir eu cynhyrchu, neu drwy beidio â darparu gwasanaethau.

**10.9.** Wrth edrych ymlaen at 2025/26, byddai'r AEF a'r Dreth Gyngor yn cynhyrchu £3.79m yn ychwanegol (yn seiliedig ar gynnydd o 2.0% mewn AEF a 5% yn y Dreth Gyngor), a fyddai'n mynd â'r adnoddau sydd ar gael hyd at £181.50m, pan fyddai'r amcangyfrif o gyllideb refeniw net i gyllido'r lefel bresennol o bwysau gwasanaeth a galw yn £193.01m, gan adael diffyg o £11.51m. Mae £9.93m o'r ffigwr hwn yn ymwneud â diffyg yn y gyllideb a ddygwyd ymlaen o 2024/25, gan adael diffyg o £1.58m yn ychwanegol yng nghyllideb 2025/26.

**10.10.** Yn seiliedig ar y rhagolygon hyn, y dangosydd gwydnwch ariannol sy'n pennu'r bwlch cyllido fel canran o'r gwariant refeniw net.

| Blwyddyn | Cyllideb Ddisymud £'m | AEF £'m | Y Dreth Gyngor y flwyddyn flaenorol (nodyn 1) £'m | Cyfanswm y Cyllid cyn Cynnydd y Dreth Gyngor £'m | Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido £'m | % y Bwlch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 132.337 | 94.924 | 33.644 | 128.568 | 3.769 | 2.85% |
| 2019/20 | 134.702 | 95.159 | 35.087 | 130.246 | 7.156 | 5.21% |
| 2020/21 | 142.203 | 101.005 | 39.370 | 140.375 | 1.828 | 1.29% |
| 2021/22 | 147.076 | 104.825 | 41.161 | 145.986 | 1.090 | 0.74% |
| 2022/23 | 155.501 | 114.549 | 42.957 | 157.506 | (2.005) | (1.29%) |
| 2023/24 | 173.830 | 123.665 | 44.879 | 168.544 | 5.286 | 3.04% |
| Rhagolwg 2024/25 | 187.641 | 127.375 | 47.124 | 174.499 | 13.142 | 7.00% |
| Rhagolwg 2025/26 – nodyn 2 | 183.078 | 128.649 | 50.335 | 178.984 | 4.094 | 2.23% |
| Nodyn 1 – Mae ffigyrau'r Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol yn cael eu haddasu i ystyried newidiadau i sylfaen y dreth | | | | | | |
| Nodyn 2 – Mae'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2025/26 yn cymryd bod y gyllideb derfynol ar gyfer 2024/25 yn cael ei diwygio i lawr i gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael | | | | | | |

Gellir gweld mai'r sefyllfa ar gyfer 2024/25 yw'r sefyllfa waethaf y mae'r Cyngor wedi bod ynddi ers nifer o flynyddoedd ar y cam hwn o'r broses o bennu'r gyllideb.

## 11. CASGLIADAU

**11.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi'r gyllideb refeniw net a amcangyfrifir am y 2 flynedd nesaf gan ddefnyddio nifer o ragdybiaethau, ac mae rhai ohonynt yn fwy sicr na'i gilydd. Mae'r cynllun yn caniatáu i'r Cyngor benderfynu ar ei strategaeth gyllido yn y dyfodol, ond mae nifer o faterion sy'n cynyddu'r ansicrwydd ynghylch y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys amcangyfrif costau'r dyfodol ar adeg pan fo chwyddiant yn codi'n gyflym, amcangyfrif y galw am wasanaethau, effaith yr argyfwng costau byw ar y galw am wasanaethau'r Cyngor a chyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol ar ôl etholiad cyffredinol y DU. Mae lefel y cymorth gan Lywodraeth Cymru yn elfen allweddol o'r Cynllun Ariannol Tymor Canol, ac mae'r diffyg rhagolygon cywir yn y dyfodol ar lefel y cyllid yn lleihau lefel y sicrwydd y gall y cynllun ei roi.

**11.2.** Bydd y galw am wasanaethau a'r pwysau i gynyddu cyflog rhai rhannau o weithlu'r Cyngor (gweithwyr y Cyngor ei hun a gweithwyr mewn gwasanaethau dan gontract) yn cynyddu costau'n sylweddol, yn enwedig yn 2024/25. Os nad yw'r pwysau ychwanegol yma mewn costau'n cael eu hadlewyrchu yn y setliad cyllid gan Lywodraeth Cymru, yna bydd rhaid i'r Cyngor wneud toriadau pellach i wasanaethau ac / neu'n codi'r Dreth Gyngor yn uwch na chwyddiant er mwyn gosod cyllideb gytbwys, sy'n caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn adlewyrchu'n gywir gostau darparu'r gwasanaethau hynny.

**11.3.** Mae gan y Cyngor rai cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn 2024/25 i helpu i leihau'r bwlch cyllido posibl, ond mae'r cyllid y gellir ei ryddhau yn gyfyngedig ac ni fydd yn pontio'r bwlch i gyd. Os defnyddir cronfeydd wrth gefn, bydd hynny'n gwanhau gwydnwch ariannol y Cyngor ac ond yn gohirio'r angen i wneud arbedion cyllidebol neu gynyddu'r Dreth Gyngor.

**11.4.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor yn wynebu ei sefyllfa ariannol fwyaf heriol ac ansicr ar hyn o bryd, a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2024/25 a 2025/26.

## RHAGDYBIAETHAU CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

| SENARIO FWYAF TEBYGOL | | |
|---|---|---|
| | **2024/25** | **2025/26** |
| **Chwyddiant Cyflog a Phrisiau** | | |
| Costau Cyflog, Yswiriant Gwladol a Phensiynau – Heb Addysgu | 3.5% | 2.0% |
| Costau Cyflog, Yswiriant Gwladol a Phensiynau - Athrawon | 5.6% | 2.0% |
| LGPS Cyfradd Cyfraniad | 0.0% | 0.0% |
| Cyfradd Cyfraniad Pensiwn Athrawon | 4.9% | 3.5% |
| Trydan | 10.0% | 10.0% |
| Nwy | 10.0% | 10.0% |
| CPI (gan gynnwys unrhyw gywiriad o'r flwyddyn flaenorol) | 3.7% | 1.6% |
| Prif Gytundebau Gwasanaeth | 6.9% | 2.8% |
| Contractau Darparwyr Gofal Cymdeithasol | 4.3% | 1.5% |
| Ffioedd a Thaliadau | 3.0% | 3.0% |
| Y Dreth Gyngor | 5.0% | 5.0% |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | 3.0% | 1.0% |
| Grantiau'r Llywodraeth | 3.0% | 2.0% |
| Ardollau | 11.0% | 3.0% |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 8.2% | 4.3% |
| | | |
| **Pwysau Galw** | | |
| Lleoliadau i Blant | 12.5% | 2.0% |
| Lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 7.2% | 2.0% |
| Cludiant Ysgol | 0.0% | 2.0% |
| Digartrefedd | 40.0% | 5.0% |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - Llwyth Achos | 2.0% | 2.0% |
| | | |

## CRYNODEB CYLLIDEB REFENIW NET AMCANGYFRIFIEDIG 2023/24 – 2025/26

| | 2023/24 £'m | 2024/25 £'m | 2025/26 £'m |
|---|---|---|---|
| Cyflog – Dim Addysgu gan gynnwys Pensiwn ac Yswiriant Gwladol | 63.067 | 65.275 | 66.558 |
| Cyflog – Addysgu gan gynnwys Pensiwn ac Yswiriant Gwladol | 34.500 | 36.712 | 37.694 |
| Costau gweithwyr eraill | 3.781 | 3.855 | 3.901 |
| Costau Eiddo | 8.846 | 9.175 | 9.326 |
| Ynni | 4.372 | 4.809 | 5.170 |
| Cludiant | 1.236 | 1.282 | 1.303 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 23.221 | 24.168 | 24.657 |
| Cludiant Ysgol | 4.159 | 4.363 | 4.465 |
| Prydau Ysgol | 3.019 | 3.167 | 3.218 |
| Lleoliadau Allsirol Addysg | 0.903 | 0.942 | 0.974 |
| Trefniadau Addysg ar y Cyd | 2.639 | 2.741 | 2.796 |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 27.443 | 30.724 | 31.666 |
| Lleoliadau Gofal Plant | 7.347 | 8.288 | 8.660 |
| Casglu a Gwaredu Sbwriel | 9.097 | 9.649 | 9.903 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd a Goleuadau Stryd | 4.957 | 5.300 | 5.448 |
| Cludiant Bws Gwasanaethau Cyhoeddus | 1.236 | 1.426 | 1.318 |
| Cymorth i brynwyr tro cyntaf | 1.501 | 1.502 | 1.502 |
| Digartrefedd | 1.152 | 1.656 | 1.764 |
| Lwfansau a Threuliau Aelodau | 1.031 | 1.072 | 1.104 |
| Crwneriaid | 0.234 | 0.241 | 0.248 |
| Ffioedd Archwilio ac Arolygu | 0.382 | 0.382 | 0.382 |
| Gwasanaeth Tân ac Ardollau | 4.503 | 4.999 | 5.149 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-daliadau Eraill | 6.966 | 7.439 | 7.938 |
| Costau y Cyllido Cyfalaf a Derbyniadau llog | 4.329 | 5.192 | 5.501 |
| Argyfyngau | 0.977 | 1.072 | 1.219 |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **220.898** | **235.431** | **241.864** |
| | | | |
| Grantiau | (22.894) | (23.581) | (24.053) |
| Ffioedd a Thaliadau | (12.470) | (12.848) | (13.170) |
| Ad - daliadau | (9.464) | (9.815) | (10.054) |
| Rhenti | (1.501) | (1.546) | (1.577) |
| **CYFANSWM INCWM GROS** | **(46.329)** | **(47.790)** | **(48.854)** |
| | | | |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **174.569** | **187.641** | **193.010** |
| | | | |
| **Cynnydd yng Nghyllideb Refeniw Net** | | **+ 13.072** | **+5.369** |
| | | | |
| **% Cynnydd mewn Cyllideb Refeniw Net** | | **+ 7.48%** | **+2.86%** |

**ATODIAD 3b**

## CRYNODEB CYLLIDEB REFENIW NET AMCANGYFRIFIEDIG YN ÔL GWASANAETH 2023/24 – 2025/26

| | 2023/24 £'m | | 2024/25 £'m | | 2025/26 £'m | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu Economaidd | 1.022 | | 1.059 | | 1.079 | |
| Cyrchfan | 0.819 | | 0.853 | | 0.868 | |
| Hamdden | 1.243 | | 1.346 | | 1.397 | |
| Cynllunio | 1.013 | | 1.052 | | 1.072 | |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1.657 | | 1.719 | | 1.752 | |
| **Rheoleiddio** | | **5.754** | | **6.029** | | **6.168** |
| Priffyrdd | 7.891 | | 8.498 | | 8.553 | |
| Eiddo | 1.548 | | 1.640 | | 1.690 | |
| Gwastraff | 10.317 | | 10.940 | | 11.217 | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | **19.756** | | **21.078** | | **21.460** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | **34.973** | | **38.596** | | **39.711** |
| **Gwasanaethau Plant** | | **12.966** | | **14.127** | | **14.615** |
| Ysgolion | 49.261 | | 52.120 | | 53.486 | |
| Addysg Ganolog | 12.709 | | 13.235 | | 13.471 | |
| Diwylliant | 1.350 | | 1.415 | | 1.450 | |
| **Addysg a Diwylliant** | | **63.320** | | **66.770** | | **68.407** |
| Adnoddau Dynol | 1.587 | | 1.644 | | 1.675 | |
| TGCh | 4.216 | | 4.593 | | 4.774 | |
| Trawsnewid | 1.190 | | 1.228 | | 1.251 | |
| **Trawsffurfiad** | | **6.993** | | **7.465** | | **7.700** |
| **Tai** | | **1.590** | | **2.113** | | **2.228** |
| **Adnoddau** | | **3.723** | | **3.857** | | **3.932** |
| **Busnes y Cyngor** | | **2.013** | | **2.086** | | **2.126** |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | | **0.760** | | **0.787** | | **0.802** |
| Cyllid Cyfalaf | 4.329 | | 5.192 | | 5.504 | |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor / Budd-daliadau | 6.966 | | 7.439 | | 7.937 | |
| Ardollau | 4.504 | | 4.999 | | 5.149 | |
| Cymorth i brynwyr tro cyntaf | 1.502 | | 1.502 | | 1.502 | |
| Cyllidebau eraill nad ydynt yn wasanaeth | 2.443 | | 2.459 | | 2.439 | |
| Argyfyngau | 2.977 | | 3.142 | | 3.330 | |
| **Heb fod yn Wasanaeth** | | **22.721** | | **24.733** | | **25.861** |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | | **174.569** | | **187.641** | | **193.010** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **21 Medi 2023/<br>26 Medi 2023** |
| **Pwnc:** | **Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022/2023** |
| **Deilydd (au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones** |
| **Rheolwr Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol a Chwynion<br>01248 752588<br>dylanowen3@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau** |

**A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1. Argymhellion**

Bod y Pwyllgor a'r Pwyllgor Gwaith yn:

- nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2022/23;
- cefnogi'r dasg o weithredu Polisi Enghreifftiol OGCC;
- cefnogi'r dasg o ddatblygu strategaeth hyfforddi;
- cefnogi'r dasg o ddatblygu asesiad anghenion hyfforddi a chyflwyno hyfforddiant addas yn ôl yr angen;
- awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC er mwyn cadarnhau bod y Pwyllgor a'r Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol; a chytuno i weithredu elfennau y cyfeirir atynt yn ei Llythyr Blynyddol;
- i roi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a thrwy hynny roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.

**2. Cefndir**

Ers 2006 mae OGCC wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith a wnaed gan ei swyddfa dros y 12 mis blaenorol.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol ar wahân o berfformiad pob cyngor; y cyfeirir ato fel y llythyr blynyddol.

Mae Llythyr Blynyddol 2022/23, ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), ynghlwm fel **Atodiad 1**.

**3. Y Llythyr Blynyddol**

Mae'r llythyr yn cyfeirio'n bennaf at gwynion gwasanaeth ond mae hefyd yn cynnwys adran ar gwynion o dan y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.

**Y Prif Negeseuon:-**

- Cyflwynwyd 25 o gwynion Gwasanaeth i OGCC, yn erbyn CSYM; gostyngiad o 29 o gwynion yn ystod 2021/2022. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen i swyddfa OGCC ymchwilio i 20 ohonynt
- Ymdriniwyd â 5 o'r cwynion a gyflwynwyd trwy ddatrysiad cynnar

Yn ogystal â'r cwynion a gyflwynwyd i OGCC yn erbyn Gwasanaethau CSYM, mae'r llythyr hefyd yn cyfeirio at gwynion a wneir yn erbyn Cynghorwyr Sir, Tref a Chymuned

- Gwnaed 1 gŵyn Cod Ymddygiad yn erbyn aelod o'r Cyngor Sir ond ni ymchwiliwyd iddi
- Gwnaed 1 gŵyn yn erbyn Cynghorydd Tref/Cymuned yn ystod 2022/23, ond daeth yr ymchwiliad i ben cyn ei ymchwilio iddi.
- Mae'r OGCC wedi datgan bod y Cynghorau Tref/Cymuned a restrir yn Atodiad F wedi'u cynnwys oherwydd bod cwyn wedi'i cau yn ystod 2022/23 (cyfeiriwyd at nifer y cwynion) neu fod cwynion hanesyddol yn eu herbyn o 2021/22 (cyfeirir at hyn a 0).

Mae perfformiad CSYM i'w weld yn y tablau sydd yn y Llythyr Blynyddol.

Yn ei llythyr, mae'r Ombwdsmon yn gwneud y cais canlynol:-

- *"Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn."*

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r cais uchod ac, yn ogystal â hyn, fe'i cyhoeddir i'r holl Aelodau ac i'r cyhoedd. Mae'r Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol wedi dweud wrth yr Ombwdsmon pa ddyddiadau y cynhelir y cyfarfodydd hyn.

- *"Parhau i ymgysylltu â'n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion cywir ac amserol."*

Mae Canllawiau'r Awdurdod Safonau Cwynion (ASC) ' ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â Gweithredu'r Polisi Pryderon a Chwynion yn cynnwys cyngor am hyfforddiant ac yn cyfeirio at yr angen i ddatblygu strategaeth hyfforddi.

Bydd strategaeth hyfforddi yn cael ei datblygu a nodir a gweithredir asesiad o anghenion hyfforddi staff ac Aelodau Etholedig.

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r fersiwn presennol o Bolisi Enghreifftiol OGCC ac yn sicrhau bod ei broses o reoli cwynion yn cydymffurfio â Chanllawiau ASC.

Gellir gweld amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith uchod yn Atodiad 2.

Mae'r Cyngor yn darparu data chwarterol yn ymwneud â chwynion yn unol â'r amserlen a osodir gan yr ASC. Gweler y tabl isod sy'n cadarnhau dyddiad cyflwyno'r ASC a'r dyddiad y cyflwynwyd yr wybodaeth gan y Cyngor.

| Dyddiad Cyflwyno | Y Dyddiad yr anfonwyd y Data gan CSYM |
|---|---|
| 22.07.2022 | 19.07.2022 |
| 21.10.2022 | 20.10.2022 |
| 03.02.2023 | 02.02.2023 |
| 21.05.2023 | 16.05.2023 |

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith.

**4. Gwybodaeth ychwanegol.**

Yn ogystal â'r Llythyr Blynyddol, cyhoeddir gwybodaeth am bryderon, cwynion a chanmoliaethau yn chwarterol ar wefan y Cyngor yn https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cwynion-swyddogol/Ystadegau-cwynion-y-cyngor.aspx

Mae adroddiadau chwarterol hefyd yn cael eu darparu i'r Tîm Arweinyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion, ym mis Medi bob blwyddyn. Mae'r adroddiad ar gyfer 2022/23 wedi'i adrodd i'r Pwyllgor ar 21 Medi 2023.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid oedd unrhyw opsiynau eraill. |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith; ar gais OGCC. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **E – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| F – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys** | Diben y Polisi Cwynion Corfforaethol yw dysgu gwersi pan fydd pethau'n mynd o chwith a gwneud newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau yn ôl yr angen a lle bo hynny'n bosibl. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut:-** | |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae'r ffeithiau a gyflwynir yn cyfrannu at adeiladu gwell gwasanaethau ar gyfer y dyfodol |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| 5 | **Amlinellwch pa effaith y mae'r penderfyniad hwn yn ei chael ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Mae cwynion ynglŷn â'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol ac ymdrinnir â nhw os cânt eu derbyn.<br>Os derbynnir cwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg, byddant yn cael eu hadrodd yn Adroddiad Safonau'r Gymraeg 2022-23 |

| G – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cymeradwyo'r adroddiad a'i argymhellion. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cymeradwyo'r adroddiad a'i argymhellion. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cymeradwyo'r adroddiad a'i argymhellion. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Caffael** | Ddim yn berthnasol |
| 8 | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi i bob aelod etholedig |

| H - Atodiadau: |
|---|
| Copi o Lythyr Blynyddol 2022/23 |

| I - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Dim |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Gofynnwch am: Cyfathrebu
01656 641150
Cyfathrebu
@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 17 Awst 2023

Cyngh. Llinos Medi
Cyngor Sir Ynys Môn
Trwy E-bost yn unig: llinosmedihuws@anglesey.gov.uk

**Llythyrau Blynyddol 2022/23**

Annwyl Cynghorydd Medi

Mae'n falch gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2022/23) i chi ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymdrin â chwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiant gwasanaeth, cwynion yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r llythyr hwn yn cyd-daro â'm Hadroddiad Blynyddol - "Blwyddyn o newid - blwyddyn o her" - teimlad a fydd, heb os, yn atseinio â chyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae fy swyddfa wedi gweld cynnydd arall yn nifer y bobl sy'n gofyn am ein cymorth - cynydd o 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae fy swyddfa bellach yn derbyn dwywaith nifer yr achosion a gawsom ddegawd yn ôl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyfarfûm â chyrff cyhoeddus ledled Cymru - gan siarad am ein gwaith achosion, ein hargymhellion, a'n pwerau rhagweithiol. Bydd yr hinsawdd bresennol yn parhau i gyflwyno heriau i wasanaethau cyhoeddus, ond rwy'n ddiolchgar am y ffordd gadarnhaol a chynhyrchiol y mae'r awdurdodau lleol wedi cyfathrebu â'm swyddfa.

Y llynedd, cyfeiriwyd 1,020 o gwynion atom ynglŷn ag awdurdodau lleol - gostyngiad o 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn gynnar) mewn 13% o gwynion awdurdodau lleol.

Cawsom lai o gwynion y Cod Ymddygiad yn 22/23 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Mae fy rôl yn golygu nad wyf yn gwneud canfyddiadau terfynol am dorri'r Cod Ymddygiad. Yn lle hynny, pan fydd ymchwiliadau yn canfod y pryderon mwyaf difrifol, caiff y rhain eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau'r awdurdod lleol perthnasol, neu at Banel Dyfarnu Cymru. Yn 2022/23, gwnaeth yr Ombwdsmon 12 atgyfeiriad o'r fath - gostyngiad i'w groesawu o 20 y llynedd.

**Cefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus**

Er gwaethaf heriau'r llynedd, rydym wedi bwrw ymlaen â'n gwaith gwella rhagweithiol ac wedi lansio proses Ansawdd Gwasanaeth newydd i sicrhau ein bod yn cyflawni'r safonau a ddisgwyliwn.

Y llynedd, dechreuom weithio ar ein hail Ymchwiliad Ehangach ar ein Liwt ein Hun - y tro hwn, yn edrych ar asesiadau gofalwyr o fewn awdurdodau lleol. Bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn i ddod, ac edrychwn ymlaen at rannu ein canfyddiadau â'r holl awdurdodau lleol – nid dim ond y rhai sy'n rhan o'r ymchwiliad.

Parhaodd yr Awdurdod Safonau Cwynion ei waith â chyrff cyhoeddus yng Nghymru'r llynedd, gyda mwy na 50 o gyrff cyhoeddus bellach yn gweithredu ein polisi enghreifftiol. Rydym hefyd wedi darparu mwy na 400 o sesiynau hyfforddi ers i ni ddechrau, gydag awdurdodau lleol, ym Medi 2020.

Gwnaethom barhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion am ail flwyddyn, gyda data bellach yn cael eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Mae'r data hwn yn ein galluogi i weld gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun - er enghraifft, y llynedd, cyfeiriwyd 14% o gwynion Cyngor Sir Ynys Môn at OGCC.


Byddwn yn annog Cyngor Sir Ynys Môn, ac yn benodol, eich Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i ddefnyddio'r data hwn i ddeall eich perfformiad o ran cwynion yn well ac ystyried pa mor dda y mae dulliau ymdrin â chwynion yn dda wedi'i wreiddio ledled yr Awdurdod.

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn.
- Parhau i ymgysylltu â'n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion cywir ac amserol.

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



**Michelle Morris**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**
cc.Dylan Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn.
Trwy E-bost yn unig: dylanwilliams@ynysmon.gov.uk

Ombwdsmon Ombudsman
Cymru · Wales

**Taflen Ffeithiau**

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| Awdurdod Lleol | Cwynion a Gafwyd | Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 14 | 0.20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 55 | 0.37 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 60 | 0.33 |
| Cyngor Caerdydd* | 182 | 0.50 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 54 | 0.29 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 52 | 0.72 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 27 | 0.23 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 34 | 0.36 |
| Cyngor Sir y Fflint | 99 | 0.63 |
| Cyngor Gwynedd | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 29 | 0.41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 27 | 0.45 |
| Cyngor Sir Fynwy | 20 | 0.21 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 45 | 0.31 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 40 | 0.26 |
| Cyngor Sir Penfro | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Powys | 55 | 0.42 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 51 | 0.21 |
| Cyngor Abertawe | 71 | 0.29 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 18 | 0.19 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 61 | 0.46 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 71 | 0.52 |
| **Cyfanswm** | **1143** | **0.36** |

* gan gynnwys 17 Rhentu Doeth Cymru

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cwynion a Gafwyd** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 1 | 4% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 0 | 0% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 3 | 12% |
| Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden | 0 | 0% |
| Ymdrin â Chwynion | 6 | 24% |
| Covid19 | 0 | 0% |
| Addysg | 1 | 4% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 1 | 4% |
| Cyllid a Threthiant | 2 | 8% |
| Tai | 4 | 16% |
| Trwyddedu | 0 | 0% |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 5 | 20% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 0 | 0% |
| Amrywiol Eraill | 2 | 8% |
| Cyfanswm | **25** | |



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| Cyngor Sir Ynys Môn | | % rhannu |
|---|---|---|
| Tu hwnt i Awdurdodaeth | 5 | 20% |
| Cynamserol | 4 | 16% |
| Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 11 | 44% |
| Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol* | 5 | 20% |
| Wedi rhoi'r gorau iddi | 0 | 0% |
| Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd | 0 | 0% |
| Adroddiadau eraill a gadarnhawyd* | 0 | 0% |
| Adroddiadau er Budd y Cyhoedd* | 0 | 0% |
| Adroddiadau Diddordeb Arbennig* | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **25** | |



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % o ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 13 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 54 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 7 | 58 | 12% |
| Cyngor Caerdydd | 45 | 159 | 28% |
| Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 7 | 49 | 14% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 13 | 46 | 28% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 2 | 24 | 8% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4 | 33 | 12% |
| Cyngor Sir y Fflint | 15 | 94 | 16% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 41 | 15% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3 | 28 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 2 | 26 | 8% |
| Cyngor Sir Fynwy | 2 | 21 | 10% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 45 | 11% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 4 | 36 | 11% |
| Cyngor Sir Penfro | 2 | 40 | 5% |
| Cyngor Sir Powys | 7 | 55 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 3 | 45 | 7% |
| Cyngor Abertawe | 10 | 76 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 20 | 10% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 9 | 62 | 15% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 4 | 67 | 6% |
| **Cyfanswm** | **160** | **1108** | **14%** |

Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

| | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
|---|---|
| Tynnwyd yn ôl | 0 |
| Wedi rhoi'r gorau iddi | 1 |
| Dim tystiolaeth o dorri’r cod | 0 |
| Dim angen gweithredu | 0 |
| Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | 0 |
| Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** |




ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

## Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

| | | Ymchwiliadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tynnwyd yn ôl | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Cyfanswm |
| Cyngor Tref Amlwch | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Llanddona | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddyfnan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Rhosybol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales



Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2022/23. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun gan boblogaeth pob awdurdod.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **26 Medi 2023** |
| Pwnc / Testun: | **Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Adolygiad Darpariaeth Brys – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Llinos Medi** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Dylan J. Williams**<br>**Prif Weithredwr** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>E-bost: | **Susan Owen Jones**<br>**Susanjones4@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Yn berthnasol i'r holl aelodau etholedig** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor:

1. Ystyried a gwneud sylwadau ar ymateb drafft Cyngor Sir Ynys Môn i'r Adolygiad Darpariaeth Brys – Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
2. Derbyn a cymeradwyo'r ymateb drafft Cyngor Sir Ynys Môn i'r Adolygiad Darpariaeth Brys – Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r Cyngor yn ymatebwr categori 1 ac mae ganddo gyfrifoldeb dros gynllunio ac ymateb i argyfyngau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol 2002, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

Mae'r Cyngor yn chwarae rhan hanfodol mewn cydnerthedd sifil ac mae'n gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys ac ymatebwyr categori 1 eraill yn cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu adborth am yr opsiynau a gynigir yng nghyswllt y modd y mae ei wasanaethau brys i'w darparu i'r dyfodol. Mae'r Cyngor wedi'i wahodd i ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw.

Gweler y ddogfennaeth a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn Atodiad B. O ganlyniad i drafodaethau mewnol, mae'r ymateb yn Atodiad A wedi'i lunio fel adborth y Cyngor i'r opsiynau sydd dan ystyriaeth gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

| |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae sicrhau cefnogaeth ffurfiol a chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith yn bwysig o ystyried pwysigrwydd y testun dan sylw, ynghyd â'r lefel uchel o ddiddordeb yn y mater o safbwynt rhanddeiliaid lleol. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Amherthnasol |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n cael ei ariannu'n bennaf drwy ardoll gan Awdurdodau Unedol yr ardal. Mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gronfa hon ac mae cyfraniadau'n seiliedig ar y boblogaeth. Bydd unrhyw newid i gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n effeithio ar yr ardoll gan roi pwysau ychwanegol ar gyllideb y Cyngor. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mi fydd adborth yr ymgynghoriad yn siapio dyfodol y ffordd mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn darparu gwasanaethau brys yng Ngogledd Cymru ac o ganlyniad yn cael effaith ar ein hanghenion fel Ynys. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Nac ydi. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Naddo. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amherthnasol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei | Amherthnasol. |

| | | |
|---|---|---|
| | gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Derbyniodd y Pwyllgor Sgriwtini Adfywio a Phartneriaethau (19 Medi 2023) ymateb drafft cychwynnol y Cyngor yn amodol ar nifer o ystyriaethau pellach. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A – Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Adolygiad Darpariaeth Brys – Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru<br><br>Atodiad B – Dogfen ymgynghori |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Adolygiad Darpariaeth Brys**

Diolch am y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar ddarpariaeth brys. Mae Uwch Swyddogion ac Aelodau Etholedig wedi adolygu'r ddogfen ymgynghori, ac wedi ystyried yr opsiynau arfaethedig. Cawsant eu hystyried a'u cefnogi'n ffurfiol gan y xx ar xx.

Fel awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac fel ymatebwr categori 1, mae gan y Cyngor rôl hanfodol o ran cydnerthedd sifil ac mae'n rhaid iddo sicrhau ei fod yn barod rhag argyfyngau. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys ac ymatebwyr categori 1 eraill ac rydym yn gwerthfawrogi ac yn deall pwysigrwydd y gwasanaeth a'r heriau a wynebir ganddo. Rydym yn gwerthfawrogi ein hymrwymiad a'n hymdrechion parhaus i gydweithio'n effeithiol, ond yn cydnabod ar yr un pryd bod yr heriau ariannol presennol yn llethol ac yn peri ansicrwydd. Rydym hefyd yn cydnabod yr anawsterau sydd yn gysylltiedig â chynllunio, cyflenwi a chynnal gwasanaethau craidd yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys chwe awdurdod cyfansoddol, yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys cynghorwyr sir o'r chwe awdurdod lleol ac mae gan y Cyngor 3 aelod ar yr Awdurdod.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n cael ei ariannu'n bennaf drwy ardoll gan Awdurdodau Unedol yr ardal. Bydd unrhyw newid i gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n effeithio ar yr ardoll gan roi pwysau ychwanegol ar gyllideb y Cyngor. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r Cyngor naill ai leihau cyllidebau gwasanaethau eraill er mwyn cynnal y gyllideb gyda'r cyllid sydd ar gael iddo neu gynyddu'r gyllideb drwy drosglwyddo'r gost ychwanegol i drigolion yr Ynys drwy gynyddu'r Dreth Gyngor.

Gweler y sylwadau manwl sydd wedi'u nodi isod:

**Sylwadau Cyffredinol**

1. Mae pwrpas ac amcan yr ymgynghoriad wedi ei nodi'n glir yn y ddogfen. Mae'r wybodaeth wedi'i chyflwyno'n glir ac mae'r ddogfen yn hawdd i'w deall.
2. Er nad yw'r ddogfen yn nodi pam bod angen y newid, rydym wedi cael gwybod bod yr adolygiad yn ceisio gwella'r ddarpariaeth frys sydd ar gael yn ddi-ffael yn ystod y dydd ar draws Gogledd Cymru gyfan.
3. Mae gwahanol anghenion a heriau yn bodoli ledled y rhanbarth, sy'n gysylltiedig â daearyddiaeth yr ardal a'i chymunedau gwledig a gwasgaredig yn bennaf. Rydym am sicrhau na fydd ein cymunedau gwledig dan anfantais o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth brys.
4. Rydym yn cydnabod bod Gogledd Cymru fel rhanbarth wedi parhau i esblygu ac felly hefyd y risgiau i'r bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r ardal. Rydym hefyd yn croesawu'r modd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi esblygu i fod yn wasanaeth ataliol ynghyd ag ymateb i alwadau am wasanaeth arbennig o ganlyniad i newid hinsawdd a datblygiadau technolegol.
5. Rydym yn cytuno gyda'r meini prawf a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r opsiynau a'r themâu allweddol a godwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu cychwynnol. Maent yn addas a phriodol.

**Yr Opsiynau**

DRAFT

6. Mae'r ddogfen yn awgrymu bod effaith y 3 opsiwn yn amrywio ar sail ranbarthol.
7. Yn achos Ynys Môn yn benodol, ni fydd cadw'r trefniadau presennol neu newid i opsiwn 1 neu 2 yn achosi unrhyw effaith.
8. Er na fyddai opsiynau 1 a 2 yn cael unrhyw effaith ar yr Ynys, byddant yn costio mwy. Cynnal y gwasanaeth presennol, os ydi hynny'n bosib yn ariannol, fyddai'r opsiwn delfrydol.
9. Mae'r map yn nodi lleoliad y galwadau brys a dderbyniwyd yn glir gyda'r mwyafrif ar hyd y glannau yn y Gogledd ac ar Ynys Môn. Fodd bynnag, mae'r 3 opsiwn arfaethedig yn cynyddu staff llawn amser yn Ne Meirionnydd a Sir Ddinbych. O ganlyniad, bydd gan y Gwasanaeth fwy o staff llawn amser mewn ardaloedd sy'n derbyn llai o alwadau.
10. Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn dangos nifer y galwadau yn ôl aelodau staff llawn amser cyn neu ar ôl gweithredu unrhyw newidiadau. Byddai'r gymhariaeth hon yn helpu i ddangos effaith y newid o dan bob un o'r opsiynau. Yn ddelfrydol, dylai'r newid sicrhau cysondeb o ran y ffigyrau galwadau a staff ar draws y rhanbarth.

**Opsiwn 3**

DRAFFT

11. Mae Opsiwn 3 yn golygu cau un orsaf dân ar alw ar yr Ynys, sef Gorsaf Dân Biwmares.
12. Rydym o'r farn y byddai cau'r orsaf, neu ddiffyg argaeledd yr adnodd hwn, yn cynyddu'r amser ymateb gan y byddai'n cymryd mwy o amser i'r orsaf dân agosaf nesaf ymateb. Ni fyddai'r ymateb o reidrwydd yn dod o'r orsaf dân agosaf nesaf chwaith gan nad ydynt bob amser ar gael oherwydd problemau staffio neu oherwydd eu bod wedi cael eu galw at argyfwng arall. Yn achos Biwmares, yr orsaf nesaf i ymateb yw Porthaethwy, sydd dim ond wedi bod ar gael 26% o'r amser.
13. Dim ond Opsiwn 3 sy'n sôn am leihad (2,087) yn nifer yr aelwydydd a fyddai'n derbyn ymateb cyn pen 20 munud. Mae Opsiwn 1 a 2 yn cynyddu'r ymateb (2,148 a 321 yn y drefn honno). Mae'r wybodaeth a gafwyd yn nodi y byddai cau Gorsaf Biwmares yn golygu y byddai 670 yn llai o aelwydydd ar Ynys Môn yn derbyn ymateb mewn 20 munud (gostyngiad o 78.4% i 76%). Nid ydych wedi rhannu lleoliad yr aelwydydd hyn ond tybiwn eu bod yn ne-ddwyrain yr Ynys.
14. Fel y nodwyd yn flaenorol, ni fyddai'r ymateb brys o reidrwydd yn dod o'r orsaf dân agosaf nesaf, sy'n awgrymu y gallai'r ymateb ddod o orsaf oddi ar yr ynys. Gan fod yr orsaf dân criw dydd agosaf i Fiwmares wedi'i lleoli dros y Fenai ym Mangor, Gwynedd, rydym o'r farn y byddai'r gostyngiad hwn mewn gwasanaeth yn peryglu bywydau.
15. Mae'r tagfeydd a'r diffyg gwydnwch dros y Fenai a'r ddibyniaeth ar Orsaf Dân Bangor yn peri pryder sylweddol. Cyflwynwyd tystiolaeth fanwl ynglŷn â'r pryderon hyn mewn adroddiad a gymeradwywyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar y 18fed o Orffennaf 2023 (Gwella Dibynadwyedd a Chydnerthedd ar draws y Fenai.pdf (ynysmon.gov.uk)
    a. Pont Britannia yw'r unig bwynt ar rwydwaith cefnffyrdd y DU sy'n rhan o lwybr Rhwydwaith Ffyrdd Traws Ewropeaidd yr E22, lle mae'r gerbytffordd yn culhau o 4 lôn i ddwy – un ym mhob cyfeiriad.
    b. Ceir cyfyngiadau o ran y math o gerbydau sy'n gallu cael mynediad i Bont Menai (sef hyd at 7.5 tunnell yn unig), ac mae cyfyngiadau cyflymder 30mya ynghyd â diffyg cyfleusterau mwy diogel, fel lleiniau caled, yn cyfrannu at gydnerthedd gwael o ran cerbydau brys.
    c. Mae'n rhaid cau Pont Britannia'n aml oherwydd gwynt, digwyddiadau a damweiniau.
    d. Yn ystod gwyntoedd cryfion (sy'n hyrddio dros 70mya) caiff y bont ei chau'n gyfan gwbl – heb unrhyw lwybr gwyro posibl ar gyfer cerbydau sydd dros 7.5 tunnell.
16. Mae'r diffyg gwydnwch dros y Fenai yn cael effaith ar wasanaethau brys a diogelwch cymunedau. Rydym felly'n gwrthwynebu'r cynnig i gau Gorsaf Dân Biwmares fel y nodir yn Opsiwn 3.

**Costau canolog a strwythur gweithredol**

17. Nid yw'r ymgynghoriad yn trafod, ystyried na chynnig unrhyw newidiadau i gostau canolog y gwasanaeth. Mae'r 3 opsiwn a gyflwynwyd yn golygu cynnydd o 8.1% i 13.5% o ran costau. Sut fydd y Gwasanaeth Tân yn ariannu'r cynnydd hwn, h.y. a fydd yr holl gostau'n cael eu hariannu drwy'r ardoll neu a fydd y gwasanaeth yn cynnig arbedion i leihau ei gostau canolog?
18. Rhaid canolbwyntio ar amddiffyn gwasanaethau rheng flaen ac nid yw hepgor unrhyw fanylion neu ystyriaethau ynghylch costau canolog yn cynnig unrhyw sicrwydd mai dyma sy'n digwydd.

I gloi, cadarnhaf safbwynt y Cyngor y dylid canolbwyntio ar amddiffyn gwasanaethau rheng flaen yn sgil yr argyfwng economaidd ac y dylid ystyried arbedion effeithlonrwydd mewn meysydd eraill o fewn strwythur gweithredu ac arferion gwaith Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, h.y. costau canolog, costau hyfforddi ac ati. Mae angen rhagor o fanylion ac ystyriaethau a thrafodaethau pellach ynglŷn â'r strwythur gweithredu ehangach a chyfleoedd i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd.

Mae'r Cyngor yn gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gynnal adolygiad o'i gostau gweinyddol a chanolog fel sail ar gyfer gosod y cyfraniad ardoll a bod Swyddogion Adran 151 yng Ngogledd Cymru yn cael cyfrannu at yr adolygiad hwnnw.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn erbyn cau Gorsaf Biwmares fel y nodir yn Opsiwn 3.

Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn gwerthfawrogi'n hymrwymiad a'n hymdrechion parhaus i gydweithio, ond yn cydnabod bod yr heriau ariannol presennol yn llethol ac yn peri ansicrwydd. Byddem yn croesawu trafodaeth bellach.

DRAFT

# Y LLE IAWN
# YR AMSER IAWN
# Y SGILIAU IAWN

**EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB CHI**

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



# Adolygiad Darpariaeth Brys
## Dweud eich dweud

21 Gorffennaf 2023 – 22 Medi 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# Cynnwys


Beth yw cynnwys y ddogfen hon? .......... 3
Pwy ydyn ni? .......... 4
Ein nodau .......... 5
Cyflwyniad .......... 6
Sut rydyn ni'n gweithredu ar hyn o bryd .......... 7
Yr heriau sydd o'n blaenau .......... 8
Pam rydyn ni'n ymgynghori? .......... 9
Beth yw heriau'r gwahanol ddigwyddiadau rydyn ni'n mynd atynt? .......... 12
Datblygu ein hopsiynau ar gyfer y dyfodol .......... 22
Beth oedd gan randdeiliaid i'w ddweud .......... 24
Sesiwn bellach gyda thrawstoriad o randdeiliaid .......... 26
Diystyru un o'r opsiynau yn dilyn ein gwaith cyn-ymgynghori .......... 28
Beth fyddai'r effaith ar ein hymateb brys? .......... 29
Beth a olygwn wrth geisio darparu'r gwasanaeth tecaf posib? .......... 32
Pam cael gorsafoedd tân staff dydd ychwanegol? .......... 33
Pam newid o staffio amser cyflawn i staffio dydd yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy? .......... 34
Pam cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam? .......... 34
Pam ystyried cau pum gorsaf dân ar-alwad? .......... 35
Sut i ymateb .......... 38
Ymateb yn ffurfiol i'n hymgynghoriad .......... 40
Beth sy'n digwydd nesaf? .......... 41




Y LLE IAWN
YR AMSER IAWN
Y SGILIAU IAWN
EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB CHI

# Beth yw cynnwys y ddogfen hon?

**Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu adborth gan y rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn y rhanbarth am ddyfodol y ffordd rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau darpariaeth frys yng Ngogledd Cymru.**


**Darpariaeth frys yw'r ffordd rydyn ni'n rheoli ein hadnoddau i gadw pobl yn ddiogel – ni waeth ble rydych chi'n byw neu pwy ydych chi, rydyn ni'n anelu at fod yno i chi pan fyddwch ein hangen.**

I'n helpu i ddatblygu ein hopsiynau ar gyfer y dyfodol, rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'n staff a chyrff cynrychioliadol, y cyhoedd, cynrychiolwyr y cyngor, grwpiau agored i niwed lleol ac aelodau o'n Hawdurdod Tân ac Achub i ddeall yr hyn sy'n wirioneddol bwysig petaech chi, neu rywun rydych yn gofalu amdano neu'n ei gynrychioli, angen ein gwasanaethau mewn argyfwng.

Mae'r holl adborth wedi'i ddefnyddio i ddatblygu ein hopsiynau ar gyfer dyfodol gwasanaethau darpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru – rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn. Rydyn ni'n esbonio'r opsiynau ar dudalennau 36 a 37.

Rhwng 21 Gorffennaf 2023 a 22 Medi 2023, gallwch ddweud eich barn wrthym drwy lenwi ein holiadur a'i ddychwelyd atom – mae ar gael ar bapur neu ar-lein: www.tangogleddcymru.llyw.cymru.

Rydyn ni'n esbonio'r ffyrdd gwahanol y gallwch gymryd rhan a rhannu eich barn gyda ni ar dudalennau 38-40.



# Pwy ydyn ni?

Cafodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei sefydlu fel rhan o'r broses o ad-drefnu llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.

Yr Awdurdod yw'r corff sy'n atebol i'r cyhoedd ac sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth tân ac achub i gymunedau Gogledd Cymru.


Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. I gefnogi'r genhadaeth hon, bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio i ostwng nifer y tanau mewn cartrefi ledled y rhanbarth drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr, a bydd yn ymchwilio ac yn dadansoddi gwybodaeth i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob math o dân a pheryglon eraill.

Byddwn hefyd yn parhau hefyd i hybu addysg a gweithio ar y cyd â phobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru. Mae cyfle cyfartal yn flaenoriaeth sylfaenol, ac mae'r Awdurdod yn ceisio cynyddu'r siawns o gyflogaeth i bobl a allai ei chael yn anodd cael swydd wrth hybu tegwch a chynhwysiant yn y gweithle.

Tudalen 163

**Mae rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth a'r Awdurdod ar gael drwy fynd i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:**
**www.tangogleddcymru.llyw.cymru**


**Dangosir ein gwerthoedd craidd yn y diagram isod.**




# Ein nodau

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod Gynllun Corfforaethol 2021-24 sy'n nodi ein saith amcan gwella a llesiant hirdymor. Ym mis Hydref 2021, cadarnhaodd yr Awdurdod ei fwriad i barhau i fynd ar drywydd yr un amcanion hynny yn 2022/23 ac ym mis Mawrth 2023 cafodd y cynllun ei ddiwygio.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn egluro ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, a sut rydyn ni'n bwriadu cyflawni hyn trwy saith amcan hirdymor. I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r saith amcan, mae yna gamau mwy manwl, tymor byr, sydd wedi'u cysylltu â'r saith nod llesiant a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: www.futuregenerations.wales



# Cyflwyniad

Rydyn ni eisiau darparu'r gwasanaeth tecaf posib i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

Waeth ble rydych chi'n byw neu pwy ydych chi, ein nod ydy bod yno i chi pan fydd arnoch ein hangen ni.

Mae hyn yn golygu gallu darparu'r un gwasanaeth ar draws ein cymunedau amrywiol – amrywiol o ran lleoliad a daearyddiaeth, o ran y mathau o ddigwyddiadau rydyn ni'n ymateb iddynt, a hefyd o ran y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu.

O fynyddoedd Eryri i ddinas Wrecsam; o gadarnleoedd y Gymraeg i'r ffin â Swydd Amwythig a Swydd Gaer; o danau yn yr awyr agored i lifogydd; o danau mewn tai i wrthdrawiadau ar y ffordd; beth bynnag fo'ch ethnigrwydd, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol ac os oes gennych anabledd neu beidio.



Rydyn ni'n anelu at gyflawni hyn drwy reoli ein hadnoddau, ein cyllideb a'n pobl mor effeithiol â phosib.

Mae deall eich barn chi a barn pawb sy'n byw, gweithio a theithio yn ein rhanbarth yn allweddol i hyn.

Mae cadw cydbwysedd rhwng hyn a'r rhwystrau presennol i ddarparu gwasanaethau yn allweddol hefyd – yn enwedig o ystyried bod argaeledd ein diffoddwyr tân ar-alwad neu ran amser wedi gostwng, bod y risgiau sy'n wynebu ein cymunedau yn newid gyda'r newid yn yr hinsawdd, a'r heriau ariannol yn fwy nag erioed.

Ac nid dim ond ymateb i ddigwyddiadau sy'n bwysig – byddai eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf yn well o lawer i bawb dan sylw.

Nid yn unig mae ein gwaith atal yn helpu i'ch cadw chi'n ddiogel ond mae hefyd yn golygu y gallwn reoli'r ffordd rydyn ni'n gweithio yn well. I gymunedau fel y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig, mae'n ffordd hanfodol o amddiffyn ein trigolion.



**Dawn Docx** Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr



**Dylan Rees** Cadeirydd yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol

# Sut rydyn ni'n gweithredu ar hyn o bryd

Cafodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei greu yn 1996 gan ddod â Gwasanaeth Tân Sir Clwyd a Gwasanaeth Tân Gwynedd at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r model ar gyfer darpariaeth frys a'r lleoliadau a'r trefniadau ar gyfer criwio'r 44 gorsaf dân yng Ngogledd Cymru wedi aros heb eu newid ryw lawer ers y cyfnod wedi'r rhyfel.

Mae Gogledd Cymru fel rhanbarth wedi parhau i esblygu ac felly hefyd y risgiau sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n byw ac yn gweithio yn ein hardal brydferth ac sy'n ymweld â hi. Yn 2008, yn ogystal â bod yn wasanaeth ymateb, sefydlodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ei hun fel gwasanaeth atal hefyd. Ers hynny, rydyn ni wedi gweithio'n galed i ostwng nifer y tanau, yn ogystal â'r marwolaethau a'r anafiadau sy'n digwydd o ganlyniad.

Roedd y flwyddyn 2022/23 yn garreg filltir bwysig i ni – am y tro cyntaf ers i ni ddechrau cadw cofnod, ni fu unrhyw farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru.

Mae hyn yn newyddion gwych, ond rhaid i ni beidio â llaesu dwylo. Mae'n rhaid i ni weithio'n galetach byth i gynnal y lefel hon o ddiogelwch.



# Yr heriau sydd o'n blaenau



Yn y cyfamser, mae risgiau eraill wedi dod i'r amlwg gyda newid yn yr hinsawdd yn cynyddu pa mor aml a difrifol ydy'r achosion o danau yn yr awyr agored a llifogydd.


Mae datblygiadau newydd o ran technoleg fel paneli solar a cherbydau trydan, a dulliau newydd o adeiladu ag deunyddiau adeiladu newydd, yn peri risgiau newydd i'r cyhoedd ac i ddiffoddwyr tân.

A ninnau wedi dechrau cefnogi cydweithwyr eraill yn y sector brys, rydyn ni wedi gweld cynnydd yn yr hyn a elwir yn alwadau gwasanaeth arbennig.

O ganlyniad, rydyn ni'n dod yn fwy o Wasanaeth Achub nag yn Wasanaeth Tân ac Achub.

Yn y dyfodol, gobaith Llywodraeth Cymru ydy y gallwn ymchwilio i'r posibiliad o allu cynorthwyo ein cydweithwyr ambiwlans ymhellach drwy ymateb i achosion o ataliadau'r galon. I wneud hyn i gyd, byddai angen i ni fod **yn y lle iawn.**

# Pam rydyn ni'n ymgynghori?




Ar hyn o bryd, dim ond mewn 8 o'n gorsafoedd tân wedi'u lleoli'n bennaf ar hyd coridor ffordd ddeuol yr A55 yn ein rhanbarth y mae gennym ddarpariaeth frys wedi'i gwarantu.

Mewn mannau eraill yng Ngogledd Cymru, rydyn ni'n dibynnu ar ddiffoddwyr tân rhan amser neu ar-alwad (sy'n gweithredu'r system dyletswydd rhan amser) – ac mae'n anodd sicrhau bod y rhain ar gael yn ystod y dydd (tudalen 11).

Rydyn ni'n gweithio'n galed i recriwtio a chadw'r diffoddwyr tân hyn ond mae angen i ni gael darpariaeth frys wedi'i gwarantu mewn ardaloedd mewndirol, er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu criw ymateb o fewn yr amser ymateb gorau posib ym mhob rhan o Ogledd Cymru. Mewn argyfwng, mae amser yn hanfodol.


Rydyn ni felly wedi bod yn archwilio senarios ar gyfer darparu darpariaeth frys yn y dyfodol – gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth bresennol tra hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol presennol. Gan weithio gydag arbenigwyr annibynnol, rydyn ni wedi bod yn modelu'n union sut y gallem wneud y gorau o'n hadnoddau ac ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.



Y LLE IAWN
YR AMSER IAWN
Y SGILIAU IAWN
EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB CHI

YOUR FIRE AND RESCUE SERVICE
RIGHT PLACE
RIGHT TIME
RIGHT SKILLS

Gwyddom fod nifer y digwyddiadau yr ydyn ni'n mynd iddynt yn cynyddu trwy gydol y dydd, gan gyrraedd uchafbwynt yn gynnar gyda'r nos ac yna gostwng yn y nos. Gallem felly edrych ar gyfateb y galw hwn trwy newid y ffordd y mae rhai o'n criwiau'n gweithio mewn rhai ardaloedd.




**Digwyddiadau fesul awr ar gyfartaledd 01/04/2017 - 31/03/2022**



Er y gallwn weithio i wella sut y gallai ein darpariaeth a pherfformiad ar gyfartaledd edrych, bydd ardaloedd o hyd, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, lle byddem yn parhau i weithio'n galetach i wella ein gwasanaethau amddiffyn ac atal a pharhau i ganolbwyntio ar recriwtio staff ar alw a'u hargaeledd.

Byddai hyn yn ein galluogi i ymateb yn fwy effeithiol i'r holl argyfyngau y cawn ein galw i fynd atynt, gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd a digwyddiadau o ganlyniad i dywydd eithafol, ac yn hollbwysig, ar yr **amser iawn**.

Ynghyd â'r risgiau newydd, mae'r dechnoleg y mae diffoddwyr tân yn ei defnyddio wedi dod yn fwy soffistigedig. Felly, mae hyfforddiant yn hollbwysig, ac oherwydd bod nifer y tanau wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf diolch i'n gwaith atal, mae hyd yn oed yn fwy hanfodol bod hyfforddiant realistig a ymdrochol yn cael ei roi ym mhob un o'r argyfyngau rydyn ni'n debygol o fynd atynt.

Mae angen i ni hefyd fod yn ymwybodol o'n hangen i hyfforddi diffoddwyr tân i gadw eu hunain a'r cyhoedd yn ddiogel a darparu ymateb o'r ansawdd uchaf.

Felly, rydyn ni wrthi'n datblygu achos busnes i adeiladu Canolfan Hyfforddi fodern o'r radd flaenaf. Byddai wedi'i lleoli'n fwy canolog, fel bod llai o amser yn cael ei dreulio'n teithio a mwy o amser yn hyfforddi. Gall hefyd baratoi ein diffoddwyr tân at ddelio â risgiau newydd a phresennol a gallem ei rannu gyda'n partneriaid yn y gwasanaethau brys ac eraill y gallwn ni fod mewn argyfyngau gyda nhw. Mae hyfforddi gwasanaethau brys ar y cyd a gweithgareddau ar y cyd yn sicrhau bod gan ein pobl y **sgiliau iawn**.

## O ble mae ein harian yn dod?

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian ar draws yr holl wasanaethau a ddarparwn gyda chyllid a godir gan y chwe awdurdod lleol a wasanaethwn: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn.

Mae ein Hawdurdod Tân ac Achub yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe awdurdod lleol ac mae ganddo'r pŵer i godi ardoll ar y Dreth Gyngor ar gyfer cyllid.

Bob blwyddyn, mae pob awdurdod lleol cyfansoddol yn talu cyfraniad i gronfa gwasanaeth tân cyfun sy'n cyfateb i'w gyfran o dreuliau ein Hawdurdod Tân.

Ein cyllideb bresennol ar gyfer 2022/23 yw £44.4 miliwn – sy'n cyfateb i £63.07 y flwyddyn y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru, neu £150.66 y flwyddyn fesul cartref.

Mae gwybodaeth am gost pob opsiwn yr ymgynghorir yn ei gylch wedi'i chynnwys yn y tabl ar dudalennau 36-37.

## Beth yw ein patrymau shifft bresennol?


- Mae ein diffoddwyr tân ar ddyletswydd rhan amser neu ar-alwad (rhan amser) wedi'u lleoli'n bennaf mewn gorsafoedd tân gwledig ar draws ein rhanbarth. Mae gofyn iddyn nhw fod o fewn pum munud o'u gorsaf dân ac yn cario hysbyswr i allu ymateb i argyfyngau a mynychu nosweithiau ymarfer unwaith yr wythnos ar gyfer sesiynau hyfforddi a dyletswyddau eraill a drefnwyd ymlaen llaw.
- Mae ein diffoddwyr tân criw dydd yn ddiffoddwyr tân llawn amser wedi'u lleoli ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi. Mae'r system shifft criw dydd yn ei gwneud yn ofynnol i'n criwiau weithio cyfuniad o oriau yn yr orsaf yn ystod y dydd ac ar-alwad o leoliad sylfaenol dros nos, i ddarparu ymateb 24 awr. Mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y gorsafoedd tân hyn.
- Mae ein diffoddwyr tân amser cyflawn neu amser llawn wedi'u lleoli yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl. Mae criwiau yn y gorsafoedd hyn yn gweithio shifftiau o'r orsaf gyda'r nos ac yn ystod y dydd i ddarparu ymateb 24 awr. Mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y gorsafoedd tân hyn.
- Mae diffoddwyr tân gwledig amser cyflawn hefyd yn gweithio'n llawn amser ac yn gweithio shifftiau dydd 12 awr dros y rhanbarth ar sail ddeinamig yn dibynnu ar yr angen.



# Beth yw heriau'r gwahanol ddigwyddiadau rydyn ni'n mynd atynt?

Tudalen 167

## Y lle iawn, yr amser iawn, y sgiliau iawn i helpu i atal neu ymateb i **danau mewn tai**




**Tanau damweiniol mewn cartrefi a fynychwyd 01/04/2017 - 31/03/2022**

Yn rhy aml o lawer rydyn ni'n gweld effeithiau trychinebus tanau damweiniol yn y cartref. Mae atal tanau rhag digwydd yn y lle cyntaf yn allweddol i gadw pobl yn ddiogel a dyna pam rydyn ni wedi gweithio'n galed i leihau nifer y tanau ynghyd â'r marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i hynny – ac mae cynnal archwiliadau diogel ac iach i ddarparu cyngor diogelwch tân yn y cartref a gosod larymau mwg yn rhan annatod o'r gwaith hwn.

Mae'r rhan fwyaf o danau'n cychwyn yn ddamweiniol – a gall yr effeithiau fod yn ddinistriol. Mae dros 40% o'r holl danau yn y cartref yn cychwyn yn y gegin. Rhywbeth yn tynnu sylw yw'r ffactor dynol mwyaf sy'n gyfrifol am hynny – gan arwain at gegin llawn mwg, offer wedi'u difrodi neu yn yr achosion gwaethaf, anafiadau neu niwed difrifol.

Rydyn ni'n ymgyrchu drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo ffyrdd y gallwch aros yn ddiogel – gallwch ddilyn ein hawgrymiadau ar goginio'n ddiogel, diogelwch e-sigaréts, diogelwch trydanol, diogelwch ysmygu a llawer mwy ar ein gwefan: www@tangogleddcymru.llyw.cymru

Ers 2013, mae system chwistrellu tân wedi'i gosod ym mhob cartref newydd a chartref wedi'i drawsnewid yng Nghymru. Mae hyn fel cael diffoddwr tân yn eich cartref a phrofwyd bod hyn yn achub bywydau ac yn atal anafiadau.


Mae systemau larwm wedi'u monitro'n cynnig system gymorth werthfawr i breswylwyr oedrannus neu agored i niwed - ac i bob un ohonom, gall larymau mwg sy'n gweithio rhoi rhybudd cynnar a all ddarparu amser gwerthfawr i fynd allan, aros allan a deialu 999.

Yn 2022/23, am y tro cyntaf ers i'n cofnodion ddechrau, ni fu unrhyw farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau yng Ngogledd Cymru.

Fodd bynnag, ni allwn fod yn hunanfodlon a gwyddom fod angen i ni weithio'n galetach byth i gynnal y lefel hon o ddiogelwch.



## Y lle iawn, yr amser iawn, y sgiliau iawn i helpu i atal neu ymateb i **wrthdrawiadau traffig ffyrdd**




**Lleoliadau gwrthdrawiadau traffig ffyrdd 01/04/2017 - 31/03/2022**

Tudalen 168



Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill gan gynnwys gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd a chodi ymwybyddiaeth o brif achosion gwrthdrawiadau traffig ffyrdd angheuol. Mae neges y 'Pump Angheuol' yn canolbwyntio ar 'Peidiwch ag yfed a gyrru, Gyrrwch Gan Bwyll, Peidiwch â bod yn ddiofal, Gwisgwch wregys, a Diffoddwch eich ffôn symudol'.

Nid delio â thanau mewn tai yn unig yw ein gwaith fel gwasanaeth tân ac achub – rydyn ni'n mynd at nifer uchel o wrthdrawiadau traffig ffyrdd ac yn gweithio'n ddiflino gydag asiantaethau partner i helpu i addysgu gyrwyr am ganlyniadau angheuol posib goryrru neu beidio â thalu sylw wrth yrru.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i yrwyr iau – mae llawer o dystiolaeth bod gyrwyr 16-24 oed yn anghymesur o debygol o gael eu hanafu mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Yng Nghymru, mae'r grŵp oedran hwn yn cyfrif am 11 y cant o'r boblogaeth ond 22 y cant o'r holl bobl a gafodd eu hanafu.


Mae cydweithio i helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelwch ar y ffyrdd yn rhan o'n hymrwymiad i leihau digwyddiadau traffig ar y ffordd a all ddigwydd unrhyw le ar draws ein rhanbarth.





Tudalen 169

## Y lle iawn, yr amser iawn, y sgiliau iawn i helpu i daclo **tanau yn yr awyr agored**




**Lleoliadau tanau yn yr awyr agored 01/04/2017 - 31/03/2022**

Mae newid yn yr hinsawdd wedi gweld cynnydd yn y galw i ymateb i danau yn yr awyr agored yn ein rhanbarth.

Bob blwyddyn yng Nghymru, mae tân yn gyfrifol am ddifrodi miloedd o hectarau o dir cefn gwlad, mannau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt.

Mae tanau yn yr awyr agored yn cymryd adnoddau y gall fod eu hangen mewn argyfwng arall – ac oherwydd eu bod yn tueddu i ddigwydd mewn amgylcheddau gwledig a gwledig-trefol, rydyn ni wedi gweld sut mae tanau yn yr awyr agored yn rhoi bywydau mewn perygl – bywydau ein cymunedau yn ogystal â'n diffoddwyr tân.

Yn 2022, gwelsom gynnydd dramatig yn nifer a difrifoldeb y tanau yn yr awyr agored yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru, gan godi o 4 ym mis Mawrth ac Ebrill 2021 i 20 ym mis Mawrth ac Ebrill 2022. Mae'r darlun hwn yn debyg ar draws Cymru gyfan.

Dyna pam mae cydweithio i atal y tanau hyn yn bwysicach nag erioed – ac rydyn ni'n gweithio gydag ystod o sefydliadau, ynghyd â gwasanaethau tân ac achub eraill ledled Cymru, er mwyn codi ymwybyddiaeth am y difrod y mae tanau yn yr awyr agored yn gallu ei achosi i rai o'n tirweddau ucheldirol mwyaf eiconig.

Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr lleol – roedd llawer o'r tanau yn yr awyr agored ucheldirol ym mis Mawrth 2022 wedi digwydd o ganlyniad i dechnegau rheoli tir fel gwaith llosgi gweunydd rhagnodedig yn mynd allan o reolaeth.

Yn ystod haf 2022, cofnodwyd y tymereddau uchaf erioed, ac mae tanau yn yr awyr agored bellach yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel perygl mawr ar y Gofrestr Risg Genedlaethol o Argyfyngau Sifil, ac yn adroddiad Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd ar Iechyd 2023 y DU.


Gall effaith tanau yn yr awyr agored fod yn ddinistriol – maen nhw'n difrodi tir ac eiddo, yn niweidio bywyd gwyllt a'r amgylchedd, yn rhyddhau carbon deuocsid a llygryddion i'r atmosffer a chyrsiau dŵr, gan effeithio ar gymunedau a busnesau lleol.

Mae diffodd tanau yn yr awyr agored yn waith anodd a chostus iawn, ac mae'n gofyn am offer arbenigol gan fod ein diffoddwyr tân yn aml yn wynebu gweithio dan amodau peryglus ac anodd.

Mae'r costau yn sgil tanau yn yr awyr agored yn enfawr, gan gynnwys y gwaith adfer, ffermwyr a busnesau'n colli tir a'r effaith negyddol ar gymunedau.

Trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, rydyn ni'n canolbwyntio ar leihau nifer y tanau glaswellt a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar ein cymunedau, ein tirwedd a'n bywyd gwyllt.

## Y lle iawn, yr amser iawn, y sgiliau iawn i ymateb i **llifogydd**




**Ymateb i ddigwyddiadau llifogydd 01/04/2017 - 31/03/2022**

Mae newid hinsawdd hefyd wedi gweld cynnydd yn y galw i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd yng Ngogledd Cymru.

Mae stormydd sylweddol yn digwydd yn amlach ar draws y DU, sy'n gofyn am ymateb brys aml-asiantaeth.

Ym mis Ionawr 2021, daeth Storm Cristoph ag un o'r tridiau gwlypaf a gofnodwyd erioed ar draws Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

Aeth criwiau tân Gogledd Cymru at ddigwyddiadau llifogydd ar draws y rhanbarth wrth i Storm Cristoph daro'r DU, gan ddod â glaw sylweddol a nifer o rybuddion llifogydd difrifol.

Roedd ein hystafell reoli yn brysur gyda dros 200 o alwadau wedi eu derbyn ar anterth y storm, gyda chriwiau neu swyddogion yn mynd allan at 56 o alwadau. Cynorthwyodd staff gweithredol mewn 48 eiddo ac achubwyd 28 o anafusion dros ddau ddiwrnod o dywydd garw.



Gweithiodd swyddogion yn agos gyda phartneriaid o wasanaethau brys eraill ac awdurdodau lleol wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer y llifogydd eang hyn.

Yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt waethaf oedd Rhuthun a Bangor-is-y-coed lle cafodd trigolion o'r gymuned leol eu symud o'u cartrefi, ac agorwyd canolfannau gorffwys tra bod rhybuddion llifogydd a rhybuddion llifogydd mewn grym ar draws Gogledd Cymru.


Rydyn ni eisiau parhau i helpu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu i fod yn ddiogel beth bynnag fo'r tywydd – ac mae effeithiau newid hinsawdd yn golygu bod angen i ni allu addasu i ymateb i'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau.



Tudalen 170




# Y lle iawn, yr amser iawn, y sgiliau iawn i helpu i gryfhau **trefniadau atal ac amddiffyn**





**Nifer o danau cynradd fesul Awdurdodau Tan ac Achub yng Nghymru**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar atal fel conglfaen y gwaith o amddiffyn ein cymunedau.

Mae atal digwyddiadau rhag digwydd yn y lle cyntaf yn well i bawb ac rydyn ni'n gweithio'n galed i atal tanau a digwyddiadau eraill.

Mae nifer y prif danau – y rhai a allai fod yn danau mwy difrifol sy'n niweidio pobl neu'n achosi difrod i eiddo – wedi gostwng yn sylweddol ar draws Cymru gyfan dros y deng mlynedd diwethaf diolch i'n ffocws ar atal, ac wedi aros yr un fath dros y pum mlynedd diwethaf.




**Nifer y digwyddiadau dyddiol ar gyfartaledd 01/04/2017 - 31/03/2022**

Yn 2022/23, cwblhaodd ein staff diogelwch cymunedol 18,052 o archwiliadau diogel ac iach i helpu i atal tanau yn y cartref, trwy annog perchnogaeth larymau mwg i roi rhybudd cynnar pe bai tân a thrwy roi cyngor diogelwch tân hanfodol i breswylwyr.

Gallwch gofrestru i gael archwiliad diogel ac iach am ddim trwy anfon neges destun gyda'ch manylion i 07507303678, llenwi'r ffurflen ymholiadau ar-lein yn www.tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy ffonio 0800 169 1234 rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ein rôl fel rheolydd diogelwch tân yw gweithio gyda phobl a busnesau i helpu i sicrhau eu bod yn gwneud popeth i gynnal diogelwch y cyhoedd yn yr eiddo y maent yn gyfrifol amdano o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Lle mae bygythiad i ddiogelwch y cyhoedd mewn eiddo, gallwn ddefnyddio ein pwerau gorfodi i leihau risg a dod â gwelliannau a thrwy wneud hynny byddwn yn gweithredu'n gymesur.

Mae ein staff diogelwch tân busnes yn gweithio ar draws Gogledd Cymru gyda phobl a busnesau i ddarparu cyngor, gwybodaeth ac arweiniad i'w helpu i reoli'r risgiau tân yn eu heiddo.






# Datblygu ein hopsiynau ar gyfer y dyfodol

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r ffordd orau o ddarparu ein darpariaeth frys yn y dyfodol, gan sicrhau y gallwn fod **yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau cywir.**

Yn seiliedig ar ein gwaith modelu ac ar ein profiad proffesiynol ein hunain, rydyn ni wedi archwilio amrywiaeth o wahanol senarios. Trwy gyfres o weithdai cyn-ymgynghori, seminarau a grwpiau ffocws rydyn ni wedi casglu mewnwelediadau ac adborth gan ystod eang o bobl, gan gynnwys staff a chyrff cynrychioliadol, y cyhoedd, cynrychiolwyr y cyngor, grwpiau agored i niwed lleol ac aelodau o'n Hawdurdod Tân.

Defnyddiwyd y sesiynau hyn i edrych ar beth yn union oedd yn bwysig i'w ystyried wrth wella ein gwasanaethau darpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.

Yna fe wnaethon ni gynnal sesiynau rhanddeiliaid pellach yn cynnwys trawstoriad eang o bobl i'n helpu i ddatblygu rhestr wedi'i mireinio o opsiynau posib ar gyfer y dyfodol, pob un ohonyn nhw'n ddichonadwy a phob un yn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i bawb.

Datblygwyd yr opsiynau hyn ar sail y meini prawf canlynol:

- **Darpariaeth frys** - sut mae ein peiriannau tân yn ymateb i alwadau brys.
- **Gwasanaethau amddiffyn ac atal** - sut rydyn ni'n cadw eich cartrefi a'ch busnesau'n ddiogel.
- **Fforddiadwyedd** - cadw ein gwasanaethau mor fforddiadwy â phosib, gan ddarparu'r gwerth gorau am arian.
- **Gweithlu** - effaith newidiadau ar ein timau.
- **Gwasanaeth teg a chyfartal** - staff sydd yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau iawn.
- **Gwerth cymdeithasol** - cydnabod effaith unrhyw newidiadau ar ein cymunedau.

Roedd y themâu allweddol a gododd o'r ymgysylltu hwn yn cynnwys:

- **Cyllid** – Deall y pwysau cyllidebol. A yw'r adolygiad o'r ddarpariaeth frys yn cael ei lywio gan ystyriaethau ariannol?
- **Risgiau yn y dyfodol** – Gall newid yn yr hinsawdd a thechnoleg newydd roi mwy o alw ar adnoddau.
- **Atal ac amddiffyn** – Sut mae ein hymgysylltiad efo'r cyhoedd a busnesau wedi ei heffeithio.
- **Cyfathrebu** - Allweddol i helpu dealltwriaeth o'r heriau a wynebir ac effeithiau unrhyw gynigion.

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau nad yw ein hadolygiad o'r ddarpariaeth frys a'r broses ymgynghori hon yn achosi anfantais i unrhyw un yn anfwriadol a, lle bynnag y bo modd, ein bod yn rhagweithiol wrth sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Gellir gweld ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ein gwefan: **www.tangogleddcymru.llyw.cymru**

# Beth oedd gan randdeiliaid i'w ddweud

## Staff

"Efallai y bydd tywydd eithafol yn golygu y bydd angen mwy o ymateb i danau yn yr awyr agored."

"Effaith negyddol ar staff yn sgil newid systemau dyletswydd neu leoliad gorsaf – colledion o ran staff."

"Byddwch yn fwy beiddgar a chyfleu ein gwerth am arian a pheidiwch â derbyn cyfyngiadau cyllidebol."

## Uwch arweinwyr allanol lleol a chenedlaethol

"A oes ffrydiau ariannu eraill ar gael gan Lywodraeth Cymru?"

"Deall a yw'r adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn cael ei yrru gan bwysau ariannol?"

"Dileu aneffeithlonrwydd."

"Gofynnir am gynllun cyllideb tymor canolig 5 mlynedd."

"Dynodi'n ffurfiol y byddai'r ddarpariaeth ddyddiol yn cael ei lleoli yn ôl risg."

"Mae gostyngiad yn nifer y peiriannau tân yn Wrecsam wedi bod yn ddadleuol o'r blaen ac mae ganddo'r potensial i fod yn ddadleuol eto."

## Cyrff cynrychioli staff

"Mae barn gweithwyr yn bwysig."

"A all staff gael eu trosglwyddo neu eu hadleoli i Wasanaethau Tân ac Achub eraill?"

## Risgiau yn y Dyfodol

"Byddai toriadau i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael eu gweld fel bai'r Cyngor lleol."

"Cynnydd mewn poblogaeth yn arwain at gynnydd mewn tanau ."

## Grwpiau ffocws a gynhaliwyd ar-lein

"Ydych chi'n ymgynghori gyda chynllunio strategol o ran mwy o boblogaeth a thai o fewn y gymuned?"

"Pwy fydd yr ymgynghoriad yn cael ei anelu ato, sut bydd yn digwydd a sut beth fydd o?"

"Bydd bod yn agored ac yn dryloyw trwy gydol y broses ac nid y dyluniad terfynol yn allweddol yn ystod yr ymgynghoriad."

"Beth yw'r risgiau posib a'r effaith ar waith ataliol?"

"Mae angen i'r gwasanaeth fod yn edrych ar waith atal gyda landlordiaid presennol a phobl o fewn y cymunedau."

"O ran nifer y bobl Affricanaidd sy'n dod i mewn i'r ardal, yn enwedig yn Wrecsam – a oes modd ystyried gwaith atal i'r bobl hyn o fewn yr adolygiad o'r ddarpariaeth brys?"

# Sesiwn bellach gyda thrawstoriad o randdeiliaid



**Beth sy'n bwysig i chi pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau am y gwasanaethau a gynigiwn?**

Argaeledd/ Partneriaeth
Gwasanaethau
Darpariaeth Wledig
Cymuned
Ymateb tanau gwyllt
Gwasanaethau Atal
Adnoddau cywir
Darpariaeth
Ardaloedd – ymateb
Amseroedd ymateb
Darpariaeth addas
Lefel y ddarpariaeth
Asiantaethau partner
Dull partneriaeth
Gweithio mewn partneriaeth
Gwasanaeth
Partneriaeth efo asiantaethau eraill
Pympiau sydd ar gael
Adnoddau ac ymateb

**A oes unrhyw feysydd eraill o adborth neu ystyriaethau mewn perthynas â'n gwaith cyn-ymgynghori ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr hoffech i ni eu hystyried?**

Darpariaeth Cymru
Setiau o Ddiffoddwyr Tân
Tiroedd neu fathau eraill
Lleoliadau
Risg
Argaeledd peiriannau
Digwyddiadau tanau awyr agored
Anghenion
Tanau yn yr awyr agored
Sgiliau
Ardaloedd gwledig
Cyfrifon tanau
Darpariaeth
Peiriannau arbennig
Argaeledd gwledig
Adleoli staff
Staff
Personel llawn amser gwledig
Gweddu orau

Tudalen 174

## Diystyru un o'r opsiynau yn dilyn ein gwaith cyn-ymgynghori

Roedd un o'r opsiynau'n ymwneud â dim newid, aros fel rydyn ni a derbyn y risg o ran argaeledd.

Fodd bynnag, ar y sail nad yw'r opsiwn hwn yn bodloni meini prawf yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar gyfer ymateb brys teg, cynaliadwy a chyfiawn ar draws cymunedau Gogledd Cymru, nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ddatblygu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## Ynghylch pa opsiynau ydych chi'n ymgynghori: beth maen nhw'n ei olygu i'n cymunedau a'n staff?

| Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 |
|---|---|---|
| • Cynnal model ymateb 24 awr yn ein gorsafoedd amser cyflawn presennol, gyda gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd criw dydd.<br>• Ychwanegu tair gorsaf dân staff dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau, gan adleoli diffoddwyr tân amser cyflawn yn dilyn newidiadau yn y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig. | • Model ymateb lle mae gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd staff dydd.<br>• Cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam, gan gadw un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad.<br>• Yn sgil adleoli staff o orsafoedd tân Wrecsam, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig, gallwn ychwanegu tair gorsaf staff dydd, wedi'u lleoli yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau a chael gostyngiad o 22 yn nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn. | • Model ymateb lle mae gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd staff dydd.<br>• Cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam, gan gadw un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad.<br>• Yn sgil adleoli staff o orsafoedd tân Wrecsam, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig, gallwn ychwanegu dwy orsaf staff dydd, wedi'u lleoli ym Mhorthmadog a Dolgellau a chael gostyngiad o 36 yn nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn.<br>• Cau pum gorsaf dân ar-alwad yn Abersoch, Biwmares, Cerrigydrudion, Conwy a Llanberis, gan arwain at ostyngiad o 38 yn nifer y diffoddwyr tân ar-alwad. |

Dewiswyd tri opsiwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac mae gan y rhain oblygiadau gwahanol ar gyfer helpu i sicrhau y gallwn fod yno i chi **yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau cywir.**

**Mae'r tabl a gyflwynir ar dudalennau 36 - 37 yn cynnwys cymariaethau manylach o'r opsiynau ac mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar ein gwefan : www.tangogleddcymru.llyw.cymru**




## Beth fyddai'r effaith ar ein hymateb brys?


Edrychwyd ar y tebygolrwydd ar gyfartaledd y bydd lleoliad yn derbyn ymateb o fewn 20 munud yn ystod y dydd ar gyfer yr holl opsiynau gwahanol dan ystyriaeth – er mwyn gallu cymharu ein hymateb brys.

Gwyddom fod argaeledd staff ar-alwad yn heriol yn ystod y dydd, ond yn fwy cadarn gyda'r nos sy'n glod i ymroddiad ein staff.


Felly, er mwyn dangos y gwahaniaethau rhwng yr opsiynau yn effeithiol, mae'r mapiau ar y dudalen nesaf yn dangos argaeledd amser cyflawn 100% mewn porffor ac argaeledd ar-alwad mewn arlliwiau llwyd, yn dibynnu ar yr argaeledd cyfartalog (dros bum mlynedd).

Tudalen 176


## Trefniadau presennol





## Opsiwn 2




## Opsiwn 1




## Opsiwn 3






Tudalen 177

## Beth a olygwn wrth geisio darparu'r gwasanaeth tecaf posib?

Mae ystod eang o ffactorau yn dod i rym wrth ystyried sut y gallwn ddarparu'r gwasanaeth tecaf posib ar draws holl gymunedau Gogledd Cymru a'r her i ni fel Gwasanaeth yw dod o hyd i'r cydbwysedd cywir wrth gwrdd â'n holl amcanion.

Yn gyntaf, mae angen i ni allu ymateb i amrywiaeth o wahanol ddigwyddiadau gan gynnwys llifogydd, tanau yn yr awyr agored, tanau mewn tai, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, digwyddiadau diwydiannol, heriau diogelwch dŵr ac ati.

Mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn ymateb mewn modd amserol er mwyn gallu darparu'r ymateb mwyaf effeithiol posib i chi, y cyhoedd – pwy bynnag ydych chi, ble bynnag yr ydych yn byw yng Ngogledd Cymru a beth bynnag fo'ch anghenion. Gwyddom fod ein poblogaeth yn heneiddio ac o ganlyniad rydyn ni'n disgwyl y bydd angen cymorth ar fwy o bobl yn y dyfodol.

Mae angen i ni weithio o hyd i amddiffyn busnesau a chadw aelodau o'r cyhoedd mor ddiogel â phosib trwy atal digwyddiadau rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Ac yr un mor bwysig, mae gennym ni'r ymrwymiad a'r ddyletswydd gofal uchaf i'n staff, eu diogelwch a'u lles.



## Pam cael gorsafoedd tân staff dydd ychwanegol?

Mae'r tri opsiwn sy'n cael eu hystyried i gyd yn ymwneud â newid y ffordd rydyn ni'n staffio rhai o'n gorsafoedd tân yn ystod oriau'r dydd, o system dyletswydd rhan amser wedi'i chriwio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad i system dyletswydd staff dydd wedi'i chriwio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn, a fyddai'n system ddyletswydd newydd ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae staffio dydd yn golygu y byddai gorsafoedd tân yn cael eu criwio gan ddiffoddwyr tân amser llawn am 12 awr y dydd (e.e. 8yb tan 8yh), gyda chefnogaeth diffoddwyr tân ar-alwad, ac yn dychwelyd i fod yn orsafoedd tân ar-alwad llawn dros nos.

Byddai angen cytuno ar staffio dydd yn lleol gyda staff pe bai penderfyniad i wneud hyn wrth symud ymlaen. Mae gwasanaethau tân ac achub eraill yn y DU eisoes yn gweithredu'r math hwn o model staffio.

Mae'r lleoliadau a gynigir ar gyfer staffio dydd, a rhai o'r rhesymau dros hyn, fel a ganlyn:


**Porthmadog:** Mwy o welliant mewn ymateb o gymharu â gorsafoedd lleol eraill. Cefnogaeth o ran argaeledd o orsafoedd ar-alwad cyfagos. Bydd cyfleusterau'r orsaf yn cefnogi newid gydag isafswm buddsoddiad (Opsiynau 1, 2 a 3).

**Dolgellau:** Lleoliad strategol yn Ne Gwynedd gyda gwell rhwydweithiau trafnidiaeth ar gyfer mwy o effaith o ran yr ymateb. Cefnogaeth o ran argaeledd o orsafoedd ar-alwad cyfagos. Bydd cyfleusterau'r orsaf yn cefnogi newid gydag isafswm buddsoddiad (Opsiynau 1, 2 a 3).

**Corwen:** Lleoliad strategol ar gyfer De Sir Ddinbych gyda rhwydweithiau i ardaloedd eraill ar-alwad ar draws sawl awdurdod unedol lleol. Cefnogaeth o ran argaeledd o orsafoedd ar-alwad cyfagos. Bydd cyfleusterau'r orsaf yn cefnogi newid gydag isafswm buddsoddiad (Opsiynau 1 a 2).



## Pam newid o staffio amser cyflawn i staffio dydd yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy?



Mae Opswin 1 yn cynnig newid gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i'r system dyletswydd criw dydd sefydledig, fel y disgrifiwyd yn gynharach.

O dan Opsiynau 2 a 3, rydyn ni'n cynnig newid dwy o'n gorsafoedd tân amser cyflawn – y Rhyl a Glannau Dyfrdwy – i fodel 'staffio dydd'.

Fe wnaethom ystyried nifer y digwyddiadau yn ystod y dydd ac yn ystod y nos, lefel y risg ar draws yr ardaloedd yr effeithir arnynt, a'r cymorth sydd ar gael gan orsafoedd ar-alwad cyfagos.

Fe wnaethom hefyd ystyried nifer y digwyddiadau presennol yn y gorsafoedd hyn sy'n debycach i'n gorsafoedd tân criw dydd presennol.

Byddai hyn hefyd yn helpu i greu'r capasiti o ran diffoddwyr tân sydd ei angen er mwyn rhoi staffio dydd ar waith ym mhob un o'r tri opswin a gwella ein hymateb mewn ardaloedd mwy gwledig.



## Pam cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam?



Byddai cael gwared ar drydydd peiriant Wrecsam fel rhan o Opsiynau 2 a 3, ynghyd â'r newid arfaethedig yng ngorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy, yn ein galluogi i ailddosbarthu staff a gwella ein hymateb mewn ardaloedd mwy gwledig.

Unwaith eto, fe wnaethom ystyried nifer y digwyddiadau yn ystod y dydd ac yn ystod y nos, lefel y risg ar draws yr ardaloedd yr effeithir arnynt, a'r cymorth sydd ar gael gan orsafoedd ar-alwad cyfagos.

Gwyddom fod yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i un peiriant tân fynd at ddigwyddiad dros bum mlynedd ar draws Gogledd Cymru yn is nag 11 munud. Ar hyn o bryd rydym yn mynd at 93.6% o'r holl ddigwyddiadau o fewn 20 munud. Mae'r pwysau sy'n cael ei roi arnom gan ddiwydiant yn isel, gyda Wrecsam yn mynd at 25 o brif danau dibreswyl y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae gwaith i leihau digwyddiadau yn HMP Berwyn hefyd wedi arwain at llai o bresenoldeb tân ac achub na pan agorodd yn gychwynol.

Ni fyddai unrhyw newid i ymateb 24/7 ein peiriant cyntaf o Wrecsam gyda'r cynigion hyn.

## Pam ystyried cau pum gorsaf dân ar-alwad?

Nid ar chwarae bach yr ystyrir Opswin 3 gan ei fod yn ymwneud ag ystyried cau pum gorsaf dân ar-alwad yn barhaol.

Mae hefyd yn golygu llai o ddiffoddwyr tân ac felly gostyngiad mewn cyfleoedd gwaith lleol, gan effeithio ar werth cymdeithasol yn y cymunedau hynny.

Yn gyffredinol, rhagwelir y byddai angen 74 yn llai o ddiffoddwyr tân (amser cyflawn ac ar-alwad) pe bai'r opswin hwn yn cael ei fabwysiadu – sy'n cyfateb i 11.5% o gyfanswm ein diffoddwyr tân yn y Gwasanaeth.

Byddai felly yn lleihau ein hymateb gweithredol ac yn arwain at fwy o risg i'n cymunedau.

Fodd bynnag, mae'r opswin hwn yn helpu i leihau pwysau ar y gyllideb ar adeg pan fo heriau ariannol yn fwy nag erioed.

Bydd yr holl opsiynau yn arwain at ofyn i aelwydydd Gogledd Cymru dalu mwy am ein gwasanaethau yn y dyfodol er mwyn cwrdd â'r heriau hyn – ond byddai Opswin 3 yn golygu y byddai gofyn i aelwydydd dalu llai na'r opsiynau eraill (£4.41 y flwyddyn yn llai fesul aelwyd nag Opswin 2, a £8.14 y flwyddyn yn llai fesul aelwyd nag Opswin 1).

Er y byddai Opswin 3 yn amlwg yn effeithio ar staff a'n cymunedau mewn rhai lleoliadau, byddem yn gweithio'n galed i gyfyngu ar hyn a byddem yn ymrwymo i weithio'n agos i gefnogi unrhyw staff a allai gael eu heffeithio gan y newidiadau hyn.

### Ffactorau a ystyriwyd ar gyfer nodi gorsafoedd tân ar-alwad yr ystyriwyd eu cau gydag Opswin 3

- Nifer o ddigwyddiadau.
- Effaith wedi'i modelu ar amseroedd ymateb cyfartalog pe bai'r orsaf yn cael ei chau.
- Effaith wedi'i modelu ar amseroedd ymateb cyfartalog pe bai'r orsaf ar gael 100%.
- Capasiti gorsafoedd cyfagos i ddelio gyda nifer y galwadau.
- Cyfraddau defnyddio peiriannau.
- Sefydliad presennol – arbedion ariannol.
- Arbedion ariannol tymor hwy – ardrethi, cyfleustodau, offer a chostau hyfforddi.

**Cyfeiriwch at y tabl ar y dudalen nesaf sy'n crynhoi'r opsiynau.**

| | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 |
|---|---|---|---|
| **Newidiadau i Orsafoedd a/neu Systemau Dyletswydd** | Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Griwio Dydd ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig | Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Staffio Dydd, chael gwared ar 3ydd peiriant tân Wrecsam ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig | Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Staffio Dydd, chael gwared ar 3ydd peiriant tân Wrecsam ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig |
| **Gorsafoedd Amser Cyflawn wedi'u Cyflwyno** | Staffio Dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau | Staffio Dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau | Staffio Dydd ym Mhorthmadog a Dolgellau |
| **Cau Gorsafoedd** | Dim | Dim | Abersoch, Biwmares, Llanberis, Cerrigydrudion a Chonwy |
| **Niferoedd Staff Amser Cyflawn** | Dim Newid | 22 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn<br><br>Gostyngiad o 12% | 36 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn<br><br>Gostyngiad o 19% |
| **Niferoedd Staff Ar-Alwad** | Dim Newid | Dim Newid | 38 yn llai o Ddiffoddwyr Tân<br><br>Ar-Alwad<br><br>Gostyngiad o 8% |
| **Canran y cartrefi yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn ymateb 1af o fewn 20 munud** | Wedi cynyddu i 92.7% | Wedi cynyddu i 92.2% | Wedi gostwng i 91.5% |
| **Y gwahaniaeth rhwng y model ymateb presennol** | 2,148 yn fwy o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud | 321 yn fwy o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud | 2,087 yn llai o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud |
| **Newid o ran Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn fesul blwyddyn** | Cynnal 1,740 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol.<br><br>Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig. | Cynnal 1,740 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol.<br><br>Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig. | Cynnal 1,160 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol.<br><br>Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig. |
| **Gwerth Cymdeithasol** | Mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn ardaloedd gwledig e.e. ymweliadau ysgol, ymgyrchoedd diogelwch, digwyddiadau partneriaeth. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Sir Ddinbych a Gwynedd | Mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn ardaloedd gwledig e.e. ymweliadau ysgol, ymgyrchoedd diogelwch, digwyddiadau partneriaeth. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Sir Ddinbych a Gwynedd | Llai o ymgysylltiad cymunedol a llai o gyfleoedd swyddi yn y 5 ardal lle byddai gorsafoedd ar-alwad yn cael eu cau. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Gwynedd |
| **Amcangyfrif o'r gost fesul cartref y flwyddyn** | £171.02 | £167.29 | £162.88 |
| **Y gwahaniaeth rhwng cost 22/23 fesul cartref y flwyddyn** | Cynnydd o £20.36 | Cynnydd o £16.63 | Cynnydd o £12.22 |

newid negyddol　newid positif

Tudalen 179

# Sut i ymateb

Mae eich barn yn bwysig i ni a hoffem glywed gennych.

Rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn am ein hopsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau darpariaeth frys yng Ngogledd Cymru cyn i ni wneud unrhyw benderfyniadau terfynol am ddyfodol ein gwasanaethau.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch er mwyn ymateb i'r cwestiynau am ein hopsiynau arfaethedig ar gyfer ein gwasanaethau darpariaeth frys yn y dyfodol.

**Mae'r cwestiynau wedi'u nodi yn ein holiadur sydd ar gael ar bapur neu ar-lein: www.tangogleddcymru.llyw.cymru**

Cyn llenwi ein holiadur, efallai yr hoffech edrych ar y wybodaeth ategol fanwl sydd hefyd ar gael ar ein gwefan.

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch ein ffonio ar 07787 578 386 a gallwn anfon copïau papur o'r wybodaeth ategol atoch.

**Cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng dydd Gwener 21 Gorffennaf a hanner nos dydd Gwener 22 Medi 2023.**

Gallwch ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol i gael diweddariadau ar ein hymgynghoriad:

@NorthWalesFire
#yLleIawnyrAmserIawnySgiliauIawn

@Northwalesfireservice

/north-wales-fire-and-rescue-service

Tudalen 180





## Mae sawl ffordd wahanol y gallwch chi gymryd rhan a mynegi eich barn wrthym

**Gallwch fynd i ddigwyddiad yn bersonol neu gyfarfod rhithiol**

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, rydyn ni'n cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu efo'r gymuned i gasglu adborth a chlywed barn pobl. Gallwch ddod o hyd i fanylion yr holl ddigwyddiadau ar ein gwefan: www.tangogleddcymru.llyw.cymru

Os na allwch gael mynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch neu anfonwch neges destun atom i gael manylion y digwyddiadau ar 07787 578 386.

**Gallwch ein gwahodd ni i'ch grŵp**

Gallwn hefyd ymweld â grwpiau cymorth lleol i gasglu adborth. Os ydych chi'n aelod o grŵp cymunedol ac yr hoffech i ni ddod i siarad â'ch grŵp, cysylltwch â 07787 578 386 neu anfonwch e-bost atom ar: Adolygiaddarpariaethbrys@tangogleddcymru.llyw.cymru

# Ymateb yn ffurfiol i'n hymgynghoriad

Gallwch rannu eich barn â ni hyd at hanner nos ar **ddydd Gwener 22 Medi 2023.**

## I roi gwybod i ni am eich barn, gallwch:

Dychwelwch holiadur papur wedi'i lenwi yn ôl atom yn rhad ac am ddim i: ***Freepost ADOLYGIAD TAN/FIRE REVIEW***.

Llenwch yr holiadur ar-lein: www.tangogleddcymru.llyw.cymru

QR CODE

Neu, sganiwch y cod QR hwn a fydd yn mynd â chi'n syth at ein holiadur ar-lein.

Os na allwch gwblhau'r holiadur:

Anfonwch e-bost at: Adolygiaddarpariaethbrys@tangogleddcymru.llyw.cymru neu lythyr at: ***Freepost ADOLYGIAD TAN/FIRE REVIEW.***

Neu ffoniwch / tecstiwch i rannu eich barn ar 07787 578 386.

Tudalen 181

Mae ein gwefan yn cynnig gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn darparu bar offer hawdd ei ddefnyddio fel y gallwch ddarllen a deall popeth yn y ffyrdd sy'n gweithio orau i chi. Mae hyn yn cynnwys darllen yn uchel, testun mwy a'r gallu i weld y wybodaeth mewn ystod eang o ieithoedd ychwanegol.

Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen y gallwch ofyn amdano drwy anfon e-bost atom yn Adolygiaddarpariaethbrys@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ein ffonio / tecstio ar 07787 578 386.

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau eto a byddwn yn parhau i fod â meddwl agored am yr ateb gorau nes bydd yr holl adborth, tystiolaeth a gwybodaeth wedi'u casglu a'u hystyried.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ddydd Gwener 22 Medi 2023, bydd yr holl adborth a gasglwyd yn cael ei ddadansoddi i gynhyrchu adroddiad yn nodi'r hyn mae pobl wedi'i ddweud am ein hopsiynau arfaethedig.

Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystyried yr adborth, ynghyd ag ystod eang o wybodaeth a thystiolaeth arall, megis data digwyddiadau, data gweithlu a data ariannol. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r holl adborth, tystiolaeth a gwybodaeth i benderfynu sut i symud ymlaen.


Byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth a diweddariadau am y rhaglen waith hon. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad canfyddiadau'r ymgynghoriad a phapurau allweddol a fydd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ar ein gwefan.

Bydd cyfarfod penderfynu terfynol yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei recordio a bydd ar gael ar ein gwefan i ganiatáu i'r rhai sydd â diddordeb glywed y drafodaeth a sut caiff y penderfyniad ei wneud.

Byddwn yn cyhoeddi manylion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar ein gwefan: www.tangogleddcymru.llyw.cymru

Ar ôl i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud, byddai unrhyw newidiadau i'n darpariaeth frys yn digwydd fesul cam, fel rhan o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024/28.

Rydyn ni wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o bobl wrth i newidiadau gael eu gwneud. Bydd manylion am gynnydd yn cael eu rhannu ar ein gwefan hefyd.



Y LLE IAWN
YR AMSER IAWN
Y SGILIAU IAWN
EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB CHI



# YDYCH CHI'N PROFI'CH LARYMAU MWG BOB WYTHNOS?

Profi'ch larymau mwg bob wythnos ydi'r ffordd orau o wneud yn siwr y gallwch ddianc o'ch eiddo cyn gynted â phosib mewn achos o dân.

Fe all hefyd leihau'r difrod i'ch cartref a'ch eiddo trwy'ch galluogi i alw'r gwasanaeth tân ac achub ar unwaith.

**Fe allwn anfon neges atoch ar e-bost i'ch atgoffa i brofi'ch larymau bob wythnos. Anfonwch eich cyfeiriad e-bost i:**
**cyfryngau@tangogleddcymru.llyw.cymru**

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
**Fire and Rescue Service**

This page is intentionally left blank

DIWEDDARWYD 13.09.2023

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | 26 Medi 2023 |
| **Pwnc:** | Cymeradwyo Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Llinos Medi: Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Christian Branch, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Dewi G Lloyd, Rheolwr Adfywio<br>01248 752483<br>dewilloyd@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Perthnasol i bob Aelod |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**A1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Strategaeth Gwella Canol Trefi newydd**

**RHESYMAU**
I wella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi yn unol â'r amcan yng Nghynllun newydd y Cyngor, a chydymffurfio ag argymhellion perthnasol gan Archwilio Cymru ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas ag adfywio canol trefi, a gofynion gan Lywodraeth Cymru er mwyn derbyn cyllid Trawsnewd Trefi.

**1. TROSOLWG O'R BROSES YMGYNGHORI**

1.1 Cyflwynwyd adroddiad ar y mater hwn i'r Pwyllgor Gwaith ar 25ain Ebrill a benderfynodd gymeradwyo'r strategaeth ddrafft a baratowyd gan swyddogion er mwyn ymgynghori'n gyhoeddus arni. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Mehefin a Gorffennaf 2023 i geisio barn, sylwadau a chefnogaeth ar y strategaeth arfaethedig. Mae'r adroddiad yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd, a'r Strategaeth derfynol i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.

1.2 Crëwyd arolwg ar-lein gyda chymorth y tîm TG. Cyhoeddwyd yr arolwg ar wefan y cyngor ac fe'i hysbysebwyd gan y Tîm Cyfathrebu. Yn ogystal â hyn anfonwyd gwybodaeth a dolen i'r arolwg at holl aelodau'r Cyngor Sir, cynghorau Tref, a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Roedd yr arolwg ar agor am chwe wythnos, ac fe gaeodd ar 28ain Mehefin 2023. Rhoddwyd cyflwyniad ar y strategaeth yng nghyfarfod y grŵp 'Trefi Môn' ar gyfer Cynghorau Tref, ac i ddau gyngor tref unigol yn dilyn gwahoddiad ganddynt.

**2.0 CRYNODEB O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD**

| A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| 2.1 **Nifer yr Ymatebion** – derbyniwyd 84 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. O gofio mai ymgynghoriad cychwynnol ar bolisi strategol oedd hwn mae'r ymateb yma'n dda. Disgwylir mwy o ymateb i'r ymgynghoriad lleol y sonnir amdano.<br><br>2.2 **Pwy wnaeth ymateb?** - dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn ymateb fel unigolion, ac o blith yr ymatebwyr hyn dywedodd rhai eu bod hefyd yn gysylltiedig â sefydliadau eraill. Cafwyd ymateb gan gynghorau tref, cynghorwyr cymuned, a sefydliadau lleol yn ogystal. Ychydig iawn o ymateb a gafwyd gan 'fusnesau', ond cafwyd ymateb gan Ffederasiwn y Busnesau Bach sy'n cynrychioli nifer o wahanol fusnesau, a chafwyd rhywfaint o ymateb gan y sector breifat o dan y pennawd 'Arall'.<br><br>2.3 **Diddordeb yr Ymatebwyr yn y Trefi Penodol -** cafwyd trawstoriad da o ran diddordeb daearyddol, gyda nifer dda'n cynrychioli'r pum tref, a'r niferoedd yn adlewyrchu maint y trefi hyn yn gyffredinol. Dywedodd 9% bod ganddynt ddiddordeb mewn ardaloedd eraill h.y. pentrefi ac ardaloedd gwledig. Mae'r strategaeth wedi cael ei diwygio erbyn hyn fel ei bod hi'n cyfeirio'n glir at anghenion pentrefi / ardaloedd gwledig a strategaethau / cynlluniau cysylltiedig.<br><br>2.4 **Yr Angen am Gynllun Strategol** – roedd mwyafrif (85%) yr ymatebwyr yn cytuno'n gryf bob angen y strategaeth. Roedd y sylwadau cyffredinol yn cynnwys: diffyg strategaeth glir, angen dull ymateb ar gyfer y sir gyfan, canol trefi'n dirywio / mewn trafferthion, angen syniadau a dulliau newydd, pryder am Gaergybi ac Amlwch, angen cymorth i bob tref, siopau wedi'u lleoli ar gyrion trefi erbyn hyn.<br><br>2.5 **Nod y Strategaeth** – roedd mwyafrif (85%) yr ymatebwyr yn cytuno gyda nod cyffredinol y strategaeth.<br><br>2.6 **Amcanion y Strategaeth** – roedd cefnogaeth glir (80%+) i'r pum amcan arfaethedig. Roedd y canran 'cytuno' uchaf (88%) yn gysylltiedig ag 'Ymyrraeth' a'r ganran 'cytuno'n gryf' uchaf yn gysylltiedig ag 'Adnoddau'<br><br>2.7 **Cyfrifoldeb dros Ganol Trefi** - roedd mwyafrif yr ymatebwyr (75%) yn cytuno y dylai'r sector cyhoeddus a phreifat rannu'r cyfrifoldeb dros ganol trefi. Roedd sawl un yn cwestiynu'r cyfeiriad at rôl ar gyfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gyda nifer yn pwysleisio bod angen i bobl leol arwain / benderfynu, a chyfeiriwyd yn benodol at rôl gwirfoddolwyr, cymdeithasau, y sector addysg a fforymau lleol. Mae'r strategaeth derfynol wedi cael ei diwygio i adlewyrchu'r sylwadau hyn, ac i roi mwy o bwys ar gael busnesau a chymunedau lleol i chwarae eu rhan a chymryd cyfrifoldeb dros lunio cynlluniau creu lleoedd ar gyfer eu hardaloedd hwy.<br><br>2.8 **Dulliau a gafodd eu Hargymell i'w Mabwysiadu**<br>Roedd nifer o enghreifftiau / syniadau o ganol trefi llwyddiannus a mentrau mewn ardaloedd eraill, ac yn lleol cyfeiriwyd at lwyddiant Porthaethwy fel ardal sydd wedi dod yn adnabyddus fel lle da i fynd allan am bryd o fwyd.<br><br>2.9 **Sylwadau Eraill** |

| A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| Cafodd pob math o awgrymiadau / syniadau / anghenion eu nodi. Roedd rhai'n berthnasol i bob tref, ond roedd y mwyafrif yn berthnasol i drefi penodol ac felly bydd y sylwadau hyn yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio cynlluniau creu lleoedd ar gyfer ardaloedd lleol.<br><br>2.10 **Ymatebion Eraill**<br>Cyflwynwyd sylwadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn cynnwys cyfeirio'n fwy penodol yn y Strategaeth at seilwaith gwyrdd a newid hinsawdd, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y fersiwn derfynol i'w chymeradwyo. Fe nododd Cyngor Tref Amlwch restr o anghenion / syniadau ar gyfer canol tref Amlwch yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chyfarfod a gynhaliwyd yn lleol.<br><br>**3.0 CYNLLUNIAU AR GYFER CANOL TREFI – Y CAMAU NESAF**<br><br>3.1 Bydd y fframwaith a fabwysiadwyd ar gyfer y sir gyfan yn cefnogi'r broses o lunio cynlluniau creu lleoedd ar gyfer canol trefi unigol wrth symud ymlaen. Mae cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU eisoes dan ystyriaeth.<br><br>3.2 Cafwyd sylwadau ynglŷn â'r angen i integreiddio / cydlynu'r broses ar gyfer llunio Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer Canol Trefi â'r rhaglen Creu Lleoedd ar gyfer y sir gyfan, a'r broses ar gyfer creu Cynlluniau Bro sy'n cael ei hyrwyddo ledled Cymru. Argymhellir felly bod hyn yn cael ei drafod â swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor Sir a chyda rhanddeiliaid eraill.<br><br>3.3 Cafwyd nifer o sylwadau ynglŷn â'r angen i gefnogi pentrefi ac ardaloedd gwledig yn ogystal. Argymhellir felly bod hyn yn cael ei drafod gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor Sir a chydag asiantaethau eraill, yn cynnwys Menter Môn sydd wedi bod yn arwain y gwaith o gyflawni'r Rhaglen Datblygu Gwledig a chynlluniau LEADER ar Ynys Môn. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae peidio â chreu dogfen yn opsiwn, ond gwrthodwyd yr opsiwn hwn gan y byddai'n groes i argymhellion Archwilio Cymru i awdurdodau lleol, a gofynion Llywodraeth Cymru er mwyn gallu derbyn cyllid Trawsnewid Trefi. |

| C –Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith fel y gellir mabwysiadu'r fersiwn derfynol o'r strategaeth er mwyn rhoi statws i'r ddogfen, a chydymffurfio â phenderfyniad y Pwyllgor ym mis Ebrill 2023. |

| Ch –A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Bydd y penderfyniad yn cefnogi'r polisïau a ganlyn:-<br>**Cynllun y Cyngor (2023-28)** – mae'r nodau Economaidd yn cynnwys cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi ac mae'r nodau Llesiant yn cynnwys gwella'r amgylchedd adeiledig.<br>**Y CDLIC** – polisïau sy'n nodi a chefnogi canol trefi (yn enwedig Polisi PS15) |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Byddai cael Strategaeth yn helpu i ddenu cyllid grant cyfalaf allanol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a noddwyr eraill, gan arbed cyllid cyfalaf craidd y Cyngor.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu ei bod hi'n bosib y gallai ddarparu grant refeniw o 70% tuag at gost cynhyrchu cynlluniau canol trefi ond byddai'n rhaid i'r siroedd ddod o hyd i'r 30% sydd yn weddill. Nid yw'n glir eto a fydd y cyhoeddiad ar doriadau cyllidebol gan Lywodraeth Cymru'n effeithio ar hyn. |

| Dd – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd ac amgylchedd adeiledig canol trefi yn is-amcan penodol yng Nghynllun newydd y Cyngor. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau cyllid allanol ychwanegol a fydd yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cyngor |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu'r cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r pum Cyngor arall yng ngogledd Cymru. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ystyriwyd adborth y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill wrth greu'r Strategaeth derfynol |
| 5 | **Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Ni ragwelir unrhyw effaith negyddol |
| 6 | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.** | Mae disgwyl i'r strategaeth wella bywiogrwydd, hyfywedd ac amgylchedd adeiledig canol trefi, a thrwy hynny gyfrannu at welliannau cymdeithasol ac economaidd |

| Dd – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 7 | **Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.** | Bydd polisïau iaith Gymraeg y Cyngor yn cael ei gweithredu wrth gyflawni'r Strategaeth. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol) | Codi amlygrwydd Cynllun y Cyngor a'i amcanion strategol. Dogfen eglur. Angen rheoli disgwyliadau o ystyried cyfyngiadau capasiti ac adnoddau. Pwysleisio pwrpas denu cyllid allanol |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Materion/ risciau oherwydd adnoddau. Dogfen clir a hawdd ei ddarllen |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Wedi eu cynnwys o fewn rhif 1 |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | - |
| 5 | Eiddo | - |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | - |
| 7 | Caffael | - |
| 8 | Sgriwtini | Adroddiad i'r Pwyllgor Adfywio a Phartneriaeth ar 19.04.2024 |
| 9 | Aelodau Lleol | Sesiwn briffio aelodau ar 02.03.2023 |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Strategaeth Gwella Canol Trefi 2023-28: Fersiwn Derfynol i'w chymeradwyo<br><br>Strategaeth Gwella Canol Trefi 2023-28: Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ym mis Mehefin a Gorffennaf 2023 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda): |
|---|
| Pwyllgor Gwaith – 25ain Ebrill 2023 – Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn – gweler tudalennau 21-41 (Pecyn Cyhoeddus) Dogfen Agenda ar gyfer y Pwyllgor Gwaith, 25/04/2023 10:00 (ynysmon.gov.uk)<br><br>Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio – 19eg Ebrill 2023 – Strategaeth Gwella Canol Trefi – gweler tudalennau 11-28 (Pecyn Cyhoeddus) Dogfen Agenda ar gyfer y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio, 19/04/2023 09:30 (ynysmon.gov.uk) |

# Cynllun Strategol ar gyfer Gwella Canol Trefi Ynys Môn

# Adroddiad ar yr Ymatebion i'r Broses Ymgynghori a gynhaliwyd ym mis Mehefin a Gorffennaf 2023

**Statws: Swyddogol**

**Paratowyd gan:**

| Awdur Gwreiddiol | Fersiwn | Diwygiadau | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Dewi G Lloyd, Rheolwr Adfywio | 1 | Drafft Gweithredol Cyntaf | 08.08.2023 @2pm |
| DGL | 2 | Ail Ddrafft Gweithredol | 09.08.2023 |
| DGL | 3 | Terfynol drafft | 18.8.23 |
| DGL | 4 | Terfynol | 13.9.23 |
| | | | |
| | | | |

## 1. Trosolwg

Cychwynnodd y broses ymgynghori ar 15 Mehefin a daeth i ben ar 28ain Gorffennaf.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar-lein, yn y cyfryngau ac ar y cyfryngau cymdeithasol, a thrwy anfon gwybodaeth a dolen i'r ymgynghoriad at randdeiliaid allweddol, yn cynnwys y pum Cyngor Tref, pob Cynghorydd Sir, a nifer o asiantaethau partner.

Daeth 84 o ymatebion i law a chawsant eu hasesu fel sail i'r adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys 82 o ymatebion ar-lein a 2 ymateb manwl a anfonwyd ar e-bost.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn ymateb fel unigolion, ond dywedodd rhai eu bod hefyd yn gysylltiedig â sefydliadau eraill. Cafwyd sawl ymateb gan gynghorau tref, cynghorwyr cymuned, a sefydliadau lleol.

Ychydig iawn o ymateb a gafwyd gan 'fusnesau' ond cafwyd ymateb gan Ffederasiwn y Busnesau Bach sy'n cynrychioli nifer o wahanol fusnesau, a chafwyd rhywfaint o ymateb gan y sector breifat o dan y pennawd 'Arall'.

Cafwyd trawstoriad da o ran diddordeb daearyddol, gyda nifer dda'n cynrychioli'r pum tref, a'r niferoedd yn adlewyrchu maint y trefi hyn yn gyffredinol.

Roedd canran uchel yn cytuno â'r prif gynigion yn y ddogfen. Nifer uchel yn cytuno.

Roedd 85% yn cytuno bod angen cynllun strategol.

Roedd 85% yn cytuno ag amcan cyffredinol y cynllun strategol.


Roedd dros 80% yn cytuno â'r pum amcan /egwyddor arfaethedig, Roedd y canran 'cytuno' uchaf (88%) yn gysylltiedig ag 'Ymyrraeth' a'r ganran 'cytuno'n gryf' uchaf yn gysylltiedig ag 'Adnoddau'.

Roedd 79% yn cytuno y dylai'r sector cyhoeddus a phreifat rannu'r cyfrifoldeb dros ganol trefi, ond dywedodd nifer y dylai hyn cael ei arwain / benderfynu gan bobl leol.

Cafwyd nifer o enghreifftiau o ddulliau sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn ardaloedd eraill y gellid eu mabwysiadu ar Ynys Môn.


Cafwyd nifer o sylwadau ac awgrymiadau eraill, ac mae'r rhan fwyaf yn addas i'w hystyried yn ystod y broses fanwl o baratoi cynlluniau creu lleoedd ar gyfer canol trefi unigol.

## 2. Statws yr Ymatebwyr





| | |
|---|---|
| Sylwadau | Gweler uchod – fe wnaeth nifer o 'Unigolion' nodi eu bod hefyd yn gysylltiedig â sefydliad |
| Ymateb Swyddogion | Amrywiaeth o ymatebwyr yn gyffredinol – dim llawer o ymateb gan fusnesau ond cafwyd ymateb gan yr FSB – busnesau a rhanddeiliaid lleol eraill yn fwy tebygol o fod â diddordeb mewn cynlluniau ar gyfer trefi unigol |
| Diwygiadau Arfaethedig | Dim i'r cynllun strategol<br>Sicrhau bod ymgynghoriadau manwl / lleol yn targedu busnesau a rhanddeiliaid lleol eraill yn y dyfodol er mwyn cael eu hymateb |

## 3. Diddordeb Daearyddol





| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r Sylwadau | Gweler uchod<br>Mae 'Arall' yn dynodi diddordeb mewn pentrefi / ardaloedd gwledig, ac roedd nifer o sylwadau yn awgrymu bod y llefydd hyn yn cael eu hanghofio |
| Ymateb Swyddogion | Cynnwys y pum 'tref' ac mae'r amrywiaeth yn adlewyrchu'r boblogaeth gyffredinol<br>Angen ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r pryderon am welliannau i bentrefi ac anghenion gwledig o ran strategaethau / polisïau yn y dyfodol |
| Diwygiadau Arfaethedig | Adolygu'r cynllun strategol fel ei fod yn cyfeirio'n glir at anghenion pentrefi / ardaloedd gwledig a strategaethau / cynlluniau perthnasol<br>Ystyried diweddau / hyrwyddo'r cynllun datblygu gwledig yn well (sy'n cael ei arwain gan Menter Môn) |

## 4. Yr Angen am Strategaeth





| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r Sylwadau | Mwyafrif helaeth yn cytuno (tua 85%)<br>Roedd y sylwadau gan y rhai a oedd yn anghytuno'n gysylltiedig â'r canlynol: anghenion lleol, sgeptigaeth, gweld canol trefi fel llefydd anhyfyw, angen arweiniad cymunedol |
| Ymateb Swyddogion | Cefnogi'n gryf, yn cynnwys yr FSB |
| Diwygiadau Arfaethedig | Dim i'r cynllun strategol |

## 5. Nod Cyffredinol y Cynllun Strategol





| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r Sylwadau | Mwyafrif helaeth yn cytuno (tua 85%)<br>Roedd y sylwadau gan y rhai a oedd yn anghytuno'n gysylltiedig â'r canlynol: anghenion lleol, sgeptigaeth, gweld canol trefi fel llefydd anhyfyw, angen arweiniad cymunedol |
| Ymateb Swyddogion | Cefnogi'n gryf, yn cynnwys yr FSB |
| Diwygiadau Arfaethedig | Dim i'r cynllun strategol |

## 6. Amcanion Strategol ac Egwyddorion




| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r Sylwadau | Roedd y mwyafrif helaeth (dros 80%) yn cytuno gyda'r 5 amcan<br>Roedd y canran 'cytuno' uchaf yn gysylltiedig ag 'Ymyrraeth' a'r ganran 'cytuno'n gryf' uchaf yn gysylltiedig ag 'Adnoddau'<br>Nododd rai eu blaenoriaethau/egwyddorion unigol |
| Ymateb Swyddogion | Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno â'r pum blaenoriaeth |
| Diwygiadau Arfaethedig | Dim newid i'r cynllun strategol o ran y 5 amcan / blaenoriaeth<br>Mân newid i eiriad ambell is-amcan |

## 7. Cyfrifoldeb dros Ganol Trefi




| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r Sylwadau | Roedd dros 75% yn cytuno , ond roedd ambell un yn cwestiynu'r cyfeiriad at rôl ar gyfer llywodraethau nad ydynt yn lleol, a nifer yn pwysleisio bod angen i bobl leol arwain / benderfynu, a bod angen cyfeirio'n benodol at rôl gwirfoddolwyr, cymdeithasau, y sector addysg a fforymau lleol ac ati. |
| Ymateb Swyddogion | Cytuno bod angen newid geiriad y ddogfen ryw fymryn ynglŷn â'r mater hwn, a chyfleu'r cyfrifoldeb lleol dros y cynlluniau creu lleoedd arfaethedig. |
| Diwygiadau Arfaethedig | Newid geiriad y cynllun strategol i:-<br>a) Cyfeirio at rôl ar gyfer eraill yn cynnwys gwirfoddolwyr, cymdeithasau, fforymau lleol a'r sector addysg<br>b) Pwysleisio cyfranogiad a chyfrifoldeb busnesau a chymunedau lleol fel rhan o'r broses o greu cynllun ar gyfer eu tref hwy |

## 8. Enghreifftiau o ddulliau llwyddiannus tuag at wella canol trefi y dylai Ynys Môn ddysgu oddi wrthynt neu eu rhoi ar waith

| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r Sylwadau | Nodwyd nifer o enghreifftiau / syniadau o ganol trefi a mentrau llwyddiannus |
| Ymateb Swyddogion | Gwybodaeth ddefnyddiol ond mae angen adnoddau / amser i ymchwilio iddynt, yn berthnasol yn bennaf i'r cam llunio Cynlluniau Creu Lleoedd |
| Diwygiadau Arfaethedig | Dim newid i'r cynllun strategol<br>Ceisio defnyddio'r syniadau/awgrymiadau fel sail i gynlluniau yn y dyfodol / cynlluniau creu lleoedd |

## 9. Sylwadau eraill ar y strategaeth arfaethedig neu gynlluniau creu lleoedd

| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r Sylwadau | Nodwyd nifer o enghreifftiau / syniadau / anghenion<br>Rhai'n berthnasol i bobl tref, ond nifer yn berthnasol i drefi penodol |
| Ymateb Swyddogion | Gwybodaeth ddefnyddiol, yn berthnasol yn bennaf i'r cam llunio Cynlluniau Creu Lleoedd |
| Diwygiadau Arfaethedig | Dim newid i'r cynllun strategol<br>Ceisio defnyddio'r syniadau / awgrymiadau fel sail i gynlluniau / cynlluniau creu lleoedd yn y dyfodol |

### 10. Ymatebion na chafodd eu hanfon drwy'r Arolwg

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r Sylwadau | Cysylltu'r strategaeth â chynllun llesiant Gwynedd a Môn, Cynllun Corfforaethol a Datganiad Ardal CNC<br>Cyfeiriad at anghenion gwledig a phentrefi, dull integredig, lleihau'r ddibyniaeth ar geir, pwysigrwydd ymwelwyr, mannau parcio cartrefi modur dros nos - 'Aires'<br>Cais i gyfeirio'n fwy penodol at seilwaith gwyrdd a newid hinsawdd |
| Ymateb Swyddogion | Cytuno â'r cais |
| Diwygiadau Arfaethedig | Newid y cynllun strategol i gyfeirio'n fwy penodol at seilwaith gwyrdd a newid hinsawdd |

**Cyngor Tref Amlwch**

| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r Sylwadau | Mae CTA wedi anfon rhestr o anghenion / syniadau ar gyfer adfywio canol tref Amlwch yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus<br>Mae CTA hefyd wedi darparu nodiadau o gyfarfod a gynhaliwyd i ystyried y ddogfen a'r broses ar gyfer cynhyrchu Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer y dref |
| Ymateb Swyddogion | Bydd y dogfennau hyn yn ddefnyddiol iawn o ran bwrw 'mlaen â'r Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer canol tref Amlwch |
| Diwygiadau Arfaethedig | Dim newid i'r Cynllun Strategol<br>Defnyddio'r sylwadau / awgrymiadau hyn fel sail i'r cynllun creu lleoedd arfaethedig ar gyfer yr ardal |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# Strategaeth Gwella Canol Trefi 2023-28

*Fersiwn Terfynol ar gyfer ei Gymeradwyo – Medi 2023*



*Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg / This document is also available in English*



# Cyflwyniad

Mae trefi a chanol trefi Ynys Môn yn ganolbwynt i weithgareddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr ynys. Maent yn ardaloedd allweddol i'r economi leol, gyd thros 500 o fusnesau yng nghanol ein trefi yn cyflogi miloedd o bobl leol. Mae canol ein trefi yn bwysig mewn sawl ffordd arall hefyd - fel hybiau i wasanaethau a chyfleusterau, fel lleoedd i ymweld â nhw o ran hamdden, lletygarwch neu ddigwyddiadau, fel canolbwynt diwylliant a threftadaeth, ac fel lleoedd i fyw.

Mae canol trefi ledled Cymru a'r DU wedi gweld newidiadau sylweddol, yn cynnwys twf mewn manwerthu ar gyrion y dref, colli sawl gwasanaeth canol y dref traddodiadol megis banciau, a thwf sylweddol mewn siopa ar-lein a gynyddodd yn gyflym yn ystod y pandemig diweddar. Mae rhai canol trefi wedi llwyddo i addasu a pharhau'n brysur, ond mae eraill yn amlwg yn ei chael hi'n anodd, a rhaid iddynt ddatblygu rolau gwahanol os ydynt an ffynnu, ac mae angen syniadau a dulliau newydd o weithredu.

Mae'r cynllun strategol yma yn darparu fframwaith i gyflawni'r nod a osodwyd yn ein **Cynllun Cyngor, *'Gwella hyfywedd a bywiogrwydd canol ein trefi'.*** Mae hefyd yn cynorthwyo ein hamcan llesiant ***'bod pobl Ynys Môn a'i chymunedau'n mwynhau, amddiffyn a gwella eu hamgylchedd naturiol ac adeiledig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'.***

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar ganol yr aneddiadau sydd â chynghorau tref, sef Caergybi, Llangefni, Amlwch, Porthaethwy a Biwmares. Mae rhai o'n pentrefi hefyd yn bwysig i economi'r Ynys, gyda nifer ohonynt yn denu llawer o ymwelwyr, a gall fod angen ystyried gwelliannau a phrosiectau tebyg yno hefyd dan gynlluniau a rhaglenni perthnasol.

Bydd gwella canol ein trefi yn gofyn am gryn ymdrech gan y Cyngor Sir a rhanddeiliaid gwella canol tref eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector. Ni fydd hyn yn hawdd o ystyried yr heriau ariannol presennol, a'r rhai sylweddol posib a fydd yn ein gwynebu yn y dyfodol. Mae cydweithio effeithiol yn hanfodol felly i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd, a ffyrdd realistig o wella canol ein trefi'n gynyddol a'u rheoli'n effeithiol.

**Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd**

# Pam fod arnom angen Gynllun Strategol i Wella Canol Trefi?

1. **Nodi sut y bydd y Cyngor Sir a'i bartneriaid yn cydweithio i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu canol trefi'r Ynys, a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i'w gwella**
2. **Cyflawni nod y Cynllun Cyngor i wella hyfywedd a bywiogrwydd canol ein trefi.**
3. **Creu sail ar gyfer creu Cynlluniau Creu Lleoedd a bod yn gymwys i dderbyn cyllid allanol i'w cefnogi**
4. **Galluogi'r Cyngor i fodloni ei ddyletswyddau statudol dan y Ddeddf Llesiant**



Rhestrir polisiau strategol perthnasol isod – gweler yr Atodiad am fwy o wybodaeth

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.'

**RHAGLENNI ARIANNU ALLWEDDOL Ll C & Ll y DU**
Cronfa Ffyniant y DU a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin Rhaglen Drawsnewid Trefi i Gymru (2022-25)
Rhaglenni Ariannu Sector Cyhoeddus Eraill

**DEDDFWRIAETH, NODAU A PHOLISÏAU**
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2040 - Y Cynllun Cenedlaethol
Polisi Cynllunio Cymru ac Adeiladu Lleoedd Gwell

**CYNLLUNIAU AWDURDOD LLEOL ALLWEDDOL**
Cynllun Cyngor Môn 2023-2028
Cynllun Rheoli Cyrchfan
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn
Strategaethau a Pholisïau eraill gan y Cyngor Sir

**ADOLYGIADAU ALLANOL AC ARCHWILIADAU CENEDLAETHOL**
Adroddiad Archwilio Cymru ar Adfywio Canol Trefi Cymru
Adroddiad 'Small Towns – Big Issues'
Adroddiad Trefi Cymru gan Ffederasiwn y Busnesau Bach
Siarter Creu Lleoedd Cymru


# Cyd-destun Strategol

Mae'r Cylch Strategol hwn yn gosod Nod Strategol arfaethedig a pum Blaenoriaeth sy'n adlewyrchu argymhellion Archwilio Cymru i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hefyd yn dangos rhain yng nghyd-destun Polisiau Strategol ehangach ac egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Cymru.

### Creu Lleoedd, Cynllunio Lleoedd a Siapio Lleoedd

Darperir arweiniad ar Greu Lleoedd, Cynllunio Lleoedd a Chynllluniau Creu Lleoedd Canol Trefi gan Lywodraeth Cymru, Cymorth Cynllunio Cymru, a Chomisiwn Dylunio Cymru - gweler yr Atodiad.

Mae *'Siapio Lleoedd' yn ddull strategol allweddol gwahanol, sy'n cael ei ddarparu drwy bartneriaeth rhwng Medrwn Môn a'r Cyngor Sir drwy Gynghreiriau ardal cymunedol, ac sydd â'r weledigaeth ganlynol: 'Datblygu lleoedd, cysylltu'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol i greu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus, lle mae pobl yn gallu ffynnu.'*



# Nod ac Amcanion y Cynllun Strategol i Wella Canol Trefi

**NOD: Galluogi Canol ein Trefi i fod yn Lleoedd Llwyddiannus ac Atyniadol**

## AMCANION

1 - BWRIAD: Datblygu Gweledigaeth a Chynlluniau Clir i Wella a Rheoli Canol ein Trefi

2 - CYFRANOGIAD: Cynnwys a Chynorthwyo Cymunedau a Busnesau i ddarparu ar gyfer Canol Trefi

3 - GWYBODAETH: Mesur ac Adolygu Perfformiad Canol Trefi a Mentrau Cysylltiedig

4 - YMYRIAD: Cymryd Camau Angenrheidiol i Wella Canol ein Trefi

5 – ADNODDAU: Ystyried y Capasiti a'r Cyllid sydd ei angen i Wella a Rheoli Canol Trefi


*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

# Amcan 1 - Bwriad

| 1 | BWRIAD - Datblygu Gweledigaeth a Chynlluniau Clir i Wella a Rheoli Canol ein Trefi | | |
|---|---|---|---|
| | **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Sut ydym am wneud hyn?** |
| 1.1 | Cyflawni nodau'r Cynllun Cyngor perthnasol ac argymhellion Archwilio Cymru | **Datblygu Gweledigaeth a Strategaeth i Wella Canol ein Trefi** | Sefydlu Gweledigaeth a Strategaeth ar y cyd i Wella Canol ein Trefi wrth gwblhau a mabwysiadu'r ddogfen hon |
| 1.2 | | **Sicrhau Dull Integredig ar Draws y Cyngor i Ganol Trefi** | Datblygu a defnyddio dull integredig i wella a rheoli canol trefi a defnyddio'r egwyddor 'canol tref yn gyntaf' wrth gydweithio ar draws gwasanaethau. |
| 1.3 | Bodloni gofynion cynlluniau Llywodraeth Cymru er mwyn derbyn arian adfywio | **Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoedd** | Ceisio a derbyn sylwadau ac awgrymiadau'r cyhoedd a rhanddeiliaid am y strategaeth ac i wella canol trefi |
| 1.4 | | **Creu Cynlluniau Gwella Lleoedd** | Gweithio gyda chynghorau tref / cymuned a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd tref / canol tref unigol |

*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

# Amcan 2 – Cyfranogiad





| 2 | CYFRANOGIAD - Cynnwys a Chynorthwyo Cymunedau a Busnesau i ddarparu ar gyfer Canol Trefi | | |
|---|---|---|---|
| | **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Sut ydym am wneud hyn?** |
| 2.1 | Busnesau yw deiliaid allweddol canol ein trefi | **Annog a Chynnwys Busnesau** | Annog a chynorthwyo'r sector preifat i fuddsoddi a gweithredu busnesau llwyddiannus yng nghanol trefi ac i gyfrannu. |
| 2.2 | Nhw yw'r cyrff cyhoeddus etholedig lleol | **Annog cynghorau tref i ddarparu'n lleol** | Annog a chynorthwyo cynghorau tref / cymuned i ddefnyddio eu hamryw o bwerau i wella, cynorthwyo a rheoli canol eu trefi |
| 2.3 | Mae yna nifer o gyrff pwysig eraill | **Annog Sefydliadau Eraill i ddarparu** | Annog a chynorthwyo sefydliadau eraill i gynnal gweithgareddau a phrosiectau sy'n gwella a chynorthwyo canol trefi |
| 2.4 | Mae cyfranogiad yn un o ofynion allweddol y Ddeddf Llesiant | **Cynnwys Rhanddeiliaid allweddol** | Cynnwys rhanddeiliaid, busnesau a chymunedau allweddol wrth gynllunio a rheoli canol trefi |


*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

# Amcan 3 - Gwybodaeth

| 3 | GWYBODAETH – Mesur ac Adolygu Perfformiad Canol Trefi a Mentrau Cysylltiedig | | |
|---|---|---|---|
| | **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Sut ydym am wneud hyn?** |
| 3.1 | I foderneiddio a bod yn effeithiol | **Creu 'Trefi Clyfar'** | Cynorthwyo i greu systemau digidol o 'Drefi Clyfar' a gwneud y gorau o'u defnydd a'u buddion, yn cynnwys mesur nifer yr ymwelwyr a phroffil cwsmer / ymwelydd, a llwyfannau digidol eraill |
| 3.2 | Adnabod anghenion a newid ffisegol canol trefi | **Arolwg Canol Trefi** | Cynnal arolygon canol trefi a dadansoddi / adrodd ar y rhain, yn cynnwys deiliadaeth eiddo ac eiddo blêr |
| 3.3 | Sicrhau effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a gwerth am arian | **Gwerthuso a Gwella** | Adolygu effaith ac effeithlonrwydd mentrau canol tref, defnyddio gwersi a ddysgwyd i gynlluniau'r dyfodol, ac amlygu/ rhannu arfer dda |
| 3.4 | Mae hwn yn un o ofynion y Ddeddf Llesiant | **Hysbysu a chyfathrebu â Rhanddeiliaid** | Hysbysu a chyfathrebu â Randdeiliaid allweddol ynghylch pwysigrwydd cynlluniau canol trefi, problemau, digwyddiadau a chyfleoedd |

*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

# Amcan 4 - Ymyriad



| 4 | YMYRIAD- Cymryd Camau Angenrheidiol i Wella Canol ein Trefi | | |
|---|---|---|---|
| | **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Sut ydym am wneud hyn?** |
| 4.1 | Mynd i'r afael â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a phryderon rhanddeiliaid lleol | **Mynd i'r Afael ag Adeiladau sy'n achosi Problem** | Annog perchnogion, neu orfodi os nad yw hynny'n gweithio, i gyflawni a chynorthwyo prosiectau cytunedig, a monitro / diweddaru'r Cynllun Gweithredu Gorfodi Eiddo Canol Tref, yn amodol ar adnoddau a phwerau. |
| 4.2 | | **Lleihau Eiddo Masnachol Gwag** | Annog / cynorthwyo i ailanheddu unedau masnach gwag, neu eu haddasu'n gartrefi neu at ddefnydd priodol arall, yn amodol ar adnoddau a phwerau |
| 4.3 | Mynd i'r afael ag anghenion gwella 'amgylchedd adeiledig' | **Annog gweddnewid a gwella adeiladau** | Annog a darparu arweiniad i berchnogion, a darparu benthyciadau/ grantiau gwella eiddo canol tref wedi eu targedu lle fo angen, yn amodol ar adnoddau a phwerau |
| 4.4 | Darparu blaenoriaethau'r Cynllun Cyngor | **Darparu neu Gynorthwyo Rhaglenni neu Brosiectau Pwysig** | Darparu neu gynorthwyo rhaglenni a phrosiectau canol tref cytunedig sy'n adlewyrchu'r strategaeth hon a Chynlluniau Gwneud Lleoedd cysylltiedig, yn amodol ar adnoddau |
| 4.5 | | **Annog Prosiectau 'Gwyrdd' ac 'Isadeiledd Gwyrdd'** | Annog, cynorthwyo neu ddarparu prosiectau Seilwaith Gwyrdd, Rheoli Newid Hinsawdd a Charbon Sero yng nghanol trefi, yn amodol ar adnoddau |

*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

# Amcan 5 - Adnoddau



| 5 | ADNODDAU – Ystyried y Capasiti a'r Cyllid sydd ei angen i Wella Canol Trefi | | |
|---|---|---|---|
| | **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Sut ydym am wneud hyn?** |
| 5.1 | Mae'r angen am fuddsoddiad a gweithgarwch canol tref yn mynd yn bell tu hwnt i lefel adnoddau'r Cyngor Sir ei hun | **Annog a galluogi buddsoddi preifat a masnachol** | Uchafu buddsoddiad a gweithgaredd masnachol a sector preifat yng nghanol ein trefi, gan annog defnyddiau ariannol hyfyw newydd addas |
| 5.2 | | **Gwneud y gorau o arian grant / cyhoeddus** | Annog neu wneud ceisiadau perthnasol am arian grant Llywodraeth Cymru, y DU, Loteri neu rai eraill perthnasol, yn cynnwys ymddiriedolaethau; hysbysu a dylanwadu ar bolisïau llywodraeth / cyllidwr i adlewyrchu anghenion trefi Ynys Môn |
| 5.3 | | **Annog a helpu trefi a chymunedau i helpu eu hunain** | Annog a galluogi Cynghorau Tref a chyrff sector cyhoeddus a thrydydd sector eraill i gyflawni, cynorthwyo a darparu gwasanaethau yng nghanol trefi |
| 5.4 | Mynd i'r afael â phryderon Archwilio Cymru ynghylch capasiti staff mewn Awdurdodau Lleol | **Ceisio cyflogi staff digonol i gynorthwyo canol trefi** | Ceisio sicrhau bod gan y Cyngor Sir nifer digonol o staff i ddarparu'r strategaeth a fframwaith creu lleoedd a gwaith cysylltiedig |

*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r Amcanion hyn*

# Ymgynghori, Cymeradwyo, Darparu a Llywodraethiant


Bu fersiwn drafft o'r ddogfen yn destun ymgynghori cyhoeddus yn 2023 a ddenodd 84 o ymatebion. Roedd mwyafrif y rhain yn gefnogol i'r angen am strategaeth, ei nod a'i amcanion. Mae diwygiadau wedi eu gwneud i adlewyrchu'r sylwadau a dderbynwyd, a bydd y llawer o sylwadau penodol / lleol yn cael eu defnyddio fel sail i'r broses o baratoi Cynlluniau Lle i drefi unigol.

Mae gan y Cynghorau Tref a sawl sefydliad arall (ee grwpiau busnes, gwirfoddolwyr, cymdeithasau, sector addysg, fforymau lleol) rôl allweddol i'w chwarae yn y broses o wella a rheoli canol ein trefi, a bydd angen cydweithio effeithiol.

Bydd angen sicrhau integreiddio a chydlynu effeithiol o fewn y Cyngor Sir, a bydd angen cynnal strwythurau a threfniadau adrodd perthnasol. Bydd y cynllun strategol angen adolygiadau cynnydd rheolaidd, gan adrodd i grwpiau swyddogion a phrosesau craffu perthnasol y Cyngor Sir.

Bydd rolau a chyfrifoldebau perthnasol y Cyngor Sir, y Cynghorau Tref, a'r partneriaid pwysig eraill angen bod yn eglur o fewn y cynlluniau trefi unigol. Mae'n bwysig bod y gymuned a busnesau lleol yn cymeryd rhan ac yn perchnogi'r broses o baratoi cynllun creu lle i'w tref nhw.

Rhagwelir y bydd Cynlluniau Lleoedd canol trefi unigol yn cael eu paratoi gan bartneriaethau lleol yn cynnwys y Cynghorau Tref a Sir ac eraill, gyda threfniadau llywodraethu lleol, a monitro strategol ar lefel sirol.





*YMWADIAD: Fe all cyfyngiadau cyllidebol gael effaith ar allu'r Cyngor Sir i ddarparu'r uchod*

Tudalen 210

# ATODIAD – Map yn dangos Trefi a Chanolfannau Pwysig Eraill

**Canol Tref CAERGYBI**
**Dynodiadau Polisi:**Ardal Twf Rhanbarthol, Canolfan Gwasanaethau Trefol, Prif Ganolfan Siopa, Ganolfan Gwaith, rhaglen LUF, Ardaloedd Cadwraeth, yn agos at safleoedd cais EZ a Phorthladd Rhydd
**Poblogaeth Breswyl BUA:11,981**
**Amddifadedd**:**UCHEL IAWN** (7/8 yn yr 20% MALlC uchaf)
**Adeiladau Masnachol Canol y Dref**: 170 mewn defnydd, 54 yn wag (24%), 13 adeilad bler iawn
**Gofod Llawr Manwerthu**: 51,440msg (20,749msg mewn archfarchnadoedd)
**Awdurdodau Lleol:** Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref Caergybi

**Canol Tref LLANGEFNI**
**Dynodiadau Polisi:**Canolfan Gwasanaethau Trefol, Prif Ganolfan Siopa, Canolfan Gwaith, Ardal Gadwraeth, yn agos at EZ
**Poblogaeth Breswyl BUA:5,226**
**Amddifadedd**: **CANOLIG** (1/3 yn yr 20% MALlC uchaf)
**Adeiladau Masnachol Canol y Dref**: 122 mewn defnydd, 19 yn wag (13%), 3 adeilad bler iawn
**Gofod Llawr Manwerthu** : 18,950msg (8,245msg mewn archfarchnadoedd)
**Awdurdodau Lleol**: Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref Llangefni




**AGORIAD**
● Trefi / Canol Trefi
■ Canolfannau Pwysig Eraill

**AMLWCH Canol y Dref**
**Dynodiadau Polisi:**Canolfan Gwasanaethau Trefol, Canolfan Gwaith, Ardaloedd Cadwraeth, Prif anheddiad Cynllun Gogledd Ynys Môn, yn agos at Ardal Fenter
**Poblogaeth Breswyl BUA:3,265**
**Amddifadedd**:**CANOLIG** (1/2 yn y 30% MALlC uchaf)
**Adeiladau Masnachol Canol y Dref**: 73 mewn defnydd, 18 yn wag (20%), 6 adeilad bler iawn
**Gofodllawr Manwerthu**: 4,900msg (1,084msg mewn archfarchnadoedd)
**Awdurdodau Lleol**: Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref Amlwch

**Canol Tref BIWMARES**
**Dynodiadau Polisi:**Canolfan Gwasanaethau Lleol, Safle Treftadaeth y Byd, Ardal Gadwraeth, Ardal Rheoli Cynllunio Erthygl 4, o fewn AHNE
**Poblogaeth Breswyl :1,804**
**Amddifadedd**: **ISEL** (0/1 yn y 50% uchaf MALlC) ond rhai cymdogaethau efo cyfartaledd incwm isel iawn
**Adeiladau Masnachol Canol y Dref**: 95 mewn defnydd, 4 yn wag (4%), 3 adeilad bler iawn
**Gofod Llawr Manwerthu**: 5,280msg (0 msg mewn archfarchnadoedd)
**Awdurdodau Lleol**: Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref Biwmares

**Canol Tref PORTHAETHWY**
**Dynodiadau Polisi:**Canolfan Gwasanaethau Lleol, Ardal Gadwraeth
**Poblogaeth Breswyl BUA**:**3,376**
**Amddifadedd**:**ISEL**(0/2 yn 50% uchaf MALlC) ond rhai cymdogaethaU efo cyfartaledd incwm isel iawn
**Adeiladau Masnachol Canol y Dref**: 91 mewn defnydd, 8 yn wag (8%), 2 adeilad bler iawn
**Gofod Llawr Manwerthu**: 6,890msg (1,938msg mewn archfarchnadoedd)
**Awdurdodau Lleol**: Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref Porthaethwy

# ATODIAD – Dogfennau y cyfeirir atynt yn y Strategaeth

**Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig** : nod 11 ar gyfer 'Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy' yw gwneud dinasoedd ac aneddiadau dynol yn gynhwysol, diogel, gwydn a chynaliadwy.

**Ffyniant y Deyrnas Unedig** : Mae strategaeth Ffyniant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfeirio'n benodol at fuddsoddi mewn '...adfywio canol trefi a'r stryd fawr...'.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** : mae gofyn i awdurdodau lleol fynd i'r afael â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd, a gosodir saith nod llesiant.

**Cymru'r Dyfodol 2040 – Y Cynllun Cenedlaethol** : yn gosod egwyddor 'Canol Trefi yn Gyntaf' y dylai 'cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus arwyddocaol newydd gael eu lleoli o fewn canol trefi a dinasoedd', ac mae'n dynodi Caergybi fel Ardal Dwf Ranbarthol.

**Polisi Cynllunio Cymru (PPW11)** : mae'n gosod polisïau cynllunio defnydd tir cenedlaethol, wedi'u hategu gan nodiadau cyngor technegol, gyda TAN4 ar gyfer datblygiad manwerthu a masnachol.

**Adeiladu Lleoedd Gwell (2020)** : mae'n gosod ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y system gynllunio i gyflawni lleoedd gwell, creu lleoedd, deilliannau o ansawdd a dyluniad da. Mae'r ddogfen hon yn nodi nifer o Ddeilliannau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol.

**Trawsnewid Trefi (2022-25):** rhaglen Llywodraeth Cymru i wella canol trefi, yn cynnwys grantiau a benthyciadau, gorfodaeth, ymchwil a data, polisïau, a mentrau eraill. Mae peth o'r arian hwn yn amodol ar gael Cynlluniau Creu lleoedd ar waith ar gyfer aneddiadau perthnasol.

**Small Towns – Big Issues (2021)** – sy'n pwysleisio rhannu gweledigaeth, cynlluniau buddsoddi sy'n alinio polisi ag anghenion y farchnad, rhanddeiliaid cymwys, a thimau adfywio penderfynol.

**Gweledigaeth ar gyfer Trefi Cymru** – adroddiad a baratowyd ar gyfer Ffederasiwn Busnesau Bach yn gosod yr heriau mwyaf a'r cyfleoedd realistig i ganol trefi

**Siarter Creu Lleoedd Cymru** : mae'n amlinellu'r chwe egwyddor ar gyfer creu a chynnal lleoedd

**Adfywio Canol Trefi yng Nghymru (2021)** : adolygiad o anghenion canol trefi gan Archwilio Cymru gydag argymhellion i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn cynnwys adnodd hunanasesu sy'n adnabod 38 o gamau / gweithgareddau maent yn eu hystyried fel rhai y dylai siroedd eu cynnal, wedi eu categoreiddio dan y 4 maes canlynol : Bwriad, Cyfranogiad, Hysbysu, Ymyriad.

**Cynllun Adfywio Gogledd Cymru (2019)** : fframwaith a baratowyd ar y cyd rhwng chwe awdurdod lleol.

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn** : mae'n nodi hierarchaeth aneddiad a manwerthu clir, a'r angen i hyrwyddo hyfywedd a bywiogrwydd canol trefi.

**Cynllun Cyngor Ynys Môn 2023-2028** : mae'n cynnwys cyfeiriad penodol at 'Wella hyfywedd a bywiogrwydd canol trefi' Ynys Môn. Nod y cynllun hefyd yw gweld 'pobl Ynys Môn a'i chymunedau'n mwynhau, gwarchod a gwella eu hamgylchedd naturiol ac adeiledig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol' a chael 'cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel.'

# ATODIAD – Canllaw Llywodraeth Cymru ar Baratoi Cynlluniau Lleoedd ar gyfer Canol Trefi

Rhagofyniad o gyllid gweithgaredd creu lleoedd drwy Drawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yw bod cynlluniau lleoedd priodol ar waith neu'n cael eu datblygu. Dylai'r cynlluniau hyn gael eu dylunio yn unol â'r 6 egwyddor o'r siarter Creu Lleoedd: Comisiwn Dylunio Cymru https://dcfw.org/placemaking/placemaking-charter/ : Pobl a'r Gymuned, Symud, Y Parth Cyhoeddus, Lleoliad, Defnyddiau Cymysg, Hunaniaeth. Dylid trafod eglurdeb bellach gofynion y Cynllun Creu Lleoedd gyda'ch Rheolwr Adfywio priodol

Dylai cynlluniau lleoedd ystyried agwedd holistig o ofynion trefi a dinasoedd ac felly dylent gynnwys yr holl ymyriadau ariannol presennol ac arfaethedig gan Awdurdodau lleol, meysydd portffolio gwahanol Llywodraeth Cymru a datblygiadau allweddol sector preifat a chyhoeddus. Ni ddylai cynlluniau creu lleoedd ganolbwyntio ar arian Adfywio Llywodraeth Cymru'n unig a dylent gynnwys pob ffynhonnell ariannu megis tai, twristiaeth ac iechyd fel enghreifftiau i ddangos cyfanrwydd buddsoddiad mewn aneddiadau. Dylai Cynlluniau lleoedd gynnwys o leiaf:-

- Map gyda therfyn coch yn nodi ardal yr annedd. Bydd angen hyn ar gyfer pob annedd. Dylai ardal yr ymyriad gael ei chyfyngu i ganol y dref greiddiol gyda manylion digonol yn cynnwys strydoedd ac adeiladau/nodweddion tirnod. Ail fap yn dangos yr ardal ar ymylon y dref, yn nodi'r gweithgaredd datblygu a chyfleoedd ehangach.
- Manylion y grwpiau, megis BID a/neu Gynghorau Cymuned a thref sy'n gweithredu yn yr ardal ar hyn o bryd. Cadwch gofnod o'r ymgynghoriad gyda'r grwpiau hyn a grwpiau eraill megis aelodau lleol.
- Tystiolaeth o ymgysylltiad ac ymgynghoriad â grwpiau defnyddwyr canol tref a nodwyd megis pobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau o leiafrifoedd ethnig neu grwpiau anabledd;
- Aliniad gyda chynlluniau gwella economi ehangach, strategaethau rhanbarthol a chynlluniau buddsoddi Llywodraeth Cymru eraill megis cludiant a theithio actif;
- Nodi'r problemau sydd angen mynd i'r afael â nhw sy'n cyfyngu ar ganol trefi rhag bod mor llwyddiannus â phosibl a/neu gyfleoedd i'w harchwilio megis seilwaith gwyrdd, tai, iechyd, y parth cyhoeddus, siopau gwag, a gwelliannau masnachol. Bydd deilliant y gwaith hwn yn cael ei rannu ar draws meysydd portffolio Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol megis Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Datblygu Strategaeth Ymgysylltu gymunedol fel rhan o'r cynllun;
- Ystyriaeth o'r bygythiadau ehangach a ddaw o ganlyniad i siopa ar gyrion y dref, newid arferion prynwyr, TAN15, ffosffadau mewn dŵr yn cael effaith ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) ac ystyriaethau Newid Hinsawdd ehangach.
- Rhannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer datblygu canol y dref drwy ystyried y problemau a nodwyd ac adborth o'r broses ymgynghori; gyda Chynllun Gweithredu cytunedig.
- Bydd cynlluniau Awdurdodau Lleol yn gosod sylfaen ar gyfer canol y dref a ddiffiniwyd gan ddefnyddio technolegau digidol sydd ar gael er mwyn sefydlu metrigau isafswm nifer yr ymwelwyr a'u hamser aros ar ddechrau'r cyfnod ariannu tair blynedd;
- Adolygu'n rheolaidd a gwerthuso'r gallu i ddarparu a'r gweithredoedd a nodwyd yn y cynllun gweithredu gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid, drwy ymgynghoriad parhaus.
- Dysgu ac adborth rhanbarthol a Chymru gyfan parhaus.

Bydd gwerthuso'n elfen allweddol o ddarparu'r Trawsnewid Trefi. Er mwyn arddangos effaith ariannu Creu Lleoedd bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol gynhyrchu adroddiad diweddaru blynyddol (yn cynnwys astudiaethau achos prosiect) i ddangos y prosiectau a ddarparwyd a'u heffaith ar ganol trefi a flaenoriaethwyd. Ar ddiwedd y cylch ariannu tair blynedd bydd disgwyl i'r holl Awdurdodau Lleol sy'n derbyn arian gomisiynu gwerthusiad annibynnol o ddarparu Trawsnewid Trefi sy'n cwmpasu'r holl brosiectau Strategol a Chreu Lleoedd. Lle mae Trawsnewid Trefi wedi cael ei osod i grŵp neu glwstwr o drefi llai gellir comisiynu un adolygiad annibynnol i gwmpasu nifer o ganol tre

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol a fydd yn bwynt canolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darpau fframwaih i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid a sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.'

## Ein chwe amcan strategol

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

[Cynllun y Cyngor 2023-2028]

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

Tudalen 215

Cynllun y Cyngor 2023-2028

## Gwerthoedd

### Parch
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Adroddiad Pwyllgor Gwaith: GPG tir Llangefni ar ran Leprino Food UK***
***Executive Report: Llangefni land CPO on behalf of Leprino Food UK***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

**Paragraff(au) 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972**
Paragraph(s) **14**, of Schedule 12A Local Government Act 1972

Y PRAWF / THE TEST

| Mae yna fudd i'r cyhoedd o ddatgelu sef:- | Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw: |
|---|---|
| **Bydd gan y cyhoedd ddiddordeb mewn pam mae'r Cyngor yn defnyddio ei bwerau GPG ar ran trydydd parti:**<br>• **Adolygu atebolrwydd a thryloywder**<br>• **Herio penderfyniadau a wneir**<br>• **Deall a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch dyrannu arian y Cyngor**<br><br>There is a public interest in disclosure as:-<br><br>The public will be interested in why the Council is using its CPO powers on behalf of a third party:<br>• Review accountability and transparency<br>• Challenge decisions made<br>• Understand and participate in decisions regarding the allocation of Council funds | **Gallai datgelu gael effaith ar fuddiannau masnachol partner datblygu neu'r sawl sy'n prynu'r eiddo, gan gynnwys y Cyngor.**<br><br>**Gallai datgelu gael effaith andwyol ar drafodaethau'r Cyngor.**<br><br>The public interest in not disclosing is:-<br><br>Disclosure could impact on the commercial interests of a development partner or purchaser of any assets, including the Council.<br><br>Disclosure may prejudice the Council's negotiation position. |

Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth

The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank